


# Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon y Swyddfa Gyfathrebiadau

Ar gyfer y cyfnod 1 Ebrill 2012 i 31 Mawrth 2013

# Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon y Swyddfa Gyfathrebiadau

## Ar gyfer y cyfnod 1 Ebrill 2012 i 31 Mawrth 2013

**© Hawlfraint Ofcom (2013)**

Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon (ac eithrio, os ydynt yn bresennol, yr Arfbais Frenhinol a logos adrannau neu asiantaethau eraill) yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn unrhyw gyd-destun camarweiniol.

Rhaid cydnabod mai Ofcom sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen. Os nodwyd bod deunydd yn berchen i drydydd parti, rhaid ceisio caniatâd gan y sawl sy'n berchen ar yr hawlfraint honno.

Dylid anfon unrhyw ymholiadau am y cyhoeddiad hwn atom yn ofcomcontactcentre@ofcom.org.uk

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael ar ein gwefan yn www.ofcom.org.uk

Argraffwyd ar bapur sy'n cynnwys o leiaf 75% o ffibr a ailgylchwyd

# Cynnwys


**Adran A**

2 Pwy ydym ni a beth rydym yn ei wneud

3 Neges y Cadeirydd

4 Adroddiad y Prif Weithredwr

**Adran B**

8 Golwg gyffredinol ar y sector cyfathrebu

11 Y cynnydd gyda chyflawni blaenoriaethau ein cynllun blynyddol

29 Ein cyfrifoldebau parhaus a'r adnoddau rydym yn eu rheoli

36 Sut rydym yn gweithio a gyda phwy rydym yn gweithio

41 Ein gweithwyr

42 Cyfrifoldeb corfforaethol

43 Adroddiad cynaliadwyedd

**Adran C**

45 Datganiad llywodraethu

46 Bwrdd Ofcom

52 Y fframwaith rheoli

58 Datganiad cyfrifoldebau

59 Adroddiad taliadau

**Adran Ch**

63 Adolygiad gweithredol ac ariannol

69 Tystysgrif ac adroddiad y Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol i Ddau Dŷ'r Senedd

70 Datganiad incwm a gwariant

71 Datganiad am y sefyllfa ariannol

72 Datganiad am newidiadau mewn ecwiti

73 Datganiad am y llif arian parod

74 Nodiadau i'r cyfrifon

**Atodiad**

100 Byrddau a Phwyllgorau Ofcom

103 Datganiadau rheoleiddio

108 Rhaglen ymchwiliadau

109 Safonau darlledu

111 Peirianneg sbectrwm a gorfodi

112 Trwyddedu sbectrwm

115 Adroddiad cynaliadwyedd

117 Geirfa

# Pwy ydym ni a beth rydym yn ei wneud

## Y Swyddfa Gyfathrebiadau (Ofcom) yw rheoleiddiwr cyfathrebiadau annibynnol y DU.

Rydym yn rheoleiddio'r sectorau teledu a radio, telegyfathrebiadau llinellau sefydlog, ffonau symudol, gwasanaethau post a'r tonnau awyr y mae dyfeisiau di-wifr yn eu defnyddio.

Rydym yn ceisio gwneud yn siŵr bod pobl yn y DU yn cael y gorau o'u gwasanaethau cyfathrebiadau a'u bod yn cael eu hamddiffyn rhag twyll ac arferion cyfrwys, ond gan sicrhau bod cystadleuaeth yn gallu ffynnu.

Sefydlwyd Ofcom gan Ddeddf Swyddfa Cyfathrebiadau 2002, ac mae'n gweithredu o dan nifer o Ddeddfau Seneddol a deddfwriaeth arall. Mae'r rhain yn cynnwys Deddf Cyfathrebiadau 2003, Deddf Telegraffiaeth Ddi-wifr 2006, Deddfau Darlledu 1990 a 1996, Deddf yr Economi Ddigidol 2010 a Deddf Gwasanaethau Post 2011.

Mae Deddf Cyfathrebiadau 2003 yn datgan mai prif ddyletswydd Ofcom yw hybu buddiannau dinasyddion mewn perthynas â materion sy'n ymwneud â chyfathrebu a hybu buddiannau defnyddwyr mewn marchnadoedd perthnasol, pan fo'n briodol drwy hybu cystadleuaeth. Dyma sail llawer o'n gwaith.

Rydym yn pennu rhai o'r agweddau mwy technegol ar reoleiddio, a rhoi cyngor ar y rheini, yn ogystal â gweithredu a gorfodi cyfraith cyfathrebu, cyfraith cystadleuaeth a chyfraith diogelu defnyddwyr.

Mae Ofcom yn cael ei ariannu drwy'r ffioedd a ddaw o'r diwydiant ar gyfer rheoleiddio rhwydweithiau cyfathrebu a darlledu, a chymorth grant a ddaw gan Lywodraeth y DU ar gyfer rheoleiddio cystadleuaeth gydredol a rheoli'r sbectrwm radio. Rydym yn gweithio'n annibynnol, heb ddylanwad gwleidyddol.

### Beth rydym yn ei wneud

Ein prif ddyletswyddau cyfreithiol yw sicrhau:

- bod gan y DU ystod eang o wasanaethau cyfathrebiadau electronig, gan gynnwys gwasanaethau cyflymder uchel megis band eang;
- bod ystod eang o raglenni radio a theledu o ansawdd uchel yn cael eu darparu gan ystod o sefydliadau gwahanol, gan apelio at amrywiaeth o ddiddordebau a chwaethau;
- bod pobl sy'n gwylio'r teledu ac yn gwrando ar y radio yn cael eu hamddiffyn rhag deunyddiau sy'n achosi niwed neu dramgwydd. Rydym yn delio â chwynion am ddarllediadau radio a theledu ac yn asesu pob cwyn yn ôl y Cod Darlledu neu amodau trwydded neu godau perthnasol eraill;
- bod pobl yn cael eu hamddiffyn rhag cael eu trin yn annheg mewn rhaglenni teledu a radio, a rhag i neb darfu'n ddireswm ar eu preifatrwydd;
- bod y sbectrwm radio (y tonnau awyr sy'n cael eu defnyddio gan bawb, o gwmnïau tacsis a pherchnogion cychod, i gwmnïau ffonau symudol a darlledwyr) yn cael ei ddefnyddio yn y ffordd fwyaf effeithiol; a
- bod y gwasanaeth cyffredinol yn y gwasanaethau post yn cael ei ddarparu yn y DU.

### Beth nad ydym yn ei wneud

Mae gan Ofcom bwerau i orfodi cyfraith defnyddwyr ar ran defnyddwyr yn gyffredinol. Nid oes gan Ofcom bŵer i ddatrys cwynion defnyddwyr unigol am wasanaethau cyfathrebu, yn wahanol i deledu a radio. Ond rydym yn cynghori unigolion sy'n cwyno ac yn eu cyfeirio at y ddau gynllun Dulliau Amgen o Ddatrys Anghydfodau (ADR) sydd wedi cael eu cymeradwyo gennym.

# Neges y Cadeirydd

## Colette Bowe

Mae Ofcom bellach yn ei ddegfed flwyddyn ac mae'r 12 mis diwethaf wedi bod yn rhai o'r misoedd mwyaf diddorol hyd yma yn ein bodolaeth. Roedd gwaith Ofcom yn y penawdau yn dilyn cwblhau'r arwerthiant 4G.

Mewn cyferbyniad, roedd y llwyddiant a gawsom yn ein rôl yn sicrhau bod y llu enfawr o ddyfeisiau cyfathrebu yr oedd eu hangen i lwyfannu Gemau Olympaidd a Gemau Paralympaidd 2012 Llundain yn gweithio'n ddidrafferth, yn digwydd y tu ôl i'r llenni. Ond dim ond rhan o stori Ofcom yn ystod y flwyddyn ddiwethaf yw'r ddwy stori fawr uchod. Yn y canol gwnaethpwyd llawer iawn o waith manwl a oedd yn aml yn hynod dechnegol i sicrhau bod marchnad gyfathrebiadau'r DU yn aros ymysg y rhai mwyaf cystadleuol yn y byd ac yn parhau i gyflawni ar gyfer defnyddwyr a dinasyddion.

Rwy'n falch o'r ffaith imi fod yn gysylltiedig ag Ofcom o'r dechrau un, yn gyntaf fel Cadeirydd y Panel Defnyddwyr Cyfathrebiadau, ac wedyn fel aelod o Fwrdd Ofcom, ac fel ei Gadeirydd am y pedair blynedd ddiwethaf. Yn ystod yr amser hwnnw, mae disgwyliadau a gofynion defnyddwyr yng nghyswllt eu gwasanaethau cyfathrebu wedi dwysau ac wedi mynd yn fwy amrywiol, ochr yn ochr ag ymddangosiad technolegau a modelau busnes newydd. Mae Ofcom wedi parhau i ymateb yn effeithiol i'r amgylchedd hwn sy'n newid mor sydyn.

Mae'r boddhad ymysg defnyddwyr gwasanaethau cyfathrebu'n parhau'n uchel. Mae cystadleuaeth rhwng darparwyr yn dal yn gryf. Ar y cyfan, mae diogelwch defnyddwyr yn effeithiol ac yn gymesur. Wrth imi baratoi i roi'r awenau i Gadeirydd newydd yn 2014, mae'r darlun cyffredinol hwn yn rhoi boddhad imi. Ond rwy'n ymwybodol iawn hefyd bod llawer o heriau i'w hwynebu o hyd.

Un o'r heriau allweddol hyn yw'r rôl sydd gan wasanaethau cyfathrebu'r DU yn cefnogi twf economaidd ac arloesedd. Mae camau gweithredu Ofcom, o wahanu swyddogaethau BT i'r gwaith sydd bellach ar y gweill i roi technoleg "bylchau gwyn" sy'n defnyddio sbectrwm yn effeithlon ar waith, yn aml wedi arwain y ffordd yn Ewrop a thu hwnt. Yn bwysicach na dim, maent wedi helpu i sbarduno pwysau cystadleuol sy'n gwasgu ar brisiau ar gyfer pob defnyddiwr, domestig a busnes fel ei gilydd. Wrth i'r trawsnewid i ddata cyflym iawn barhau, gyda 4G eisoes ar gael a'r nifer sydd â ffibr llinell sefydlog yn cynyddu'n arw, bydd cyfran y gweithgarwch economaidd sy'n dibynnu ar wasanaethau cyfathrebu'n parhau i dyfu. Rhaid inni sicrhau bod ymyriadau rheoleiddio Ofcom yn parhau i gefnogi'r tueddiad hwn.

Wrth gefnogi twf, fel yn ein gweithgareddau eraill, mae ein statws fel rheoleiddiwr statudol annibynnol yn hanfodol, a rhywbeth sy'n cael ei gymryd yn wirioneddol o ddifrif gen i a'r Bwrdd. Fel awdurdod cystadleuaeth, mae'r angen inni wneud penderfyniadau heb y posibilrwydd o wynebu ymyrraeth wleidyddol yn cael ei ddeall yn iawn, fel y mae'r rheidrwydd i gael statws o'r fath wrth ystyried budd y cyhoedd pan fydd cwmnïau cyfryngau'n uno. Ond hyd yn oed pan ein dyletswydd yw darparu cyngor neu argymhellion i'r Senedd neu i'r llywodraeth, mae'n hanfodol ein bod yn gwneud hynny o safbwynt yr hyn sydd o fudd i ddinasyddion a defnyddwyr. Nid yw bod yn annibynnol yn golygu nad oes yn rhaid inni fod yn atebol – yn wir, rydym yn cymryd ein hatebolrwydd ffurfiol i'r Senedd o ddifrif, ac yn y flwyddyn sydd wedi mynd heibio rydym wedi wynebu proses graffu mewn meysydd megis cydgyfeiriant, prisiau stampiau, band eang a lluosogrwydd yn y cyfryngau. Mae yn golygu cael llais diduedd a phendant o fewn y dyletswyddau hynny a bennir ar ein cyfer gan y Senedd.

Fel bob amser, wrth inni gyflawni'r dyletswyddau hynny, cawn gymorth mawr gan ein pwyllgorau ymgynghori ar gyfer Cymru, Lloegr, Gogledd Iwerddon a'r Alban a phwyllgor ar gyfer pobl Hŷn ac Anabl, yn ogystal â'r Panel Defnyddwyr Cyfathrebiadau a'r Bwrdd Cynnwys. Rydym wedi gweld nifer o newidiadau y llynedd yn aelodaeth y cyrff hyn ac felly, hoffwn ddiolch yn fawr i'r rheini sydd wedi ymadael, a chroesawu'r aelodau newydd hynny.



**Colette Bowe**
Cadeirydd

# Adroddiad y Prif Weithredwr

## Ed Richards

Am 2.27pm ddydd Mawrth 26 Chwefror, ymddangosodd ffigur ar sgrin deledu mewn ystafell ddiogel yn swyddfeydd Ofcom yn Llundain. Hwn oedd cais rhif 646 a gyflwynwyd yn ein harwerthiant 4G. Hwn hefyd oedd yr olaf.

Ar ôl mwy na 50 rownd o ymgeisio, lle roedd cwmnïau wedi bod yn cystadlu am y sbectrwm gwerthfawr ar 800 MHz a 2.6 GHz, roedd cam terfynol yr arwerthiant yn awr wedi'i gwblhau. Yn ddiweddarach dyfarnwyd trwyddedau 4G i bum cwmni, gan eu galluogi i lansio gwasanaethau band eang symudol cyflym iawn ar gyfer defnyddwyr.

Roedd hyn yn benllanw dros bedair blynedd o waith yn Ofcom i ymgynghori ar yr arwerthiant, ei gynllunio a'i gynnal. Llwyddwyd i wneud hyn yn sgîl cwblhau'r gwaith o newid i'r digidol a darparu Gemau Olympaidd a Gemau Paralympaidd Llundain 2012, a ddefnyddiodd rhywfaint o'r sbectrwm, yn llwyddiannus.

Cyflawnodd yr arwerthiant ein holl amcanion a bydd yn dwyn buddion sylweddol i ddefnyddwyr a busnesau'r DU am flynyddoedd. Roedd yr arwerthiant yn ffordd effeithlon o ddyrannu adnodd prin a arweiniodd at ganlyniad cystadleuol. Gyda hyd at bum cwmni'n gallu lansio gwasanaethau 4G, mae hyn yn dda ar gyfer arloesi a chystadleuaeth prisiau. Bydd y canlyniad yn arwain at ddarparu gwasanaethau 4G yn eang ledled y DU, a fydd yn cynnwys 98 y cant o boblogaeth y DU o dan do – a mwy fyth y tu allan.

Bydd hyn hefyd yn cynnal safle'r DU fel un o farchnadoedd symudol mwyaf cystadleuol ac arloesol Ewrop.

### Edrych y tu hwnt i 4G

Ar ôl cwblhau'r arwerthiant 4G, rydym eisoes yn ystyried sut y gallwn glirio a rhyddhau rhan sylweddol arall o'r sbectrwm yn y dyfodol i fodloni'r galw cyson gan ddefnyddwyr am gysylltedd symudol. Ym mis Tachwedd, cyhoeddasom ymchwil a oedd yn datgelu bod oddeutu 20 miliwn gigabeit o ddata yn cael ei ddefnyddio dros rwydweithiau symudol y DU bob mis. I roi hyn yn ei gyd-destun, mae'n cyfateb i lawrlwytho pum biliwn o draciau cerddoriaeth ac mae dros ddwywaith yn fwy na maint y data a lawrlwythwyd yn y flwyddyn flaenorol.

Oherwydd bod sbectrwm yn adnodd y mae pendraw iddo, dechreusom brosiect mawr yn 2012/13 i ganfod sut y gallem ryddhau mwy o donnau awyr yn y band 700 MHz dethol ar gyfer y genhedlaeth nesaf o wasanaethau symudol er mwyn bodloni'r galw hwn. Gallai'r sbectrwm fod ar gael ar ôl 2018.

### Buddsoddi mewn band eang cyflym iawn

Mae'r gwaith rydym yn ei wneud i sicrhau bod digon o sbectrwm ar gael i fodloni'r galw yn enghraifft o ddarn sylweddol o waith lle rydym yn cymryd safbwynt strategol hirdymor, a lle bydd y polisi'n dwyn ffrwyth ymhen sawl blwyddyn.

O ran band eang llinell sefydlog, rydym yn gweld heddiw ganlyniad gwaith Ofcom mewn blynyddoedd blaenorol. Mae cwmnïau'n buddsoddi mewn gwaith diweddaru rhwydweithiau ac mewn rhwydweithiau band eang cyflym iawn newydd o dan fframwaith rheoleiddio Ofcom a sefydlwyd dair blynedd yn ôl. Dangosai ymchwil a gyhoeddwyd ym mis Mawrth 2013 fod y manteision yn llifo drwodd i ddefnyddwyr; mae cyflymder cyfartalog band eang wedi treblu mewn pedair blynedd i 12Mbit/s, ac mae band eang cyflym iawn ar gael erbyn hyn i ddwy ran o dair o gartrefi'r DU.

### Hyrwyddo cystadleuaeth mewn rhwydweithiau llinell sefydlog

Un elfen bwysig o farchnad gyfathrebiadau sy'n gweithio'n dda yw cystadleuaeth iach; mae sefydlu a chynnal hyn wedi bod yn ffocws i Ofcom ers ei greu bron i ddeng mlynedd yn ôl.

Heddiw, mae rhai dangosyddion cystadleuaeth da. Er enghraifft, rydym newydd basio'r rhif 9 miliwn ar gyfer nifer y llinellau 'wedi'u dadfwndelu'. Dyma lle mae darparwyr cyfathrebiadau gwahanol yn cynnig gwasanaethau dros rwydwaith ffôn copr BT. Dim ond 123,000 llinell oedd ar gael yn 2005. Ar y lefel manwerthu mae hefyd nifer o ddarparwyr gwahanol yn cynnig gwasanaethau band eang a band eang cyflym iawn i ddefnyddwyr. Disgwyliwn y bydd hyn yn tyfu yn ystod y misoedd a'r blynyddoedd nesaf.

Er mwyn cynnal a hyrwyddo cystadleuaeth llinell sefydlog iach, cynhaliodd Ofcom ddau adolygiad o bwys yn 2012/13. Roedd un yn adolygu 'marchnadoedd band cul' – galwadau llais llinellau tir, ynghyd â'r gwasanaethau cyfanwerthu sy'n eu gwneud yn bosibl. Roedd y llall yn adolygu'r 'farchnad ymgysylltiad busnes' - y llinellau ar brydles sy'n darparu cysylltiadau cyflymder uchel rhwng sefydliadau. Yn y ddau, canfuom lle roedd gan BT bŵer sylweddol yn y farchnad, a hynny felly'n gofyn am reoleiddio, a lle roedd cystadleuaeth iach, y gellir ei reoli drwy reoleiddio llai llym.

## Cystadleuaeth gyda Teledu Talu yn dwyn ffrwyth

Nid yw sicrhau cystadleuaeth yn hawdd pan mae gennych eisoes geffylau blaen yn y farchnad. Bydd cwmnïau sydd â chyfran sylweddol o'r farchnad yn amddiffyn ac yn diogelu eu safle, yn aml drwy herio rheoleiddio newydd, ac weithiau drwy'r llysoedd.

Mae ein hymchwiliad yn 2010 i'r farchnad teledu talu a gosod dyletswydd 'rhaid cynnig yn gyfanwerthol' ar BSkyB yng nghyswllt chwaraeon premiwm yn enghraifft; roedd hwn yn destun apêl.

Ym mis Awst 2012, dyfarnodd y Tribiwnlys Apelau Cystadlu fod gan Ofcom y pŵer cyfreithiol i osod y rhwymedi ar BSkyB. Ond, daeth i gasgliad gwahanol i Ofcom am ymddygiad Sky yn y gorffennol. Yn ddiweddar mae BT wedi ennill yr hawl i apelio yn erbyn penderfyniad y Tribiwnlys yn y Llys Apêl.

Er ein bod yn anghytuno â chasgliad y Tribiwnlys am ymddygiad Sky, mae'n bwysig ymchwilio i'r effaith a gafodd ein penderfyniad ar y farchnad. Yn y tair blynedd ers ein dyfarniad, mae defnyddwyr wedi gallu gweld pêl-droed o'r safon uchaf ar amrywiaeth llawer ehangach o lwyfannau teledu. Mae amrywiaeth llawer mwy o becynnau teledu ar gael ac mae cystadleuaeth wedi arwain at arloesi hefyd. Yn fyr, mae ein hymyrraeth wedi darparu buddion sylweddol i ddefnyddwyr.

## Helpu defnyddwyr i helpu'u hunain

Er mwyn i ddefnyddwyr fanteisio ar y gystadleuaeth yn y sector, mae angen iddynt wneud penderfyniadau gwybodus am y gwasanaethau sydd orau ar gyfer eu hanghenion hwy.

I'w helpu i wneud hyn, mae Ofcom yn cyhoeddi amrywiaeth o wybodaeth ac yn rhoi cyhoeddusrwydd i'r wybodaeth honno. Yn 2012/13, roedd hyn yn cynnwys ein hymchwil barhaus sy'n cymharu'r cyflymderau band eang gwirioneddol a ddarperir gan y darparwyr rhyngrwyd gwahanol, a data ar nifer y cwynion a dderbyniwn am ddarparwyr llinell sefydlog, symudol a theledu talu penodol. Yn ogystal â rhoi gwybodaeth werthfawr i ddefnyddwyr, mae cyhoeddi data yn annog darparwyr gwasanaethau i wella.

Gwnaethom wella'r cyngor a'r canllawiau i ddefnyddwyr ar ein gwefan, a dderbyniodd dros 4 miliwn o ymweliadau yn 2012/13. Y ddwy set orau o ganllawiau yn ystod y flwyddyn oedd yr un a oedd cynnwys cyngor ar gostau galwadau ffôn a chyngor ar ddelio gyda galwadau niwsans.

Gan weithio gyda rheoleiddwyr eraill, gwnaethom hefyd wella'r wefan ParentPort, sy'n cynnig cyngor i rieni ar sut i gwyno am nifer o faterion yn y cyfryngau.

## Gwarchod defnyddwyr

Weithiau, nid yw'r marchnadoedd cyfathrebiadau yn rhoi'r canlyniadau gorau i ddefnyddwyr. Pan fydd hyn yn digwydd, mae Ofcom yn camu i mewn i warchod pobl.

Un mater a greodd lawer o ddiddordeb ymysg y cyhoedd eleni oedd y cynnydd mewn prisiau ar ganol contract – pan fydd cwmni symudol, band eang neu linell sefydlog yn newid ei brisiau yn ystod contract sefydlog. Yn ystod y flwyddyn, buom yn ymgynghori ar gynigion a fyddai'n caniatáu i ddefnyddwyr adael contract yn ddi-gosb petai'r prisiau'n codi. Byddwn yn dyfarnu'n derfynol ar hyn yn 2013.

Mater arall sy'n achosi pryder cynyddol ymysg defnyddwyr yw cwmnïau'n gwneud galwadau niwsans a all achosi pryder neu ddiflastod. Mae camau gorfodi'n gallu atal hyn; ers Ebrill 2012, mae Ofcom wedi dirwyo Homeserve, nPower a TalkTalk am wneud gormod o alwadau mud a galwadau sy'n cael eu gadael.

Gwnaethom hefyd gyhoeddi cynllun pum pwynt i roi rhagor o sylw i'r broblem hon. Mae hyn yn cynnwys ymchwil newydd i gael darlun cliriach o'r broblem, a gweithredu cydgysylltiedig gyda'r diwydiant ac asiantaethau eraill sydd â chyfrifoldebau yn y maes hwn. Hoffem wneud rhagor, ond tra mae ein pwerau wedi'u cyfyngu a bod yn rhaid cael cydweithrediad rhwng nifer o asiantaethau i weithredu, mae hwn yn faes heriol.

## Diogelu'r gwasanaethau sy'n bwysig i ddefnyddwyr

2012/13 oedd y flwyddyn lawn gyntaf i'r Post Brenhinol gael ei reoleiddio gan Ofcom. Un o'r blaenoriaethau o'r cychwyn oedd diogelu'r gwasanaeth post cyffredinol, sy'n gwarantu y darperir gwasanaeth post fforddiadwy am bris unffurf, chwe diwrnod yr wythnos i bob cyfeiriad yn y DU, gwasanaeth, yn ein barn ni, a ddylai barhau.

I wneud hyn, gwnaethom gyflwyno terfyn diogelu ar bris stampiau ail ddosbarth, llythyrau mawr a pharseli bach, er mwyn diogelu defnyddwyr bregus a busnesau bach, ond gan roi mwy o ryddid i'r Post Brenhinol yn y ffordd y mae'n pennu prisiau eraill.

Yn 2012/13, gwnaethom hefyd gynnig amddiffyniadau newydd er mwyn cadw blychau post mewn ardaloedd gwledig, a chyhoeddi arweiniad at sut y byddem yn asesu effaith bosibl cystadleuaeth newydd yn y farchnad bost ar y gwasanaeth post cyffredinol.

## Diogelu cynulleidfaoedd

Rhaid i holl ddarlledwyr y DU gydymffurfio â Chod Darlledu Ofcom. Dyma lyfr reolau'r diwydiant sy'n diffinio'r safonau y mae cynulleidfaoedd yn eu disgwyl ar y teledu a'r radio.

Yn ystod 2012/13 gwnaethom asesu 16,334 o gwynion am gynnwys a ddarlledwyd a chynhaliwyd 324 o ymchwiliadau gennym, rhai ohonynt wedi bod o ddiddordeb arbennig i'r cyhoedd. Roedd hyn yn cynnwys rhai o raglenni Newsnight y BBC a This Morning ITV, y ddau ymchwiliad yn parhau.

Un ffocws i'n gwaith yn ystod 2012/13 oedd diogelu plant rhag rhaglenni anaddas a sicrhau bod y rheolau am y trothwy 9pm yn cael eu gorfodi. Yn ystod y flwyddyn, rhoesom ddirwyon i dri chwmni am ddangos cynnwys ar gyfer oedolion y gallai plant fod wedi'i weld. Gwnaethom hefyd ddarparu arweiniad wedi'i ddiweddaru i ddarlledwyr i ddangos yn glir pa gynnwys sy'n anaddas i'w ddarlledu heb fynediad cyfyngedig gorfodol, a'u hatgoffa am y rheolau ynghylch y trothwy.

## Trwyddedau Darlledu ac Ymchwiliad Leveson

Gellir dadlau bod gan gynulleidfaoedd y DU fynediad i'r cyfryngau darlledu mwyaf amrywiol a chyfoethog yn y byd. O sianelau a ddarperir gan y darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus i gynnwys arbenigol ar gyfer cymunedau neu grwpiau buddiant penodol, mae Ofcom yn trwyddedu oddeutu 2,000 o wasanaethau radio a theledu yn y DU.

Un o'r pynciau a gafodd sylw yn 2012/13 oedd trwyddedu teledu lleol; bu i Ofcom asesu a thrwyddedu 19 o gyrff i ddarlledu mewn ardaloedd daearyddol penodol yn y DU. Rhoesom hefyd drwydded i gwmni i redeg 'amlblecs' teledu lleol a fydd yn gadael i'r gorsafoedd lleol ddarlledu ar deledu daearol digidol. Disgwylir y bydd y gwasanaethau cyntaf ar yr awyr erbyn diwedd 2013. Dechreusom ar ail rownd o drwyddedu ym mis Mawrth 2013.

Cafodd y ffordd y mae darlledwyr teledu a radio yn cael eu trwyddedu a'u rheoleiddio ei hystyried gan yr Arglwydd Ustus Leveson fel rhan o'i ymchwiliad i ddiwylliant, arferion a moeseg y wasg. Rhoddodd y Cadeirydd a minnau dystiolaeth i'r Ymchwiliad ym mis Gorffennaf 2012 a cheir rhagor am hyn ar dudalen 25.

Wrth gwrs yr hyn a sbardunodd yr Ymchwiliad oedd yr hanesion a ddaeth i'r wyneb am hacio ffonau. Mae gan Ofcom hawl statudol i ystyried a yw darlledwyr yn addas ac yn briodol i barhau i ddal trwyddedau. Yn sgil yr hyn a ddatguddiwyd yng nghyswllt yr hacio ffonau, ystyriodd Ofcom a oedd Sky – y mae 39.1 y cant ohono yn berchen i'r Gorfforaeth Newyddion, a oedd yn berchen ar bapurau a oedd yn gysylltiedig â'r honiadau am hacio – yn addas a phriodol. Ar ôl asesiad trwyadl, daeth Ofcom i'r casgliad ym mis Medi 2012 bod Sky, ar y dystiolaeth a oedd ar gael, yn addas a phriodol i ddal ei drwyddedau darlledu.

## Cyflawni ein blaenoriaethau

Bob mis Mawrth, mae Ofcom yn cyhoeddi Cynllun Blynyddol sy'n disgrifio ein rhaglen waith a'n blaenoriaethau ar gyfer y flwyddyn ariannol i ddod. Roedd Cynllun 2012/13 yn cynnwys 13 blaenoriaeth, rhai ohonynt wedi'u disgrifio uchod.

Mae Adran B yr adroddiad hwn, sy'n cychwyn ar dudalen 8, yn cynnwys tabl sy'n asesu'n fwy manwl sut rydym wedi cyflawni yng nghyswllt y blaenoriaethau a chanlyniad ein gwaith.

Rydym wedi gwneud cynnydd da yn cyflawni ein holl flaenoriaethau ar gyfer y flwyddyn. Fodd bynnag, un maes y mae angen rhoi sylw iddo yw ein gwaith i wella'r prosesau newid ar gyfer defnyddwyr, sy'n parhau'n flaenoriaeth bwysig yn 2013/14.

## Lleihau ein cyllideb

Ers sefydlu Ofcom bron i ddeng mlynedd yn ôl, rydym wedi ymdrechu'n gyson i leihau ein costau. Bob blwyddyn, rydym wedi lleihau ein cyllideb mewn termau real ac ar sail debyg at ei debyg.

Ac ni fu'r flwyddyn dan sylw yn wahanol. 2012/13 oedd ail flwyddyn rhaglen pedair blynedd i leihau cyllideb Ofcom 28.2 y cant mewn termau real. Roedd hyn yn dilyn adolygiad mawr i ganfod arbedion mewn ymateb i'r her sy'n wynebu'r sector cyhoeddus i gyd.

£121.4m oedd cyllideb Ofcom ar gyfer 2012/13. Alldro archwiliedig Ofcom ar gyfer y flwyddyn oedd £109.9 miliwn, gydag arbedion wedi'u gwneud o ganlyniad i gyflenwi'i gyfrifoldebau sbectrwm ar gyfer Gemau Olympaidd a Gemau Paralympaidd Llundain 2012 o dan y gyllideb, arbedion ar gostau staff a hefyd ailamseru gwaith a oedd yn yr arfaeth ar dorri hawlfraint ar-lein.

Mae'r ymgyrch i leihau costau'n parhau. Cyllideb Ofcom ar gyfer 2013/14 yw £117.0m, sef 6.5 y cant o ostyngiad ar gyllideb y flwyddyn flaenorol mewn termau real.

Ariennir Ofcom gan gymysgedd o gymorth grant a ffioedd a gesglir oddi wrth y rhanddeiliaid rydym yn eu rheoleiddio. Yn 2013/14 bydd canran y cyllid oddi wrth y trethdalwr yn lleihau eto. Mae hyn yn rhannol oherwydd y gostyngiad yng nghyllideb 2013/14 Ofcom, ond hefyd oherwydd i adolygiad sylweddol o'n costau roi gwybodaeth well inni ar sut y dylent gael eu dyrannu. Mae hyn yn unol ag awydd y Llywodraeth i weld rheoleiddwyr economaidd yn gwella tryloywder eu ffioedd.

Oherwydd hyn, mae Ofcom wedi penderfynu y dylid lleihau'r gyfran o gostau TG sy'n gysylltiedig â rheoli sbectrwm, a fydd, yn ei dro, yn lleihau'r lefel ofynnol o arian trethdalwyr yn 2013/14 ac i'r dyfodol.

Mae Adran D yr adroddiad hwn, sy'n dechrau ar dudalen 63, yn rhoi rhagor o fanylion am gyllideb a gwariant Ofcom.

## Y rhaglen waith ar gyfer 2013/14

Bydd y gyllideb yn cael ei defnyddio i gyflawni gwaith pwysig ar draws y sector cyfathrebu, o dan bump blaenoriaeth strategol:

**1.** Hybu cystadleuaeth effeithiol a dewis gwybodus. Bydd hyn yn cynnwys sicrhau cystadleuaeth a buddsoddiad effeithiol mewn band eang cyfredol a chyflym iawn, a hyrwyddo dewis ar gyfer defnyddwyr drwy ddarparu gwybodaeth glir a phrosesau effeithlon i newid rhwng darparwyr.

**2.** Sicrhau y gwneir y defnydd gorau posibl o sbectrwm. Bydd Ofcom yn cefnogi'r gwaith o ryddhau rhagor o sbectrwm ar gyfer band eang symudol, er mwyn bodloni galw cynyddol defnyddwyr am ddata.

**3.** Hyrwyddo cyfleoedd i gyfranogi. Er mwyn i ddefnyddwyr a dinasyddion allu manteisio ar wasanaethau cyfathrebu, mae angen iddynt allu cael gafael arnynt a'u defnyddio. Bydd gwaith Ofcom yn y maes hwn yn cynnwys sicrhau'r gwasanaeth post cyffredinol a gweithio ar y cyd â Llywodraeth a'r diwydiant i ddarparu band eang cyflym iawn.

**4.** Diogelu defnyddwyr rhag niwed. Bydd Ofcom yn datblygu ac yn gorfodi polisi diogelu defnyddwyr ar ystod o faterion. Bydd hyn yn cynnwys diwygio rhifau ffôn nad ydynt yn rhai daearyddol i sicrhau tryloywder prisiau ac ystyried materion fel codi prisiau ar ganol contractau ffonau symudol.

**5.** Cynnal hyder cynulleidfaoedd mewn cynnwys a ddarlledir. Bydd hyn yn golygu aildrwyddedu darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus masnachol i sicrhau bod sianeli gwasanaeth cyhoeddus o ansawdd uchel yn dal i gael eu darparu'n eang.



**Ed Richards**
Prif Weithredwr

# Golwg gyffredinol ar y sector cyfathrebu

Mae'r sector cyfathrebu yn chwarae rhan bwysig ym mywydau defnyddwyr a dinasyddion y DU.

Mae bron i hanner yr amser y mae pobl ar ddi-hun yn cael ei dreulio yn defnyddio cyfryngau a chyfathrebiadau ac mae defnyddwyr yn rhoi cryn werth ar wasanaethau cyfathrebu wrth gymharu â gweithgareddau eraill.

Mae gan Ofcom ymrwymiad i gynnal a chyhoeddi ymchwil marchnad a defnyddwyr er mwyn cyfrannu at ein gwaith. Mae'r ymchwil hwn yn rhychwantu ystod eang o fertigau sy'n edrych ar y nifer sy'n manteisio ar y gwasanaethau ac yn eu defnyddio, a bodlonrwydd pobl, sy'n dal yn uchel yn y marchnadoedd rydym yn eu rheoleiddio.

## Teledu

**Gwylio teledu**
(munud yr unigolyn y diwrnod)

| 2010 | 2011 | 2012 |
|---|---|---|
| 242 | 242 | 242 |

**Teledu digidol yn y cartref**
(o gartrefi yn)

| 2010 | 2011 | 2012 |
|---|---|---|
| 93% | 94% | 100% |

**Bodlonrwydd â gwasanaeth teledu daearol digidol**

| 2010 | 2011 | 2012 |
|---|---|---|
| 89% | 90% | 90% |

## Radio

**Gwrando ar y radio**
(munud yr unigolyn y diwrnod)

| 2010 | 2011 | 2012 |
|---|---|---|
| 172 | 175 | 170 |

**Radio digidol yn y cartref**

| 2010 | 2011 | 2012 |
|---|---|---|
| 34% | 40% | 42% |

## Post

**Defnyddio (swmp)**
(biliwn eitem)

| 2010 | 2011 | 2012 |
|---|---|---|
| 17.5 | 16.6 | 15.7 |

**Gwerth marchnad e-adwerthu'r DU**
(mewn £bn)

| 2010 | 2011 | 2012 |
|---|---|---|
| 58.8 | 68 | 78.2 |

**Cyflymder cyfartalog band eang yn 2012 yw 12 Mbit/s**

## Y rhyngrwyd

**Band eang yn y cartref**
(% o gartrefi)

| 2010 | 2011 | 2012 |
|---|---|---|
| 75% | ▲ 76% | ▼ 75% |

**Cyflymder cyfartalog band eang**
(Mbit/s ym mis Tachwedd)

| 2010 | 2011 | 2012 |
|---|---|---|
| 6.2 | ▲ 7.6 | ▲ 12 |

**Defnyddio'r rhyngrwyd**
(awr yr unigolyn y mis ar gyfartaledd)

| 2010 | 2011 | 2012 |
|---|---|---|
| 30.9 | ▲ 31.5 | ▲ 34.7 |

**Bodlonrwydd â gwasanaeth band eang sefydlog**

| 2010 | 2011 | 2012 |
|---|---|---|
| 90% | ▼ 86% | ▲ 87% |

**Band eang cyflym iawn preswyl yn y DU (30Mbit/s neu fwy)**
(30Mbit/s neu fwy)

| 2010 | 2011 | 2012 |
|---|---|---|
| 1% | ▲ 5% | ▲ 13% |

## Symudol

**Bod yn berchen ar ffôn symudol**
(% o oedolion)

| 2010 | 2011 | 2012 |
|---|---|---|
| 91% | 91% | 91% |

**Bod yn berchen ar ffôn clyfar**
(% o oedolion)

| 2011 | 2012 |
|---|---|
| 40% | ▲ 50% |

**Defnyddio ffôn symudol**
(biliwn munud)

| 2010 | 2011 | 2012 |
|---|---|---|
| 125 | ▼ 124 | ▼ 123 |

**Defnyddio ffôn symudol (negeseuon testun)**
(biliwn o negeseuon)

| 2010 | 2011 | 2012 |
|---|---|---|
| 128 | ▲ 151 | ▲ 155 |

**Bodlonrwydd**

| 2010 | 2011 | 2012 |
|---|---|---|
| 88% | ▲ 89% | 89% |

**Derbyn gwasanaethau data symudol**
(% o oedolion)

| 2010 | 2011 | 2012 |
|---|---|---|
| 30% | ▲ 38% | ▲ 42% |

## Ffôn llinell sefydlog

**Y nifer sy'n manteisio**
(% o gartrefi)

| 2010 | 2011 | 2012 |
|---|---|---|
| 85% | ▲ 86% | ▼ 84% |

**Defnyddio**
(biliwn munud)

| 2010 | 2011 | 2012 |
|---|---|---|
| 129 | ▼ 116 | ▼ 109 |

**Bodlonrwydd**

| 2010 | 2011 | 2012 |
|---|---|---|
| 88% | ▲ 89% | 89% |

Mae gan 50% o oedolion ffôn clyfar yn 2012

2012/13




“Rydym yn ceisio gwneud yn siŵr bod pobl yn y DU yn cael y gorau o’u gwasanaethau cyfathrebiadau.”

# Cynnydd ar gyflawni blaenoriaethau ein Cynllun Blynyddol

Prif ddyletswydd Ofcom yw hybu buddiannau dinasyddion mewn perthynas â materion sy'n ymwneud â chyfathrebu a hybu buddiannau defnyddwyr mewn marchnadoedd perthnasol, pan fo'n briodol drwy hybu cystadleuaeth.

Mae'r brif ddyletswydd hon wedi'i hymgorffori yn ein pum diben strategol, ac o dan y rheini roedd ein 13 blaenoriaeth ar gyfer 2012/13.

Yn y tabl ar dudalennau 12 i 14, ar gyfer pob blaenoriaeth strategol, rydym wedi rhoi statws i bedwar asesiad o gynnydd. Mae'r ddau gyntaf yn canolbwyntio ar effaith uniongyrchol gweithredoedd Ofcom ei hun. Mae'r ail bâr o gwestiynau'n canolbwyntio ar y canlyniadau i ddefnyddwyr a dinasyddion ac fel arfer bydd yn cymryd mwy o amser i sylwi arnynt. Maent yn dibynnu nid yn unig ar weithredoedd Ofcom, ond hefyd ar weithredoedd llawer o gyfranogwyr eraill yn y marchnadoedd a'r diwydiant.

Mae ein dau asesiad cyntaf yn ystyried a ydym wedi cyflawni ein cynllun ac a yw ein gweithredoedd wedi galluogi neu hybu'r gwaith o gyflawni'r canlyniad interim neu derfynol gan gyfranogwyr yn y farchnad, ac ar eu cyfer. Rydym yn gofyn:

- Ydym ni wedi gwneud yr hyn yr oeddem wedi'i ddweud y byddem yn ei wneud mewn perthynas â'n rhaglen waith?
- A fu hynny mor effeithiol ag roeddem wedi'i fwriadu?

Mae ein hail ddau asesiad yn ystyried beth ydym yn disgwyl fydd yn digwydd fel canlyniad terfynol ein gweithredoedd a'n penderfyniadau. Canlyniadau interim yw digwyddiadau yn y farchnad sy'n deillio o benderfyniad a gymerir gan Ofcom; er enghraifft, galluogi trydydd partïon i gael mynediad at rwydwaith neu wasanaeth penodol a fydd yn cael eu defnyddio ganddynt i gynnig gwasanaeth i gwsmeriaid, gan gynyddu cystadleuaeth a dewis mewn marchnad. Mae canlyniadau terfynol yn disgrifio'r buddion ehangach i ddinasyddion a defnyddwyr gan gynnwys, er enghraifft, defnyddiwr yn gallu dewis rhwng amrywiaeth o gynigion adwerthu cystadleuol ac arloesol a hefyd yn gallu manteisio ar ansawdd gwasanaeth gwell, prisiau is ac argaeledd eang. Rydym yn gofyn:

- Pa gynnydd rydym wedi'i wneud yn cyflawni'r canlyniad(au) interim?
- Pa gynnydd rydym wedi'i wneud yn cyflawni'r canlyniad(au) terfynol?

Mae rhai blaenoriaethau a chanlyniadau a nodwyd yn 2012/13 yn berthnasol i nifer o flynyddoedd, ac maent wedi parhau i 2013/14.

Mae'r colofnau terfynol yn nodi gwerth gwirioneddol y gwaith, rhagolwg o werth y gwaith a gwerth y cyllidebwyd ar ei gyfer:

- Gwerth y gwaith a gyllidebwyd – gwerth disgwyliedig y gwaith ar gyfer y gweithgareddau ar 1 Ebrill 2012.
- Rhagolwg canol blwyddyn o werth y gwaith – y rhagolwg ar gyfer y flwyddyn lawn ar 30 Medi 2012.
- Gwerth y gwaith a gwblhawyd – gwerth gwirioneddol y gwaith a gwblhawyd hyd at 31 Mawrth 2013.

Mae Ofcom yn ymatebol i faterion newydd, pryderon sy'n dod i'r amlwg sy'n effeithio ar ddefnyddwyr ledled y DU a cheisiadau newydd gan y llywodraeth. O'r herwydd, gall cynlluniau prosiectau unigol amrywio yn ystod y flwyddyn gyda mwy o adnoddau'n cael eu buddsoddi mewn rhai meysydd a llai mewn eraill. Fodd bynnag, mae ein hymgyrch i leihau costau a darparu gwerth am arian yn parhau. Yn 2012/13, sicrhaodd Ofcom o arbedion sylweddol yn ei gyllideb, gyda chost rhedeg flynyddol o £109.9m o'i gymharu â chyllideb o £121.4m.

| Blaenoriaeth | Beth rydym wedi'i wneud | Ydym ni wedi gwneud yr hyn roeddem wedi'i ddweud y byddem yn ei wneud? | A fu hynny mor effeithiol ag roeddem wedi'i fwriadu? | Canlyniad interim | Canlyniad terfynol | Gwerth y gwaith a gyllidebwyd (£k) | Ail ragolwg o werth y gwaith (£k) | Gwerth y gwaith a gyllidebwyd (£k) |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Diben craidd: Hybu cystadleuaeth effeithiol a chynaliadwy** | | | | | | | | |
| Sicrhau cystadleuaeth effeithiol yn y marchnadoedd ffôn llais a chysylltedd busnes a diogelu defnyddwyr terfynol | • Wedi ymgynghori ar ein casgliadau a'u cyhoeddi yn yr Adolygiad o'r Farchnad Cysylltedd Busnes.<br>• Wedi ymgynghori ar ein cynigion ar gyfer yr Adolygiad o'r Farchnad Band Cul. | 🟢 | 🔵 | 🔵 | 🔵 | 2,593 | 3,238 | 3,982 |
| | | | | | | Bu i ragor o gymhlethdod yng nghyswllt yr Adolygiad o'r Farchnad Cysylltedd Busnes ynghyd â chyflwyniadau sylweddol iawn i'r ymgynghoriad oddi wrth randdeiliaid a'r angen i ailymgynghori ar rai materion arwain at fwy o wariant yn ystod 2012/13. | | |
| Hybu cystadleuaeth a buddsoddiad i gyflenwi band eang cyflym iawn | • Wedi parhau â'n dull rheoleiddio yn unol â fframwaith 2010, wedi cyhoeddi gwybodaeth i ddefnyddwyr, wedi monitro'r gwasanaethau sydd ar gael a'r nifer sy'n eu defnyddio. Wedi dechrau adolygu marchnadoedd mynediad lleol, band eang a llais sefydlog cyfanwerthol. | 🟢 | 🟢 | 🟢 | 🔵 | 895 | 2,121 | 2,279 |
| | | | | | | Penderfyniad wedi'i wneud i fwrw ymlaen â gwaith paratoi ar sawl adolygiad sylweddol o farchnadoedd (Mynediad Llinell Cyfanwerthol, Mynediad Band Eang Cyfanwerthol, ISDN30) a rheolaethau codi tâl perthnasol er mwyn sicrhau bod y gwaith yn cael ei gwblhau erbyn diwedd 2013/14. | | |
| **Diben craidd: Hybu defnyddio asedau cyhoeddus yn effeithlon** | | | | | | | | |
| Arwerthiannau bandiau sbectrwm 800 MHz a 2.6 GHz | • Gwnaethom baratoi ar gyfer yr arwerthiant drwy ymgynghori'n fanwl â rhanddeiliaid. Gwnaethom gadarnhau rheoliadau'r arwerthiannau drwy is-ddeddfwriaeth, a gwnaethom gyhoeddi Memorandwm Gwybodaeth.<br>• Gwnaethom lunio fersiwn terfynol o'r feddalwedd i gynnal yr arwerthiant a hyfforddi'r rheini a allai gymryd rhan ynghylch sut mae ei ddefnyddio. Cwblhawyd yr arwerthiant yn llwyddiannus ym mis Chwefror 2013. | 🟢 | 🟢 | 🟠 | 🔵 | 1,502 | 1,813 | 2,311 |
| | | | | | | Oherwydd cymhlethdod y prosiect, cynyddwyd y gwariant i ddelio ag archwilio mewnol a diogelwch ffisegol, proses a systemau gwybodaeth. Hefyd, cynyddwyd y gwariant ar oruchwyliaeth rheolwyr a phrofi'r systemau gwybodaeth a oedd yn ofynnol i ddarparu'r arwerthiant. | | |
| Clirio sbectrwm yn amserol er mwyn gallu rhoi dyfarniadau newydd, gan liniaru materion sy'n ymwneud â chydfodolaeth; yn amserol er mwyn gallu rhoi dyfarniadau newydd, gan liniaru materion sy'n ymwneud â chydfodolaeth | • Rydym wedi cynllunio'r broses o ail-leoli'r holl ddefnyddwyr yn y bandiau 800 MHz a 2.6 GHz a'i rhoi ar waith fel y gall y deiliaid trwyddedau newydd eu defnyddio cyn gynted â phosibl. Rydym wedi hwyluso'r trefniadau i sicrhau nad yw'r gwasanaethau newydd yn y bandiau hyn yn creu ymyriant niweidiol i ddefnyddwyr yn y bandiau cyfagos. | 🟢 | 🟢 | 🟠 | 🔵 | 865 | 865 | 664 |
| | | | | | | Rheolodd Ofcom y rhaglen glirio ac ail-leoli a gyflwynwyd ar amser ac o dan y gyllideb. Cyfrannodd gwaith cynllunio a goruchwylio gofalus Ofcom yng nghyswllt y rhaglen gymhleth hon at y llwyddiant hwn. Roedd y gyllideb wreiddiol yn tybio y byddai angen cryn dipyn o waith polisi i reoli'r broses glirio'n effeithiol ond roedd hwn yn llai na'r disgwyl. | | |

🟢 Rydym wedi gwneud yr hyn roeddem wedi'i ddweud y byddem yn ei wneud
🟠 Rydym yn dal i symud ymlaen at gyflawni'r flaenoriaeth
🔴 Nid ydym wedi symud ymlaen cymaint ag oeddem yn meddwl y byddem yn ei wneud
🔵 Mae hi'n rhy gynnar asesu ein cynnydd

<table>
<tr><th>Blaenoriaeth</th><th>Beth rydym wedi'i wneud</th><th>Ydym ni wedi gwneud yr hyn roeddem wedi'i ddweud y byddem yn ei wneud?</th><th>A fu hynny mor effeithiol ag roeddem wedi'i fwriadu?</th><th>Canlyniad interim</th><th>Canlyniad terfynol</th><th>Gwerth y gwaith a gyllidebwyd (£k)</th><th>Ail ragolwg o werth y gwaith (£k)</th><th>Gwerth y gwaith a gyllidebwyd (£k)</th></tr>
<tr><td rowspan="2">Cyflawni gwarant sbectrwm y Llywodraeth ar gyfer Gemau Olympaidd a Gemau Paralympaidd Llundain 2012</td><td rowspan="2">• Gwnaethom ddarparu gwarant y Llywodraeth ar gyfer y Gemau drwy ddarparu'r holl aseiniadau sbectrwm gofynnol a rheoli'r holl broblemau ymyriant yn llwyddiannus.<br>• Gwnaethom drosglwyddo'r gwersi a ddysgwyd i'r IOC a'r dinasoedd a fydd yn croesawu'r gemau yn y dyfodol.<br>• Rydym yn defnyddio'r galluoedd a sicrhawyd yn sgîl hynny ar gyfer ein gwaith arferol a hefyd ar gyfer cefnogi Gemau'r Gymanwlad yn Glasgow yn 2014 a digwyddiadau mawr dilynol.</td><td rowspan="2">🟢</td><td rowspan="2">🟢</td><td rowspan="2">🟢</td><td rowspan="2">🟢</td><td>6,731</td><td>6,956</td><td>4,924</td></tr>
<tr><td colspan="3">Trwy gynllunio, rheoli a lliniaru risgiau'n effeithiol, roedd Ofcom wedi gallu darparu gwarant sbectrwm Llywodraeth y DU ar gyfer Gemau Olympaidd a Gemau Paralympaidd Llundain 2012 o dan y gyllideb ar gyfer 2012/13 ac ar gyfer y rhaglen yn gyffredinol.</td></tr>
<tr><td colspan="9">Diben craidd: Helpu marchnadoedd cyfathrebu i weithio i ddefnyddwyr</td></tr>
<tr><td rowspan="2">Hyrwyddo dewis effeithiol i ddefnyddwyr drwy sicrhau bod gwybodaeth glir am wasanaeth, pris ac ansawdd ar gael</td><td rowspan="2">• Ymchwil i gyflymderau band eang, data am gwynion a boddhad defnyddwyr yng nghyswllt telegyfathrebiadau sefydlog a symudol a darparwyr teledu talu, canllawiau a chyngor gwell ar y wefan i ddefnyddwyr, wedi gwella'r wefan ParentPort.</td><td rowspan="2">🟢</td><td rowspan="2">🟢</td><td rowspan="2">🟢</td><td rowspan="2">🟢</td><td>262</td><td>600</td><td>707</td></tr>
<tr><td colspan="3">Gwnaethpwyd gwaith ychwanegol gwerthfawr yng nghyswllt cadw cwsmeriaid nad oedd yn y cynlluniau gwreiddiol ar gyfer 2012/13.</td></tr>
<tr><td rowspan="2">Datblygu a gweithredu polisïau a fydd yn ei gwneud yn haws newid rhwng darparwyr cyfathrebu</td><td rowspan="2">• Wedi gwneud rhagor o waith i gyfrannu at ein hasesiad a'n cwmpas cyn cyhoeddi datganiad yn ystod haf 2013. Wedi ymgynghori ar gynlluniau ar gyfer achredu gwefannau cymharu prisiau. Wedi monitro a gweithredu yng nghyswllt contractau a adnewyddir yn awtomatig.</td><td rowspan="2">🟠</td><td rowspan="2">🟠</td><td rowspan="2">🔵</td><td rowspan="2">🔵</td><td>374</td><td>758</td><td>711</td></tr>
<tr><td colspan="3">Oherwydd i ragor o dystiolaeth gael ei gyflwyno gan randdeiliaid mewn ymateb i'r ymgynghoriad ar brosesau newid ac oherwydd lefel sylweddol o ddiddordeb gan ddefnyddwyr, bu'n rhaid gwneud gwaith mwy cymhleth a chostus. Oherwydd hyn defnyddiwyd mwy o adnoddau na'r disgwyl, a'r rheidrwydd i gynnal ragor o waith ymchwil a chynghori.</td></tr>
<tr><td rowspan="2">Sicrhau y darperir gwasanaeth post cyffredinol a chanfod anghenion defnyddwyr y post</td><td rowspan="2">• Parhau â'r gwasanaeth post cyffredinol, cyflwynwyd terfyn diogelu ar gyfer stampiau ail ddosbarth, llythyrau mawr a pharseli bach, wedi ymgynghori ar amddiffyniadau newydd rhag cael gwared â blychau postio, arweiniad ar asesu effaith cystadleuaeth yn y farchnad bost.</td><td rowspan="2">🟢</td><td rowspan="2">🟢</td><td rowspan="2">🔵</td><td rowspan="2">🔵</td><td>2,639</td><td>2,179</td><td>1,813</td></tr>
<tr><td colspan="3">Mae llai o reoleiddio wedi arwain at arbedion wrth gyflawni ein dyletswyddau parhaus mewn perthynas â gwasanaethau post.</td></tr>
<tr><td rowspan="2">Asesu'r gwasanaethau cyfathrebu a ddarperir yn y gwledydd</td><td rowspan="2">• Wedi cynnal asesiad. Y canfyddiadau i'w cyhoeddi yn 2013/14.</td><td rowspan="2">🟢</td><td rowspan="2">🟠</td><td rowspan="2">🔵</td><td rowspan="2">🔵</td><td>134</td><td>127</td><td>140</td></tr>
<tr><td colspan="3"></td></tr>
</table>

Nodyn: Ceir esboniad am benawdau'r colofnau ar dudalen 11. Mae gwerth y gyllideb a'r gwaith a gwblhawyd yn seiliedig ar gostau uniongyrchol gweithgareddau cysylltiedig. Caiff rhanddeiliaid eu bilio yn unol â'n Datganiad am Egwyddorion Codi Ffioedd ac nid ar gost uniongyrchol gweithgarwch yn unig.

1 Nid yw costau llawn y Rhaglen Clirio a Dyfarnu Sbectrwm wedi'u cynnwys yn y tabl hwn ond maent wedi'u cynnwys yn nhudalen 84 yr adroddiad hwn.

| Blaenoriaeth | Beth rydym wedi'i wneud | Ydym ni wedi gwneud yr hyn roeddem wedi'i ddweud y byddem yn ei wneud? | A fu hynny mor effeithiol ag roeddem wedi'i fwriadu? | Canlyniad interim | Canlyniad terfynol | Gwerth y gwaith a gyllidebwyd (£k) | Ail ragolwg o werth y gwaith (£k) | Gwerth y gwaith a gyllidebwyd (£k) |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Diben craidd: Darparu sicrwydd priodol i gynulleidfaoedd ynghylch safonau** | | | | | | | | |
| Ystyried dulliau gweithredu ar gyfer rheoleiddio cynnwys yn y dyfodol, gan gynnwys adolygu'r gwaith o reoleiddio fideo ar alwad | • Gwaith sylweddol wedi'i wneud mewn perthynas ag aildrwyddedu Channel 3, Channel 5 a C4C. Wedi cyfrannu at ddadleuon cyhoeddus ar ddyfodol cyllido cynnwys, gan gynnwys seminarau'r DCMS ac Adroddiad Cydgyfeiriant Tŷ'r Arglwyddi.<br>• Wedi adolygu dynodiad ATVOD ac wedi ailgadarnhau ei benodiad fel cydreolydd. Sancsiynau ar ddarparwyr cynnwys oedolion am fethu â diogelu plant. Gweithdrefnau newydd ar sut rydym yn ystyried ac yn rhoi sancsiynau ac apelio yng nghyswllt penderfyniadau ATVOD. | ● (green) | ● (teal) | ● (teal) | ● (teal) | 398 | 737 | 625 |
| | | | | | | Bu i waith ychwanegol a oedd yn ymwneud â Chynnwys, nad oedd wedi'i gynnwys yn wreiddiol yng nghyllideb 2012/13, arwain at ddefnyddio rhagor o adnoddau. | | |
| **Diben craidd: Cyfrannu at bolisi cyhoeddus a ddiffinnir gan y Senedd, a'i roi ar waith** | | | | | | | | |
| Cynghori'r Llywodraeth ar fesur lluosogrwydd yn y cyfryngau a chyfrannu at Ymchwiliad Leveson | • Cyngor annibynnol wedi'i ddarparu i'r Ysgrifennydd Gwladol ar luosogrwydd yn y cyfryngau a chwestiynau atodol wedi'u hateb. Tystiolaeth wedi'i darparu i Ymchwiliad Leveson. Mewnbwn wedi'i roi i Adolygiad y Llywodraeth o Gyfathrebiadau. | ● (green) | ● (orange) | ● (orange) | ● (teal) | 349 | 291 | 367 |
| Gweithio ar y cyd gyda'r Llywodraeth a'r diwydiant i hyrwyddo band eang cyflym iawn yn eang a lleihau mannau di-gyswllt symudol | • Wedi cyhoeddi Adroddiad Seilwaith a oedd wedi'i ddiweddaru, cyhoeddi Cerdyn Sgorio Band Eang Ewropeaidd, cyngor technegol i'r Llywodraeth a chyngor ar faterion cymorth gwladwriaethol. | ● (green) | ● (green) | ● (teal) | ● (teal) | 155 | 219 | 293 |
| | | | | | | Roedd cwmpas y gwaith yn ymwneud â band eang cyflym iawn yn ehangach na'r disgwyl ac a gynlluniwyd ar ei gyfer yng nghyllideb 2012/13. O'r herwydd, mae rhagor o adnoddau wedi'u defnyddio ar gyfer gwneud y gwaith hwn. | | |
| Gweithredu darpariaethau sy'n ymwneud â thorri hawlfraint ar-lein yn Neddf yr Economi Ddigidol 2010 | • Ymchwil a chod drafft wedi'i gyhoeddi, yn disgwyl rhagor o gyfarwyddyd gan y Llywodraeth. | ● (green) | ● (orange) | ● (teal) | ● (teal) | 2,124 | 1,523 | 411 |
| | | | | | | Bu oedi yn y gwaith ar y maes hwn i ddechrau oherwydd adolygiad barnwrol o Ddeddf yr Economi Ddigidol. Rydym yn disgwyl i ddeddfwriaeth bwysig gael ei phasio cyn y gellir bwrw ymlaen â'r gwaith. | | |

● (green) Rydym wedi gwneud yr hyn roeddem wedi'i ddweud y byddem yn ei wneud
● (orange) Rydym yn dal i symud ymlaen at gyflawni'r flaenoriaeth
● (red) Nid ydym wedi symud ymlaen cymaint ag oeddem yn meddwl y byddem yn ei wneud
● (teal) Mae hi'n rhy gynnar asesu ein cynnydd

Sylwer: Ceir esboniad am benawdau'r colofnau ar dudalen 11. Mae gwerth y gyllideb a'r gwaith a gwblhawyd yn seiliedig ar gostau uniongyrchol gweithgareddau cysylltiedig. Caiff rhanddeiliaid eu bilio yn unol â'n Datganiad am Egwyddorion Codi Ffioedd ac nid ar gost uniongyrchol gweithgarwch yn unig.

Ein nod yw cyflawni'r amcanion ym mlaenoriaethau ein Cynllun Blynyddol. Mae'r adran hon yn egluro ein perfformiad wrth gymharu â'r blaenoriaethau hyn ac yn rhoi manylion ein hamcanion, pa gamau roeddem wedi'u cymryd a beth oedd y canlyniadau i ddefnyddwyr.



## Ein hamcan

### Sicrhau cystadleuaeth effeithiol yn y marchnad-oedd ffôn llais a chysylltedd busnes a diogelu defnyddwyr terfynol

Mae gwasanaethau ffôn llais sefydlog, neu linellau tir, yn cael eu darparu yn y DU gan amrywiaeth o wahanol gwmnïau, sydd un ai'n defnyddio'u rhwydwaith eu hunain neu rwydwaith darparwr arall i gyflenwi cwsmeriaid o dan gytundeb cyfanwerthu. Mae hyn yn bwysig oherwydd mae'n gadael i ddefnyddwyr brynu gwasanaethau llinell dir oddi wrth ddarparwyr gwahanol.

Mewn cyferbyniad, mae 'llinellau ar brydles' yn gysylltiadau capasiti uchel sy'n darparu lled band rhwng lleoliadau sefydlog. Mae ganddynt rôl bwysig yng nghyfathrebiadau busnesau yn y sectorau preifat a chyhoeddus, yn ogystal â darparu capasiti ar gyfer darparwyr gwasanaethau rhyngrwyd. Mae gan linellau ar brydles hefyd rôl bwysig yn trawsyrru traffig band eang symudol, sy'n dod yn fwyfwy pwysig wrth i fwy o ddata gael eu cludo dros rwydweithiau symudol.

O dan ein dyletswyddau statudol, dechreusom adolygu'r ddwy farchnad bwysig hyn yn 2012 i wneud yn siŵr eu bod yn gystadleuol ac i ganfod unrhyw newidiadau y gall fod angen eu gwneud i'r broses reoleiddio.

#### Beth wnaethom ni

Rhoesom adolygiad o'r marchnadoedd band cul sefydlog ar waith – galwadau ffôn llais llinellau tir, ynghyd â'r gwasanaethau cyfanwerthu sy'n eu gwneud yn bosibl – a chyhoeddi ein casgliadau dros dro. Gwnaethom ganfod bod teleffoni llais manwerthol, nad yw bellach yn destun rheoleiddio, yn dal yn hynod gystadleuol. Gwelsom hefyd fod gan BT bŵer marchnad sylweddol wrth ddarparu ar gyfer cychwyn galwadau cyfanwerthol – y farchnad ar gyfer caniatáu i gwsmeriaid wneud galwad – ymhob rhan o'r DU heblaw Hull, a gwnaethom gynnig rheoli ffioedd fel ateb priodol.

Ar wahân, gwnaethom agor a chwblhau'r *Adolygiad o'r Farchnad Cysylltedd Busnes* (BCMR), a oedd yn ymchwilio i'r llinellau ar brydles sy'n darparu cysylltiadau cyflymder uchel hanfodol rhwng ysgolion, prifysgolion, llyfrgelloedd a chyrff cyhoeddus eraill.

Gwelsom fod gan BT bŵer marchnad sylweddol yn y farchnad gymharol newydd ond sy'n tyfu'n gyflym ar gyfer lled band uchel iawn, gwasanaethau llinellau ar brydles cyfanwerthol ar gyflymderau dros 1Gbit/s, ymhob rhan o'r DU heblaw Llundain a Hull. Penderfynon ni gynnal ac ymestyn rhywfaint o'r rheoleiddio presennol ar BT, ond hefyd i reoleiddio'n llai llym – yn bennaf ar ffurf terfynau pris diogelu – yn ardal Llundain, lle mae BT yn wynebu mwy o gystadleuaeth oddi wrth ddarparwyr eraill.

#### Canlyniad

Er gwaetha'r twf mewn gwasanaethau symudol ac ar-lein, mae miliynau ohonom yn dal i wneud a derbyn galwadau ffôn drwy linellau tir. Mae hyrwyddo cystadleuaeth rhwng y darparwyr cyfathrebiadau sy'n cynnig galwadau llinell dir yn dal yn rhan bwysig o'n gwaith. Bydd yr adolygiad o fand cul sefydlog yn dod i ben yn ystod haf 2013. Bwriad ein penderfyniadau fydd sicrhau bod defnyddwyr yn parhau i fanteisio ar wasanaethau llais llinell dir fforddiadwy.

Dros y blynyddoedd nesaf, bydd ein penderfyniadau yn arwain at brisiau is yn y segment llinellau ar brydles sy'n tyfu gyflymaf, Ethernet. Mewn cyferbyniad, rydym wedi penderfynu y dylid caniatáu i brisiau gynyddu ar gyfer yr hen linellau ar brydles sy'n lleihau ac sy'n defnyddio technoleg 'rhyngwyneb traddodiadol'. Dylai ein penderfyniad ar linellau Ethernet ysgogi cystadleuaeth, gan helpu i sicrhau bod gan y DU sylfaen o rwydweithiau busnes cyflymder uchel sy'n gallu cefnogi cwmnïau a gwasanaethau defnyddwyr hefyd. Er nad yw defnyddwyr o reidrwydd yn gwybod hynny, mae band eang cyflym iawn a ffrydio fideo symudol yn dibynnu ar linellau ar brydles i'w darparu, felly bydd defnyddwyr yn elwa yn y pendraw.



## Ein hamcan

### Hybu cystadleuaeth a buddsoddiad i gyflenwi band eang cyflym iawn

Bu buddsoddiad sylweddol mewn rhwydweithiau band eang dros y degawd diwethaf, sydd wedi arwain at gystadleuaeth iach, nifer mawr o ddefnyddwyr yn defnyddio'r dechnoleg a chynnydd rheolaidd mewn cyflymder band eang. Fodd bynnag, mae angen newid mawr yn y dechnoleg er mwyn sicrhau bod cyflymderau band eang yn cynyddu rhagor, a bydd hyn yn gofyn am fuddsoddiad newydd sylweddol. Ein nod yw darparu fframwaith rheoleiddio sy'n rhoi hyder i ddarpar fuddsoddwyr, gan eu galluogi i gyflwyno achos dros ddarparu rhwydweithiau cyflym iawn newydd. Ar yr un pryd, rydym am alluogi cystadleuaeth yn y farchnad band eang cyflym iawn sy'n datblygu er mwyn i ddefnyddwyr allu manteisio ar ddewis o wasanaethau a darparwyr.

#### Beth wnaethom ni

Yn 2010, cyflwynasom fframwaith rheoleiddio i helpu i sefydlu band eang cyflym iawn. Mae'n dal ar waith heddiw.

Er mwyn gadael i ddarparwyr eraill gystadlu i gyflenwi band eang cyflym iawn manwerthol, rhaid i BT gynnig 'rhith' fynediad wedi'i ddadfwndelu i'w rwydwaith ffibr cyflym iawn. Mae rhithddadfwndelu ar gael ymhob man lle mae gan BT rwydwaith cyflym iawn. Ar hyn o bryd, rydym yn disgwyl i'r rhan fwyaf o gwmnïau ddefnyddio hyn wrth ddarparu band eang cyflym iawn, yn hytrach na buddsoddi yn eu rhwydweithiau eu hunain.

Rhaid i BT hefyd ddarparu mynediad i'w bibelli tanddaearol a'i bolion telegraff er mwyn rhoi'r opsiwn i gwmnïau eraill fuddsoddi yn eu rhwydweithiau band eang cyflym iawn eu hunain.

Rhan allweddol o'n dull o reoleiddio yw rhoi hyblygrwydd prisio i gwmnïau sydd yn buddsoddi mewn rhwydweithiau band eang cyflym iawn newydd. Mae hyn yn cydnabod natur newydd y math hwn o fuddsoddiad a'r risg sy'n gysylltiedig. Hefyd, credwn fod band eang cyflym iawn a'r gwasanaethau band eang ar sail copr cenhedlaeth bresennol yn yr un farchnad ar hyn o bryd. Mewn termau real, mae hyn yn golygu y cyfyngir ar brisiau gwasanaethau cyflym iawn gan brisiau'r dewis amgen ar sail copr.

Rydym hefyd yn parhau i fonitro argaeledd y gwasanaethau a'r nifer sy'n manteisio arnynt. Bydd y canlyniadau yn cael eu cyhoeddi drwy ymchwil rheolaidd megis yr *Adroddiad Seilwaith* ac *Adroddiadau'r Farchnad Gyfathrebiadau.*

Yn unol â'r Fframwaith Ewropeaidd ar gyfer cyfathrebiadau electronig, rydym wedi dechrau ein hadolygiad o'r marchnadoedd mynediad lleol, band eang a llais sefydlog cyfanwerthol ac rydym wrthi'n ymgynghori ar y rhain.

#### Canlyniad

Mae gosod a mabwysiadu gwasanaethau band eang cyflym iawn yn parhau'n gyflym. Rydym yn amcangyfrif bod gwasanaethau band eang cyflym iawn ar gael i dros 65% o adeiladau'r DU a bod dros 15 y cant o gwsmeriaid band eang bellach yn cymryd gwasanaeth cyflym iawn, gyda chyflymderau o 30Mbit/s neu fwy.

Mae BT yn parhau i fuddsoddi yn y defnydd o fynediad cenhedlaeth nesaf. Bellach, mae dros 15 miliwn o adeiladau'n cael eu pasio, gydag oddeutu 1.3 miliwn wedi'u cysylltu. Gydag ôl-troed o 19 miliwn o adeiladau yn yr arfaeth, mae BT ran o'r ffordd drwy ei fuddsoddiad £2.5 biliwn yn y rhwydweithiau cenhedlaeth nesaf i ddarparu gwasanaethau band eang cyflym iawn, a disgwylir i'r gwaith gael ei gwblhau erbyn Mawrth 2014.

Mae Virgin Media yn parhau i fuddsoddi yn ei rwydwaith cebl a chynyddu'r cyflymderau band eang y mae'n eu darparu i'w gwsmeriaid. O ran ei 4.3 miliwn o gwsmeriaid band eang, mae dros hanner (2.5 miliwn) yn cael cyflymder o 30Mbit/s neu fwy erbyn hyn, o'i gymharu â 17 y cant flwyddyn yn ôl.

Mae cyflymder band eang cyfartalog y DU wedi bod yn codi yn sgil y cynnydd yn y nifer sy'n defnyddio gwasanaethau cyflym iawn ac, erbyn hyn, y cyflymder cyfartalog yw 12Mbit/s, 58 y cant o gynnydd mewn blwyddyn.

# Ein hamcan

## Arwerthu bandiau sbectrwm 800 MHz a 2.6 GHz

Eleni cynhaliodd Ofcom yr arwerthiant mwyaf erioed o sbectrwm ar gyfer gwasanaethau symudol yn y DU, gan baratoi'r ffordd ar gyfer cyflwyno nifer o rwydweithiau 4G cenhedlaeth nesaf, a fydd o fudd i ddefnyddwyr a busnesau ledled y DU.

'Sbectrwm' yw'r tonnau awyr sy'n cael eu defnyddio ar gyfer gwasanaethau di-wifr, fel teledu, radio a ffonau symudol. Mae'n adnodd gwerthfawr oherwydd mae'n gyfyngedig. Roedd yr arwerthiant yn cynnig yr hyn sy'n cyfateb i dri chwarter y sbectrwm symudol sy'n cael ei ddefnyddio heddiw ar draws ddau fand amledd gwahanol, 800 MHz a 2.6 GHz. Roedd hyn oddeutu 80 y cant yn fwy na'r hyn a ryddhawyd yn yr arwerthiant 3G a gynhaliwyd yn 2000.

Mae'r band 800 MHz amledd is yn rhan o'r 'difidend digidol', sy'n ddelfrydol ar gyfer darpariaeth symudol. Mae'r band amledd uwch 2.6 GHz yn ddelfrydol ar gyfer darparu'r capasiti sy'n ofynnol i ddarparu cyflymderau uwch.

Mae'r cyfuniad hwn o sbectrwm amledd isel ac uchel yn creu'r potensial ar gyfer darparu gwasanaethau band eang symudol 4G yn eang ar draws y DU, gan gynnig hefyd y gallu i ymdopi â llawer o alw mewn canolfannau trefol.

### Beth wnaethom ni

Rhwng Ionawr a Mawrth 2012, ymgynghorodd Ofcom ar ei gynigion ar sut y dylai sbectrwm gael ei arwerthu. Roedd yr ymatebion a gawsom i'r ymgynghoriad hwn a'r dystiolaeth a gyflwynwyd, ynghyd â dadansoddiad pellach gan Ofcom, wedi ein helpu i fireinio ffurf yr arwerthiant.

Ym mis Gorffennaf 2012, cyhoeddasom ein datganiad yn rhoi manylion ffurf yr arwerthiant a'r mesurau a gymerwyd i sicrhau canlyniad cadarnhaol i ddefnyddwyr y DU. Cadwodd Ofcom ychydig bach o sbectrwm yn yr arwerthiant ar gyfer pedwerydd cwmni, gan gredu y bydd defnyddwyr yn cael gwasanaethau gwell a phrisiau is os oes o leiaf pedwar cyfanwerthwr cenedlaethol credadwy ar gyfer gwasanaethau symudol 4G. Hefyd, i sicrhau bod gwasanaethau band eang symudol 4G ar gael yn eang, cysylltodd Ofcom ddyletswydd i ddarparu derbyniad o dan do o 98 y cant (95 y cant ymhob un o wledydd y DU) ar un o lotiau'r sbectrwm 800 MHz i'w arwerthu.

Ym mis Awst 2012, cymeradwyodd Ofcom gais gan Everything Everywhere (EE) i ddefnyddio'r sbectrwm 1800 MHz sydd eisoes ganddo i ddarparu gwasanaethau 4G. Penderfynon y byddai'r amrywiad yn nhrwydded EE, sy'n awdurdodi gwasanaethau LTE (4G i bob pwrpas) o 11 Medi 2012, yn helpu i ddarparu buddion sylweddol i ddefnyddwyr, ac nad oedd perygl mawr y byddai'r buddion hynny'n cael eu colli drwy i gystadleuaeth gael ei hystumio. Lansiodd EE wasanaethau 4G ym mis Hydref 2012.

Gofynnodd Ofcom am geisiadau ar gyfer yr arwerthiant ar 11 Rhagfyr 2012. Cyhoeddwyd rhestr o'r saith ymgeisydd cymwys naw diwrnod yn ddiweddarach. Dechreuodd yr arwerthiant ar 17 Ionawr, a daeth y brif ran i ben oddeutu bum wythnos yn ddiweddarach. Rhoddodd Ofcom drwyddedau i ddefnyddio'r sbectrwm i'r ymgeiswyr llwyddiannus ar 1 Mawrth 2013.

### Canlyniad

Cyflawnodd yr arwerthiant bwrpas Ofcom o hybu cystadleuaeth gref yn y farchnad symudol 4G drwy sicrhau pum ymgeisydd llwyddiannus. Disgwylir i hyn arwain at gyflymderau band eang symudol gwell, prisiau is, mwy o arloesi, buddsoddiad newydd a darpariaeth well ar gyfer defnyddwyr dros y blynyddoedd nesaf.

Mae cynnwys dyletswydd i ddarparu'n golygu y bydd y ddarpariaeth 4G yn ymestyn ymhell y tu hwnt i'r gwasanaethau 3G presennol, gan ddarparu ar gyfer 98 y cant o boblogaeth y DU o dan do – a hyd yn oed mwy yn yr awyr agored – sy'n newyddion da i rannau o'r wlad nad ydynt yn cael gwasanaeth band eang symudol da iawn ar hyn o bryd, ac yn golygu bydd y cyfan bron o boblogaeth y DU yn gallu derbyn gwasanaethau symudol 4G erbyn diwedd 2017 fan bellaf.


Roedd y pump ymgeisydd llwyddiannus yn cynnwys y pedwar cyfanwerthwr cenedlaethol presennol sy'n darparu gwasanaethau symudol yn y DU yn ogystal â Niche Spectrum Ventures Ltd (is-gwmni i BT) a enillodd sbectrwm yn y band 2.6 GHz. Telefonica, sy'n rhedeg y brand symudol O2 yn y DU, enillodd y sbectrwm gyda'r ddyletswydd i ddarparu ynghlwm. Rhagwelwn y bydd gwasanaethau i ddefnyddwyr yn cael eu lansio yn ystod haf 2013 – yn gynt na'r amser a nodwyd yn wreiddiol, o ganlyniad i'n llwyddiant yn clirio'r sbectrwm (gweler tudalen 18).

Mae'r gwerth a ddarperir gan sbectrwm 4G yn fwy na'r swm a godwyd yn yr arwerthiant (£2.368 biliwn); rydym yn amcangyfrif y bydd gwasanaethau 4G yn darparu o leiaf £20 biliwn o fuddion i ddefnyddwyr (y 'gwarged defnyddwyr') dros y deg mlynedd nesaf.

Tua diwedd 2013, bwriadwn gynnal ymchwil i fesur perfformiad rhwydweithiau 3G a 4G, fesul cwmni, i helpu defnyddwyr i wneud penderfyniadau prynu ar sail gwybodaeth ac i ddeall yn well y manteision o ran perfformiad gwasanaethau 4G o'i gymharu â rhai 3G. Disgwylir cyhoeddi'r canlyniadau yn ystod gwanwyn 2014.







## Ein hamcan

### Clirio sbectrwm yn amserol er mwyn gallu rhoi dyfarniadau newydd, gan liniaru materion sy'n ymwneud â chydfodoli

Cyn y gall gweithredwyr symudol ddefnyddio'r sbectrwm 800 MHz a 2.6 GHz ar gyfer gwasanaethau symudol 4G, mae'n hollbwysig bod Ofcom yn sicrhau bod y sbectrwm yn cael ei glirio'n llwyr, a bod defnyddwyr sbectrwm mewn bandiau cyfagos yn gallu cydfodoli'n ddiogel gyda'u cymdogion 4G newydd.

Dau ddefnyddiwr allweddol yn y bandiau cyfagos ydy teledu daearol digidol (DTT drwy Freeview) a radar awyrenegol. Mae cyfran uchel o gartrefi'r DU yn dibynnu ar deledu daearol digidol (DTT) ar gyfer o leiaf rhywfaint o'r teledu maent yn ei wylio. Felly bydd y newidiadau i amleddau sy'n ofynnol er mwyn clirio'r band 800 MHz yn gorfod cael eu rheoli'n ofalus. Yn yr un modd, mae Ofcom wedi gorfod rhoi sylw i'r ymyrraeth bosibl â radar awyrenegol oddi wrth wasanaethau symudol yn y dyfodol yn y band 2.6 GHz.

### Beth wnaethom ni

Rhwng mis Chwefror a mis Ebrill 2012, roedd Ofcom wedi ymgynghori ar sut i ddiogelu gwylwyr presennol teledu daearol digidol rhag ymyriant gan fand eang symudol 4G. Roedd hyn yn dilyn penderfyniadau'r Llywodraeth ar y ffordd y dylai cydfodoli gael ei reoli, gan gynnwys mesur i ddyrannu £180m, i'w ddarparu gan y rhai a enillodd y trwyddedau sbectrwm 800 MHz, ar gyfer ariannu ffyrdd o ddatrys ymyriant â signalau teledu, gan gynnwys y defnydd o hidlyddion. Penderfynodd y llywodraeth hefyd y byddai'r cynllun hwn yn cael ei reoli gan gwmni, Digital Mobile Spectrum Limited (DMSL), a sefydlwyd gan y cwmnïau symudol a enillodd y sbectrwm 800 MHz.

Ym mis Gorffennaf 2012, cyhoeddodd y Llywodraeth ddogfen a oedd yn cadarnhau'r penderfyniadau a gymerwyd ym mis Chwefror a darparodd rhagor o eglurder hefyd. Ymysg pethau eraill, penderfynodd helpu'r cartrefi hynny sy'n debygol o gael y trafferth mwyaf yn gosod hidlydd. DMSL, sy'n defnyddio'r brand defnyddiwr "at800" sy'n gyfrifol am gydlynu'r cyfryw gymorth.

Ar ôl gwneud rhagor o waith, cyfrannodd Ofcom at y gwaith o sefydlu'r fframwaith i fesur perfformiad DMSL i sicrhau bod defnyddwyr yn cael cymorth sylweddol. Mae'r telerau hyn i'w cael yn y trwyddedau a ddarparwyd pan gwblhawyd yr arwerthiant.

### Canlyniad

Dros y flwyddyn ddiwethaf, mae Ofcom wedi cymryd sawl cam i gyflymu'r broses o glirio sbectrwm i sicrhau y bydd y sbectrwm 4G ar 800 MHz a 2.6 GHz ar gael cyn gynted ag y bo modd.

Yn dilyn trafodaethau gyda darlledwyr teledu, Digital UK a'r cwmni trawsyrru Arqiva, llwyddodd Ofcom, ynghyd â'r Llywodraeth, i sicrhau bod amleddau a arferai gael eu defnyddio ar gyfer darlledu DTT yn cael eu rhyddhau'n gynnar. Daeth hyn yn bosibl oherwydd y cynnydd sylweddol a wnaethpwyd gyda'r newid i'r digidol a'r rhaglen glirio ei hun, a gafodd ei chyflawni yn gynt na'r disgwyl.

Bydd y sbectrwm hwn yn cael ei glirio a bydd yn barod ar gyfer gwasanaethau symudol 4G ar draws llawer o'r DU bum mis yn gynt na'r dyddiad bwriedig, o gyfnod y gwanwyn 2013. Felly, bydd defnyddwyr y DU yn gallu manteisio ar fand eang symudol cyflym iawn yn gynt na'r disgwyl.

## Ein hamcan

### Cyflawni gwarant sbectrwm y Llywodraeth ar gyfer Gemau Olympaidd a Gemau Paralympaidd Llundain 2012



Roedd gan Ofcom ran bwysig yn sicrhau bod Gemau Olympaidd a Gemau Paralympaidd Llundain 2012 yn llwyddiannus. Roedd pob agwedd ar y Gemau yn gwneud defnydd dwys o sbectrwm gan ddibynnu arno ar gyfer cymwysiadau critigol. Roeddem yn gyfrifol am ddod o hyd i'r sbectrwm angenrheidiol ar gyfer y Gemau; am sicrhau bod amleddau'n cael eu trwyddedu i'r rheini yr oedd eu hangen arnynt; ac am gadw'r amleddau hynny'n rhydd rhag ymyriant.

Llundain yw un o'r amgylcheddau sbectrwm mwyaf gorlawn yn y byd. Wrth ddarparu sbectrwm ar gyfer y Gemau, roedd yn hollbwysig hefyd ein bod yn cadw capasiti ar gyfer y gwasanaethau brys ac ar gyfer gwasanaethau 'busnes fel arfer' o fewn yr M25.

Ein hamcan cyffredinol oedd cyfrannu at gael Gemau diogel a llwyddiannus drwy sicrhau bod lefel ddigonol o sbectrwm yn cael ei ddarparu, heb gost ychwanegol a gyda defnyddwyr presennol yn wynebu cyn lleied â phosibl o ymyrraeth, a thrwy hynny helpu i gyflawni gwarant sbectrwm y Llywodraeth i'r Pwyllgor Olympaidd Rhyngwladol.

#### Beth wnaethom ni

Roedd y gofyniad am sbectrwm ar gyfer y Gemau yn llawer mwy nag y gallai ein trefniadau gweithredol arferol ei ddiwallu. Roedd yn bwysig bod y cyflenwad cyfyngedig o sbectrwm yn cael ei ddefnyddio'n effeithlon ac yn cael ei ddyrannu'n ofalus, i sicrhau bod yr holl ofynion yn cael eu diwallu a'r risg o ymyriant niweidiol yn cael ei leihau i'r eithaf. Dros y chwe blynedd yn arwain at y Gemau, bu Ofcom yn rheoli prosiect sylweddol o gynllunio, datblygu, profi a chyflenwi'n weithredol i wneud yn siŵr bod hyn yn digwydd.

Rhoesom bron i 6,000 o drwyddedau sbectrwm a gwneud 30,000 o aseiniadau technegol yng nghyswllt sbectrwm ar gyfer cyfnod y Gemau – bron i dair gwaith yn fwy nag mewn blwyddyn arferol.

Defnyddiasom ein rhwydwaith o synwyryddion modern i fonitro'r sbectrwm radio yn lleoliadau'r Gemau ac i helpu i ganfod unrhyw ffynonellau ymyriant yn gyflym. I leihau'r perygl o ymyriant, buom yn archwilio ac yn labelu cyfarpar di-wifr a oedd yn cael eu defnyddio yn lleoliadau'r Gemau, gan roi 60,000 o dagiau i gadarnhau bod eitemau'n bodloni amodau eu trwydded. Hefyd, defnyddiasom 100 o beirianwyr arbenigol, gan gynnwys cydweithwyr yn ein chwaer-asiantaethau mewn 10 gwlad arall yn Ewrop, i helpu i ganfod unrhyw achosion o ymyriant a'u datrys.


Tua diwedd 2012, cyhoeddasom yr hyn a ddysgwyd gennym o'r Gemau a chyfrannu at drosglwyddo'r wybodaeth hon yn ffurfiol i Rio de Janeiro, cyn Gemau 2016.

#### Canlyniad

Cyfrannodd ein cryfderau wrth reoli a chyflenwi sbectrwm yn weithredol at lwyddiant Gemau Llundain 2012 a chyfrannu at ddarparu profiad gwych i'r cyhoedd yn y DU a ledled y byd.

Roedd paratoi ar gyfer y Gemau a chyflawni ein swyddogaeth yno yn dasg heriol. Buom yn llwyddiannus yn cyflawni ein holl amcanion a darparu'r gwasanaethau gofynnol i ddefnyddwyr sbectrwm yn y Gemau ac o'u cwmpas. Cafodd yr holl ofynion o bwys am sbectrwm yn y Gemau eu diwallu; a rhoddwyd sylw i'r nifer bach o achosion o ymyriant heb i hynny gael gormod o effaith.

Roeddem yn falch o allu cyfrannu at sicrhau Gemau Olympaidd a Gemau Paralympaidd llwyddiannus iawn i'r DU. Bydd yr offer, y systemau, y prosesau a'r profiad o'r Gemau Llundain yn waddol, gan helpu Ofcom yn y dyfodol i gyflawni ein cyfrifoldebau o ddydd i ddydd ar gyfer rheoli sbectrwm yn y DU. Hefyd, byddwn yn parhau i weithio gyda chymheiriaid mewn gwledydd eraill i rannu gwybodaeth a phrofiad â'r rhai a fydd yn gyfrifol am ddigwyddiadau mawr yn y dyfodol, a byddwn yn cefnogi Gemau'r Gymanwlad yn Glasgow yn 2014.



## Ein hamcan

### Hyrwyddo dewis effeithiol i ddefnyddwyr drwy sicrhau bod gwybodaeth glir am wasanaeth, pris ac ansawdd ar gael

Mae Ofcom am wneud yn siŵr bod defnyddwyr yn cael y dewis gorau a'r gwerth gorau am arian oddi wrth eu gwasanaethau cyfathrebiadau. Er mwyn helpu defnyddwyr i wneud y dewisiadau cywir, rydym am gynnal rhaglen waith eang i sicrhau bod defnyddwyr yn gallu cael gafael ar y wybodaeth gywir a dibynadwy ddiweddaraf – rhywbeth sy'n hanfodol os ydynt am wneud penderfyniadau gwybodus wrth ystyried gwasanaeth neu ddarparwr.

#### Beth wnaethom ni

Gwnaethom gyhoeddi ddau adroddiad ar gyflymder cymharol band eang llinell sefydlog preswyl yn y DU (Awst 2012 a Mawrth 2013). Mae'r adroddiadau'n rhoi'r cyflymder go iawn cyfartalog a ddarparwyd i ddefnyddwyr yn y DU, ac roedd yn cymharu'r gwahaniaethau rhwng cyflymderau a mesurau perfformiad eraill, yn ôl darparwr gwasanaeth rhyngrwyd (ISP) ac yn ôl technoleg.

Hefyd, gwnaethom gyhoeddi ymchwil newydd ar lefelau boddhad gyda'r gwasanaeth i gwsmeriaid a ddarperir gan ddarparwyr teledu talu, llinell sefydlog, band eang a symudol. Roedd yr ymchwil yn gofyn barn miloedd o gwsmeriaid am agweddau gwahanol ar wasanaeth cwsmeriaid y darparwyr, gan gynnwys faint o amser yr oedd yn ei gymryd i ddelio â phroblemau, safon y cyngor a roddwyd ac agwedd a gallu'r sawl a oedd yn cynghori'r cwsmer.

Rydym yn parhau i gyhoeddi data cwynion bob chwarter sy'n datgelu pa rai o'r prif ddarparwyr sy'n derbyn y nifer mwyaf a lleiaf o gwynion. Yn 2012, am y tro cyntaf, roedd y data yn cynnwys darparwyr teledu talu.

#### Canlyniad

Drwy gyfrwng ein hymchwil mae defnyddwyr yn gallu cael gafael ar ddata perfformiad cymharol annibynnol ar gyfer darparwyr gwahanol yn y farchnad. Credwn fod hyn yn ysgogi darparwyr i wella perfformiad (pris, gwasanaeth, ansawdd).

Er enghraifft, mae ein hymchwil i gyflymderau band eang cyfartalog yn awgrymu bod y cyflymderau cyfartalog wedi cynyddu o 7.6Mbit/s ym mis Tachwedd 2011 i 12Mbit/s flwyddyn yn ddiweddarach, a bod canran y cysylltiadau band eang preswyl yn y categori 'cyflym iawn' (y rheini â chyflymder wedi'i hysbysebu o 'hyd at' 30Mbit/s neu fwy) wedi mwy na dyblu i 13 y cant dros yr un cyfnod.

Dengys ein harolygon boddhad welliannau bob blwyddyn mewn nifer o agweddau ar wasanaeth cwsmeriaid. Yn yr un modd, yng nghyswllt cwynion, mae perfformiad, yn gyffredinol, yn gwella. Yn ystod y flwyddyn a aeth heibio mae cyfanswm y cwynion y mae Ofcom yn eu derbyn wedi parhau i leihau. Yn benodol yn y marchnadoedd band eang a llinell sefydlog, mae gwelliannau sylweddol wedi cael eu gwneud gan y darparwyr gyda'r niferoedd uchaf cymharol o gwynion.



## Ein hamcan

### Datblygu a gweithredu polisïau a fydd yn ei gwneud yn haws newid rhwng darparwyr cyfathrebiadau

Rhaid i ddefnyddwyr allu newid rhwng darparwyr yn hawdd fel eu bod yn gallu dewis y gwasanaeth band eang neu ffôn sydd fwyaf addas i'w hanghenion.

Ond dengys ymchwil Ofcom fod defnyddwyr yn aml yn wynebu anawsterau wrth newid eu darparwr, gyda 514,000 o gartrefi'n wynebu problemau yn ystod y broses newid dros y flwyddyn ddiwethaf.

#### Beth wnaethom ni

Ym mis Chwefror 2012, cyhoeddasom ymgynghoriad a oedd yn disgrifio ein cynigion i newid y prosesau sy'n cael eu defnyddio ar hyn o bryd ar gyfer newid gwasanaethau llais sefydlog a band eang. Nid yw'r cynigion hyn yn berthnasol i gwsmeriaid cebl ar hyn o bryd. Gwnaethom esbonio yn yr ymgynghoriad mai ein hoff ddewis yw proses wedi'i chysoni, lle byddai'r darparwr newydd yn rheoli'r broses newid, gan gynnwys trosglwyddo gwasanaethau oddi wrth yr hen ddarparwr. I warchod rhag slamio, lle mae defnyddiwr yn cael ei newid i ddarparwr gwahanol heb iddo roi caniatâd, byddai'r newid yn cael ei wirio a'i ddilysu gan drydydd parti annibynnol.

Gwnaethom dderbyn nifer sylweddol o ymatebion i'r ymgynghoriad. Rydym wedi cwblhau rhagor o waith fel sail i'n hasesiad a chwmpas ein datganiad polisi, a ddylai gael ei gyhoeddi yn yr haf. Bydd hefyd yn cynnwys ymgynghori ar rai agweddau penodol a bydd hefyd yn disgrifio'r camau nesaf yng nghyswllt ein gwaith ar newid.

Mae Ofcom yn parhau i achredu gwefannau cymharu prisiau, sy'n sicrhau bod defnyddwyr yn gallu cael gafael ar wybodaeth am brisiau sy'n gywir ac yn ddibynadwy. Yn ddiweddar, rydym wedi ymgynghori ynghylch a yw'r cynllun achredu'n dal yn effeithiol ac yn berthnasol yn y farchnad sydd ohoni.

Cynhaliwyd adolygiad gennym o delerau ac amodau defnyddwyr i ganfod unrhyw ddarpariaethau a allai atal pobl rhag bod eisiau newid. Canfuom nifer o bryderon ynghylch contractau sy'n adnewyddu'n awtomatig a gwnaethom ysgrifennu at y darparwyr dan sylw i'w hatgoffa o'u dyletswyddau o dan Amod Cyffredinol 9, sy'n ymwneud â'r gofyniad i gynnig contractau gydag isafswm cyfnod. Rydym yn parhau i fonitro cydymffurfiad a byddwn yn ystyried rhagor o gamau gorfodi lle bo raid.

#### Canlyniad

Dylai ein datganiad ar y newidiadau i'r prosesau newid presennol sicrhau ei bod yn haws ac yn fwy dibynadwy i ddefnyddwyr newid darparwyr band eang a llinell sefydlog, ar yr un pryd â lleihau nifer yr achosion o slamio. Mae arnom hefyd eisiau sicrhau na fydd prosesau newid yn rhwystro darparwyr sy'n cystadlu i sicrhau manteision i bob defnyddiwr, o ran prisiau is, mwy o ddewis ac arloesedd a gwerth am arian.



## Ein hamcan

### Sicrhau y darperir gwasanaeth post cyffredinol a chanfod anghenion defnyddwyr y post

Mae arferion postio yn newid ar draws y DU, fel y mae anghenion defnyddwyr. Mae pobl yn defnyddio llai ar y gwasanaeth post i gyfathrebu wrth iddynt droi at ffyrdd eraill o gadw mewn cysylltiad, megis y rhyngrwyd, e-bost, y ffôn a thecstio. Mae'r cynnydd mewn siopa ar y we yn golygu bod defnyddwyr yn canolbwyntio'n fwy ar wasanaethau pecynnau a pharseli.

Mae defnyddwyr a busnesau'r DU yn elwa ar y 'gwasanaeth post cyffredinol' sy'n ei gwneud yn ofynnol i'r Post Brenhinol ddanfon i bob cyfeiriad yn y DU chwe diwrnod yr wythnos am brisiau unffurf a fforddiadwy.

Prif ddyletswydd Ofcom yng nghyswllt rheoleiddio'r gwasanaeth post yw cyflawni ei swyddogaethau mewn ffordd a fydd, yn ei farn ef, yn diogelu'r gwasanaeth post cyffredinol er budd defnyddwyr a defnyddwyr gwasanaethau post. Gallai cystadleuaeth o un pen i'r llall effeithio ar ddarparu gwasanaeth post cyffredinol, ac os yw Ofcom, ar sail y dystiolaeth sydd ar gael, yn ystyried bod gwasanaeth o'r fath dan fygythiad, mae ganddo'r pŵer i gymryd camau rheoleiddio i'w ddiogelu lle bo hynny'n ofynnol ac yn briodol.

Hefyd, mae gan Ofcom ddyletswydd gyfreithiol i gynnal asesiad ynghylch a yw'r gwasanaeth post yn bodloni anghenion cwsmeriaid.

### Beth wnaethom ni

Fel rhan o'n gwaith yn casglu tystiolaeth ac yn adolygu anghenion rhesymol defnyddwyr post, gwnaethom gynnal ymchwil helaeth i'r farchnad a chynnal ymgynghoriad.

Hwn oedd yr ymchwil marchnad mwyaf cynhwysfawr a gafodd ei gyhoeddi erioed gan y rheoleiddiwr ar y gwasanaeth post cyffredinol yn y DU. Roedd yn seiliedig ar gyfuniad o arolygon a thrafodaethau gyda defnyddwyr preswyl a busnesau; holwyd dros 4,000 o bobl a 1,000 o fusnesau, a chynhaliwyd gweithdai ledled y DU. Gwnaethom ofyn am farn defnyddwyr am y gwasanaeth post presennol a'r hyn y maent yn ei ddisgwyl ganddo, yn arbennig yng nghyswllt unrhyw feysydd lle mae diffygion o bosibl, neu lle nad oes angen rhai elfennau o'r gwasanaeth efallai erbyn hyn.

Yn ystod y flwyddyn, gwnaethom ymgynghori hefyd ar arweiniad drafft a oedd yn disgrifio ein dull o asesu'r angen am ymyrraeth reoleiddiol yng nghyswllt cystadleuaeth o un pen i'r llall yn y sector post, ond gan fod yn ymwybodol o oblygiadau posibl cystadleuaeth o'r fath ar gyfer y gwasanaeth cyffredinol.

Yn 2012/13, gwnaethom ymgynghori ar ein cynnig ar gyfer amddiffyniadau newydd i sicrhau bod pawb yn gallu defnyddio blychau post yn lleol ledled y DU, gan gynnwys y rheini mewn cymunedau gwledig.

### Canlyniad

Ym Mawrth 2013, yn unol â'n dyletswyddau, gwnaethom amlinellu mesurau i ddiogelu'r gwasanaeth post cyffredinol. Daethom i'r casgliad na ddylem wneud unrhyw newidiadau i gwmpas y gwasanaeth post cyffredinol. Gwnaethom ymgynghori hefyd ar amddiffyniad newydd rhag cael gwared â blychau post mewn ardaloedd gwledig. Cyhoeddasom arweiniad hefyd ar sut y byddem yn asesu effaith bosibl cystadleuaeth ar y gwasanaeth post cyffredinol a'r camau i'w cymryd os bydd cystadleuaeth yn dod yn fygythiad i'w gynaliadwyedd. Yn olaf, gwnaethom ymrwymiad i gynnal adolygiad o effaith cystadleuaeth o un pen i'r llall ar y gwasanaeth post rywbryd ddiwedd 2015, os na fydd ein gwaith monitro ar ddatblygiadau yn y farchnad wedi arwain eisoes at adolygiad llawn.

## Ein hamcan

### Asesu'r gwasanaethau cyfathrebu a ddarperir yn y gwledydd

Mae argaeledd ac ansawdd gwasanaethau cyfathrebu'n amrywio ledled y DU. Mae hyn yn bwysig oherwydd bod cyfathrebiadau digidol yn cael eu hintegreiddio fwyfwy mewn bywyd bob dydd. Mae gwasanaethau cyfathrebu'n darparu adnoddau gwleidyddol, addysgol, diwylliannol ac economaidd hanfodol i ddefnyddwyr. Maent yn rhoi cyfle i fusnesau wella effeithlonrwydd, datblygu gwasanaethau newydd, a chyrraedd marchnadoedd newydd. Ac maent yn gwneud dulliau newydd a mwy effeithiol o ddarparu gwasanaethau cyhoeddus i ddinasyddion yn bosibl.

Fel y rheoleiddiwr, rydym yn awyddus i gefnogi datblygiad marchnadoedd cystadleuol sy'n gweithredu'n dda, sy'n helpu i ddarparu buddion i ddefnyddwyr ar ffurf prisiau is ac ansawdd a dewis gwell, yn ogystal ag arloesedd gan ddarparwyr.

Lle nad yw marchnadoedd yn darparu'r canlyniadau gorau i gymdeithas yn gyffredinol, gall y wladwriaeth, ar ffurf cyrff cyhoeddus gwahanol, ymyrryd i helpu i ymestyn y gwasanaethau cyfathrebu sydd ar gael y tu hwnt i'r hyn y byddai'r farchnad ei hun yn ei ddarparu.

Mae gan Ofcom ddyletswydd i sicrhau bod amrywiaeth eang o wasanaethau cyfathrebu electronig, teledu a radio ar gael yn eang ledled y DU, yn ogystal â gwasanaeth post cyffredinol. Ac er nad yw'r gallu gennym i gyflawni'r ddyletswydd hon yn uniongyrchol drwy roi arian cyhoeddus, mae gennym rai dulliau pwysig at ein defnydd, gan gynnwys, er enghraifft, y gallu i osod rhwymedigaethau darpariaeth (coverage obligations) ar drwyddedau symudol.



#### Beth wnaethom ni

Penderfynasom asesu'r gwasanaethau cyfathrebu a ddarperir yn y gwledydd – Cymru, Lloegr, Gogledd Iwerddon a'r Alban – er mwyn deall sut a pham mae'r gwasanaethau cyfathrebu sydd ar gael yn amrywio ledled y DU, a sut y gellid gwella hyn.

Cyhoeddasom ein canfyddiadau yn *Argaeledd Gwasanaethau Cyfathrebu yn y DU*, sy'n archwilio argaeledd chwe gwasanaeth cyfathrebu ar draws y DU: teleffoni sefydlog, band eang sefydlog, symudol (llais a data), teledu digidol, radio a phost.

Mae'r adroddiad yn defnyddio data i gymharu'r argaeledd ar gyfer y DU i gyd, ar gyfer gwledydd y DU ac ar gyfer rhanbarthau Lloegr, gan gynnwys dadansoddiad newydd ar argaeledd ar gyfer categorïau trefol, lled-drefol a gwledig yr ardaloedd hynny.

Fel rhan o'r adroddiad, ystyriasom hefyd astudiaethau achos presennol yn y sector cyfathrebu, gan ddefnyddio gwaith a gomisiynwyd gennym a oedd yn edrych ar amrywiaeth o ymyriadau cyhoeddus – yn bennaf yn y DU ond mewn mannau eraill hefyd yn Ewrop – i ddwyn sylw at yr her o ddarparu gwasanaethau na fyddent fel arall yn fasnachol ddichonadwy ar sail annibynnol.

#### Canlyniad

Mae ein hymchwil yn dangos amrywiadau helaeth yn argaeledd gwasanaethau cyfathrebu ledled y DU yn ôl cenedl a rhanbarth. Mae gwasanaethau post a ffôn llinell dir yn destun rhwymedigaethau gwasanaeth cyffredinol ac felly maent ar gael ledled y DU gyfan bron. Mae teledu lloeren digidol a radio analog hefyd ar gael ym mhobman bron, ac mae darllediadau gwasanaeth cyhoeddus ar gael i raddau helaeth ar deledu daearol digidol (DTT) gan fod y trosglwyddo i'r digidol wedi'i gwblhau bellach. Fodd bynnag, mae argaeledd gwasanaethau band eang, symudol (gwasanaethau llais a data) a radio digidol DAB yn amrywio llawer mwy.

Mae argaeledd yr holl wasanaethau'n dda mewn ardaloedd trefol ym mhedair gwlad y DU, ac yn aml ar gael i bawb bron. Nid yw lleoliadau gwledig yn cael eu gwasanaethu gystal, weithiau'n sylweddol is. Mae hyn yn wir yn Lloegr, y tu allan i Lundain Fwyaf. Ond, yn gyffredinol, mae llai o wasanaethau cyfathrebu ar gael i safleoedd yn yr Alban a Chymru, ac yn fwy byth yng Ngogledd Iwerddon.






## Ein hamcan

### Ystyried dulliau gweithredu ar gyfer rheoleiddio cynnwys yn y dyfodol, gan gynnwys adolygu'r gwaith o reoleiddio fideo ar alwad

Mae argaeledd cynyddol gwasanaethau ar alwad yn golygu y gall defnyddwyr wylio cynnwys clywedol bryd bynnag a lle bynnag y dymunant. Mae technolegau fel teledu protocol rhyngrwyd (IPTV) a theledu ar-lein yn gwneud y gwaith o gael gafael ar raglenni ar-alwad yn gynyddol haws i'r gwylwyr.

Mae gwasanaethau ar alwad yn cael eu cydreoleiddio gan Ofcom ac ATVOD (Authority for Television on Demand), i sicrhau bod y cynnwys ar alwad y mae gwylwyr yn ei wylio yn cadw at safonau. Gwaith Ofcom yw sicrhau bod gwasanaethau rhaglenni ar alwad yn glynu wrth safonau sylfaenol, megis diogelu plant a phobl ifanc rhag unrhyw ddeunydd a allai achosi niwed difrifol iddynt.

Penderfynodd Ofcom ar ATVOD fel y cyd-reoleiddiwr yng nghyswllt gwasanaethau rhaglenni ar alwad yn 2010. Mae Ofcom yn cadw pwerau ôl-stop fel rheoleiddiwr cydredol, gan gynnwys y pŵer i gosbi gwasanaethau rhaglenni ar alwad sy'n torri rheolau ATVOD ac i wneud y penderfyniad terfynol ynghylch pa wasanaethau ddylai fod o fewn cwmpas y rheoliadau.

### Beth wnaethom ni

Gwnaethom adolygu dynodiad ATVOD fel y cydreolydd ar gyfer gwasanaethau fideo ar alwad er mwyn sicrhau effeithiolrwydd cyffredinol y rheoliadau a'r system. Ar ôl ymgynghori ac adolygu perfformiad ATVOD, canfu Ofcom fod ATVOD wedi cyflawni ei swyddogaethau ac wedi cyflawni ei ddyletswyddau'n foddhaol.

Ym mis Medi 2012, cafodd ATVOD ei ailgadarnhau gan Ofcom fel y cydreolydd ar gyfer gwasanaethau ar alwad. Wedi hynny, cyfeiriodd ATVOD nifer o ddarparwyr cynnwys oedolion am dorri ei reolau a'i ganllawiau. Gosododd Ofcom sancsiynau ar dri o'r darparwyr hynny yn 2012/13 am fethu â diogelu plant a phobl ifanc yn ddigonol. Arweiniodd hyn at gosbau ariannol o £160,000. Gwnaethom hefyd gwblhau saith apêl yn erbyn penderfyniadau cwmpas ATVOD.

Gwnaethom hefyd:

- gyhoeddi gweithdrefnau newydd sy'n berthnasol i'r ffordd y byddwn yn ystyried ac yn gosod sancsiynau ar ddarparwyr gwasanaethau;
- cyhoeddi gweithdrefnau newydd sy'n berthnasol i'r ffordd y byddwn yn delio ag apeliadau am benderfyniadau ATVOD ynghylch pwy sy'n destun rheoleiddio; a
- cynnal a chyhoeddi ymchwil i'n helpu i ddeall sut mae defnyddwyr yn dewis pa wasanaethau i'w gwylio a'u disgwyliadau ynghylch rheoleiddio'r gwasanaethau hynny.

### Canlyniad

Mae fframwaith cadarn ar gyfer rheoleiddio fideo ar alwad yn dal ar waith ac mae'n darparu sicrwydd priodol i gynulleidfaoedd. Mae'r trefniadau hefyd yn rhoi mwy o sicrwydd i ddarparwyr gwasanaethau.

Mae Ofcom yn parhau i ddatblygu ei ddealltwriaeth o bwy sy'n destun rheoleiddio gan ATVOD yn y diwydiant hwn sy'n esblygu'n ddeinamig. Rydym hefyd, ar y cyd â chyrff rheoleiddio eraill a drwy ein gwaith gyda Chyngor Diogelwch Plant ar y Rhyngrwyd y DU (UKCCIS), wedi gweithio i helpu i ddiogelu plant yn yr amgylchedd ar-lein.

## Ein hamcan

### Cynghori'r Llywodraeth ar fesur lluosogrwydd yn y cyfryngau a chyfrannu at Ymchwiliad Leveson



Mae lluosogrwydd yn y cyfryngau'n bwysig gan ei fod yn helpu i gynnal cymdeithas ddemocrataidd, drwy sicrhau bod dinasyddion yn cael amrywiaeth eang o safbwyntiau a thrwy atal un perchennog cyfryngau neu gwmni rhag cael gormod o ddylanwad dros brosesau gwleidyddol.

Ym mis Hydref 2011, gofynnodd Jeremy Hunt, yr Ysgrifennydd Gwladol dros Ddiwylliant, y Gemau Olympaidd, y Cyfryngau a Chwaraeon bryd hynny, i ystyried ymarferoldeb mesur lluosogrwydd y cyfryngau ar draws llwyfannau ac i argymell y dull gorau o weithredu.

Roedd y cais yn dilyn gwaith Ofcom yn ystyried lluosogrwydd yng nghyswllt trafodiad busnes arfaethedig NewsCorp/BSkyB, a oedd wedi awgrymu y gallai fod angen adolygu ac, o bosibl, ddiwygio'r fframwaith presennol ar gyfer ystyried lluosogrwydd.

Gofynnodd yr Ysgrifennydd Gwladol inni hefyd roi ein cyngor i Ymchwiliad Leveson erbyn Mehefin 2012.

#### Beth wnaethom ni

Cyhoeddasom ein cyngor annibynnol ar fesur lluosogrwydd yn y cyfryngau ym mis Mehefin 2012. Yn yr adroddiad hwn, gwnaethom ymateb i bump cwestiwn ar luosogrwydd yn y cyfryngau a ofynnodd yr Ysgrifennydd Gwladol inni, ar ôl diffinio'r nodau sylfaenol a chwmpas lluosogrwydd i ddechrau.

Fel rhan o'n hadolygiad, gwnaethom gomisiynu ymchwil defnyddwyr a dadansoddiad gan y diwydiant i'r gadwyn gwerth newyddion. Gwnaethom hefyd adolygu'r farn academaidd ar sawl agwedd ar luosogrwydd.

Rhoesom gyngor i Ymchwiliad Leveson ym mis Mehefin 2012 a chyfrannu at Adolygiad Cyfathrebiadau'r Llywodraeth. Rhoesom dystiolaeth hefyd i ymchwiliad Pwyllgor Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon Senedd y DU i luosogrwydd yn y cyfryngau.

Yn dilyn cyflwyno ein cyngor annibynnol, gofynnodd yr Ysgrifennydd Gwladol am ragor o gyngor gennym, ar ffurf atebion i saith cwestiwn atodol. Roedd y rhan fwyaf o'r cwestiynau hyn yn ymwneud â'r cwestiynau a atebwyd yn ein hadroddiad ym mis Mehefin 2012 neu â rhoi ein hargymhellion ar waith yn ymarferol. Anfonwyd cyngor atodol Ofcom at yr Ysgrifennydd Gwladol newydd, Maria Miller, ym mis Medi 2012, ac i Ymchwiliad Leveson.

Rhoesom dystiolaeth i Ymchwiliad Leveson fel rhan o'i broses ffurfiol o gasglu tystiolaeth. Gofynnodd yr Arglwydd Ustus Leveson i Ofcom sut y gellid rheoleiddio'r wasg mewn ffordd sy'n gwarchod ei annibyniaeth a'r hawliau i ryddid mynegiant. Cyflwynasom ein safbwyntiau i'r Ymchwiliad ym mis Ebrill a Mehefin 2012. Rhoddodd Colette Bowe ac Ed Richards dystiolaeth lafar i'r Ymchwiliad ym mis Gorffennaf 2012 i ateb rhagor o gwestiynau am ein safbwyntiau. Cafodd Adroddiad yr Arglwydd Ustus Leveson i Ddiwylliant, Arferion a Moeseg y Wasg ei gyhoeddi ar 29 Tachwedd 2012.

#### Canlyniad

Cyhoeddasom ein safbwyntiau ar luosogrwydd yn y cyfryngau a'n cyngor i'r Senedd mewn dau adroddiad ar wahân (ym Mehefin a Hydref 2012) a mater i'r Senedd bellach yw penderfynu a ddylid bwrw ymlaen â hyn, a sut.

Roeddem yn argymell y dylid cael adolygiad cyfnodol o luosogrwydd yn y cyfryngau newyddion bob pedair neu bum mlynedd, gan ystyried pob llwyfan (teledu, radio, y wasg ac ar-lein). Drwy hyn gellid ystyried ffactorau heblaw effaith cwmnïau'n uno ar luosogrwydd, megis twf organig cwmnïau a datblygiadau ehangach yn y farchnad.

Hefyd, yn sgîl ein hymchwil, daethom i'r casgliad fod fframwaith effeithiol ar gyfer mesur lluosogrwydd yn y cyfryngau'n debygol o fod yn seiliedig ar ddadansoddiad a thystiolaeth feintiol, lle bo hynny'n ymarferol, gan gynnwys ond heb ei gyfyngu i argaeledd a'r defnydd o gynnwys y cyfryngau, ac effaith y cynnwys hwnnw. Yn bwysicach na dim yw'r metrigau defnyddio, yn enwedig, cyrhaeddiad, cyfran a defnyddio sawl ffynhonnell. Fodd bynnag, mae rhai meysydd yn gofyn am gael barn ar lefel uchel sydd, yn ein barn ni, yn fater i'r Senedd yn y pendraw.



## Ein hamcan

### Gweithio ar y cyd gyda'r Llywodraeth a'r diwydiant i hyrwyddo band eang cyflym iawn yn eang a lleihau mannau di-gyswllt symudol

Mae seilwaith cyfathrebiadau'r DU yn newid yn sydyn, o ganlyniad i ddatblygiad sydyn defnydd defnyddwyr o wasanaethau cyfathrebu a'r buddsoddiad gan ddarparwyr oherwydd hynny.

Heddiw, mae 10 y cant o gysylltiadau band eang sefydlog y DU yn darparu cyflymderau o lai na 2Mbit/s ac mae canran fechan o gartrefi o hyd nad ydynt â darpariaeth symudol ar gyfer gwasanaethau llais 2G.

Mae'r Llywodraeth wedi ymrwymo i sicrhau, erbyn 2015, y bydd bron pob eiddo yn y DU yn gallu cael gwasanaeth band eang sylfaenol o 2MBit/s o leiaf, drwy ei Ymrwymiad Gwasanaeth Cyffredinol. Mae ganddi uchelgais hefyd y dylai'r DU gael y rhwydwaith band eang cyflym iawn gorau o blith prif wledydd Ewrop erbyn 2015.

Ar wahân i hynny, mae'r Llywodraeth, drwy ei Phrosiect Seilwaith Symudol (MIP), wedi ymrwymo £150 miliwn i wella'r ddarpariaeth symudol mewn ardaloedd lle mae'r ddarpariaeth yn wael neu lle nad oes dim darpariaeth o gwbl ar hyn o bryd. Nod MIP, y penodwyd Arqiva i'w ddarparu, yw ymestyn y ddarpariaeth i hyd at 60,000 yn ychwanegol o safleoedd ac ar hyd o leiaf deg ffordd (gydag o leiaf un ffordd ymhob gwlad). Disgwylir y bydd hyn yn darparu buddion o ddiwedd 2013.

### Beth wnaethom ni

Mae gan Ofcom ddyletswydd i ddarparu adroddiad bob tair blynedd i'r Ysgrifennydd Gwladol dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon ar gyflwr seilwaith cyfathrebiadau'r DU. Cyhoeddasom ein *Hadroddiad Seilwaith* cyntaf ym mis Tachwedd 2011 a darparu diweddariad ym mis Tachwedd 2012.

Ym mis Mawrth 2013, cyhoeddasom, ar gyfer y Llywodraeth, y *Cerdyn Sgorio Band Eang Ewropeaidd*, adroddiad ar ddarpariaeth, defnydd, niferoedd, pris a dewis yng nghyswllt gwasanaethau band eang sefydlog a symudol yn y DU, mewn cymhariaeth â gwledydd Ewropeaidd eraill. Mae'r adroddiad hwn, yn unol â chais yr Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon (DCMS), yn helpu i fesur cynnydd tuag at uchelgais y Llywodraeth y dylai'r DU gael y band eang cyflymaf o'i gymharu ag unrhyw wlad Ewropeaidd o bwys erbyn 2015.

Parhaodd Ofcom i gefnogi'r Llywodraeth ar draws nifer o'i rhaglenni. Roedd y cymorth hwn yn cynnwys darparu cyngor technegol ar gyfer y rhaglen band eang gwledig, y rhaglen dinasoedd â chysylltiadau cyflym iawn a'r rhaglen symudol yn ogystal â chyngor ar faterion cymorth gwladwriaethol. Gwnaethom gytuno'n ffurfiol hefyd â chais gan DCMS/BDUK (Broadband Development UK) i'w gefnogi yn ei ymyrraeth ym marchnadoedd band eang cyflym iawn, yn arbennig o ran 'y traean terfynol' (ardaloedd gwledig).

### Canlyniad

Canfu ein hymchwil fod nifer y cysylltiadau yn y DU sydd â chyflymder band eang sefydlog llai na 2Mbit/s yn parhau i ostwng, sy'n dod a tharged y Llywodraeth yn nes. Canfuom hefyd fod llawer o ddefnyddwyr erbyn hyn yn gallu newid i wasanaethau band eang cyflym iawn (30Mbit/s neu fwy) sydd ar gael bellach i ddwy ran o dair o gartrefi'r DU.

Mae gosod band eang cyflym iawn yn y traean terfynol wedi cychwyn. Yn ystod y flwyddyn, derbyniodd BDUK ganiatâd cymorth gwladwriaethol gan y Comisiwn Ewropeaidd, ac mae dros 50 y cant o'r holl gontractau i ymestyn rhwydweithiau cyflym iawn wedi'u llofnodi gyda darparwyr seilwaith. Ar gyfer y rheini nad ydynt yn gallu derbyn cyflymderau cyflym iawn drwy rwydwaith sefydlog, mae technolegau eraill yn cael eu datblygu a fydd yn gallu gwella cyflymder, megis band eang lloeren a band eang symudol 4G. Gyda'i gilydd, dylai'r mesurau hyn sicrhau bod gwasanaethau band eang cyflym iawn ar gael i dros 90 y cant o adeiladau yn y DU erbyn 2015, a dylai helpu'r Llywodraeth i gyflawni ei Hymrwymiad Gwasanaeth Cyffredinol a'i huchelgais ar gyfer band eang cyflym iawn.

## Ein hamcan

### Gweithredu darpariaethau sy'n ymwneud â thorri hawlfraint ar-lein yn Neddf yr Economi Ddigidol 2010

Mae'r her o ddarbwyllo defnyddwyr i fwynhau ffilmiau, rhaglenni teledu, llyfrau a cherddoriaeth ar-lein heb dorri hawlfraint yn dal yn faes gwaith pwysig i'r diwydiant, y Llywodraeth ac Ofcom. Roedd Deddf yr Economi Ddigidol 2010 yn benodol wedi rhoi cyfrifoldebau newydd i Ofcom ar gyfer gweithredu mesurau sydd wedi'u hanelu at leihau lefel torri hawlfraint ar-lein yn sylweddol.

**Beth wnaethom ni**

Bu oedi yn ein gwaith ar y maes hwn i ddechrau oherwydd adolygiad barnwrol o Ddeddf yr Economi Ddigidol. Ym mis Mehefin 2012 cyhoeddasom god drafft a fyddai'n gorfodi darparwyr gwasanaethau rhyngrwyd mawr i hysbysu'u cwsmeriaid am honiadau bod eu cysylltiad rhyngrwyd wedi'i ddefnyddio i dorri hawlfraint.

Hefyd, rydym wedi cyhoeddi ymchwil rheolaidd i fynediad cyfreithlon ac anghyfreithlon a'r defnydd o gynnwys dan hawlfraint ar-lein, a fydd yn hysbysu'r diwydiant a gwneuthurwyr polisi am lefel y torri hawlfraint ar hyn o bryd. Roedd y canfyddiadau'n dangos bod oddeutu hanner holl ddefnyddwyr y rhyngrwyd yn ansicr a yw'r cynnwys y maent yn ei gyrchu ar-lein yn gyfreithlon. Fodd bynnag, roedd un o bob chwe pherson ar-lein yn credu eu bod wedi lawrlwytho neu wedi mynd at gynnwys yn anghyfreithlon dros y tri mis pan gynhaliwyd yr ymchwil i ddechrau.

**Canlyniad**

Mae deddfwriaeth i benderfynu sut y byddai costau'r cynllun yn cael eu dyrannu rhwng y partïon gwahanol ar fin cael ei hystyried gan y Senedd. Er bod y cynnydd gyda'r cynllun yn dibynnu ar basio'r ddeddfwriaeth hon, bydd Ofcom yn parhau i fonitro maes torri hawlfraint ar-lein. Gan dybio y bydd y ddeddfwriaeth ofynnol yn cael ei phasio, bydd y gwaith hwn yn dod yn rhan o'n dyletswydd ffurfiol i ddarparu adroddiadau i'r Llywodraeth yn rheolaidd pan fydd y cynllun ar waith.

## Blaenoriaethau Cynlluniau Blynyddol blynyddoedd blaenorol

### Wrth i'r sectorau cyfathrebiadau ddatblygu ac wrth i anghenion defnyddwyr newid, mae ffocws ein blaenoriaethau allweddol yn newid hefyd, bob blwyddyn. Serch hynny, rydym yn dal i ganolbwyntio ar nifer o'r materion hyn o 2011/12.

**Sicrhau cystadleuaeth deg ac effeithiol wrth gyflenwi gwasanaethau teledu talu**

Arweiniodd ein hymchwiliad yn 2010 i'r farchnad teledu talu at apeliadau oherwydd i rwymedigaeth 'rhaid cynnig yn gyfanwerthol' gael ei gosod a oedd yn berthnasol i Sky Sports 1 a 2. Gwnaethom hefyd gyfeirio at y Comisiwn Cystadleuaeth yng nghyswllt gwerthu a dosbarthu ffilmiau teledu talu drwy danysgrifiad.

Ym mis Awst 2012, daeth y Comisiwn i'r casgliad nad yw sefyllfa Sky yng nghyswllt prynu a dosbarthu ffilmiau yn y cyfnod talu cyntaf yn effeithio'n wael ar gystadleuaeth. Fodd bynnag, dywedodd y Comisiwn hefyd fod cystadleuaeth yn y farchnad teledu talu manwerthol yn gyffredinol yn dal yn aneffeithiol.

Hefyd yn Awst 2012, dyfarnodd y Tribiwnlys Apelau Cystadleuaeth (CAT) fod gan Ofcom y pŵer cyfreithlon i osod rheol 'rhaid cynnig yn gyfanwerthol' ar Sky yng nghyswllt hawliau chwaraeon premiwm. Ond daeth CAT i gasgliad gwahanol ynghylch ymddygiad Sky yn y gorffennol. Yn ddiweddar mae BT wedi ennill yr hawl i apelio yn erbyn dyfarniad y Tribiwnlys yn y Llys Apêl.

Nodwn fod defnyddwyr, yn y tair blynedd ers penderfyniad teledu talu Ofcom, wedi elwa o fwy o ddewis ac arloesedd oherwydd bod mwy o gynnwys premiwm ar gael. Mae gan Ofcom ddyletswydd barhaus i sicrhau y ceir cystadleuaeth deg ac effeithiol yn y sector hwn. Byddwn yn parhau i fonitro'r farchnad i ganfod a fydd angen cymryd rhagor o gamau i hyrwyddo cystadleuaeth ar gyfer defnyddwyr.

**Datblygu rhaglen waith yng nghyswllt polisi sbectrwm sy'n edrych tua'r dyfodol, gan ystyried datblygiadau yn y farchnad a'r galw am sbectrwm yn y dyfodol**

Mae'r cynnydd ar y flaenoriaeth hon yn parhau ac wedi'i gynnwys yn ein gwaith ar y strategaeth UHF a ddisgrifir ar dudalen 34.

**Trefniadau trwyddedu ar gyfer ITV, STV, UTV a Channel 5 ar ôl 2014**

Ar hyn o bryd mae Ofcom yn paratoi ar gyfer cyflwyno trwyddedau deng-mlynedd newydd ar gyfer gwasanaethau Channel 3 (ITV, STV ac UTV) a Channel 5, cyn iddynt ddod i ben ddiwedd 2014. Mae hyn yn dilyn penderfyniad y Llywodraeth ym mis Tachwedd 2012, sy'n eu galluogi i adnewyddu trwyddedau cyfredol.

## Meysydd gwaith mawr nad ydynt yn ein Cynllun Blynyddol ar gyfer 2012/13

Er ein bod yn cynllunio ein gwaith yn ôl ein blaenoriaethau a chyflawni ein dyletswyddau, rydym hefyd yn gwneud gwaith hanfodol sy'n codi yn ystod y flwyddyn. Yn ystod 2012/13, roedd hyn yn cynnwys:

### Asesiad 'addas a phriodol' o Sky

Dan Ddeddfau Darlledu 1990 a 1996, mae gan Ofcom ddyletswydd barhaus i fodloni ei hun bod pob deiliad trwydded darlledu yn addas a phriodol.

Ym mis Gorffennaf 2011, yng ngoleuni'r ddadl gyhoeddus am hacio ffonau a honiadau eraill, cadarnhaodd Ofcom fod ganddo ddyletswydd i ystyried a oedd Sky, y mae 39.1 y cant ohono yn perthyn i News Corporation, a oedd yn berchen ar bapurau a oedd yn gysylltiedig â'r honiadau o hacio, yn addas a phriodol i barhau i ddal ei drwyddedau darlledu.

Ym mis Medi 2012, ar sail y dystiolaeth a oedd ar gael ar y pryd ac ar ôl ystyried yr holl ffactorau perthnasol, daethom i'r casgliad fod Sky yn addas a phriodol i ddal ei drwyddedau darlledu.

Fodd bynnag, mae ein dyletswydd i fod yn fodlon bod trwyddedai yn addas a phriodol yn parhau. Os daw rhagor o dystiolaeth berthnasol i'r wyneb yn y dyfodol, byddai angen i Ofcom ystyried y dystiolaeth honno er mwyn cyflawni ei ddyletswydd.

### Prawf gwerth cyhoeddus wrth i Global Radio brynu GMG Radio

Yn dilyn y cyhoeddiad ym mis Mehefin 2012 bod Global Radio yn prynu GMG Radio, gofynnodd yr Ysgrifennydd Gwladol dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon i Ofcom gyflwyno adroddiad ar effeithiau'r pryniant ar luosogrwydd yn y cyfryngau, ac a allai'r uno olygu mynd yn groes i egwyddor gwerth cyhoeddus.

Fel rhan o'n hasesiad gwnaethom ystyried materion yn ymwneud â lluosogrwydd y cyfryngau a oedd yn achosi pryder i'r Senedd, gwnaethom ein dadansoddiad ein hunain gan ystyried sylwadau a dderbyniwyd oddi wrth amrywiaeth o randdeiliaid gan gynnwys sefydliadau masnachol a phroffesiynol, ASau ac unigolion.

Ar sail y dystiolaeth a oedd ar gael, nid oeddem o'r farn fod pryniant Global Radio o GMG Radio yn mynd yn groes neu y gallai fynd yn groes i egwyddor gwerth cyhoeddus, yn enwedig yng ngoleuni ymrwymiadau a wnaethpwyd gan y partïon i ddarparu mwy o gynnwys lleol.

# Ein cyfrifoldebau parhaus a'r adnoddau rydym yn eu rheoli

Yn ogystal â chyflawni'r blaenoriaethau yn ein Cynllun Blynyddol, rydym yn gweithio'n gyson i gyflawni'r canlyniadau gorau i ddinasyddion ac i ddefnyddwyr yn ein cyfrifoldebau o ddydd i ddydd.

## Amddiffyn defnyddwyr: amddiffyn defnyddwyr rhag telerau ac arferion niweidiol

Mae arnom eisiau sicrhau bod defnyddwyr yn cael y dewis gorau o wasanaethau cyfathrebu, a'r gwerth gorau am eu harian, a bydd angen i ni fod y barod i ymyrryd os na fydd pethau'n gweithio cystal ag y dylent fod.

Dros y flwyddyn ddiwethaf, roeddem wedi gweithredu ar ystod eang o faterion sy'n ymwneud â defnyddwyr ac rydym yn adolygu rhai ohonynt yma.

### Galwadau niwsans

Gall galwadau niwsans achosi dicter a phryder mawr i ddefnyddwyr ac mae Ofcom yn ystyried y mater hwn yn un difrifol iawn.

Y mae sawl gwahanol math o alwadau niwsans, ac mae Ofcom a Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth (ICO) yn rhannu'r cyfrifoldeb am orfodi'r rheolau a gweithredu yn erbyn sefydliadau sy'n torri'r rheolau. Gan Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth y mae'r cyfrifoldeb arweiniol am fynd i'r afael â negeseuon testun a galwadau marchnata niwsans, tra mae Ofcom yn gyfrifol am fynd i'r afael â phroblem galwadau mud a galwadau sy'n cael eu gadael.

Ers Ebrill 2012, mae Ofcom wedi rhoi dirwyon gwerth dros £1.5m i HomeServe, nPower a TalkTalk, a hynny am dorri'r rheolau ar alwadau mud a galwadau sy'n cael eu gadael.

I gefnogi ein gwaith gorfodi cyson ar gyfer datrys problem galwadau mud a galwadau sy'n cael eu gadael, cyhoeddasom gynllun gweithredu pum pwynt ym mis Ionawr 2013, gan ddwyn at ei gilydd y diwydiant, rheoleiddwyr a'r Llywodraeth i roi sylw i fater ehangach galwadau niwsans.

Mae'r cynllun pum pwynt yn cynnwys:

- ymchwil newydd i helpu i ddeall pa mor aml y mae gwahanol fathau o alwadau niwsans yn digwydd a'r cwmnïau a'r sectorau sy'n eu cynhyrchu;
- cynlluniau olrhain galwadau, ar y cyd â'r diwydiant, i ddatblygu ffyrdd newydd o olrhain y cwmnïau sy'n gyfrifol am alwadau niwsans, pan maent yn ceisio celu pwy ydynt;
- gwella cydymffurfiad drwy ysgrifennu at y busnesau hynny sy'n gwneud galwadau yn y DU, gan eu rhybuddio o'r gofyniad i lynu wrth reolau Ofcom ar alwadau mud a galwadau sy'n cael eu gadael;
- gweithredu cydgysylltiedig, ar y cyd â chyrff rheoleiddio eraill, fel Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth a'r Llywodraeth, i fynd i'r afael â mater ehangach galwadau niwsans;
- camau gorfodi i sicrhau bod cwmnïau'n cydymffurfio â'r rheolau ar alwadau mud a galwadau sy'n cael eu gadael.

Ym mis Hydref 2012, cyhoeddasom arweiniad ar-lein i ddefnyddwyr ar ddelio â galwadau a negeseuon niwsans, ar y cyd â rheoleiddwyr eraill a grwpiau defnyddwyr.

Mae'r arweiniad yn rhoi cyngor i ddefnyddwyr ar sut i ddatrys y broblem o wahanol fathau o alwadau a negeseuon niwsans, ac wrth bwy y gallant gwyno. Mae 130,000 o ymweliadau wedi bod â'r arweiniad ar-lein, a dyma'r maes gwybodaeth i ddefnyddwyr sydd wedi'i gyrchu amlaf ar wefan Ofcom.

### Mesurau arfaethedig i ddiogelu defnyddwyr rhag cynnydd mewn prisiau yn ystod contractau cyfnod sefydlog.

Mae Ofcom wedi derbyn cwynion gan ddefnyddwyr yn nodi materion yn ymwneud ag eglurder ac effeithiolrwydd rheolau sy'n ymwneud â phrisiau'n codi ar gyfer contractau yr oedd eu pris yn sefydlog yn eu tyb hwy.

Ym mis Ionawr 2013, lansiwyd ymgynghoriad gennym ar sut i ddiogelu defnyddwyr yn well rhag cynnydd mewn prisiau ar ganol contract. Rydym yn argymell newid un o'n rheolau, Amod Cyffredinol 9.6, a fydd yn caniatáu i ddefnyddwyr derfynu'u contract heb gosb os bydd y darparwr yn codi'r pris yn ystod tymor y contract. Mae'r ymgynghoriad hwn wedi cau erbyn hyn ac rydym yn ystyried yr ymatebion yn ofalus iawn cyn gwneud penderfyniad terfynol.

### Canllawiau newydd ar gyfer cynlluniau sy'n dyfarnu ar gwynion defnyddwyr

Mae Ofcom eisiau sicrhau bod cwynion defnyddwyr yn cael eu hunioni'n effeithiol gan ddarparwyr cyfathrebiadau. Mae gennym ddyletswydd i sicrhau bod defnyddwyr yn gallu cael gafael ar wasanaethau Dulliau Amgen o Ddatrys Anghydfod yn rhad ac am ddim.

Mae'r cynlluniau hyn yn gweithredu fel canolwr annibynnol rhwng darparwyr gwasanaethau cyfathrebiadau a'u cwsmeriaid pan na ellir datrys cwyn. Y mae dau gynllun sy'n cael eu cymeradwyo gan Ofcom: Ombudsman Services: Communications (OS) a Communications and Internet Services Adjudication Service (CISAS).

Ym mis Awst 2012, cwblhawyd adolygiad o'r cynlluniau gennym, gan ystyried a oeddynt yn dal i fodloni'r meini prawf cymeradwyo, sy'n delio ag ystod o ffactorau megis hygyrchedd, tegwch ac effeithiolrwydd.

Canfu Ofcom fod y ddau gynllun yn dal i ddatrys anghydfodau'n effeithiol ac yn bodloni'r rhan fwyaf o'r meini prawf i haeddu statws 'cymeradwy'.

O ganlyniad i'r adolygiad, gwnaethom gyflwyno egwyddorion penderfynu newydd i'r cynlluniau eu dilyn. Bwriad yr egwyddorion hyn yw sicrhau bod y rheini sy'n gwneud penderfyniadau ymhob cynllun yn rheoli achosion mewn ffordd sy'n darparu canlyniadau mwy cyson i ddefnyddwyr sy'n defnyddio'r cynlluniau.

### Gweithio i helpu i stopio defnyddwyr rhag cael biliau ffonau symudol annisgwyl o uchel

Mae Ofcom wedi parhau i weithio i leihau achlysuron lle mae cwsmeriaid ffonau symudol yn cael biliau annisgwyl o uchel. Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, gwnaethom gynnal ymchwil defnyddwyr ychwanegol i ddeall yn well achosion ac effeithiau biliau annisgwyl o uchel, a elwir weithiau'n 'sioc bil', ac i ganfod y ffordd fwyaf priodol o ddatrys hynny.

Canfuom mai crwydro neu drawsrwydweithio (defnyddio ffonau symudol dramor) yw'r prif reswm dros filiau annisgwyl o uchel, a gwnaethom ymrwymiad i fynd i'r afael â'r mater hwn fel blaenoriaeth.

Buom yn gweithio gyda'r Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon (DCMS) ar weithredu'r Rheoliad Crwydro newydd yn y DU, a ddaeth i rym ym mis Gorffennaf 2012. Rydym wedi siarad gyda chwmnïau i sicrhau eu bod yn deall ac yn cydymffurfio â'u cyfrifoldebau o dan y Rheoliad Crwydro, a'u hannog hefyd i gymryd camau i helpu i leihau'r perygl ac effeithiau biliau annisgwyl o uchel yn sgîl defnyddio ffonau symudol yn y DU.

Mae atebolrwydd defnyddwyr dros filiau mawr iawn pan fydd ffôn yn cael ei ddefnyddio heb ganiatâd pan fydd wedi mynd ar goll neu wedi'i ddwyn yn dal yn broblem. Cododd Ofcom y mater hwn gyda DCMS yng nghyd-destun ei *Adolygiad Cyfathrebiadau*, i ystyried a fyddai cyflwyno deddfwriaeth sylfaenol yn briodol ar gyfer mynd i'r afael â'r broblem hon. Rydym yn parhau i drafod y mater hwn gyda DCMS.

Rydym hefyd wedi cyhoeddi canllawiau fideo a chanllawiau i ddefnyddwyr newydd, sy'n rhoi cyngor i ddefnyddwyr i'w helpu i osgoi cronni biliau annisgwyl o fawr wrth ddefnyddio'u ffôn symudol, yn y DU ac wrth deithio dramor.

Cefnogid y canllawiau gan grwpiau defnyddwyr a sefydliadau eraill yn y diwydiant gan gynnwys Cyngor ar Bopeth, yr Uned Genedlaethol er Gostwng Troseddau Ffonau Symudol, Cymdeithasau Asiantaethau Teithio Prydain, Rough Guides, Travel DK, PhonepayPlus, Ffederasiwn Cenedlaethol y Defnyddwyr a Phanel y Defnyddwyr Cyfathrebiadau.

### Cyhoeddi data cwynion am ddarparwyr telegyfathrebiadau

Rydym yn cyhoeddi data cwynion bob chwarter sy'n datgelu pa rai o brif ddarparwyr teledu talu a thelegyfathrebiadau sy'n derbyn y nifer mwyaf a lleiaf o gwynion. Credwn y gall hyn helpu defnyddwyr i wneud penderfyniadau ar sail gwybodaeth wrth ystyried darparwr neu wasanaeth newydd. Mae hefyd yn ysgogi cwmnïau i wella'u perfformiad. Gyda'n hymchwil arall, mae cyhoeddi data cwynion yn sicrhau bod ein blaenoriaeth i hybu dewis effeithiol ar gyfer defnyddwyr drwy ddarparu gwybodaeth glir am wasanaeth, pris ac ansawdd yn cael ei gyflawni'n effeithiol. Trafodir hyn ar dudalen 20.

### Helpu defnyddwyr sydd ag anawsterau ar eu clyw a/neu leferydd

Mae'n rhaid i bob darparwr cyfathrebiadau ddarparu mynediad i wasanaethau 'trosglwyddo testun', sy'n hanfodol er mwyn i ddefnyddwyr sydd â nam ar eu clyw neu ar eu lleferydd wneud a derbyn galwadau ffôn. Canfu ymchwil Ofcom fod y system bresennol yn arafu sgyrsiau ac yn ei gwneud yn anodd i'r sgyrsiau lifo'n naturiol.


Ym mis Hydref 2012, gwnaethom gadarnhau y bydd gwasanaeth trosglwyddo testun gwell yn cael ei gyflwyno, a bydd yn rhaid i ddarparwyr cyfathrebiadau sicrhau y bydd ar gael o 18 Ebrill 2014 ymlaen.

Bydd y gwasanaeth newydd yn cyflwyno gwasanaeth llais dwyffordd cyfochrog, sy'n defnyddio cysylltiad rhyngrwyd a fydd yn gadael i ddefnyddwyr gamu i mewn, fel y gall y sgwrs lifo'n fwy naturiol a chynt. Bydd ystod ehangach o offer yn gallu defnyddio'r gwasanaeth hefyd, gan gynnwys trosglwyddo testun sy'n haws ei ddefnyddio ar ffonau symudol.

Ar ben hynny, rydym yn cydnabod arwyddocâd posibl gwasanaeth trosglwyddo fideo ar gyfer defnyddwyr Iaith Arwyddion Prydain, yn enwedig y rheini sy'n ei chael hi'n anodd defnyddio iaith ysgrifenedig.

Gwnaethom gomisiynu astudiaeth annibynnol o'r ddarpariaeth ryngwladol yng nghyswllt trosglwyddo fideo, a gyhoeddwyd gennym ym mis Hydref 2012. Rydym hefyd wedi bod yn gweithio gyda'r Llywodraeth, y diwydiant a grwpiau anabledd i annog darparwyr cyfathrebiadau, busnesau a sefydliadau eraill i ddarparu gwasanaethau trosglwyddo fideo.

**Ffigur 1: Cwynion am gamwerthu llinellau sefydlog**




### Mynd i'r afael â chamwerthu gwasanaethau ffôn llinell sefydlog

Mae Ofcom wedi ymrwymo i sicrhau bod defnyddwyr yn cael eu diogelu rhag problem camwerthu gwasanaethau ffôn llinell sefydlog. Mae hyn yn cynnwys 'slamio', sy'n digwydd pan fydd cwsmer yn cael ei symud i ddarparwr arall yn ddiarwybod iddo a/neu heb ei ganiatâd penodol. Rydym hefyd yn gweithio gyda Swyddfa'r Dyfarnwr Telegyfathrebiadau i fynd i'r afael â phroblemau pan fydd defnyddwyr yn cael eu symud rhwng darparwyr mewn camgymeriad oherwydd problemau gyda'r prosesau newid.

Mae gennym raglen orfodi a monitro agored i gamwerthu llinellau sefydlog, a ddefnyddir gennym i fonitro cydymffurfiad ar draws y diwydiant â'r rheolau drwy fonitro cwynion a gaiff Ofcom a chwynion y diwydiant. Fel sy'n cael ei ddangos yn Ffigur 1, rydym yn parhau i weld gostyngiad cadarnhaol yn y cwynion cyffredinol am gamwerthu llinellau sefydlog, o uchafswm o dros 1,000 ym mis Mehefin 2010.

Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, rydym wedi cwblhau ymchwiliad i Axis Telecom oherwydd iddo dorri un o reolau Ofcom: Amod Cyffredinol 24 (GC24), ac yn benodol am iddynt gamddefnyddio rheolau canslo gwrthslamio'r diwydiant. Rydym wedi rhoi dirwy o £30,000.

Mae Ofcom hefyd wedi agor ymchwiliad i Supatel Limited, yn masnachu fel timetalk, ynghylch ei gydymffurfiad â GC24 ac, yn benodol, gwaharddiad slamio GC24.3. Mae'r ymchwiliad hwn yn parhau.

### Gwasanaethau post gwell a fforddiadwy

Roedd gwaith Ofcom yn rheoleiddio'r sector post yn ystod 2012/13 yn cynnwys gwaith i ddiogelu mynediad defnyddwyr i'r gwasanaeth post cyffredinol a gwella'r gwasanaeth y maent yn ei dderbyn.

Ym mis Gorffennaf 2012, estynnwyd y terfyn diogelu ar gyfer stampiau Ail Ddosbarth ar gyfer llythyrau i lythyrau mawr a pharseli bach hyd at 2kg, gan roi mwy o warchodaeth i ddefnyddwyr rhag codiadau mewn prisiau. Ym mis Mawrth 2013, fel rhan o'n hymchwil manwl i anghenion defnyddwyr post, dywedasom sut yr ydym yn bwriadu monitro fforddiadwyedd gwasanaethau post yn barhaus.



Ar wahân i hynny, cafodd y Post Brenhinol ganiatâd gennym i gyflwyno gwelliannau i'w wasanaeth ac, ym mis Medi 2012, cyflwynwyd ei gynllun 'Danfon i Gymydog' yn genedlaethol. Mae'r cynllun newydd yn caniatáu i'r Post Brenhinol adael rhai eitemau post yng nghartref cymydog. Mae penderfyniad Ofcom yn golygu bod y Post Brenhinol yn gweithredu fel cwmnïau post eraill y DU ac yn cael gwared â'r anhwylustod i ddefnyddwyr o orfod casglu eitemau o Swyddfeydd Post neu swyddfeydd danfon y Post Brenhinol.

## Cynnwys a safonau mewn darlledu

Mae gan Ofcom amrywiaeth o ddyletswyddau mewn perthynas â darlledu, sy'n cynnwys sicrhau amddiffyniad digonol i'r cyhoedd rhag deunydd niweidiol neu dramgwyddus a rhag iddynt gael eu trin yn annheg neu rhag i neb darfu ar eu preifatrwydd. Rhaid inni hefyd sicrhau bod ystod eang o wasanaethau teledu a radio ar gael sy'n eang eu hapêl ac o safon uchel.

### Trwyddedu teledu a radio

Mae Ofcom yn cyflawni ei ddyletswyddau drwy roi trwyddedau darlledu, sy'n dod ag amodau. Mae'r amodau hyn yn cynnwys gofynion i dalu ffioedd, darparu gwybodaeth, cynnig rhaglenni a mathau o gynnwys penodol, a chydymffurfio â'r amrywiol godau ymarfer a gyhoeddir gan Ofcom.

#### Trwyddedu teledu lleol

Eleni, cwblhaodd Ofcom gam gyntaf y gwaith o drwyddedu gwasanaethau teledu lleol, gan ddyfarnu trwyddedau i sianeli newydd mewn 19 lleoliad ledled y DU, yn ogystal â'r drwydded i redeg yr amlblecs teledu lleol. Daeth hyn ar ôl i'r Senedd roi pwerau newydd i Ofcom. Gallai'r gwasanaethau teledu lleol cyntaf fod ar awyr erbyn diwedd 2013. Ar hyn o bryd, rydym wrthi'n cynnal ail gam trwyddedu teledu lleol.

#### Radio cymunedol

Mae dros 200 o orsafoedd radio cymunedol bellach yn darlledu mewn lleoliadau ar draws y DU. Ers i Ofcom ddyfarnu'r drwydded gyntaf ar gyfer radio cymunedol yn 2005, mae gorsaf newydd wedi cael ei lansio bob 13 diwrnod ar gyfartaledd, gyda phob un yn gwasanaethu anghenion cymuned benodol. Dros y flwyddyn ddiwethaf, mae Ofcom wedi dyfarnu trwyddedau newydd yng Nghymru, yr Alban a de orllewin Lloegr.

### Cwynion ac ymchwiliadau darlledu

Mae cwynion gan gynulleidfaoedd am achosion posibl o dorri rhwymedigaethau gan ddarlledwyr yn chwarae rhan bwysig yn y gwaith o sicrhau bod gwylwyr a gwrandawyr yn cael eu hamddiffyn yn briodol. Bydd Ofcom yn asesu pob cwyn yn ôl y Cod Darlledu, neu god neu amod trwydded perthnasol arall. Byddwn wedyn yn penderfynu a yw cwyn yn codi materion posibl y bydd angen ymchwilio ymhellach iddynt. Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, roedd Ofcom wedi asesu 16,151 o gwynion am safonau darlledu neu amodau trwydded (a oedd wedi disgyn o 21,484 y flwyddyn flaenorol), a 183 o gwynion am annhegwch a/neu dorri preifatrwydd heb gyfiawnhad (o'i gymharu â 288 yn y flwyddyn flaenorol). Ceir rhagor o wybodaeth am y gwaith hwn yn yr Atodiad ar dudalennau 109 a 110.

### Diogelu pobl ifanc o dan 18 oed

Mae gan Ofcom ddyletswydd statudol i ddiogelu plant a phobl ifanc o dan 18 oed mewn perthynas â darlledu. Rydym yn credu mai dyma yw un o'n dyletswyddau mwyaf sylfaenol. Mae nifer o reolau i amddiffyn plant rhag rhaglenni anaddas yn ein Cod Darlledu, gan gynnwys rheolau am y trothwy teledu am 9pm.

#### Diogelu plant a chynnal y trothwy

Fel rhan o'n gwaith parhaus i orfodi'r trothwy, mae Ofcom wedi gweithredu yn erbyn nifer o ddarlledwyr am ddarlledu cynnwys cyn y trothwy a oedd yn anaddas i blant.

Ym mis Tachwedd 2012, rhoddodd Ofcom ddirwy o £40,000 i E! Entertainment am ddarlledu'r gyfres realaeth Girls of the Playboy Mansion, a ddylai gael ei darlledu ar ôl y terfyn, yn ystod y dydd yn ystod gwyliau'r ysgol. Roedd cynnwys rhywiol yn y rhaglen a oedd yn anaddas i blant.

### Diogelu plant sy'n cymryd rhan mewn rhaglenni teledu

Yn dilyn achosion diweddar yng nghyswllt rhaglenni lle roedd plant yn cyfrannu atynt, rydym yn atgoffa pob darlledwr o'r pwysigrwydd mawr o gydymffurfio â'r rheolau perthnasol. Ar hyn o bryd mae Ofcom yn haparchwilio rhaglenni sy'n cynnwys plant o dan 18 i fonitro cydymffurfiad.

### Cynnwys newydd ar ParentPort

Ym mis Chwefror 2013, lansion ni gynnwys newydd ar ParentPort – y wefan a sefydlwyd gan reoleiddwyr y cyfryngau yn y DU i'w gwneud yn haws i rieni gwyno am ddeunydd y maent wedi'i weld neu'i glywed ar draws y diwydiannau cyfryngau, cyfathrebiadau a manwerthu. Mae'r offer newydd yn rhoi cyngor ac awgrymiadau amrywiol i rieni ar sut i gadw'u plant yn ddiogel mewn byd aml-gyfrwng.

## Gweithredu yn erbyn cynnwys oedolion

### Gwasanaethau ar-alwad

Ym mis Ionawr 2013, rhoddodd Ofcom ddirwy o £100,000 i Playboy am fethu â diogelu plant rhag deunydd pornograffig a allai fod yn niweidiol ar ddau wasanaeth rhaglenni ar-alwad (ODPS) yr oedd yn eu darparu. Roedd dwy wefan gan Playboy yn gadael i ddefnyddwyr weld fideos a delweddau pornograffig iawn heb i reolaethau derbyniol fod ar waith i wneud yn siŵr bod defnyddwyr yn 18 oed neu fwy.

Ym mis Rhagfyr 2012, rhoesom ddirwy o £60,000 i Strictly Broadband Limited am ei wasanaeth rhaglenni ar-alwad, a oedd yn cael ei ddarparu drwy ei wefan Strictly Broadband, am dorri rheolau tebyg.

Cafodd y ddau ddarparwr gwasanaeth eu cyfeirio at Ofcom i'w hystyried ar gyfer sancsiynau gan ATVOD, cyd-reoleiddiwr ODPS yn y DU.

### Arweiniad newydd ar wasanaethau sgwrsio yn ystod y dydd a gwasanaethau sgwrsio i oedolion

Oherwydd bod Cod Darlledu Hysbysebion y DU wedi'i dorri sawl gwaith, cyhoeddasom arweiniad wedi'i ddiweddaru i ddarlledwyr gwasanaethau sgwrsio yn ystod y dydd a gwasanaethau sgwrsio i oedolion er mwyn ei gwneud yn glir pa gynnwys sy'n anaddas i'w ddarlledu heb fynediad cyfyngedig gorfodol.

## Amddiffyniad rhag safbwyntiau eithafol

Mae gan Ofcom ddyletswydd i ddiogelu cynulleidfaoedd rhag cynnwys niweidiol mewn rhaglenni radio a theledu. Mae gennym hefyd ddyletswyddau i sicrhau nad oes deunydd a allai annog neu ysgogi troseddu neu anhrefn yn cael ei gynnwys mewn gwasanaethau teledu a radio, a bod rhaglenni crefyddol yn cael eu trin â'r lefel briodol o gyfrifoldeb. Mae gennym reolau llym ar gyfer sicrhau'r dyletswyddau hyn, ac os gwelwn fod darlledwyr wedi torri'r rheolau hynny, rydym yn cymryd camau gorfodi cadarn.

Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, cafodd Ofcom nifer o ddarlledwyr yn euog o ddarlledu deunydd niweidiol mewn perthynas ag ysgogi troseddu, a hefyd mewn perthynas â thrin crefydd yn dramgwyddus. Roedd y rhain yn cynnwys sancsiynau yn erbyn Noor TV, Takbeer TV a Sangat TV am dorri amodau'r Cod yn ddifrifol.

Ym mis Rhagfyr 2012, rhoddodd Ofcom ddirwy o £4,000 i Radio Asian Fever am ddarlledu dwy raglen a oedd yn cynnwys datganiadau a allai, ym marn Ofcom, annog neu ysgogi troseddau yn erbyn pobl hoyw.

# Rhyngwladol

Mae Ofcom yn gweithio'n agos gydag awdurdodau rheoleiddio cenedlaethol eraill, sefydliadau'r Undeb Ewropeaidd (UE) a chyrff byd-eang perthnasol. Rydym yn gwneud hyn er mwyn cyfnewid arferion gorau rheoleiddio a, lle bo'n briodol, er mwyn ceisio dylanwadu ar benderfyniadau sy'n cael eu gwneud mewn fforymau rhyngwladol i sicrhau, hyd y bo modd, eu bod yn ymarferol, yn gymesur ac yn adlewyrchu buddiannau dinasyddion a defnyddwyr y DU yn y ffordd orau. Yn ystod 2012/13, roedd Ofcom wedi:

- croesawu 61 grŵp o ymwelwyr rhyngwladol o gymheiriaid byd-eang, sefydliadau academaidd a'r diwydiant ar faterion yn ymwneud â'r ystod cyfan o gyfrifoldebau Ofcom;
- cyflwyno'r brif araith yng Nghynhadledd Flynyddol y Sefydliad Cyfathrebiadau Rhyngwladol yn Singapore, a chwrdd â rheoleiddwyr pwysig, adrannau Llywodraeth a chwmnïau yn Singapore a De Korea er mwyn rhannu arferion gorau;
- cyfrannu at waith Corff y Rheoleiddwyr Ewropeaidd mewn Cyfathrebiadau Electronig (BEREC). Yn ystod 2012, gwasanaethodd Ed Richards, Prif Weithredwr Ofcom, ar Fwrdd BEREC fel yr Is-gadeirydd yn gyfrifol am rwydweithiau cenhedlaeth nesaf yn ogystal â strategaeth a chyfathrebiadau BEREC. Roedd y prif faterion polisi rheoleiddio i BEREC yn ystod 2012/13 yn cynnwys crwydro rhyngwladol, rheoleiddio rhwydweithiau mynediad cenhedlaeth nesaf a niwtraliaeth y rhyngrwyd;
- cynrychioli buddiannau'r DU yn yr Undeb Telegyfathrebu Rhyngwladol (ITU), gan gynnwys yng

Nghynulliad Safoni Telegyfathrebu'r Byd yn 2012 a chefnogi'r Llywodraeth yn y Gynhadledd Byd ar Delegyfathrebiadau Rhyngwladol (WCIT);

- parhau i gyflawni swyddogaeth gadarn mewn sefydliadau Ewropeaidd a byd-eang sy'n gyfrifol am sbectrwm gan gynnwys Grŵp Polisi Sbectrwm Radio yr UE a Phwyllgor Cyfathrebiadau Electronig CEPT (ECC);
- parhau â'n cyfraniad at waith yn ymwneud â rheoleiddio cynnwys darlledu a wneir gan Lwyfan Awdurdodau Rheoleiddio Ewrop (EPRA) gan gynnwys drwy ein presenoldeb ar Fwrdd EPRA;
- cymryd rhan yng ngwaith y Grŵp Rheoleiddwyr Ewropeaidd ar gyfer Gwasanaethau Post (ERGP) ac yn y Pwyllgor Ewropeaidd ar gyfer Rheoleiddio Post (CERP); a
- cadeirio Gweithgor y Gymdeithas dros Gydweithrediad a Datblygiad Economaidd (OECD) ar Gyfathrebu, Seilwaith a Pholisi Gwasanaethau (CISP), a chynnal gweithdy OECD a fu'n adolygu ac yn diwygio set o fetrigau ar gyfer band eang ac economi'r rhyngrwyd.

## Sbectrwm

Heblaw am yr arwerthiant sbectrwm (gweler tudalen 17) a Gemau Olympaidd a Gemau Paralympaidd Llundain 2012 (gweler tudalen 19), buom yn gweithredu ar ystod eang o faterion a oedd yn ymwneud â sbectrwm yn ystod y flwyddyn.

### Rhyddhau sbectrwm

Ym mis Chwefror 2013, cynigiodd Ofcom ryddhau pob trwydded symudol yn y bandiau 900 MHz,1800 MHz a 2100 MHz, er mwyn i wasanaethau 4G gael eu defnyddio, ac i amrywio'r lefelau pŵer a ganiateir ar gyfer technoleg 3G a 4G a ddefnyddir yn y band 900 MHz band. Byddai hyn yn golygu y byddai technoleg 2G, 3G a 4G yn cael ei chaniatáu ar draws pob trwydded sbectrwm symudol. Byddai hefyd yn bodloni ein hamcan hirdymor o gael gwared â rhwystrau rheoleiddio sy'n atal y defnydd o'r dechnoleg symudol ddiweddaraf sydd ar gael mewn rhai bandiau sbectrwm.

### Strategaeth UHF

Mae galw defnyddwyr am ddata – data symudol yn enwedig, a ysgogir gan ffonau deallus a rhwydweithiau cyflymach – yn tyfu'n sydyn. Credwn y bydd defnyddwyr ar eu hennill os bydd sbectrwm newydd yn cael ei ryddhau i helpu i ddiwallu'r galw hwn. Ar yr un pryd, credwn ei bod yn bwysig bod teledu daearol digidol (DTT) yn gallu cael gafael ar ddigon o sbectrwm er mwyn gallu parhau i gyflwyno'r buddion pwysig i ddefnyddwyr sy'n gysylltiedig ag ef.

Yn ein Datganiad ar y Strategaeth UHF nodwyd y gallai rhyddhau'r band amledd 700 MHz (a ddefnyddir ar hyn o bryd ar gyfer DTT) ar gyfer band eang symudol chwarae rhan bwysig yn helpu i ddiwallu galw defnyddwyr am wasanaethau data. Ond, petai newid o'r fath yn digwydd, mae'n debyg y byddai angen darparu rhagor o sbectrwm ar gyfer y llwyfan DTT. Yng ngoleuni'r ystyriaethau hyn, yn y Datganiad Strategaeth UHF nodwyd y byddwn yn ceisio:

- hwyluso'r gwaith o ryddhau band 700 MHz ar gyfer defnydd band eang symudol; a
- sicrhau bod y llwyfan DTT yn gallu cael mynediad i'r band 600 MHz, gan dybio y bydd y newid defnydd ar 700 MHz yn digwydd.

Ar ôl cyhoeddi'r Datganiad, rydym wedi cyflwyno prosiect i roi'r strategaeth hon ar waith. Un o brif nodau'r prosiect hwn, os bydd y newid i'r defnydd o'r band 700 MHz yn digwydd, yw sicrhau bod hynny'n digwydd mewn ffordd sy'n sicrhau'r buddion net gorau posibl i ddinasyddion a defnyddwyr.

Hefyd, rhoesom ymgynghoriad ar waith, yn nodi ein cynigion ar gyfer dyfarnu trwydded i sefydlu amlblecsau DTT dros dro yn y band 600 MHz. Byddai dyfarnu'r sbectrwm yn y band 600 MHz yn cwblhau'r gwaith o ailddyrannu amledd yn sgîl y difidend digidol.

### Cefnogi'r gwaith o ryddhau sbectrwm y Weinyddiaeth Amddiffyn

Ym mis Hydref 2012, cytunodd Ofcom i ddarparu cyngor polisi a thechnegol i gefnogi cynlluniau'r Weinyddiaeth Amddiffyn i ryddhau oddeutu 200 MHz o sbectrwm, gan gynnwys 40 MHz rhwng 2350 a 2390 MHz, a rhagor o sbectrwm yn y band 3.4 GHz. Dyma ran o ymrwymiad y Llywodraeth i ryddhau 500 MHz o sbectrwm ar gyfer defnydd sifil newydd erbyn 2020.

Mae cytundeb wedi'i gyrraedd rhwng Ofcom a'r Weinyddiaeth Amddiffyn ar y gwaith manwl o rannu cyfrifoldebau dros y tasgau technegol, y penderfyniadau polisi a materion yn ymwneud â rheoli rhanddeiliaid. Ystyriodd Ofcom gwmpas y prosiect yn llawn yn 2012/13, ac mae'n gobeithio llunio ymgynghoriad technegol ar faterion cydfodoli posibl yn ystod 2013/14.

## Cystadleuaeth

Mae gan Ofcom ystod o ddyletswyddau sy'n seiliedig ar hyrwyddo a sicrhau cystadleuaeth. Mae'r rhain yn cynnwys gweithredu polisi cystadleuaeth o dan ein pwerau sectoraidd: er enghraifft, adolygu marchnadoedd, gorfodi cyfraith cystadleuaeth, gorfodi cyfraith defnyddwyr a datrys anghydfodau.

Mae gan Ofcom bwerau cydredol dan Ddeddf Cystadleuaeth 1998 i ddelio ag ymddygiad gwrth-gystadleuol ym meysydd darlledu, sbectrwm, telegyfathrebiadau a'r post. Mae gennym hefyd y pŵer i ddefnyddio Erthygl 81 ac Erthygl 82 y Cytuniad ar Weithrediad yr UE, yn ogystal â gwaharddiadau Pennod I a Phennod II y Ddeddf Cystadleuaeth.

### Rhifau nad ydynt yn rhai daearyddol

Mae cynlluniau Ofcom i ddiwygio'r ffordd y cyfrifir cost miliynau o alwadau ffôn yn tynnu at y terfyn a disgwyliwn gyhoeddi ein datganiad terfynol yn ystod haf 2013. Mae rhifau nad ydynt yn rhai daearyddol – megis y rheini sy'n dechrau gyda 084, 087, 09 a 118 – yn cael eu defnyddio bob dydd gan ddefnyddwyr y ffôn i gysylltu â busnesau, gwasanaethau cyhoeddus a chyrff cyhoeddus eraill. Rydym wedi argymell y bydd cost ffonio'r rhifau hyn, o ddechrau 2015, yn cael ei rannu'n ddwy elfen syml: y tâl gwasanaeth (ffi benodol a godir gan ddarparwr y gwasanaeth, y bydd yn rhaid ei hysbysebu gyda'r gwasanaeth); a'r tâl mynediad (ffi a godir gan gwmni ffôn y galwr ar gyfer galwadau nad ydynt yn rhai daearyddol a wneir o fewn tariff y galwr). Drwy adio'r tâl gwasanaeth at y tâl mynediad, bydd defnyddwyr y ffôn yn gwybod yn union beth fydd cost gwneud yr alwad.

Fel rhan o'r diwygiadau, bydd rhifau 080 yn dod yn rhai rhad ac am ddim o bob ffôn, gan gynnwys o ffonau symudol, a bydd y tâl gwasanaeth ar gyfer ffonio rhifau premiwm 09 yn cael ei gapio. Gyda'i gilydd, bydd y mesurau hyn yn gwella hyder y defnyddwyr wrth ddefnyddio rhifau nad ydynt yn rhai daearyddol ac yn hybu cystadleuaeth drwy brisiau mwy tryloyw.

### Rhifau daearyddol

Mae mesurau i warchod cyflenwad y DU o rifau ffôn daearyddol bellach ar waith. Ym mis Tachwedd 2012, rhoddodd Ofcom y gorau i ddeialu lleol yn ardal Bournemouth, gan ei gwneud yn ofynnol i bobl ddefnyddio'r cod deialu hyd yn oed wrth alw o fewn yr ardal leol. Aeth y broses rhagddi'n ddidrafferth, ac mae Ofcom yn disgwyl rhoi'r mesur hwn ar waith mewn ardaloedd eraill lle bydd prinder dybryd o flociau rhif yn y blynyddoedd i ddod.

### Adolygu band cul sefydlog, mynediad lleol cyfanwerthol (WLA) a mynediad band eang cyfanwerthol (WBA)

Bob hyn a hyn, mae Ofcom yn adolygu marchnadoedd telegyfathrebu mawr ac, yn 2012, dechreusom sawl prosiect i asesu cystadleuaeth ac i sicrhau y bydd fframwaith rheoleiddio addas ar waith dros y blynyddoedd nesaf. Mae'r Adolygiadau o'r Farchnad Mynediad Sefydlog yn rhoi sylw i farchnadoedd cyfanwerthol, gan gynnwys mynediad lleol (y cysylltiad o'r gyfnewidfa leol i'r cwsmer ffôn), llinellau cyfnewid analog sefydlog (cynnyrch sy'n gadael i gwmnïau ffôn gynnig gwasanaethau llais o'r gyfnewidfa) a marchnadoedd amrywiol ar gyfer ISDN – llinellau ffôn digidol a ddefnyddir gan fusnesau ar gyfer pethau megis cynadleddau fideo.

Rydym hefyd yn ystyried y cyflenwad o fynediad band eang cyfanwerthol (WBA): y cynnyrch a ddefnyddir gan ddarparwyr cyfathrebiadau i gysylltu defnyddwyr â'r rhyngrwyd. Pwrpas yr adolygiad yw ystyried cyflwr cystadleuaeth yn y marchnadoedd WBA i ganfod a ydynt yn gystadleuol effeithiol. Ers y tro diwethaf inni adolygu'r marchnadoedd hyn, mae band eang cyflym iawn wedi cael ei gyflwyno ac mae galw defnyddwyr am ddata yn parhau i gynyddu'n sydyn, rhywbeth sy'n cael ei ysgogi gan gymwysiadau megis ffrydio fideo.

Byddwn yn ymgynghori'n fanwl ar yr adolygiadau hyn yn ystod haf 2013, ynghyd â'r gwaith i archwilio perfformiad Openreach ac i sefydlu sut y gellid gosod rheolaethau tâl, os bydd yr adolygiad o fynediad sefydlog yn penderfynu bod hynny'n ofynnol. Disgwylir i'r adolygiadau ddod i ben ddechrau 2014.

### Cystadleuaeth yn y sector post

Yn ogystal â'r gwaith sy'n ymwneud â'n prif ddyletswydd i sicrhau bod gwasanaeth post cyffredinol yn cael ei ddarparu yn y DU, a drafodir ar dudalen 22, gwnaethom gynnal yn ystod 2012/13 sawl darn arall o waith yng nghyswllt y sector post. Gwnaethom gyhoeddi ein datganiad monitro blynyddol cyntaf ym mis Hydref; gwnaethom ymgynghori ar ein hadolygiad o Ffeil Cyfeiriadau Post Cod y Post Brenhinol, gan argymell y dylai'r Post Brenhinol symleiddio'n sylweddol ei strwythur trwyddedau; a dechreusom ein hadolygiad o'r rheolau yn ymwneud â gweithdrefnau gweithredol cyffredin a diogelwch eitemau a ddanfonir yn y post.

### Datrys anghydfodau'r diwydiant telegyfathrebiadau

Yn ystod 2012/13, roeddem wedi datrys chwe achos o anghydfod rhwng cwmnïau telegyfathrebu. Roedd pump o'r rhain yn ymwneud â chydymffurfiad BT â'i ddyletswyddau gogwydd costau (cost-orientation) ar gyfer rhai cynnyrch manwerthol (disgrifiwyd ein rhesymau mewn dau ddatganiad esboniadol ar wahân). Cafodd y penderfyniadau a gyhoeddwyd gennym yn 2012/13 mewn perthynas â'r achosion hyn eu gwneud yn dilyn ein canfyddiadau bod BT wedi codi gormod ar y partïon yn yr anghydfodau, a gwnaethom fynnu bod BT yn ad-dalu £97,719,800 iddynt. Hefyd, o 1 Ebrill 2013, roedd pump anghydfod arall dan sylw, tri ohonynt wedi'u datrys bellach. Mae'r anghydfodau hyn yn delio ag ystod eang o faterion; o gostau terfynu galwadau cyfanwerthol BT ar gyfer rhifau NTS (y rheini sy'n dechrau gyda 08 neu 09 fel arfer) i gytundebau lefel gwasanaeth ar gyfer gwasanaethau dadfwndelu dolenni lleol.

Mae tîm Ymchwiliadau'r Grŵp Cystadleuaeth yn ymchwilio i gwynion am ymddygiad gwrthgystadleuol yn ogystal â thorri rheolau rheoleiddio penodol (gan gynnwys cludo rhifau a mynediad i wasanaethau 999). Ceir crynodeb o hyn, a gweithgareddau'r Tîm Diogelu Defnyddwyr, yn yr Atodiad ar dudalen 108.

# Sut rydym yn gweithio a gyda phwy rydym yn gweithio

## Mae statud yn pennu dyletswyddau a phwerau Ofcom.

Gan mai ni yw rheoleiddiwr annibynnol y diwydiannau cyfathrebiadau, mae Deddf Cyfathrebiadau 2003 yn mynnu ein bod yn hybu buddiannau dinasyddion a defnyddwyr.

Cawn ein cyllido gan randdeiliaid (ffioedd trwyddedau darlledwyr teledu a radio a ffioedd gweinyddol i reoleiddio rhwydweithiau cyfathrebu a darparwyr post) a thrwy gymorth grant gan Lywodraeth y DU. Ceir rhagor o fanylion am ein trefniadau cyllido yn yr Adolygiad Gweithredol ac Ariannol yn Adran D.

Bob blwyddyn, ar ôl ymgynghori, rydym yn cyhoeddi ein Cynllun Blynyddol, sy'n disgrifio cynlluniau newydd a gweithgareddau sy'n parhau y byddwn yn eu gwneud i gefnogi'n dyletswyddau.

## Mesur a rhannu canlyniadau

Yn ein Cynllun Blynyddol ar gyfer 2012/13, roeddem wedi nodi 13 blaenoriaeth gydag oddeutu 40 o brosiectau a rhaglenni wedi'u dyrannu oddi tanynt. Yn sail i hyn ceir y gofyniad i fodloni ein setliad o dan yr Adolygiad o Wariant gyda'r Trysorlys drwy gyflawni arbedion effeithlonrwydd ar draws y sefydliad. Fel y nodwyd yn yr Adroddiad hwn, mae Ofcom wedi gwneud cynnydd sylweddol yn cyflawni canlyniadau yn erbyn nifer o flaenoriaethau ei Gynllun Blynyddol a'i waith 'busnes yn ôl yr arfer' yn 2012/13.

Yn y pen draw, credwn y dylid barnu ein perfformiad drwy gyfeirio at y canlyniadau yr ydym wedi'u sicrhau i ddinasyddion ac i ddefnyddwyr o ganlyniad i'n gwaith. Rydym yn mesur y canlyniadau hyn yn ofalus mewn sawl ffordd, gan ddefnyddio fframwaith cynhwysfawr a chadarn ar gyfer mesur ein perfformiad, adrodd arno a rhoi gwybod amdano yn fewnol ac yn allanol. Dros y ddwy flynedd ddiwethaf rydym wedi canolbwyntio ar sut rydym yn rhannu'r canlyniadau hyn ag eraill, ac rydym wedi ceisio mesur ein perfformiad ein hunain wrth i ni symud drwy oes rhaglen waith. Mae'r tabl ar dudalennau 12 i 14 yn mesur ein perfformiad gyda'r 13 blaenoriaeth roeddem wedi'u gosod i ni'n hunain yn ein Cynllun Blynyddol ar gyfer 2012/13.

I helpu i fonitro a yw ein gwaith yn llwyddo i gyflawni'r canlyniadau a geisir byddwn yn cynnal ymchwil defnyddwyr manwl o bryd i'w gilydd. Byddwn yn cyhoeddi'r ymchwil hwn yn rheolaidd mewn arddull hwylus ar ein gwefan. Rydym yn cyhoeddi data mewn ystod o gyhoeddiadau Ofcom gan gynnwys *Adroddiad y Farchnad Cyfathrebu, Adroddiad y Farchnad Gyfathrebu Ryngwladol, Adroddiad Seilwaith y DU, Adroddiad Profiad Defnyddwyr,* ein hadroddiadau ar lythrennedd yn y cyfryngau a'r Adroddiad Blynyddol Darlledu Gwasanaeth Cyhoeddus.

## Pryd byddwn yn rheoleiddio

Mae'r Ddeddf Cyfathrebiadau yn ei gwneud yn ofynnol inni weithredu yn unol â'r egwyddorion rheoleiddio gwell: y dylai rheoleiddio fod yn dryloyw, yn gymesur, yn gyson, yn atebol ac wedi'i dargedu dim ond at achosion y mae angen gweithredu yn eu cylch. Pan sefydlwyd Ofcom, buom yn ehangu'r egwyddorion hyn drwy ddatblygu set fwy penodol o egwyddorion rheoleiddio a fyddai'n sail i'n gwaith beunyddiol. Am fod y sector cyfathrebu'n newid mor gyflym mae'n bwysig iawn fod gennym egwyddorion clir i'n tywys.

## Egwyddorion Rheoleiddio Ofcom

### Pryd byddwn yn rheoleiddio

Bydd Ofcom yn gweithredu gyda gogwydd yn erbyn ymyrryd, ond â pharodrwydd i ymyrryd yn ddiymdroi ac yn effeithiol pan fydd angen.

Bydd Ofcom yn ymyrryd pan mae dyletswydd statudol benodol i weithio at nod na all y marchnadoedd ei gyflawni ar eu pen eu hunain.

### Sut rydym yn rheoleiddio

Bydd Ofcom bob amser yn ceisio defnyddio'r dulliau rheoleiddio lleiaf ymwthiol er mwyn cyflawni ei amcanion.

Bydd Ofcom yn ceisio sicrhau bod ymyriadau ar sail tystiolaeth, yn gymesur, yn gyson, yn atebol ac yn dryloyw wrth eu hystyried ac o ran canlyniadau.

Bydd Ofcom yn rheoleiddio gyda chynllun blynyddol a fydd wedi'i fynegi'n glir ac wedi'i adolygu'n gyhoeddus, ynghyd ag amcanion penodedig.

### Sut byddwn yn cefnogi rheoleiddio

Bydd Ofcom yn ymchwilio i farchnadoedd yn gyson ac yn ceisio aros ar flaen y gad o ran dealltwriaeth dechnolegol.

Bydd Ofcom yn ymgynghori'n eang â'r holl randdeiliaid perthnasol ac yn asesu effaith camau rheoleiddio cyn rheoleiddio marchnad.

## Lleihau rheoleiddio


Mae Ofcom yn canolbwyntio ar leihau rheoleiddio pan fo'n bosibl. Rydym yn credu bod 'rheoleiddio gwell' yn golygu sicrhau bod rheoleiddio'n cael ei dargedu'n briodol ac nad yw'n gosod beichiau gormodol ar randdeiliaid.

Fodd bynnag, lle bo angen, rydym yn gwneud penderfyniadau i gynyddu neu i gryfhau rheoleiddio, fel arfer er mwyn diogelu buddiannau dinasyddion a defnyddwyr a'u hamddiffyn rhag niwed.

Mae Ffigur 2 yn rhoi trosolwg o'r ffordd y newidiodd y baich rheoleiddio ar randdeiliaid o ganlyniad i ddatganiadau a phenderfyniadau rheoleiddio Ofcom yn 2012/13.

**Ffigur 2: Effaith ein datganiadau ar y baich rheoleiddio ar randdeiliaid yn 2012/13**

| | Nifer | % |
|---|---|---|
| Llai o reoleiddio | 7 | 15 |
| Wedi symleiddio/cyd-reoleiddio | 1 | 2 |
| Cymysg/dim newid/parhaus | 31 | 66 |
| Rheoleiddio wedi cynyddu/newydd | 8 | 17 |




Mae golwg gyffredinol o'r datganiadau a'r penderfyniadau allweddol rydym wedi'u gwneud yn ystod y flwyddyn ar gael yn y tablau yn yr Atodiad at dudalennau 103 i 105.

## Perthynas â rhanddeiliaid

Mae swyddogaeth Ofcom fel rheoleiddiwr yn golygu ein bod yn gorfod ymgysylltu ag ystod eang o randdeiliaid, gan gynnwys cwmnïau a chyrff y diwydiant yn y sectorau rydym yn eu rheoleiddio, grwpiau defnyddwyr a defnyddwyr, Llywodraeth y DU a'r sefydliadau datganoledig, cyd-reoleiddwyr a rheoleiddwyr eraill. Rydym yn aelodau o'r Grŵp Cyd-reoleiddwyr, ac rydym hefyd yn ymgysylltu ag amryw o sefydliadau a chyrff rheoleiddio rhyngwladol.

Wrth wneud penderfyniadau mae gan Ofcom ddyletswydd statudol i ystyried barn a buddiannau'r rheini sy'n byw yng ngwahanol rannau'r Deyrnas Unedig. Mae ein gweithrediadau yn y gwledydd yn cael eu tywys gan uwch Gyfarwyddwyr yng Nghaerdydd, Llundain, Glasgow a Belfast. Maent yn gweithio i sicrhau bod barn, anghenion ac amgylchiadau arbennig y gwledydd yn cael sylw gan Ofcom. Mae Pwyllgorau Cynghori Ofcom ymhob gwlad yn rhoi gwybodaeth fanwl ac arbenigol inni am yr heriau penodol a wynebir gan ddinasyddion a defnyddwyr yng ngwahanol ardaloedd y DU. Mae buddiannau cenedlaethol hefyd yn cael eu cynrychioli gan aelodau Bwrdd Cynnwys a Phanel Defnyddwyr Cyfathrebiadau Ofcom.

### Ymgynghori

Drwy ymgynghoriadau, mae rhanddeiliaid yn gallu rhoi sylwadau ar ein cynigion cyn y gwneir penderfyniad, ac yn gallu ymateb iddynt. Os bydd cyfnod ymgynghori yn rhy fyr, efallai na fydd gan y rheini sydd â barn bwysig i'w chyfleu ddigon o amser i baratoi eu hymatebion. Os bydd yn rhy hir, efallai y bydd y farchnad dan sylw wedi newid yn ddramatig. Gallai hyn effeithio ar ein gallu i ddelio â mater cyn gynted ag y byddai'r rhanddeiliaid dan sylw'n ei hoffi. Pan fyddwn yn penderfynu ar hyd cyfnod ymgynghoriad, mae angen inni gael y cydbwysedd iawn rhwng y ddwy ystyriaeth hyn. Yn gyffredinol, ceir tri chategori o ymgynghoriad:

- Categori 1: ymgynghoriadau sy'n cynnwys cynlluniau polisi o bwys a/neu sydd o ddiddordeb i amrywiaeth eang o randdeiliaid (yn enwedig y rheini y bydd angen mwy o amser arnynt efallai ar gyfer ymateb); yn yr achosion hyn byddwn fel arfer yn ymgynghori am ddeg wythnos;
- Categori 2: ymgynghoriadau sy'n cynnwys cynigion polisi pwysig ond a fydd o ddiddordeb i nifer cyfyngedig o randdeiliaid a fydd

## Cyswllt â defnyddwyr a dinasyddion

Mae deall diddordebau ac ymddygiad defnyddwyr a dinasyddion yn hanfodol i'n gwaith. Mae Ofcom yn defnyddio ymchwil marchnad yn helaeth i ddeall patrymau sy'n ymwneud â'r nifer sy'n prynu ac yn defnyddio gwasanaethau cyfathrebu ac ymddygiad a phryderon defnyddwyr. Mae ein hadroddiadau blynyddol Profiad Defnyddwyr a'r Farchnad Cyfathrebiadau, yn benodol, yn disgrifio ac yn dadansoddi'r patrymau hyn. Derbyniodd Tîm Cyswllt Defnyddwyr Ofcom dros 80,000 o alwadau'n uniongyrchol gan ddefnyddwyr yn ystod y flwyddyn, ac mae'r wybodaeth a gawn gan ddefnyddwyr yn ein helpu i dargedu ein polisïau a'n gwaith gorfodi. Gall defnyddwyr hefyd gysylltu â ni drwy ein gwefan. Er na allwn ddatrys cwynion unigol am wasanaethau cyfathrebu, rydym yn cynghori'r rheini sy'n cwyno ac yn eu cyfeirio at gynlluniau Dulliau Amgen o Ddatrys Anghydfodau (ADR) sydd wedi cael eu cymeradwyo gennym. Serch hynny, rydym yn delio â chwynion am raglenni teledu a radio.

Rydym hefyd yn cynnal trafodaethau rheolaidd gyda sefydliadau rhanddeiliaid a defnyddwyr, a chyfarfodydd ymgynghori ar destunau penodol. Mae'r Panel Defnyddwyr Cyfathrebiadau'n cynnwys arbenigwyr annibynnol, sy'n gweithio i ddiogelu a hyrwyddo buddiannau pobl yn y sector cyfathrebiadau. Mae'n gwneud gwaith ymchwil ac yn darparu cyngor arbenigol i Ofcom, y Llywodraeth, yr UE, diwydiant ac eraill ar broblemau cyfathrebu y mae defnyddwyr, dinasyddion a busnesau bach yn eu cael. Mae'r Fforwm Defnyddwyr ar Gyfathrebiadau, sy'n cynnwys dros 50 o aelodau o gyrff defnyddwyr, yn cwrdd bob chwarter ag Ofcom i drafod materion polisi defnyddwyr.

yn ymwybodol o'r materion; yn yr achosion hyn byddwn fel arfer yn ymgynghori am chwe wythnos.

- Categori 3: ymgynghoriadau sy'n dod o fewn un neu fwy o'r categorïau canlynol, gyda'r cyfnod arferol ar gyfer ymgynghori yn fis:
  - materion technegol;
  - isafswm cyfnod ymgynghori statudol;
  - lle mae angen cwblhau prosiect o fewn amserlen benodol oherwydd datblygiadau yn y farchnad neu ffactorau eraill lle mae gofyn cwblhau'r prosiect mewn cyfnod byr;
  - bod y mater eisoes wedi bod yn destun ymgynghoriad;
  - lle na chaiff cynnig fawr o effaith ar farchnad; neu
  - lle nad yw cynnig ond yn fân newid i bolisi neu reoliad sy'n bodoli eisoes.

Yn Ffigur 3 dadansoddir hyd ein hymgynghoriadau fesul sector.

Mae Ofcom yn casglu ystadegau ar nifer yr ymatebion i ymgynghoriadau, fel y gwelir yn Ffigur 4. Cawsom 1,147 ymateb i gyd yn 2012/13, 17% yn fwy na'r llynedd (980).


### Gwneud penderfyniadau'n brydlon

Rydym yn dadansoddi pa mor hir mae'n ei gymryd i ni gyhoeddi penderfyniad ar ôl i ymgynghoriad ddod i ben (gweler Ffigur 5). Yn 2012/13, cyhoeddwyd dros 80 y cant o benderfyniadau cyn pen 20 wythnos i ddiwedd yr ymgynghoriad, y rhan fwyaf ohonynt cyn pen 10 wythnos.


**Ffigur 3: Dadansoddiad o hyd ymgynghoriadau: 2012/13**

| | Cyfnod ymgynghori o leiaf 10 wythnos o hyd | Cyfnod ymgynghori llai na 10 wythnos (gan gynnwys ymgynghoriadau categori 1 a chategori 3) |
|---|---|---|
| Telegyfathrebiadau | 7 | 12 |
| Darlledu | 3 | 7 |
| Sbectrwm | 1 | 13 |
| Post | 1 | 10 |
| Arall | – | 1 |
| **Cyfanswm** | **12 (=22%)** (38% yn 2011/12) | **43 (=78%)** (62% yn 2011/12) |

**Ffigur 4: Ymatebion i ymgynghoriadau yn 2012/13**




**Ffigur 5: Dadansoddiad o'r amser a gymerwyd i gyhoeddi penderfyniad Ofcom ar ôl i'r cyfnod ymgynghori ddod i ben: 2012/13**



## Asesiadau Effaith

Mae asesiadau effaith yn rhan bwysig o'r broses gwneud penderfyniadau. Mae Adran 7 o'r Ddeddf Cyfathrebiadau yn ei gwneud yn ofynnol inni gynnal asesiad effaith lle rydym yn bwriadu gwneud unrhyw beth er mwyn cyflawni ein swyddogaethau neu mewn cysylltiad â chyflawni ein swyddogaethau, a lle teimlwn fod y cynnig yn bwysig. Mae asesiadau effaith yn sicrhau, ymysg pethau eraill, yng nghyswllt ein penderfyniadau:

- bod ystod eang o ddewisiadau'n cael eu hystyried, gan gynnwys y dewis i beidio â rheoleiddio;
- bod y dewisiadau hyn yn cael eu cyflwyno'n glir;
- bod effeithiau posibl pob dewis yn cael eu dadansoddi'n ofalus; a
- bod y manteision yn fwy na'r costau sy'n gysylltiedig â'r dewis a ddewisir.

Rhaid i Ofcom gyhoeddi rhestr o'r Asesiadau Effaith sydd wedi cael eu cynnal yn ystod y flwyddyn, sy'n ymddangos yn yr Atodiad ar dudalennau 106 a 107.

Ym mis Gorffennaf 2005, roeddem wedi cyhoeddi canllawiau *Arferion gorau wrth lunio polisïau: agwedd Ofcom at asesu effaith*, a oedd yn pwysleisio ymrwymiad Ofcom i gynnal asesiadau fel rhan greiddiol o'r broses llunio polisïau gan ddweud ein bod yn disgwyl cynnal asesiadau effaith ym mwyafrif helaeth ein penderfyniadau ar bolisïau.

Dengys Ffigur 6 fod 60 y cant o ddogfennau ymgynghori yn 2012/13 yn cynnwys asesiad effaith, a oedd wedi'i osod mewn adran neu atodiad penodol o'r ddogfen ymgynghori, ffigurau sydd heb newid i bob pwrpas ers y llynedd. Dan rai amgylchiadau efallai na fydd angen cynnal asesiad effaith neu efallai na fydd yn briodol ei gynnal. Byddwn yn parhau i sicrhau bod asesiadau effaith yn cael eu cynnal ac yn cael eu cyflwyno'n briodol ymhob achos perthnasol.

## Dyletswyddau newydd a diwygiedig

Yn 2012, gwnaeth Llywodraeth y DU nifer o Orchmynion o dan Ddeddf Cyfathrebu 2003 a Deddf Telegraffiaeth Di-wifr 2006, a oedd yn rhoi'r dyletswyddau a'r pwerau gofynnol i Ofcom i drwyddedu cenhedlaeth newydd o wasanaethau teledu lleol. Yn benodol, roeddynt yn creu fframwaith deddfwriaethol ar gyfer trwyddedu gwasanaethau teledu lleol, yn cyfarwyddo Ofcom i neilltuo sbectrwm ar gyfer y gwasanaethau hyn, ac yn sefydlu statws y gwasanaethau hyn yng nghyswllt Cyfeiryddion Rhaglenni Electronig (EPGs). Cynhaliodd Ofcom gam cyntaf y broses trwyddedu teledu lleol yn ystod 2012/2013, ac mae wedi gofyn am ddatganiadau o ddiddordeb mewn ail gylch o drwyddedu.

**Ffigur 6: Dadansoddiad o'r asesiadau effaith a gynhaliwyd**

| Nifer y dogfennau ymgynghori | Cyfanswm | Asesiad Effaith yn rhan o'r ddogfen a gyhoeddwyd |
|---|---|---|
| Telegyfathrebiadau | 19 | 12 |
| Darlledu | 10 | 5 |
| Sbectrwm | 14 | 9 |
| Post | 11 | 7 |
| Arall | 1 | 0 |
| **Cyfanswm** | **55** | **33 (=60%)** |

## Cyd-reoleiddwyr

Mae Ofcom yn rhannu cyfrifoldebau rheoleiddio mewn rhai meysydd â rheoleiddwyr eraill.

Mae ATVOD (yr Awdurdod Teledu ar Alwad) yn gyfrifol am ddelio â chwynion sy'n ymwneud â chynnwys golygyddol gwasanaethau fideo ar alwad yn y DU. Roedd dynodi ATVOD yn bartner cyd-reoleiddio yn destun adolygiad ffurfiol yn ystod y flwyddyn. Mae manylion canlyniad yr adolygiad hwn ar dudalen 24.

Mae gan Ofcom hefyd bartneriaeth gyd-reoleiddio gyda'r ASA (Awdurdod Safonau Hysbysebu), a ffurfiwyd yn 2004. Mae'n delio â darlledwyr a hysbysebu ar wasanaethau fideo ar alwad. Mae'n rhaid i ddarlledwyr gydymffurfio â'r Codau Hysbysebu o dan eu trwyddedau darlledu a roddir gan Ofcom. Pan fydd yr ASA yn dyfarnu ar hysbyseb, bydd darlledwyr yn cydymffurfio â'r penderfyniadau ar unwaith o dan amodau eu trwyddedau. Fodd bynnag, pan fo angen, mae'r ASA yn gallu cyfeirio'r rheini sy'n dal trwyddedau at Ofcom.

Mae PhonepayPlus yn asiantaeth reoleiddio arall sy'n gyfrifol am reoleiddio o ddydd i ddydd ar ran Ofcom. Mae PhonepayPlus yn gweithio gyda'r diwydiant ac yn gorfodi cod ymarfer ar gyfer gwasanaethau cyfradd premiwm, sy'n galluogi defnyddwyr i brynu nwyddau a gwasanaethau drwy godi'r gost ar eu biliau ffôn a'u cyfrifon talu ymlaen llaw.

# Ein gweithwyr

## Cenhadaeth a gwerthoedd Ofcom

Mae Aelodau Bwrdd a chydweithwyr Ofcom yn rhannu'r un ymrwymiad i genhadaeth a gwerthoedd Ofcom ac maent yn cyflawni gwaith y sefydliad gan gyfeirio at y gwerthoedd craidd hyn. Yr oedd cydweithwyr o bob rhan o'r sefydliad yn allweddol wrth ddatblygu'r chwech o werthoedd sy'n adlewyrchu ein dymuniad i weithio mewn ffordd agored, effeithiol ac sy'n canolbwyntio ar bobl.

Rydym yn gwneud ein gorau glas i fod yn ddeinamig, yn ymatebol ac yn ymwybodol yn fasnachol: mae meddwl yn bendant, dadansoddi'n drwyadl ar sail tystiolaeth ac ymgysylltu â rhanddeiliaid yn allweddol i'n heffeithiolrwydd fel sefydliad.

## Ymgynghori â chydweithwyr a'u cynnwys

Mae cynnwys cydweithwyr yn cael ei hybu'n frwd fel rhan o'n prosesau beunyddiol. Rydym yn rhoi gwybodaeth i gydweithwyr ac yn ymgynghori â nhw drwy:

- Fforwm Cydweithwyr Ofcom, sef fforwm ymgynghori sy'n cynnwys cynrychiolwyr o blith cydweithwyr ar draws Ofcom ac sy'n cwrdd yn rheolaidd gyda'r uwch reolwyr yng nghyfarfodydd y Grŵp Ymgynghori ar y Cyd (sy'n cynnwys dau aelod o'r undeb);
- mewnrwyd Ofcom, sydd ar gael i bob cydweithiwr ym mhob un o swyddfeydd Ofcom;
- cyflwyniadau a roddir gan uwch reolwyr lle bydd cynlluniau strategol newydd yn cael eu hegluro wrth gydweithwyr a phan ddarperir y wybodaeth ddiweddaraf am brosiectau sy'n parhau;
- cyfarfodydd grŵp rheolaidd er mwyn gwrando ar gydweithwyr a rhannu gwybodaeth; a
- negeseuon rheolaidd gan y Prif Weithredwr.

Rydym hefyd yn cynnal arolygon rheolaidd sy'n rhoi'r cyfle i gydweithwyr rannu eu safbwyntiau ar ystod o bynciau. Mae'r canlyniadau o'r arolygon hyn yn rhoi sylfaen allweddol ar gyfer llawer o'r gwaith o ddatblygu ein sefydliad. Yn 2012, gwnaethom gynnal arolwg cynhwysfawr ymysg cydweithwyr a dilyn hwn gyda gweithdai a chynlluniau gweithredu i fynd i'r afael â materion a godwyd gan gydweithwyr.

## Datblygiad proffesiynol a pholisïau cyflogaeth

Mae ansawdd ac ymrwymiad ein pobl yn ganolog i'n gallu i gyflawni ein dyletswyddau. Yn ystod 2012 rhoesom raglen hyfforddiant ar gyfer y sefydliad cyfan ar waith, a oedd yn cynnwys sesiynau yn delio â gwybodaeth benodol i'r diwydiant ar y sectorau y mae Ofcom yn eu rheoleiddio. Rydym hefyd yn cynnal cynllun mentora lleol ac yn annog cydweithwyr i astudio ar gyfer cymwysterau proffesiynol. Ar gyfer ein rheolwyr ar y lefel uchaf, cynhaliwyd rhaglen ddatblygu gennym gyda'r nod o wella galluoedd a sgiliau arwain o fewn y sefydliad.

Rydym wedi ymrwymo i sicrhau y caiff pob cydweithiwr ei drin yn deg a chydag urddas a pharch. Rydym wedi adolygu ein polisïau AD er mwyn sicrhau eu bod yn gyfoes ac yn cyd-fynd â'n gwerthoedd fel sefydliad, yn ogystal â gofynion cyfraith cyflogaeth.



## Absenoldeb

Mae Ofcom yn hybu diwylliant lle mae presenoldeb da yn ddisgwyliedig ac yn cael ei werthfawrogi. Fodd bynnag, rydym yn cydnabod nad oes modd osgoi absenoldeb am resymau meddygol o bryd i'w gilydd. Nod Ofcom yw trin ei staff sy'n sâl yn deg a gyda chydymdeimlad a rhoi cefnogaeth iddynt lle bo hynny'n bosibl. Bydd hynny'n eu galluogi i wella ac i fynychu'r gwaith yn rheolaidd. Yn 2012/13, nifer y diwrnodau gwaith a gollwyd oedd 4.14 diwrnod y flwyddyn fesul gweithiwr (2011/12: 4.0 diwrnod). Mae hyn yn cymharu'n ffafriol â'r cyfartaledd yn y sector cyhoeddus, sef 7.9 diwrnod y flwyddyn fesul gweithiwr yn 2012 (2011: 9.1 diwrnod)[1].

## Dyma werthoedd Ofcom:

- cyfathrebu'n agored ac yn onest;
- gwrando â meddwl agored;
- gwneud gwahaniaeth;
- grymuso a blaenoriaethu;
- buddsoddi yn ein cydweithwyr a'u cefnogi; a
- cydweithio gwirioneddol.

1 CIPD Absence Management 2012: Public Sector, cyhoeddwyd Hydref 2012

# Cyfrifoldeb corfforaethol

## Ymrwymiad Ofcom i gydraddoldeb, amrywiaeth a hawliau dynol

Fel cyflogwr, rydym wedi ymrwymo i gyfle cyfartal i bob cydweithiwr, ni waeth beth yw eu hil, eu hanabledd, eu rhyw (gan gynnwys ailbennu rhywedd), oed, crefydd neu gred a chyfeiriadedd rhywiol. Mae'r ymrwymiad hwn wrth galon ein polisïau cyflogaeth a'n dull gweithredu o ran hyfforddiant a datblygu gyrfa.

Mae ein Cynllun Cydraddoldeb Sengl (SES) yn ganolog i'n penderfyniad i wneud popeth y gallwn i hyrwyddo cydraddoldeb ac amrywiaeth yn ein sefydliad, ac rydym eisoes wedi cyflawni rhai o'n prif amcanion yn y cynllun.

Yn 2012, gwnaethom gyhoeddi ein harchwiliad cyflog cyfartal, a ddangosai, er bod rhai gwahaniaethau yn y lefelau cyflog ymysg gweithwyr sy'n gwneud rolau tebyg, nad oedd yn ymddangos bod rhagfarn o ran bod cydweithwyr o un rhyw yn cael mwy o dâl na'r rhyw arall ar gyfer gwaith cyfartal.

Gwnaethom gyflwyno adroddiad hefyd ar gyfansoddiad amrywiaeth ein cydweithwyr a defnyddio'r canfyddiadau i'n helpu i ystyried beth allai fod angen inni ei wneud i recriwtio a chadw cymysgedd amrywiol o weithwyr. Fel rhan o'n hymrwymiad i wella cymysgedd rhyw ein staff peirianyddol, gwnaethom noddi gwobr 'Peirianwraig Ifanc y Flwyddyn' y Sefydliad Peirianneg.

Yn 2012, gwnaethom gyhoeddi Cynllun Cydraddoleb wedi'i ddiweddaru ar gyfer Gogledd Iwerddon. Mae hwn yn nodi sut byddwn yn hybu cyfle cyfartal a chysylltiadau da ar draws grwpiau gwahanol o bobl wrth gyflawni ein swyddogaethau sy'n berthnasol i Ogledd Iwerddon.

Rydym wedi parhau i gyfrannu at weithgareddau meincnodi i sicrhau ein bod yn gweithredu yn unol ag arferion gorau. Roeddem yn falch o wella ein sgôr ym Mynegai Cydraddoldeb y Gweithle gan Stonewall am y drydedd flwyddyn yn olynol. Mae hwn yn edrych ar ein hagwedd at staff lesbiaidd, hoyw a deurywiol. Cawsom ein henwi hefyd yn rhestrau Busnes yn y Gymuned o'r deg busnes gorau am ein gwaith ar rywedd (Opportunity Now) a hil (Race for Opportunity), a chawsom ein cynnwys yn un o'r 50 cyflogwr gorau i Fenywod gan y Times.

## Cyfrifoldeb corfforaethol

Mae Ofcom wedi ymrwymo i sicrhau ein bod yn gyflogwr cyfrifol i'n cydweithwyr ond ein bod hefyd yn rheoli ein heffaith ar y gymuned ehangach. Dyma ein dibenion Cyfrifoldeb Corfforaethol:

- trin pob cydweithiwr ag urddas a pharch mewn amgylchedd gwaith cynhwysol a theg, gan hyrwyddo cyfle cyfartal i bawb;
- lleihau ein hôl troed carbon, darparu gwerth am arian a sicrhau bod arferion Ofcom yn gynaliadwy yn amgylcheddol; ac
- cynnwys, ysbrydoli a datblygu cydweithwyr wrth fynd ati'n rhagweithiol i geisio cefnogi ein cymuned leol.

Mae llwyddiannau eraill wedi cynnwys gwella hygyrchedd ein gwefan a'n cyhoeddiadau, cynnwys elfen cydraddoldeb yn ein hymchwil a darparu mwy o gymorth i'n cydweithwyr anabl.

Yn y gymuned ehangach rydym wedi ymestyn y cynllun mentora darllen yr ydym yn ei redeg gydag ysgol gynradd leol yn Southwark, gan roi'r cyfle i gydweithwyr hyfforddi plant ifanc i wella eu sgiliau llythrennedd. Ar ben hynny, rydym yn gweithio gyda Career Academies UK, gan fentora myfyrwyr 16 - 17 oed a'u helpu i baratoi ar gyfer bywyd corfforaethol, ac yn ystod haf 2012 roeddem wedi rhoi lle i bedwar intern o academïau lleol. Gwnaethom hefyd gynnal ein sesiwn rhyngweithiol cyntaf ar dechnolegau cyfathrebiadau ar gyfer rhai o'n rhanddeiliaid hŷn.

# Adroddiad cynaliadwyedd

Mae'r adran hon yn rhoi golwg gyffredinol ar strategaeth cynaliadwyedd Ofcom a'n perfformiad yn y maes hwn. Mae hefyd yn cynnwys data cynaliadwyedd a chostau ariannol cysylltiedig sydd wedi cael eu cyflwyno mewn fformat sy'n cyd-fynd â'r canllawiau ar gyfer adrodd ar gynaliadwyedd a gyhoeddwyd gan y Trysorlys ar gyfer 2012/13.

## Strategaeth cynaliadwyedd Ofcom

### Cyflwyniad

Roedd Ofcom wedi comisiynu archwiliad carbon annibynnol yn 2007, ac wedyn wedi ymrwymo i ostyngiad 25 y cant yn ei allyriadau carbon mewnol erbyn diwedd 2012/13 (wrth gymharu â gwaelodlin yn 2007). Cafodd prosiect Ôl Troed a Chynaliadwyedd Ofcom ei sefydlu i ganfod a chymryd camau gweithredu i sicrhau bod Ofcom yn diwallu ei ymrwymiad gostyngiad carbon a bod ei arferion yn gynaliadwy'n amgylcheddol. Mae Ôl troed a Chynaliadwyedd yn un o'r tri llif gwaith yn rhaglen Cyfrifoldeb Corfforaethol cyffredinol Ofcom (gweler tudalen 42).

### Golwg gyffredinol ar dargedau lleihau

Mae targed o 25 y cant o ostyngiad gan Ofcom yn cynrychioli gostyngiad mewn saith maes: gwasanaethau gwybodaeth, cyfleustodau, gwastraff, teithio ar fusnes, deunyddiau caffael, cyfalaf caffael a chymudo. Yn 2009, roedd Ofcom wedi comisiynu ail archwiliad carbon annibynnol a oedd yn cadarnhau bod gostyngiad o 15 y cant mewn allyriadau carbon eisoes wedi cael ei gyflawni. Cadarnhaodd archwiliad arall yn 2012 fod gostyngiad 6 y cant arall wedi'i gyflawni, gan ddod â chyfanswm y gostyngiad i 21 y cant. Bydd archwiliad carbon terfynol yn 2013 (ar sail data 2012/13) yn cadarnhau a yw Ofcom wedi cyflawni ei darged cyffredinol sef 25 y cant o ostyngiad. Mae rhagor o fanylion am berfformiad a chynnydd Ofcom o ran cynaliadwyedd ar gael ar ein gwefan.

### Llywodraethu

Mae'r prosiect Ôl Troed a Chynaliadwyedd yn adrodd i'r Grŵp Llywio Cyfrifoldeb Corfforaethol (CRSG). Mae gan aelodau o'r CRSG uwch swyddi rheoli yn Ofcom ac maent yn gosod cyfeiriad strategol y gwaith. Caiff unrhyw gynnig sydd ag effaith amgylchedd ei gyflwyno ar gyfer cyfarwyddyd a chymeradwyaeth gan y CRSG cyn ei weithredu. Mae'r CRSG yn darparu adroddiadau cynnydd manwl bob chwe mis yn uniongyrchol i Bwyllgor Gweithredol Ofcom.

## Perfformiad 2012/13

### Allyriadau nwyon tŷ gwydr

Rydym wedi parhau i fonitro allyriadau nwyon tŷ gwydr ar draws amrywiol ffynonellau.

Rydym wedi buddsoddi'n sylweddol mewn seilwaith arbed ynni dros y blynyddoedd diwethaf, a byddwn yn adolygu gosodiadau gwresogi, oeri a goleuo'n rheolaidd. Mae gan Ofcom bolisi ynni sy'n tywys y gwaith o wneud penderfyniadau sy'n ymwneud ag ynni a chefnogi strategaeth rheoli ynni effeithiol.

Rydym yn parhau i annog cydweithwyr i ddefnyddio cyfleusterau fideo-gynadledda ar draws ein swyddfeydd yn y DU, ac rydym wedi rhoi nifer o bolisïau teithio llym ar waith.

Mae gan Ofcom fflyd o gerbydau a ddefnyddir gan ein cydweithwyr Peirianneg a Gorfodaeth Sbectrwm, sydd wedi'u dewis, yn rhannol, oherwydd eu hallyriadau isel fesul milltir, a byddwn yn monitro faint o danwydd a ddefnyddir yn fisol.

### Lleihau a rheoli gwastraff

Mae gan Ofcom bolisi 'dim gwastraff i safleoedd tirlenwi' yn ei swyddfa yn Llundain. Rydym yn ailgylchu papur, cardfwrdd, caniau, plastigau, batris, cetris peiriannau argraffu a CDs. Mae'r broses o gael gwared ag unrhyw offer TGCh yn cydymffurfio â'r Gyfarwyddeb Gwastraff Offer Trydanol ac Electronig (WEEE).

### Defnyddio adnoddau cyfyngedig

Mae'r defnydd o ddŵr yn dod yn bennaf o ystafelloedd ymolchi a dŵr yfed ymhob swyddfa, yn ogystal â'r cyfleusterau arlwyo yn ein swyddfa yn Llundain. Mae Ofcom yn monitro faint o ddŵr sy'n cael ei ddefnyddio'n fisol.

### Cynlluniau gweithredu bioamrywiaeth

Nid yw bioamrywiaeth yn ystyriaeth o bwys i Ofcom ac nid ydym yn casglu data yn y maes hwn.

### Caffael cynaliadwy

Mae Ofcom yn awyddus i hybu cynaliadwyedd ymysg ei gyflenwyr. Mae'r holiadur cyn-gymhwyso mae Ofcom yn ei ddefnyddio fel rhan o'i broses tendro i gaffael nwyddau a gwasanaethau gan sefydliadau allanol yn cynnwys y cwestiwn canlynol: "Rhowch dystiolaeth o gydymffurfio â'r cynllun archwilio Eco-reoli neu unrhyw safon amgylcheddol gydnabyddedig arall mae eich cwmni'n cydymffurfio ag ef sy'n berthnasol i bwnc y contract."

### Arall

Nodwyd bod Ofcom yn un o brif bartneriaid technoleg Pwyllgor Trefnu Gemau Olympaidd a Gemau Paralympaidd Llundain (LOCOG). Mae Ofcom wedi gweithio gyda LOCOG dros y tair blynedd diwethaf i gefnogi'r gwaith o ddarparu'r Gemau cynaliadwy cyntaf. Yn dilyn y Gemau, cwblhaodd Ofcom amcangyfrif ôlweithredol o'r ôl-troed carbon a fu'n gysylltiedig â'i rôl yn darparu gwasanaethau sbectrwm i'r Gemau a chyhoeddwyd hwn fel rhan o'r adroddiad *Ofcom a Gemau Olympaidd a Gemau Paralympaidd Llundain 2012* ym mis Rhagfyr 2012.

### Cynlluniau at y dyfodol

Bydd ein harchwiliad carbon terfynol yn 2013 yn cadarnhau a ydym wedi cyflawni ein targed cyffredinol ar gyfer y gostyngiad.

Yn y blynyddoedd i ddod, bydd Ofcom yn parhau i fonitro allyriadau carbon yn rheolaidd, gan ganolbwyntio'n benodol ar ddefnyddio ynni a rheoli gwastraff. Byddwn hefyd yn parhau i hybu ymddygiad cynaliadwy ymysg ein cydweithwyr.

Mae crynodeb o allyriadau Ofcom dros y pum mlynedd diwethaf ar gael yn Ffigur 7. Ewch i'r Atodiad ar dudalennau 115 a 116 i gael rhagor o fanylion.

**Ffigur 7: Golwg gyffredinol ar berfformiad cynaliadwyedd**

| | | Blwyddyn perfformiad | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | 2008/09 | 2009/10 | 2010/2011 | 2011/12 | 2012/13 |
| Allyriadau Nwyon Tŷ Gwydr (Cwmpasau 1,2) | tCO2e | 2,332 | 2,256 | 2,264 | 1,934 | 1,862 |
| | Gwariant | £591,764 | £657,649 | £623,059 | £486,769 | £457,486 |
| Teithio Busnes | tCO2e | 453 | 371 | 375 | 405 | 437 |
| | Gwariant | £987,034 | £820,896 | £627,606 | £713,021 | £705,867 |
| Gwastraff | Tunelli | 100 | 156 | 150 | 159 | 166 |
| | Gwariant | £63,828 | £56,181 | £62,256 | £53,345 | £46,068 |
| Dŵr | Defnyddio (m3) | 9,263 | 9,915 | 10,495 | 7,715 | 9,454 |
| | Gwariant | £28,065 | £21,505 | £18,573 | £22,771 | £26,610 |

* Mae allyriadau teithiau busnes wedi cynyddu oherwydd y lefelau uwch o weithgarwch rheoleiddio yn Ewrop yn ystod 2011/12 a 2012/13.

# Datganiad llywodraethu




Yn adrannau cynharach yr adroddiad hwn, rydym wedi disgrifio blaenoriaethau a gweithgareddau Ofcom yn ystod y flwyddyn ariannol ddiwethaf. Yn y trosolwg hwn rydym yn trafod y fframwaith llywodraethu y mae Ofcom yn ei ddefnyddio i arwain y sefydliad ac fel sylfaen ar gyfer cyflawni ei amcanion, ond gan sicrhau ein bod yn diogelu arian cyhoeddus.


Mae'r fframwaith statudol sy'n sefydlu Ofcom yn datgan yn glir ei fod yn gorff annibynnol. Mae'r egwyddor hon o annibyniaeth wrth galon rheoleiddio effeithiol ac mae'n hanfodol i oruchwyliaeth Ofcom o'r sector cyfathrebiadau. Mae'n sail i benderfyniadau Ofcom ac mae'n rhoi'r eglurder a'r sicrwydd sy'n ysgogi llawer o'r buddsoddiad yn y sector, sydd o fudd i ddinasyddion ac i ddefnyddwyr.

Mae Bwrdd Ofcom yn cynnal yr egwyddor hon o annibyniaeth yn gryf, wrth benodi ei aelodau ac yn ei ystyriaethau. Bwrdd Ofcom yw'r endid allweddol sy'n gwneud penderfyniadau yn Ofcom ac mae'n gweithio gydag Ed Richards fel Swyddog Atebol Ofcom, i sicrhau bod strwythur llywodraethu priodol ac effeithiol ar waith. Mae fframwaith llywodraethu corfforaethol Ofcom wedi cael ei lunio o amgylch y strwythur, a ddangosir yn Ffigur 8, yn seiliedig ar system gadarn o reolaeth fewnol, rheoli risg a sicrwydd, ac yn y datganiad hwn, byddwn yn edrych ar bob rhan o'r strwythur yn fanylach. Caiff ein strategaeth ar gyfer pob rhan o'r strwythur ei hadolygu'n rheolaidd i sicrhau ei bod yn dal yn berthnasol ac yn effeithiol.

Mae'r Bwrdd yn datblygu'n gyson, ac mae ei aelodau'n cynnig cydbwysedd cryf o sgiliau, gwybodaeth a phrofiad. Mae nifer o bwyllgorau'n ei helpu yn ei waith, gan gynnwys y Bwrdd Cynnwys, y Panel Defnyddwyr Cyfathrebiadau, pum Pwyllgor Cynghori statudol a Bwrdd Ymgynghori ar Sbectrwm Ofcom, sydd gyda'i gilydd yn ategu, yn gwella ac yn cefnogi Pwyllgor Gwaith Ofcom. Mae gwaith y rhannau hyn o'r strwythur llywodraethu o ran cynghori Bwrdd Ofcom a Phwyllgor Gwaith Ofcom yn arbennig o werthfawr ac rydym yn diolch i holl aelodau'r cyrff hwn am eu cyngor a'u penderfyniadau heriol a threiddgar. Ni allai Ofcom weithredu cystal ag y mae'n ei wneud heb eu cefnogaeth barhaus.

Gyda phob rhan o'r strwythur llywodraethu'n ymwneud â gweithgareddau Ofcom, rydym yn sicrhau bod yr holl bolisïau strategol sydd i'w gweithredu gan Ofcom, ynghyd â phob maes arall o berfformiad, cyfrifoldeb ac atebolrwydd, yn cael eu herio'n gadarn. Mae herio o'r fath yn arwain at benderfyniadau cryf ac o ansawdd sy'n cael eu gwneud ar sail gwybodaeth a thystiolaeth ar lefel y Bwrdd ac yn y sefydliad drwyddo draw.

**Colette Bowe, Cadeirydd ac Ed Richards, Prif Weithredwr a'r Swyddog Atebol**
18 Mehefin 2013




**Ffigur 8: Elfennau strwythur llywodraethu Ofcom**

# Bwrdd Ofcom

## Mae Bwrdd Ofcom yn cynnal yr egwyddor o annibyniaeth yn gadarn, sydd wrth galon rheoleiddio effeithiol.


Colette Bowe


Y Fonesig Patricia Hodgson, DBE


Ed Richards


Y Fonesig Lynne Brindley, DBE


Tim Gardam


Mike McTighe


Arglwydd Blackwell


Stuart McIntosh


Jill Ainscough

**COLETTE BOWE**

Daeth Collette Bowe yn Gadeirydd Anweithredol Bwrdd Ofcom ym mis Mawrth 2009. Hyfforddodd fel economegydd ac mae wedi dal nifer o uwch swyddi yn y sectorau cyhoeddus a phreifat. Ar hyn o bryd, ymysg pethau eraill, mae'n Gadeirydd Electra Private Equity plc, Cadeirydd Bwrdd Cyswllt yr Ysgolion Cerddoriaeth Brenhinol, ac yn aelod o Fwrdd Axa Deutschland GmBh ac Awdurdod Ystadegau'r DU. Mae'n Aelod o'r Pwyllgor Enwebiadau, y Pwyllgor Taliadau a'r Pwyllgor Archwilio a Risg.

**Y FONESIG PATRICIA HODGSON, DBE**

Penodwyd y Fonesig Patricia Hodgson, DBE yn Aelod Anweithredol o Fwrdd Ofcom ar 1 Gorffennaf 2011 a daeth yn Ddirprwy Gadeirydd ar 1 Ionawr 2012. Fe'i penodwyd yn Gadeirydd Bwrdd Adolygu Athrawon Ysgol yn 2012. Mae'n Gadeirydd Pwyllgor Enwebiadau a Phwyllgor Taliadau Ofcom ac yn aelod o'r Pwyllgor Archwilio a Risg, y bu'n ei gadeirio yn ystod cyfnod absenoldeb Mike McTighe.

**ED RICHARDS**

Mae Ed Richards wedi bod yn Brif Weithredwr Ofcom ers mis Hydref 2006, ar ôl ymuno â'r Bwrdd yn 2003. Ar hyn o bryd mae'n Gyfarwyddwr Anweithredol Thames Water Utilities Limited a Donmar Warehouse, mae'n un o Lywodraethwyr Ysgol Economeg Llundain ac yn un o Ymddiriedolwyr yr Ymddiriedolaeth Gwobrau Addysgu.

**Y FONESIG LYNNE BRINDLEY, DBE**

Penodwyd y Fonesig Lynne Brindley, DBE yn Aelod Anweithredol o Fwrdd Ofcom ar 1 Medi 2011. Mae'n aelod o gyngor Cyngor Ymchwil y Celfyddydau a'r Dyniaethau, yn aelod o Fwrdd Rhwydwaith Trosglwyddo Gwybodaeth y Diwydiannau Creadigol, yn aelod o Gyngor y City University ac ar Lys cwmni Goldsmiths. Mae'n Gadeirydd Pwyllgor Gwledydd Ofcom ac yn Aelod o Bwyllgorau Taliadau ac Enwebiadau Ofcom.

**TIM GARDAM**

Mae Tim Gardam wedi bod yn Aelod Anweithredol o Fwrdd Ofcom er mis Ionawr 2008. Mae wedi bod yn Bennaeth Coleg St Anne, Rhydychen er 2004. Mae'n aelod o Gyngor y Brifysgol, Cadeirydd Cyngres y Colegau a Chadeirydd Sefydliad Reuters ar gyfer Astudio Newyddiaduraeth yn y Brifysgol. Mae'n Gadeirydd Bwrdd Cynnwys Ofcom, yn Gadeirydd y Pwyllgor Trwyddedu Darlledu a'r Pwyllgor Etholiadau ac yn Aelod o'r Pwyllgorau Taliadau ac Enwebiadau.

**MIKE MCTIGHE**

Daeth Mike McTighe yn Aelod Anweithredol o Fwrdd Ofcom ym mis Medi 2007. Mae'n Gadeirydd Volex Group plc a WYG plc, ac yn uwch gyfarwyddwr annibynnol gyda Betfair Group plc. Mae'n Gadeirydd ar Bwyllgor Archwilio a Risg Ofcom ac yn Aelod o'r Pwyllgorau Taliadau ac Enwebiadau. Cymerodd Mike gyfnod o absenoldeb o Ofcom rhwng Ionawr a Mai 2013.

**YR ARGLWYDD BLACKWELL**

Daeth Norman Blackwell yn Aelod Anweithredol o Fwrdd Ofcom ym mis Medi 2009. Mae'n Gadeirydd y Bwrdd yn Interserve plc, ac yn aelod o'r Bwrdd yn Halma plc, Lloyds Banking Group plc a'r Ganolfan Astudiaethau Polisi. Mae'n aelod o Fwrdd Cynnwys Ofcom, a hefyd ei Bwyllgorau Taliadau ac Enwebiadau.

**STUART MCINTOSH**

Ymunodd Stuart McIntosh ag Ofcom fel Partner Cystadleuaeth ym mis Ionawr 2008 a chafodd ei benodi i'r Bwrdd ym mis Gorffennaf 2008. Cyn ymuno ag Ofcom, roedd yn bartner strategaeth ym mhractis cyfathrebu IBM yn yr Unol Daleithiau, ar ôl cychwyn ei yrfa fel economegydd yng Ngwasanaeth Economaidd Llywodraeth y DU.

**JILL AINSCOUGH**

Ymunodd Jill Ainscough ag Ofcom ym mis Awst 2007 fel Prif Swyddog Gweithredol a chafodd ei phenodi i'r Bwrdd ym mis Hydref 2010. Cyn ymuno ag Ofcom roedd yn Rheolwr Gyfarwyddwr Easynet. Rhwng 2007 ac Ebrill 2012, roedd ar Fwrdd Sport England.

## Arweinyddiaeth

Bwrdd Ofcom sy'n arwain y sefydliad, gan rannu ymrwymiad i'r genhadaeth a'r gwerthoedd sydd wedi'u disgrifio ar dudalen 41.

Mae ei brif weithgareddau yn cynnwys:

- gosod y strategaeth gyffredinol ar gyfer Ofcom;
- gweithredu fel yr awdurdod sy'n gwneud y penderfyniadau terfynol;
- cael sicrwydd bod risgiau sylweddol i Ofcom yn cael eu pennu a bod systemau priodol ar gyfer rheoli risg yn bodoli er mwyn lliniaru risgiau o'r fath;
- diffinio archwaeth Ofcom am risg; ac
- olyniaeth Bwrdd a rheolwyr gweithredol.

Yn ystod y flwyddyn dan sylw roedd y Bwrdd wedi darparu'r cyfeiriad strategol cyffredinol drwy osod blaenoriaethau Ofcom yn ei Gynllun Blynyddol. Parhaodd y Bwrdd i oruchwylio gwaith cyffredinol Ofcom er budd dinasyddion a defnyddwyr a rhoddodd gymeradwyaeth i nifer o weithgareddau a phenderfyniadau polisi penodol neu arweiniad arnynt, gan gynnwys goruchwylio rôl Ofcom yng Ngemau Olympaidd a Gemau Paralympaidd Llundain 2012 a'r trefniadau ar gyfer yr arwerthiant o'r bandiau sbectrwm 800 MHz a 2.6Hz.

Mae rhagor o fanylion am y prif flaenoriaethau a oruchwyliodd Bwrdd Ofcom yn ystod y flwyddyn ar dudalennau 12 i 14.

Caiff Bwrdd Ofcom ei arwain gan y Cadeirydd sy'n rheoli'r Bwrdd i sicrhau bod:


- gan Ofcom amcanion priodol a strategaeth effeithiol;
- strwythur ar waith i ganiatáu i bob aelod gyfrannu'n effeithiol, ac Aelodau Anweithredol yn benodol;
- y Prif Weithredwr a swyddogion gweithredol eraill yn gallu rhoi'r strategaeth ar waith;
- Pwyllgorau'r Bwrdd yn cael eu sefydlu, a'u gweithredu'n iawn a'u bod yn cynnwys yr aelodau iawn;
- gweithdrefnau ar waith i hysbysu'r Bwrdd am y perfformiad yn erbyn yr amcanion; a bod
- Ofcom yn gweithredu yn unol â'r safonau uchaf o lywodraethu corfforaethol.

Mae Ofcom yn parhau i ddangos arweinyddiaeth gref yn y ffordd mae'n rheoli risg drwy waith y Pwyllgor Risg ac Archwilio, a oruchwylir gan y Bwrdd. Mae Ofcom yn cadw cofrestr risg ar gyfer ei holl waith, sy'n cael ei hadolygu'n rheolaidd, ac mae'r Pwyllgor Gwaith, y Bwrdd Gweithrediadau a'r Weithrediaeth Polisi yn gyfrifol am reoli a lliniaru (pan fo'n bosibl ac yn briodol) pob risg sy'n deillio o ddatblygiadau gweithredol, polisi a rheoleiddio penodol.

### Bwrdd Ofcom

Mae Cadeirydd ac Aelodau Anweithredol Bwrdd Ofcom yn cael eu penodi gan yr Ysgrifennydd Gwladol dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon, am gyfnod rhwng tair a phum mlynedd. Caiff Aelodau Gweithredol o'r Bwrdd eu penodi gan y Cadeirydd a'r holl Aelodau Anweithredol, ac mae penodiad y Prif Weithredwr yn galw am gymeradwyaeth gan yr Ysgrifennydd Gwladol dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon. Mae dyletswyddau a chyfrifoldebau Aelodau wedi'u rhestru yng Nghod Ymddygiad yr Aelodau, a chedwir Cofrestr o Fuddiannau'r Aelodau. Mae'r naill a'r llall ar gael ar wefan Ofcom. At ddibenion mabwysiadu prif egwyddorion Cod Llywodraethu Corfforaethol y DU:

- Mae'r Bwrdd yn ystyried bod yr holl Aelodau Anweithredol yn annibynnol ar y tîm rheoli ac yn rhydd rhag unrhyw berthynas fusnes neu berthynas arall a allai amharu i raddau helaeth arnynt wrth wneud penderfyniadau. Ond, os bydd amgylchiadau arbennig yn codi, cymerir camau priodol i sicrhau bod annibyniaeth yn cael ei gynnal;
- Mae'r Bwrdd o'r farn bod gan yr Aelodau, rhyngddynt, amrediad eang o brofiad sy'n sicrhau bod y Bwrdd yn effeithiol i arwain a rheoli Ofcom;
- Aelodau Anweithredol yw mwyafrif aelodau'r Bwrdd. Ystyrir mai'r Dirprwy Gadeirydd yw'r uwch-Aelod Anweithredol at ddibenion Cod Llywodraethu Corfforaethol y DU; a
- Bydd y Bwrdd yn cwrdd yn rheolaidd yn ystod y flwyddyn. Swyddogaeth y rheolwyr gweithredol yw gweithredu polisïau'r Bwrdd. Mae nifer o gyrff cynghori yn cyfrannu at waith y Bwrdd a'r Pwyllgor Gwaith.




**Ffigur 9: Bwrdd a Phwyllgorau Ofcom**

### Pwyllgorau'r Bwrdd

Wrth arfer ei bwerau dan y Ddeddf Swyddfa Gyfathrebiadau, mae'r Bwrdd yn dirprwyo rhai o'i gyfrifoldebau i'r Rheolwyr Gweithredol yn Ofcom a rhai i Bwyllgorau'r Bwrdd sydd ag awdurdodaeth a chylch gorchwyl wedi'i ddiffinio'n glir (gweler Ffigur 9). Disgrifir gweithgareddau a phrif swyddogaethau'r pwyllgorau pwysicaf hyn isod. Mae gan Ofcom nifer o bwyllgorau arbenigol eraill sydd â swyddogaeth lywodraethu neu swyddogaeth gynghori i'r Bwrdd. Fe'u disgrifir yn yr Atodiad ar dudalennau 100 i 102.

### Y Pwyllgor Enwebiadau

Mae'r Pwyllgor Enwebiadau'n cynnwys holl Aelodau Anweithredol Bwrdd Ofcom. Mae'r Pwyllgor yn gweithio gyda'r Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon (DCMS) ar y broses ar gyfer dethol yr Aelodau Anweithredol ar Fwrdd Ofcom ac yn gwneud argymhellion ynghylch penodiadau Aelodau Gweithredol. Ni chyfarfu yn ystod 2012/13.

### Y Pwyllgor Taliadau

Mae'r Pwyllgor Taliadau'n cynnwys holl Aelodau Anweithredol Bwrdd Ofcom. Mae'r Prif Weithredwr, y Prif Swyddog Gweithredol a'r Cyfarwyddwr Adnoddau Dynol yn mynychu cyfarfodydd ar wahoddiad y Pwyllgor Taliadau.

Mae'r Pwyllgor yn cynghori Ofcom ynghylch y taliadau i'r Prif Weithredwr, Aelodau Gweithredol eraill y Bwrdd ac i Aelodau'r Pwyllgor Gwaith, yn ogystal â'u telerau ac amodau gwasanaeth. Mae'r Pwyllgor hefyd yn cynghori Ofcom ar delerau ac amodau Aelodau rhan amser y Bwrdd Cynnwys, y Panel Defnyddwyr Cyfathrebiadau, y Pwyllgor Ymgynghori ar Bobl Hŷn a Phobl Anabl, y pedwar Pwyllgor Ymgynghori Cenedlaethol ac Aelodau Anweithredol eraill cyrff eraill yn strwythur llywodraethu Ofcom.

Mae'r Pwyllgor yn goruchwylio'r broses ar gyfer pennu telerau ac amodau holl gydweithwyr eraill Ofcom. Mae'r Pwyllgor hefyd yn goruchwylio ac yn penderfynu ar faterion sy'n ymwneud â'r trefniadau pensiwn a sefydlwyd gan Ofcom ar gyfer holl gydweithwyr Ofcom.

Mae taliadau Aelodau Anweithredol Bwrdd Ofcom yn cael eu pennu gan yr Ysgrifennydd dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon. Petai angen i Ofcom ystyried unrhyw agwedd ar daliadau Aelodau Anweithredol, mae Pwyllgor Taliadau Aelodau Anweithredol wedi'i sefydlu sy'n cynnwys y Cyfarwyddwr Cyllid, y Cyfarwyddwr Adnoddau Dynol ac Ysgrifennydd y Gorfforaeth, a fydd yn cwrdd ac yn adrodd yn uniongyrchol i'r Ysgrifennydd Gwladol, fel y bo'n briodol. O ganlyniad, nid oes dim un Aelod Bwrdd yn cyfrannu at bennu ei daliadau ei hun.

### Pwyllgor Archwilio a Risg

Mae'r Pwyllgor Archwilio a Risg yn cynnwys tri Aelod Anweithredol o Fwrdd Ofcom ac Aelod Anweithredol allanol annibynnol, Simone Pennie. Mae Simone yn gyfrifydd siartredig cymwysedig ac mae'n bodloni'r gofyniad o dan God Llywodraethu Corfforaethol y DU bod gan un Aelod o'r Pwyllgor brofiad ariannol perthnasol. Gwahoddir y Prif Weithredwr, y Prif Swyddog Gweithredol a'r Cyfarwyddwr Cyllid, yn ogystal â'r archwilwyr mewnol ac allanol, i fynychu cyfarfodydd y Pwyllgor.

Mae Cadeirydd y Pwyllgor Archwilio a Risg yn adrodd yn ôl i Fwrdd Ofcom ar ganlyniadau cyfarfodydd y Pwyllgor. Caiff swyddogaethau'r Pwyllgor eu disgrifio yn ei gylch gorchwyl, sydd ar gael ar wefan Ofcom.

Mae Ofcom yn rhoi'r swyddogaeth archwilio mewnol i'r cwmni allanol KPMG. Cred y Pwyllgor Archwilio a Risg ei bod yn briodol bod yr archwilwyr mewnol hefyd yn darparu cyngor penodol ar risgiau mewnol i Ofcom. Gwneir penderfyniadau ynghylch gofyn i KPMG ddarparu gwasanaethau eraill fesul achos unigol. Cyflawnir y swyddogaeth archwilio allanol gan y Swyddfa Archwilio Genedlaethol ar ran y Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol.

### Pwyllgorau Gwaith

Y Pwyllgor Gwaith yw'r uwch dîm gweithredol sy'n gyfrifol am oruchwylio'r gwaith o reoli Ofcom. Ei brif ffocws yw pennu cyfeiriad i'r sefydliad, gwneud penderfyniadau am faterion ariannol a gweinyddol a'u monitro. Mae'r Cyfarwyddwr Cyllid, y Cyfarwyddwr Adnoddau Dynol ac Ysgrifennydd y Gorfforaeth ac uwch swyddogion gweithredol eraill yn mynychu drwy wahoddiad. Caiff ei gyfrifoldebau o ran llunio polisïau eu cyfyngu i bolisi rheoli.

Mae'r Prif Weithredwr hefyd yn cadeirio cyfarfod wythnosol o'r Weithrediaeth Polisi, sy'n cynnwys aelodau o'r Pwyllgor Gwaith ac uwch swyddogion gweithredol eraill drwy wahoddiad. Nod y Weithrediaeth

**Bwrdd Ofcom a Phwyllgorau'r Bwrdd**

| | Bwrdd Ofcom | Pwyllgor Taliadau | Pwyllgor Archwilio a Risg |
|---|---|---|---|
| Nifer y cyfarfodydd | 12 | 5 | 5 |
| **Swyddogaeth a phresenoldeb** | | | |
| Colette Bowe | Cadeirydd, 12 | Aelod, 5 | Aelod, 5 |
| Ed Richards [4] | Prif Weithredwr, 12 | | |
| Y Fonesig Patricia Hodgson DBE [1] | Dirprwy Gadeirydd, 12 | Cadeirydd, 5 | Aelod /Cadeirydd 3/2 |
| Lord Blackwell | Aelod, 12 | Aelod, 5 | |
| Y Fonesig Lynne Brindley DBE | Aelod, 12 | Aelod, 5 | |
| Tim Gardam | Aelod, 12 | Aelod, 4 | |
| Mike McTighe [1] | Aelod, 7 | Aelod, 2 | Cadeirydd, 3 |
| Jill Ainscough [4] | Aelod, 8 | | |
| Stuart McIntosh [4] | Aelod, 12 | | |
| Peter Teague [2] | | | Aelod, 2 |
| Simone Pennie [3] | | | Aelod, 3 |

1 Cafodd Mike McTighe ganiatâd i fod yn absennol o'r Bwrdd a'r Pwyllgorau yn ystod 2012/13. Yn ystod ei absenoldeb, mae'r Fonesig Patricia Hodgson wedi bod yn cadeirio'r Pwyllgor Risg ac Archwilio.

2 Ymddeolodd Peter Teague o'r Pwyllgor Risg ac Archwilio ar 31 Hydref 2012.

3 Penodwyd Simone Pennie ar 1 Medi 2012.

4 Aelodau Gweithredol.

Polisi yw bod yn fforwm mewnol ar gyfer uwch swyddogion gweithredol i oruchwylio datblygiad mewnol agenda polisi Ofcom, a chraffu ar y gwaith hwnnw. Mae'r Bwrdd Gweithrediadau'n cwrdd bob pythefnos a chaiff ei gadeirio gan y Prif Swyddog Gweithredol. Mae'n cynnwys uwch gynrychiolwyr o bob rhan o Ofcom ac mae'n delio â phob mater gweithredol ar gyfer y sefydliad. Mae'n adrodd i'r Pwyllgor Gweithredol bob mis.

## Effeithiolrwydd

Mae'r Bwrdd yn cwrdd yn ffurfiol bob mis o leiaf; mae'n cael diweddariadau strategol rheolaidd, papurau gwybodaeth am y marchnadoedd y mae Ofcom yn eu rheoleiddio, gweithgareddau rhanddeiliaid allweddol, ac adroddiadau am weithgareddau gweithredol a pholisi Ofcom. Ar ben hynny, mae pob Aelod yn gallu mynd at Ysgrifennydd y Gorfforaeth i'w helpu gyda darparu gwybodaeth a llunio trefniadau ar gyfer cyfarfodydd anffurfiol gyda swyddogion gweithredol yn Ofcom i gael gwell dealltwriaeth o faterion penodol.

Cynhaliwyd adolygiad mewnol o effeithiolrwydd y Bwrdd yn ystod gwanwyn 2013. Daeth i'r casgliad fod gan y Bwrdd gymysgedd da o sgiliau a phrofiad ac mae'n llywodraethu Ofcom yn effeithiol.

Caiff perfformiad aelodau unigol o'r Bwrdd ei asesu gan y Cadeirydd a bydd pob aelod yn cael adolygiad blynyddol o'i berfformiad.

## Atebolrwydd

Anfonir Adroddiad Blynyddol Ofcom i DCMS, sy'n gosod copïau ohono gerbron Dau Dŷ'r Sendd. Mae'r Bwrdd yn gyfrifol am sicrhau bod cofnodion priodol yn cael eu cynnal a'u cadw sy'n datgelu i raddau sy'n rhesymol gywir ar unrhyw adeg beth yw sefyllfa ariannol Ofcom, ac yn ei alluogi i sicrhau bod y Datganiad o Gyfrifon yn cydymffurfio â Deddf Cyfathrebiadau 2003. Yn ogystal â hynny, mae'r Bwrdd yn gyfrifol am ddiogelu asedau Ofcom, ac felly mae'n gyfrifol am gymryd camau rhesymol i atal ac i ganfod twyll ac anghysondebau eraill.

### Cydymffurfio â'r Cod Llywodraethu Corfforaethol

Nid yw Ofcom yn rhwym wrth God Llywodraethu Corfforaethol y DU a gyhoeddir gan y Cyngor Adroddiadau Ariannol.

Fodd bynnag, mae ei egwyddorion yn rhoi meincnod defnyddiol i'r holl gyrff sy'n dymuno gwneud datganiad am eu perfformiad o ran llywodraethu corfforaethol. I'r diben hwn, bydd Ofcom yn parhau i fabwysiadu egwyddorion y Cod lle mae'n briodol gwneud hynny. I'r perwyl hwn mae Ofcom wedi cydymffurfio ag egwyddorion Cod Llywodraethu Corfforaethol y DU yn ystod y cyfnod rhwng 1 Ebrill 2012 a 31 Mawrth 2013.

### Tryloywder

Mae Ofcom yn parhau i adolygu ei gynllun cyhoeddi a darparu ystod ehangach o wybodaeth ar gael yn hawdd ar ei wefan. Yn ystod y cyfnod dan sylw, cafodd Ofcom 476 cais am wybodaeth o dan Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000, ac yn unol ag amcan y Ddeddf o feithrin diwylliant o fod yn agored, darparodd yr holl wybodaeth, neu ran ohoni, i 84 y cant o'r ceisiadau.

**Aelodau'r Pwyllgor Gweithredol**

| Enw | Swyddogaeth |
|---|---|
| Ed Richards (Cadeirydd) | Prif Weithredwr |
| Jill Ainscough | Prif Swyddog Gweithredol |
| Stuart McIntosh | Cyfarwyddwr Grŵp, Cystadleuaeth |
| H. Nwana [1] | Cyfarwyddwr Grŵp, Polisi Sbectrwm |
| Claudio Pollack | Cyfarwyddwr Grŵp, Cynnwys, Defnyddwyr a Materion Allanol |
| Steve Unger | Cyfarwyddwr Grŵp, Strategaeth, Rhyngwladol, Technoleg ac Economegwyr |
| Polly Weitzman | Cwnsler Cyffredinol |
| Christopher Woolard [2] | Cyfarwyddwr Grŵp, Cynnwys, Rhyngwladol a Datblygu Rheoleiddio |

1 Ymddiswyddodd H Nwana o'r Pwyllgor ar 30 Ebrill 2013.

2 Ymddiswyddodd Christopher Woolard o Ofcom ar 31 Rhagfyr 2012.

Cafodd Ofcom 22 o geisiadau hefyd am wybodaeth o dan Ddeddf Diogelu Data 1998 a darparodd yr wybodaeth y gofynnwyd amdani mewn 89 y cant o'r achosion. Cedwir gwybodaeth yn ôl dim ond os yw wedi'i heithrio rhag cael ei datgelu gan ddeddfwriaeth.

## Ymgysylltu

Bydd gweithredoedd Ofcom yn effeithio ar bobl ac ar sefydliadau ledled y DU. O'r herwydd, mae'n bwysig iawn ei fod yn gwneud penderfyniadau ar yr adeg iawn ac yn y ffordd iawn. Rhaid i'r penderfyniadau hyn fod yn seiliedig ar dystiolaeth ac wrth wneud y penderfyniadau hyn mae angen i Ofcom ystyried safbwyntiau'r rheini sydd â diddordeb yn y canlyniad.

Mae ymgynghori'n chwarae rhan bwysig er mwyn cael gafael ar y dystiolaeth hon. Mae'n caniatáu i'r rheini y gallai mater penodol effeithio arnynt neu sy'n pryderu am fater penodol gyflwyno eu safbwyntiau i ni cyn i ni benderfynu ar gamau gweithredu.

O ganlyniad, bydd Ofcom yn ymgynghori'n gyhoeddus ynghylch ei holl flaenoriaethau strategol mawr cyn gwneud penderfyniadau. Mae rhagor o fanylion am ddull ymgynghori Ofcom a'r ymgynghoriadau a gynhaliwyd yn ystod y flwyddyn wedi'u nodi ar dudalennau 38 a 39.

Mae Ofcom hefyd yn derbyn cyngor o bob rhan o'i strwythur llywodraethu yn ystod ymgynghoriadau. Mae swyddogion gweithredol Ofcom yn mynychu cyfarfodydd priodol i amlinellu a thrafod prosiectau sydd naill ai'n cael eu hystyried ar gyfer ymgynghoriad neu sy'n destun ymgynghoriad, a chroesawir cyngor a sialens. Bwriad aelodaeth y cyrff sy'n ffurfio'r strwythur llywodraethu yw cynnig lefelau penodol o arbenigedd er mwyn gallu profi polisïau a phrosiectau Ofcom yn gadarn cyn gwneud penderfyniadau. Mae'r ymgysylltu hwn yn fwyfwy pwysig yng ngwledydd datganoledig y DU, lle mae swyddogaeth y Pwyllgorau Cynghori Cenedlaethol yn eithriadol o werthfawr ar gyfer helpu Ofcom i ystyried materion penodol wrth iddo lunio a gweithredu ei bolisïau.

Mae Ofcom hefyd yn ymgysylltu ag awdurdodau rheoleiddio cenedlaethol eraill, sefydliadau Ewropeaidd a chyrff byd-eang er mwyn sicrhau bod penderfyniadau sy'n cael eu gwneud mewn fforymau rhyngwladol yn ymarferol, yn gymesur ac yn adlewyrchu buddiannau dinasyddion a defnyddwyr yn y DU.

## Y fframwaith rheoli

Mae fframwaith rheoli Ofcom yn sail i'r strwythur llywodraethu a'i fwriad yw cefnogi'r gwaith o gyflawni ei ddyletswyddau statudol a chyflawni ei amcanion ar yr un pryd â diogelu arian cyhoeddus. Mae'r fframwaith rheoli wedi cael ei lunio o amgylch tri maes cyfrifoldeb clir:

- rheoli a rheolaeth fewnol;
- rheoli risg; a
- sicrwydd annibynnol.

Mae pob un o'r meysydd cyfrifoldeb hyn wedi'i wreiddio ar draws y sefydliad ac maent yn dod ynghyd i roi'r sicrwydd angenrheidiol i'r Weithrediaeth ac i'r Bwrdd er mwyn rheoli'r busnes yn effeithiol (gweler Ffigur 10).

Mae'r fframwaith rheoli yn gyson â'r arweiniad ar gydymffurfio ag 8fed Cyfarwyddeb Cyfraith Cwmnïau'r UE a ddarperir gan FERMA (Ffederasiwn Cymdeithasau Rheoli Risg Ewropeaidd).

### Yr heriau a wynebwyd yn ystod 2012/13

Roedd 2012/13 yn flwyddyn anodd i Ofcom. Yn ogystal â chyflawni nifer o brosiectau arbennig, uchel eu proffil, a oedd yn cynnwys darparu gwarant sbectrwm y Llywodraeth ar gyfer Gemau Olympaidd a Gemau Paralympaidd Llundain 2012, arwerthiant bandiau sbectrwm 800 MHz a 2.6Hz, cyflymu'r broses o glirio sbectrwm a chyhoeddi mesurau i ddiogelu'r gwasanaeth post cyffredinol, gwnaethom hefyd ymateb i nifer o geisiadau gan y Llywodraeth a oedd yn cynnwys darparu cyngor ar fesur lluosogrwydd yn y cyfryngau, cyflwyno tystiolaeth i ymchwiliad Leveson a rhoi mewnbwn i Adolygiad y Llywodraeth o Gyfathrebiadau.

Mae gan Ofcom fframweithiau llywodraethu, rheolaeth fewnol a rheoli risg cadarn. Fodd bynnag, roeddem yn sylweddoli y byddai maint a phwysigrwydd rhai o'r prosiectau yr oeddem yn eu cyflawni yn ystod y flwyddyn yn elwa o gael haenau ychwanegol o reolaeth a llywodraethu i sicrhau ein bod yn gallu rheoli'r lefelau uwch o risg yn effeithiol.

### Gemau Olympaidd a Gemau Paralympaidd Llundain 2012

O'r cychwyn cyntaf, roedd ein hagwedd at lywodraethu a rheoli ein gwaith yng nghyswllt Gemau Olympaidd a Gemau Paralympaidd Llundain 2012 wedi cael ei thywys gan oddefiant isel iawn at risg. Roedd maint ein gwaith yn ddigyffelyb, fel y disgrifir ar dudalen 19. I baratoi ar gyfer y Gemau, gwnaethom ddefnyddio dros 70 o ddigwyddiadau gwahanol, gan gynnwys dathliadau Jiwbilî'r Frenhines, fel digwyddiadau treialu i ddilysu ein systemau, ein prosesau a'n strwythurau llywodraethu. Roedd ein prosiect i gyflawni gwarant sbectrwm y Llywodraeth yn gweithredu o dan Fwrdd Rhaglen Olympaidd mewnol, a oedd yn ei dro yn adrodd i Fwrdd

Gweithrediadau Ofcom. Roedd prif Fwrdd Ofcom a'r Pwyllgor Risg ac Archwilio yn rhan hollbwysig o strwythur llywodraethu a rheoli risg cyffredinol y prosiect, a gafodd ei adolygu'n annibynnol maes o law fel rhan o gynllun archwilio mewnol 2012/13. Yn allanol, roedd Pwyllgor Trefnu Gemau Olympaidd a Gemau Paralympaidd Llundain (LOCOG) a Llywodraeth y DU yn rhanddeiliaid allweddol. Gwnaethom gyfrannu at waith llywodraethu prosiectau'r rhanddeiliaid hyn, ochr yn ochr â Phartneriaid Technoleg eraill LOCOG, ac fel rhan o Fwrdd Rhaglen Pwyllgor Gwaith Olympaidd y Llywodraeth.

Trwy waith cynllunio a thechnegol gofalus, llwyddodd Ofcom i gyflawni'r holl ofynion ar gyfer sbectrwm yn y Gemau, ac o'u cwmpas, a thrwy hynny gyflawni gwarant sbectrwm Llywodraeth y DU yn llawn. Yn ystod y Gemau cafodd unrhyw ddigwyddiadau sylw'n ddiymdroi a hynny'n llwyddiannus, heb fawr o effaith ar y digwyddiadau.

### Arwerthiant Sbectrwm 800 MHz a 2.6 GHz

Roedd y prosiect i arwerthu'r bandiau sbectrwm 800 MHz a 2.6 GHz yn rhan o'r Rhaglen Clirio a Dyfarnu Sbectrwm (SCAP) ehangach. Gan gydnabod pwysigrwydd strategol a natur gymhleth y gwaith, ynghyd â'r gofyniad i reoli nifer o brosiectau sy'n dibynnu ar ei gilydd gyda nifer o randdeiliaid, mae'r Rhaglen SCAP wedi gweithredu fframwaith cynhwysfawr o lywodraethu a rheoli. Disgrifiwyd y fframwaith hwn yn ein Hadroddiad Blynyddol ar gyfer 2011/12. Fodd bynnag, roedd pwysigrwydd canlyniad yr arwerthiant i ddinasyddion a defnyddwyr, ynghyd â sensitifrwydd masnachol y prosiect a'n goddefiant isel yng nghyswllt risg yn golygu bod yn rhaid rhoi rhagor o reolaethau a threfniadau llywodraethu ar waith. Mae'r adran ar dudalen 54 yn disgrifio'r fframwaith cynhwysfawr a roddwyd ar waith ar gyfer yr arwerthiant er mwyn cael canlyniad llwyddiannus.

Ar ôl llwyddiant y ddarpariaeth ar gyfer Gemau Olympaidd a Gemau Paralympaidd Llundain 2012, mae Ofcom wedi parhau i chwilio am gyfleoedd i wella perfformiad ei gontract allanol ar gyfer Systemau Gwybodaeth gyda CGI (Logica yn flaenorol). Er mwyn gwella perfformiad systemau ac i leihau unrhyw risgiau sy'n gysylltiedig â'r gwasanaeth presennol, mae rhaglen o fuddsoddi mewn seilwaith wedi cael ei sefydlu yn dilyn creu Fforwm Defnyddwyr TGCh. Pwrpas y Fforwm yw casglu adborth gan gydweithwyr ac i helpu i flaenoriaethu'r rhaglen fuddsoddi. Lansiwyd dau weithgarwch arall yn ystod y flwyddyn. Mae Bwrdd Rheoli'r Galw, sy'n atebol i Fwrdd Gweithrediadau Ofcom, wedi cael ei sefydlu i oruchwylio gofynion TGCh i'r dyfodol. Hefyd, dechreuodd y gwaith o adolygu strategaeth TGCh gyffredinol Ofcom cyn ystyried model gweithredu ar gyfer y dyfodol. Mae uwch reolwyr Ofcom yn parhau i ymgysylltu â swyddogion gweithredol CGI i sicrhau sefydlogrwydd gweithredol y gwasanaethau TGCh ac i sicrhau y cydymffurfir â'r contract.

Er gwaetha'r rhaglen waith heriol hon a'r gwelliant cysylltiedig i'n fframweithiau llywodraethu a rheoli, parhaodd Ofcom i gyflawni ei ymrwymiad, fel rhan o Adolygiad 2010 o Wariant, i leihau ei chyllideb weithredol 28.2 y cant dros y pedair blynedd i 2014/15. Yn unol â'r cylch cynllunio blynyddol, cafodd cyllideb 2012/13 o £121.4 miliwn ei gosod o fewn y terfyn gwario y cytunwyd arno gyda'r Trysorlys ac roedd yn cyfateb i ostyngiad mewn termau real o 6.1 y cant yng nghyfanswm y gost reoleiddio bob blwyddyn. Wrth osod y gyllideb, rydym wedi sicrhau arbedion o 22.5 y cant ac rydym yn dal ar y trywydd i sicrhau gostyngiad 28.2 y cant yn ystod cyfnod Adolygiad Gwariant 2010. Mae disgyblaeth wrth reoli prosiectau a rhaglenni, ynghyd â goruchwyliaeth reolaidd gan y Bwrdd a'r Pwyllgor Gwaith mewn perthynas â'r rhaglen barhaus i gyflawni'r arbedion a'r mesurau effeithlonrwydd y cytunwyd arnynt, wedi sicrhau bod alldro 2012/13 o fewn y gyllideb a osodwyd. Mae trafodaethau ar y gweill gyda'r Llywodraeth i gytuno ar derfyn gwario ar gyfer 2015/16.






**Figure 10: Fframwaith Reoli Ofcom**

## Cyflenwi'r Arwerthiant o'r Sbectrwm 800 MHz a 2.6 GHz

Er mwyn sicrhau lefel briodol o oruchwyliaeth, ymddangosodd yr arwerthiant sbectrwm ar agenda'r Bwrdd bedair gwaith yn ystod y flwyddyn. Roedd hyn ar ben y diweddariadau rheolaidd y mae'r Bwrdd yn eu derbyn ar SCAP gan dîm y prosiect ac fel rhan o Adroddiadau'r Prif Weithredwr. Yn ogystal, ystyriodd y Pwyllgor Risg ac Archwilio'r trefniadau ar gyfer yr arwerthiant ar bedwar achlysur gwahanol yn ystod 2012/13. Roedd hyn yn cynnwys cyfarfod a drefnwyd ym mis Tachwedd 2012 yn benodol i adolygu trefniadau'r arwerthiant yn fanwl. Cafodd cynllun a oedd yn diffinio pwy oedd â'r awdurdod i wneud penderfyniadau am yr arwerthiant, ei gymeradwyo gan y Bwrdd.

Er mwyn darparu proses lywodraethu briodol yng nghyswllt yr arwerthiant, sefydlwyd Bwrdd Prosiect ar gyfer Cyflenwi'r Arwerthiant a'i gadeirio gan Brif Swyddog Gweithredol Ofcom a Chyfarwyddwr y Grŵp Polisi Sbectrwm (cyd-noddwyr prosiect cyflenwi'r arwerthiant) ac roedd yn cynnwys cynrychiolwyr o'r tîm cyfreithiol a phob un o ffrydiau gwaith y prosiect. Hefyd, sefydlwyd Is-bwyllgor i'r Pwyllgor Gweithredol i oruchwylio'r penderfyniadau terfynol. Prif Weithredwr Ofcom oedd Cadeirydd yr Is-bwyllgor ac roedd yn cynnwys aelodau o'r Pwyllgor Gweithredol a chynrychiolwyr annibynnol.

Roedd darparu sicrwydd priodol ynghylch gallu system yr arwerthiant i fodloni'n gofynion yn elfen hollbwysig o'r prosiect. Sicrhawyd hyn yn bennaf drwy'r canlynol:




- profiad cyflenwr system yr arwerthiant ( a ddewiswyd drwy ymarfer tendro cystadleuol trwyadl) yn datblygu ac yn darparu systemau arwerthiant ar gyfer cleientiaid arall ledled y byd;
- adolygiad mewnol gan Ofcom o saernïaeth, dyluniad ac ymarferoldeb y meddalwedd;
- rhaglen o brofion allanol a oedd yn cynnwys trefn ddilysu annibynnol gan drydydd parti;
- ffug arwerthiannau ar gyfer rhanddeiliaid allanol cyn i'r arwerthiant ddechrau;
- profion mewnol cyn i'r arwerthiant ddechrau; ac
- adolygiad manwl a gynhaliwyd gan archwilwyr mewnol Ofcom.

I baratoi ar gyfer yr arwerthiant, comisiynwyd Grŵp NCC gan Bwyllgor Diogelwch Ofcom i gynnal adolygiad annibynnol o'r mesurau diogelwch (yn benodol y trefniadau diogelwch ar gyfer TG a diogelwch ffisegol) a roddwyd ar waith gan Ofcom. Rhoddwyd sylw priodol i'r argymhellion a amlygwyd yn ystod yr adolygiad.

Yn ogystal, cydnabuwyd y gallai gwerth y blaendaliadau a fyddai'n cael eu gwneud gan yr ymgeiswyr yn ystod yr arwerthiant fod cryn dipyn yn fwy na gweithgareddau ariannol beunyddiol arferol Ofcom. O'r herwydd, gwnaethom gynnal adolygiad cynhwysfawr o'n prosesau rheoli arian i sicrhau eu bod hwy, a'r amgylchedd rheoli a oedd yn eu cynnal, yn briodol o gofio maint yr arwerthiant. Cafwyd rhagor o sicrwydd drwy adolygiad yr archwilwyr mewnol o'r prosesau ariannol.

## Rheoli a rheolaeth fewnol

Caiff y cyfrifoldeb dros weithredu a monitro'r system rheolaeth fewnol ei dirprwyo gan Fwrdd Ofcom drwy hierarchaeth o Fyrddau a Phwyllgorau i Gyfarwyddwyr Grŵp ac uwch reolwyr. Disgrifir y cynllun dirprwyo hwn yn y Fframwaith Awdurdodau Ariannol, sy'n cael ei adolygu o bryd i'w gilydd i sicrhau ei fod yn gydnaws â blaenoriaethau'r sefydliad a'i archwaeth am risg. Gofynnir i Gyfarwyddwyr Grŵp ddarparu sicrwydd bod y system o reolaeth fewnol yn gweithio'n effeithiol yn eu maes cyfrifoldeb drwy gwblhau datganiad sicrhau rheolaeth fewnol blynyddol. Ar ben hynny, ceir sicrwydd drwy'r gwaith sy'n cael ei wneud gan dimau arbenigol ar draws y sefydliad, gan gynnwys y Pwyllgor Gwarchodaeth, y Pwyllgor Iechyd a Diogelwch, y Gweithgor Amrywiaeth a Chydraddoldeb a grŵp yn goruchwylio'r gwaith o reoli argyfwng a chynllunio parhad busnes.

Drwy gynnal asesiadau effaith (fel sy'n ofynnol o dan y Ddeddf Cyfathrebiadau) sy'n gwerthuso effaith unrhyw benderfyniad rheoleiddio posibl ar draws yr ystod o randdeiliaid, mae ystyried risg wrth galon ein gweithgareddau.

Yn ystod y flwyddyn rhoddwyd nifer o gynlluniau ar waith fel rhan o'r rhaglen barhaus i adolygu a gwella'r fframwaith rheolaeth fewnol sydd eisoes yn bodoli. Mae'r rhain wedi cynnwys:

- rheolaethau a threfniadau llywodraethu penodol i reoli'r gwaith o gyflenwi'r arwerthiannau ar gyfer y sbectrwm 800 MHz a 2.6GHz (gweler yr adran ar dudalen 54 i gael rhagor o wybodaeth am yr arwerthiannau sbectrwm);
- cyflwyno arweiniad penodol ar ymgysylltu â rhanddeiliaid yn ystod arwerthiannau sbectrwm 800 MHz a 2.6 GHz a thrwyddedu teledu lleol;
- parhau i ganolbwyntio ar y fframweithiau gwarchodaeth ac iechyd a diogelwch, ar sail argymhellion a wnaethpwyd gan yr archwilydd mewnol yn ystod y flwyddyn;
- gwelliannau pellach i'r broses o gynllunio a mesur perfformiad, sydd wedi cynnwys cyflwyno offer cynllunio ac adrodd gwell i'r Weithrediaeth, y Bwrdd a'r sefydliad yn ehangach.
- adolygiad cynhwysfawr o'r cofrestrau asedau sefydlog ac asedau lleol; a
- gwaith i roi rhagor o fesurau effeithlonrwydd ar waith yn y broses trwyddedu darlledu.

## Rheoli risg

Mae Ofcom yn parhau i ddangos arweinyddiaeth gref yn y ffordd mae'n rheoli risg drwy waith y Bwrdd a'i Bwyllgorau. Wrth roi cymorth i'r Bwrdd a'r Pwyllgor Gwaith, mae'r Bwrdd Gweithrediadau a'r Weithrediaeth Polisi'n gyfrifol am ddarparu arweiniad ar reoli risgiau sy'n codi yn sgil datblygiadau rheoleiddio a gweithredu penodol.

I sicrhau bod ein fframwaith rheoli risg yn effeithiol ac yn gydnaws â gofynion y sefydliad, mae KPMG yn cwblhau adolygiad blynyddol o'n fframwaith rheoli risg fel rhan o'n cynllun archwilio mewnol. Mae'r argymhellion sy'n deillio o'r adolygiad yn ffurfio rhan o raglen barhaus i wella ein fframwaith rheoli risg.

Mae polisi a gweithdrefnau rheoli risg Ofcom yn diffinio'n glir ei ddull o reoli risg, ei amcanion a'i brosesau, yn ogystal â phennu'r swyddogaethau, yr atebolrwydd a'r cyfrifoldebau rheoli risg penodol sy'n bodoli ar draws y sefydliad.

Yn ystod y flwyddyn, cwblhaodd y Bwrdd ymarfer i adolygu datganiadau archwaeth risg y sefydliad. Yn dilyn cyhoeddi Cynllun Blynyddol drafft 2013/14, ac ar gais y Pwyllgor Risg ac Archwilio, mae'r Bwrdd wedi rhoi adolygiad arall ar waith o'r datganiadau archwaeth risg, a fydd yn cynnwys datganiadau ychwanegol ar gyfer iechyd a diogelwch ac ar gyfer gwarchodaeth.


## Prif Risgiau

| Amcan/Maes Busnes | Risg | Lliniariad |
|---|---|---|
| Symleiddio'r taliadau ar gyfer rhifau nad ydynt yn rhai daearyddol (e.e. 084, 087, 09 a 118) | Bydd oedi gyda gweithredu ein cynigion yn tanseilio'r buddion i ddefnyddwyr.<br>Efallai y bydd ein cynigion yn destun apêl neu her.<br>Ofcom a/neu'r diwydiant yn methu â gweithredu'r newidiadau i systemau a phrosesau mewn pryd. | Rydym wedi sefydlu strwythur llywodraethu a rheoli cadarn ar gyfer rhoi prosiectau ar waith.<br>Rydym yn gweithio'n agos gyda'r diwydiant a rhanddeiliaid eraill i sicrhau bod yr holl weithgareddau'n cael eu cyflawni ar amser. |
| Galwadau niwsans | Efallai y bydd nifer y galwadau niwsans yn parhau i godi, gan achosi pryder a dicter i ddefnyddwyr.<br>Dim ond pwerau i ddelio â galwadau mud a galwadau sy'n cael eu gadael sydd gan Ofcom. | Gan weithio gyda'r Llywodraeth, y diwydiant a rheoleiddwyr eraill, rydym wedi datblygu cynllun gweithredu pum pwynt i fynd i'r afael â galwadau niwsans.<br>Rydym wedi cyhoeddi arweiniad ar gyfer defnyddwyr ar sut i leihau nifer y galwadau niwsans y maent yn eu cael.<br>Mae gennym raglen fonitro a gorfodi glir ar gyfer ceisio lleihau'r niwed a achosir gan alwadau mud a galwadau sy'n cael eu gadael. |
| Defnyddwyr yn newid rhwng darparwyr | Prosiect cymhleth iawn, yn arbennig o ran casglu tystiolaeth a'r berthynas gyda phrosiectau eraill Ofcom.<br>Gallai oedi o ran cael canlyniadau cadarnhaol arwain at niweidio defnyddwyr a gallai danseilio cystadleurwydd. | Rydym yn canolbwyntio ar y profion statudol i sicrhau bod modd cyfiawnhau unrhyw ymyrraeth yn wrthrychol, a bod yr ymyrraeth hefyd yn gymesur, yn dryloyw a ddim yn gwahaniaethu.<br>Rydym yn gweithio'n agos gyda chydweithwyr ar brosiectau cysylltiedig eraill.<br>Rydym yn ymgysylltu â rhanddeiliaid allanol, gan gynnwys cynrychiolwyr defnyddwyr a'r diwydiant ar bwyntiau priodol yn y prosiect. |
| Newid cyflym yn y sectorau sy'n cael eu rheoleiddio gan Ofcom | Mae'r sectorau sy'n cael eu rheoleiddio gan Ofcom yn newid yn gyflym sy'n golygu ei bod yn anodd datblygu cynlluniau i ragweld gweithgareddau neu ddigwyddiadau mawr a allai ofyn am gyfranogiad gan Ofcom.<br>Yn yr amgylchedd presennol, gall gwaith ychwanegol heb ei gynllunio arwain at ailflaenoriaethu gweithgareddau sy'n mynd rhagddynt ac sydd ar y gweill a allai arwain at oedi wrth ddarparu manteision i ddefnyddwyr ac i ddinasyddion. | Rydym yn ceisio cynnal ystod o arbenigedd a hyblygrwydd mewn timau prosiectau er mwyn i ni allu addasu neu symud adnoddau ar fyr rybudd os oes angen.<br>Mae Pwyllgor Gwaith Ofcom yn gyfrifol am flaenoriaethu prosiectau ac addasu cynlluniau gwaith yn ôl y galw.<br>Mae Cynllun Blynyddol Ofcom, sy'n amlinellu ei flaenoriaethau strategol, yn destun ymgynghoriad cyhoeddus bob blwyddyn. |
| Gallu rheoleiddio mewn ffordd effeithlon ac amserol | Gallai mwy o apeliadau ac ymgyfreitha arwain at oedi posibl wrth weithredu newidiadau rheoleiddio a gall arwain at gostau ychwanegol sylweddol. | Rydym yn sicrhau bod ein penderfyniadau'n seiliedig ar dystiolaeth a'u bod yn gadarn. Rydym hefyd yn cynnal asesiadau effaith i wneud yn siŵr y gwneir ein penderfyniadau er budd dinasyddion a defnyddwyr.<br>Rydym yn ymgysylltu â rhanddeiliaid drwy ein prosesau ymgynghori i wneud yn siŵr ein bod yn deall eu safbwyntiau a'n bod yn gallu eu hystyried. |
| Rhyddhau Sbectrwm y Sector Cyhoeddus | Rhaglen uchelgeisiol a chymhleth ar gyfer rhyddhau sbectrwm sy'n cynnwys nifer o adrannau'r llywodraeth a all arwain at ymyriant heb ei reoli neu faterion yn ymwneud â rhanddeiliaid. | Rydym yn gweithio gyda rhanddeiliaid i sicrhau bod trefn lywodraethu briodol ar waith.<br>Cwmpasu'n gynnar faterion cydfodolaeth y bydd angen eu lliniaru. |

Gan ddefnyddio'r gwersi a ddysgwyd yn sgîl yr arwerthiannau sbectrwm, mae gwaith ar y gweill i wreiddio'r broses o ystyried archwaeth risg i'r broses lansio ar gyfer prosiectau allweddol.

Mae'r Bwrdd a'r Pwyllgor Gwaith yn adolygu cofrestr risgiau strategol Ofcom yn fisol ac mae'n cael ei hadolygu bob chwarter gan y Pwyllgor Risg ac Archwilio. Caiff risgiau lefel grŵp eu hadolygu gan Gyfarwyddwr y Grŵp, ei dimau o uwch reolwyr a'r Rheolwr Risg ac Yswiriant fesul mis, a'u cynnwys ar y Gofrestr Risgiau Strategol pan fo'n briodol. Mae uwch reolwyr yn gyfrifol am sicrhau bod gan gydweithwyr y sgiliau priodol i ganfod, i asesu ac i reoli risg yn unol â pholisi Ofcom i wreiddio a chefnogi diwylliant o reoli risg yn dda. Wrth gefnogi rôl uwch reolwyr yn hyrwyddo'r broses risg, mae'r Rheolwr Risg ac Yswiriant, ynghyd â thîm o Reolwyr Portffolio Grŵp, yn gweithio ar draws pob adran yn y sefydliad i hyrwyddo ac integreiddio'r broses rheoli risg, ac i gefnogi a hysbysu cydweithwyr.

**Ffigur 11: Hierarchaeth risg Ofcom**




## Sicrwydd annibynnol

Mae Ofcom yn rhoi ei swyddogaeth archwilio mewnol ar gontract allanol i KPMG. Mae KPMG yn cyflawni ei waith yn unol â'r Cynllun Archwilio Blynyddol, sy'n seiliedig ar asesiad o'r gofrestr risgiau strategol, trafodaethau gyda rheolwyr a'r Swyddfa Archwilio Genedlaethol ac ystyriaeth barhaus o'r amgylchedd y mae Ofcom yn gweithredu ynddo. Caiff y Cynllun ei gymeradwyo gan y Pwyllgor Risg ac Archwilio. Yn ystod 2012/13, cwblhawyd cyfanswm o 11 archwiliad mewnol, gan gynnwys adolygiadau o'r arwerthiannau sbectrwm 800 MHz a 2.6 GHz, archwiliad iechyd TGCh, y fframweithiau iechyd a diogelwch a gwarchodaeth, y strategaeth caffael, gosod tariffau a'r polisi treuliau.

Pan fo'n briodol, mae Ofcom wedi gofyn am sicrwydd annibynnol, trydydd parti ar gyfer prosesau busnes allweddol. Er enghraifft, fel rhan o'r Rhaglen Clirio a Dyfarnu Sbectrwm, mae Deloitte a BDO wedi cael y contract i ddarparu sicrwydd ar y prosesau a ddilynir gan drydydd partïon sy'n gysylltiedig â'r broses clirio sbectrwm. Yn ogystal, cafwyd sicrwydd annibynnol gan Grŵp NCC fel rhan o'r gwaith o baratoi a darparu'r arwerthiant o'r sbectrwm (gweler tudalen 54).

## Digwyddiadau'n ymwneud â data personol a ddiogelir

Yn ystod 2012/13 ni chyflwynwyd unrhyw achosion a oedd yn ymwneud â data personol wedi'i ddiogelu i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth.

## Datganiad y Swyddog Atebol

Fel Prif Weithredwr a Swyddog Atebol, mae gennyf gyfrifoldeb cyffredinol dros adolygu effeithiolrwydd y system rheolaeth fewnol. Mae'r Cyfarwyddwyr Grŵp yn gyfrifol am ddatblygu a chynnal y fframwaith rheolaeth fewnol. Y fframwaith hwn yw sail gwaith y drefn Archwilio Mewnol a sylwadau a wneir gan archwilwyr allanol yn eu llythyr rheoli ac adroddiadau eraill.

Mae'r Bwrdd wedi parhau i adolygu a goruchwylio mewn modd strategol y trefniadau rheolaeth fewnol a rheoli risg drwy adroddiadau rheolaidd gan gyfarwyddwyr ar eu meysydd cyfrifoldeb a thrwy adroddiadau penodol i'w trafod gan y Pwyllgor Risg ac Archwilio a chyfarfodydd y Bwrdd.

Mae'r Pwyllgor Risg ac Archwilio, sy'n cyfarfod bob chwarter wedi ystyried y canlynol:

- Adroddiadau archwilio mewnol unigol ac ymatebion rheolwyr;
- Adroddiad blynyddol yr Archwilwyr Mewnol a'u barn ar ddigonolrwydd ein system rheolaeth fewnol;
- Adroddiadau ac argymhellion y Swyddfa Archwilio Genedlaethol; ac
- Adroddiadau rheolaidd ar gofrestr risgiau strategol Ofcom, gan gynnwys pennu'r risgiau i system rheolaeth fewnol y sefydliad a gwybodaeth am y rheolaethau sydd wedi cael eu rhoi ar waith i leihau'r risgiau hyn.

Hyd y gwn i ac ar sail y cyngor yr wyf wedi'i dderbyn gan y rheolwyr hynny sydd â chyfrifoldebau dynodedig dros reoli risgiau a'r system rheoli risgiau, nid wyf yn ymwybodol o unrhyw ganfyddiadau o bwys yng nghyswllt rheolaeth fewnol ar gyfer 2012/13.

**Ed Richards, Prif Weithredwr a Swyddog Atebol**

18 Mehefin 2013

# Datganiad cyfrifoldebau

**Cyfrifoldebau'r Bwrdd**

Dan delerau Deddf y Swyddfa Gyfathrebiadau 2002, mae'n ofynnol i'r Bwrdd baratoi Datganiad Cyfrifon ar gyfer pob blwyddyn ariannol. Mae hyn yn cydymffurfio â'r Cyfarwyddyd ar Gyfrifon a gyhoeddwyd gan yr Ysgrifennydd Gwladol dros Fusnes, Arloesedd a Sgiliau a'r Ysgrifennydd Gwladol dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon. Mae'r Bwrdd hefyd yn gyfrifol am anfon copi o'r Datganiad Cyfrifon at y Rheolwr a'r Archwilydd Cyffredinol.

Caiff y Datganiad Cyfrifon hwn ei baratoi, i'r graddau y mae hynny'n berthnasol, ar sail gronnus ac yn unol â Deddf Cwmnïau 2006 a safonau cyfrifyddu'r Deyrnas Unedig a gaiff eu derbyn yn gyffredinol. Rhaid iddo roi darlun cywir a theg o gyflwr busnes Ofcom fel yr oedd ar ddiwedd y flwyddyn ariannol, ac o'i incwm a'i wariant, ei enillion a'i golledion cydnabyddedig a'r llifoedd arian ar gyfer y flwyddyn ariannol.

Mae'r Bwrdd yn cadarnhau ei fod, wrth baratoi'r Datganiad Cyfrifon hwn, wedi dilyn y gofynion perthnasol ar gyfer cyfrifyddu a datgelu, wedi defnyddio polisïau cyfrifyddu addas yn gyson, wedi rhoi barn a gwneud amcangyfrifon ar sail resymol, wedi dilyn safonau cyfrifyddu perthnasol ac wedi paratoi'r datganiad cyfrifon ar sail busnes byw.

Mae'r Bwrdd yn gyfrifol am sicrhau bod cofnodion priodol yn cael eu cynnal a'u cadw sy'n datgelu i raddau sy'n rhesymol gywir ar unrhyw adeg beth yw sefyllfa ariannol Ofcom, ac yn ei alluogi i sicrhau bod y Datganiad Cyfrifon yn cydymffurfio â Deddf Cwmnïau 2006. Yn ogystal â hynny, mae'r Bwrdd yn gyfrifol am ddiogelu asedau Ofcom, ac felly mae'n gyfrifol am gymryd camau rhesymol i atal ac i ganfod twyll ac anghysondebau eraill.

**Cyfrifoldebau'r Prif Weithredwr**

Penodir y Prif Weithredwr gan y Bwrdd, sy'n dirprwyo iddo'r cyfrifoldeb dros reoli Ofcom o ddydd i ddydd. Mae'r Ysgrifennydd Gwladol dros Fusnes, Arloesedd a Sgiliau a'r Ysgrifennydd Gwladol dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon wedi dynodi'r Prif Weithredwr yn Swyddog Atebol Ofcom. Nid yw wedi'i benodi'n ffurfiol yn Swyddog Atebol yn ôl ystyr y Llywodraeth; ond mae'r penodiad yn cynnwys dyletswyddau cyfrifoldeb o ran rheoleiddio, priodoldeb, gwerth am arian a rheolaeth ariannol dda, a diogelu arian cyhoeddus.

Mae gan y Prif Weithredwr gyfrifoldebau penodol dros sicrhau y cydymffurfir â thelerau'r Memorandwm Ariannol a gyhoeddir gan y ddau Ysgrifennydd Gwladol. Rhaid iddo hefyd sicrhau bod cofnodion cyfrifyddu priodol yn cael eu cadw a rhaid iddo lofnodi'r cyfrifon.

Fel Aelod o'r Bwrdd, rhaid i'r Prif Weithredwr sicrhau nad yw ei gyfrifoldebau o ran atebolrwydd yn gwrthdaro â'i gyfrifoldebau fel Aelod Bwrdd. Gall y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a phwyllgorau Seneddol eraill alw ar y Prif Weithredwr i roi tystiolaeth am y modd y mae'n cyflawni ei ddyletswyddau.

# Adroddiad taliadau

Wrth baratoi'r adroddiad taliadau, a sefydlu ei bolisi taliadau, mae'r Bwrdd wedi ystyried darpariaethau Cod Llywodraethu Corfforaethol y DU ac wedi mabwysiadu'r darpariaethau, lle bo hynny'n briodol ac yn berthnasol ac i gydymffurfio â Llawlyfr Adroddiadau Ariannol y Llywodraeth. Nid oes yn rhaid i Ofcom gydymffurfio â Rheoliadau Adroddiadau Taliadau Cyfarwyddwyr 2002, ond mae wedi paratoi'r adroddiad hwn i gydymffurfio cyn belled â bod hynny'n ymarferol ac yn briodol.

## Cyfansoddiad y Pwyllgor Taliadau

Mae cyfansoddiad y Pwyllgor Taliadau i'w weld ar dudalennau 49 a 50.

## Cynghorwyr

Pan fo angen, mae'r Pwyllgor Taliadau'n cael cyngor a/neu wasanaethau gan sefydliadau allanol arbenigol.

Mae'r Pwyllgor hefyd yn cael cyngor gan Gyfarwyddwr Adnoddau Dynol Ofcom. Gan amlaf, mae'r Pwyllgor Taliadau'n gwahodd y Prif Weithredwr a'r Prif Swyddog Gweithredol i fynychu cyfarfodydd y Pwyllgor. Ni fydd dim un unigolyn yn bresennol ar gyfer unrhyw drafodaeth am ei dâl ei hun.

## Polisi cyffredinol

Wrth bennu polisi taliadau Ofcom, cred y Pwyllgor Taliadau y dylai Ofcom, o fewn y cyfyngiadau sy'n gysylltiedig â bod yn gorff cyhoeddus, gynnig gwobrau a fydd yn denu ac yn cadw'r rheolwyr a'r arbenigwyr o'r safon uchaf y mae'n rhaid eu cael i alluogi Ofcom i gyflawni ei gyfrifoldebau a'i gylch gwaith statudol. Ni ddisgwylir newid yng nghyfeiriad y polisi cyffredinol dros y flwyddyn i ddod.

## Elfennau taliadau

Dyma brif elfennau taliadau'r Aelodau Gweithredol a'r Cyfarwyddwyr Grŵp:

### Cyflog a buddion hyblyg

Pennir cyflog sylfaenol pob Aelod Gweithredol a Chyfarwyddwr Grŵp drwy ystyried cyfrifoldebau, perfformiad a phrofiad pob cydweithiwr ynghyd â thueddiadau'r farchnad. Hefyd, darperir lwfans buddion hyblyg i bob Aelod Gweithredol a Chyfarwyddwr Grŵp, sy'n caniatáu i'r unigolyn dan sylw brynu buddion penodol. Caiff pob cyflog sylfaenol ei adolygu'n flynyddol ar 1 Gorffennaf bob blwyddyn.

### Buddion safonol

Bydd pob Aelod Gweithredol a Chyfarwyddwr Grŵp yn cael rhai buddion safonol: yn benodol yswiriant bywyd, amddiffyniad incwm grŵp a'r gallu i gael archwiliad iechyd blynyddol.

Nid yw cyfanswm gwerth yr amddiffyniad incwm grŵp, yr yswiriant bywyd na'r archwiliadau iechyd blynyddol wedi cael ei ddatgelu yn y rhestri taliadau gan nad yw Cyllid a Thollau EM yn ei drin fel enillion trethadwy.

### Taliadau sy'n ymwneud â pherfformiad

Mae pob Aelod Gweithredol a Chyfarwyddwr Grŵp yn cymryd rhan mewn cynllun bonws perfformiad, a gaiff ei gyfrifo fel canran o'r cyflog ar sail perfformiad yr unigolyn, hyd at uchafswm o 20 y cant o'r cyflog, yn dibynnu ar yr unigolyn dan sylw. Mae hyn yn galluogi Ofcom i gydnabod cyfraniad y rheini sy'n perfformio'n arbennig o dda yn ystod unrhyw flwyddyn heb godi lefelau cyflog sylfaenol. Nid oes dim un elfen o'r bonws perfformiad yn bensiynadwy. Mae'r Pwyllgor Taliadau wedi cymeradwyo'r bonysau perfformiad a nodir ar gyfer unigolion yn ystod y cyfnod 1 Ebrill 2012 i 31 Mawrth 2013, a'u cronni ond heb eu talu ar ddiwedd y flwyddyn.

### Trefniadau pensiwn

Dan drefniadau pensiwn Ofcom, mae pob Aelod Gweithredol a Chyfarwyddwr Grŵp yn cael lwfans, a bennir fel canran o'r cyflog sylfaenol, y gall yr unigolyn ei gymryd fel cyflog ychwanegol neu ei fuddsoddi mewn cynllun pensiwn o'i ddewis.

Ni chafodd dim un Aelod Anweithredol fudd pensiwn gan Ofcom yn ystod y flwyddyn dan sylw.

## Arweiniad i'r rhestri taliadau

Mae manylion y taliadau a dderbyniodd y Bwrdd, y Bwrdd Cynnwys a'r Pwyllgor Gwaith, sydd wedi'u harchwilio gan y Swyddfa Archwilio Genedlaethol, ar gael yn y tablau a'r nodiadau canlynol.

Mae'r rhestri hyn yn cyfeirio at y taliadau yn ystod y flwyddyn ariannol. Mae'r rhestr yn adlewyrchu'r taliadau am y rhan honno o'r flwyddyn pan oedd yr unigolion un ai'n darparu gwasanaethau i'r Bwrdd neu'r Bwrdd Cynnwys neu'r Pwyllgor Gwaith, neu'n aelodau ohonynt. Yr oedd yr unigolion â '+' wrth eu henwau yn y rhestri ddim ond yn eu swydd am ran o 2011/2012 neu 2012/13. Os yw'r unigolion yn aelodau o fwy nag un Bwrdd/Pwyllgor (fel y nodir ar dudalennau 50 a 51) dim ond unwaith y bydd eu henwau yn ymddangos yn y rhestri taliadau, a rhestrir yr holl Aelodau Gweithredol dan y Pwyllgor Gwaith. Mae'r pwyntiau â rhif wrth ymyl enwau unigolion yn cyfeirio at y nodiadau ar dudalennau 61 a 62 .

Oherwydd y newidiadau amrywiol i'r aelodaeth yn 2011/2012 ac yn 2012/13, rhoddwyd ffigur ar sail blwyddyn lawn o dan bob tabl, er mwyn darparu cymhariaeth gliriach o'r cyfanswm costau.

**Taliadau Aelodau Anweithredol Bwrdd Ofcom 2012/13**

| Enw | Cyfeirnod Nodyn Cyfarwyddyd | Ffioedd 12/13 £ | Ffioedd 11/12 £ |
|---|---|---|---|
| Norman Blackwell | 1 | 42,519 | 42,519 |
| Colette Bowe | 1 | 180,000 | 180,000 |
| Y Fonesig Lynne Brindley DBE + | 1 | 42,519 | 24,803 |
| Tim Gardam | 1 | 42,519 | 42,519 |
| Y Fonesig Patricia Hodgson DBE + | 1 | 70,000 | 38,760 |
| Mike McTighe | 1, 2 | 31,889 | 42,519 |
| | | **409,446** | **371,120** |

Roedd y costau ar sail blwyddyn yn £420,076 ar gyfer 2012/13 ac yn £420,076 ar gyfer 2011/12.

**Taliadau Aelodau Anweithredol Bwrdd Cynnwys Ofcom 2012/13**

| Enw | Cyfeirnod Nodyn Cyfarwyddyd | Ffioedd 12/13 £ | Ffioedd Ychwanegol[3] £ | Cyfanswm Ffioedd 12/13 £ | Ffioedd 11/12 £ |
|---|---|---|---|---|---|
| David Levy + | 1 | 10,800 | – | 10,800 | 9,900 |
| Anthony Lilley OBE | 1 | 10,800 | – | 10,800 | 10,800 |
| Iseabail Mactaggart + | 1, 3 | 10,800 | 1,800 | 12,600 | 9,900 |
| Glyn Mathias + | 1, 3 | 10,800 | 10,500 | 21,300 | 18,300 |
| Dr Paul Moore | 1, 3 | 10,800 | 600 | 11,400 | 10,800 |
| Joyce Taylor | 1 | 15,900 | – | 15,900 | 15,900 |
| Janey Walker + | 1, 3 | 10,800 | 7,800 | 18,600 | 9,900 |
| | | **80,700** | **20,700** | **101,400** | **85,500** |

Roedd y costau ar sail blwyddyn ar gyfer y Bwrdd Cynnwys yn £80,700 ar gyfer 2012/13 ac yn £80,700 ar gyfer 2011/12. Nid oedd hwn yn cynnwys y ffioedd ychwanegol a dalwyd am waith ar y Pwyllgor Trwyddedau Darlledu.

**Taliadau Aelodau Pwyllgor Gwaith a Bwrdd Cynnwys Gweithredol Ofcom 2012/13**

| Enw | Cyfeirnod Nodyn Cyfarwyddyd | Cyflog 12/13 £ | Lwfans/ hawl pensiwn 12/13 £ | Lwfans buddion hyblyg 12/13 £ | Buddion o fath arall 12/13 £ | Bonws Perfformiad 12/13 £ | Cyfanswm Taliadau 12/13 £ | Cyfanswm Taliadau 11/12 £ |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Jill Ainscough | 4 | 195,909 | 29,386 | 15,000 | 1,922 | 25,000 | 267,217 | 249,183 |
| Stuart McIntosh | 4 | 236,165 | 35,425 | 15,000 | 1,922 | 25,000 | 313,512 | 299,964 |
| H Nwana | 4 | 191,250 | 28,688 | 15,000 | 1,922 | 15,000 | 251,860 | 243,765 |
| Claudio Pollack | 4, 7 | 164,167 | 24,625 | 15,000 | 1,922 | 15,000 | 220,714 | 202,059 |
| Ed Richards | 4, 5, 8 | 276,066 | 55,213 | 19,956 | 1,922 | 25,000 | 378,157 | 365,773 |
| Steve Unger | 4, 7 | 168,333 | 25,250 | 15,000 | 1,922 | 15,000 | 225,505 | 214,709 |
| Polly Weitzman | 4 | 211,875 | 31,781 | 15,000 | 1,922 | 25,000 | 285,578 | 271,505 |
| Christopher Woolard + | 4, 6 | 135,062 | 27,013 | 11,250 | 1,424 | – | 174,748 | 239,634 |
| | | **1,578,827** | **257,381** | **121,206** | **14,881** | **145,000** | **2,117,294** | **2,086,592** |

Roedd y costau ar sail blwyddyn yn £1,942,546 ar gyfer 2012/13 ac yn £2,086,592 ar gyfer 2011/12.

## Nodiadau ar gyfer y tablau taliadau

**1.** Mae'r ffioedd ar gyfer holl Aelodau Anweithredol Bwrdd Ofcom yn cael eu pennu drwy gytundeb â'r Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon am gyfnod llawn eu penodiad. Mae'r ffioedd a ddangosir yn cynrychioli'r flwyddyn lawn sy'n cael ei hadolygu. Y ffi sylfaenol i Aelodau Anweithredol Bwrdd Ofcom (ac eithrio'r Cadeirydd a'r Dirprwy Gadeirydd) oedd £42,519 y flwyddyn er 1 Ebrill 2008. Bwrdd Ofcom sy'n pennu ffioedd Aelodau Anweithredol y Bwrdd Cynnwys. Mae'r ffioedd a ddangosir yn cynrychioli blwyddyn gyfan neu, lle bo'n briodol, yn cynrychioli rhan o flwyddyn os gwnaeth yr Aelod Anweithredol perthnasol ymuno â'r Bwrdd Cynnwys neu ymddeol ohono yn ystod y cyfnod dan sylw. £10,800 y flwyddyn yw'r ffi sylfaenol ar gyfer Aelodau'r Bwrdd Cynnwys (ac eithrio'r ffi a delir i Joyce Taylor sef £15,900 y flwyddyn i adlewyrchu ei gwaith a'i chyfrifoldeb ychwanegol dros waith safonau). Ni chafodd Aelodau Anweithredol Bwrdd Ofcom nac Aelodau'r Bwrdd Cynnwys daliadau ychwanegol gan Ofcom ar ben eu ffioedd (heblaw am y symiau hynny y cyfeirir atynt yn nodyn 3 isod), heblaw'r hawl i Aelodau Anweithredol Bwrdd Ofcom yn unig, gael offer TG ar gyfer gweithio gartref. Ni wnaeth pob un o Aelodau Anweithredol Bwrdd Ofcom fanteisio ar yr hawl hwn yn ystod y cyfnod dan sylw.

**2.** Roedd y ffioedd ar gyfer Mike McTighe yn adlewyrchu'r ffaith iddo gael caniatâd i fod yn absennol o Fwrdd Ofcom am 2012/13 ac ni dderbyniodd unrhyw ffioedd yn ystod yr absenoldeb hwnnw.

**3.** Derbyniodd Glyn Mathias, Janey Walker, Paul Moore ac Iseabail MacTaggart ffioedd ychwanegol am yr amser ychwanegol a roesant i Ofcom (yn ychwanegol at eu hymrwymiad amser yn eu contract) fel rhan o'r broses trwyddedu teledu lleol, lle buont i gyd yn eistedd (am gyfnodau gwahanol) ar y Pwyllgor Trwyddedu Darlledu.

4. Mae cyfanswm y taliadau blynyddol a ddangosir ar gyfer swyddogion gweithredol Ofcom, y maent i gyd yn aelodau o'r Pwyllgor Gwaith, yn cynnwys cyflog sylfaenol, bonws perfformiad, lwfans arian ar gyfer buddion hyblyg a chanran o'r cyflog sylfaenol a delir fel lwfans pensiwn. Mae'r golofn 'buddion o fath arall' yn adlewyrchu'r gost i Ofcom am ddarparu yswiriant meddygol preifat i bob swyddog gweithredol.

5. Yn ogystal â'r taliadau a ddangosir yn y tabl, roedd Ed Richards wedi ennill £45,000 mewn ffioedd am wasanaethau fel Cyfarwyddwr Anweithredol Thames Water Utilities Ltd, a gafodd eu talu'n uniongyrchol i Ofcom. Nid oedd wedi cadw unrhyw ran o'r ffioedd hyn.

6. Gadawodd Christopher Woolard y sefydliad ar 31 Rhagfyr 2012.

7. Ar ôl i Christopher Woolard adael, cafwyd ad-drefnu mewnol. Arweiniodd hynny at roi mwy o gyfrifoldebau i Steve Unger a Claudio Pollack; mae eu taliadau'n dangos cynnydd mewn cyflog i adlewyrchu'r rolau ychwanegol hyn.

8. Rhaid i sefydliadau sector cyhoeddus ddatgelu'r berthynas rhwng taliadau'r cyfarwyddwr sy'n cael y tâl uchaf yn y sefydliad a thâl canolrif gweithlu'r sefydliad. Tâl y cyfarwyddwr a oedd yn cael y tâl uchaf yn Ofcom yn ystod y flwyddyn ariannol 2012/2013 oedd £322,945 (£311,780 yn 2011/12). Roedd hyn 6.11 gwaith (6.08 gwaith yn 2011/12) tâl canolrif gweithlu Ofcom a oedd yn £52,894 yn 2012/2013 (£51,238 yn 2011/12). Ni dderbyniodd yr un gweithiwr dâl a oedd yn fwy na'r cyfarwyddwr a gafodd y tâl uchaf. Yn 2012/13, roedd y taliadau'n amrywio rhwng £20,769 a £322,945 ac yn 2011/12 rhwng £18,260 a £311,780.
Er mwyn gallu cymharu, mae cyfanswm tâl yn cynnwys cyflog sylfaenol, goramser a lwfansau eraill, bonws perfformiad, buddion hyblyg a buddion o fath arall.
Nid yw cyfanswm tâl yn cynnwys lwfans pensiwn, yn unol â Llawlyfr Adroddiadau Ariannol y Trysorlys.

## Contract cyflogaeth

Ac eithrio'r Prif Weithredwr, sydd â chyfnod rhybudd o 12 mis, nid oes gan unrhyw Aelod Gweithredol o Fwrdd Ofcom na chydweithiwr arall yn Ofcom gontract cyflogaeth sy'n cynnwys cyfnod rhybudd dros naw mis. Mae'r Pwyllgor Taliadau wedi ystyried y cyfnod rhybudd a'r trefniadau terfynu yng ngoleuni Cod Llywodraethu Corfforaethol y DU, ac mae o'r farn eu bod yn briodol.

Mae'r Aelodau Anweithredol i gyd wedi'u penodi am dymor penodol i neilltuo amser penodol i Ofcom o hyd at ddau ddiwrnod yr wythnos (heblaw am Colette Bowe a Patricia Hodgson sydd ar hyn o bryd yn neilltuo hyd at dri diwrnod yr wythnos a dau ddiwrnod a hanner yr wythnos y naill a'r llall).

## Iawndal terfynu'n gynnar

Yn achos Aelod Gweithredol o Fwrdd Ofcom, y Bwrdd Cynnwys neu Gyfarwyddwr Grŵp, y Pwyllgor Taliadau sy'n penderfynu ar y trefniadau ar gyfer terfynu contract cyflogaeth yn gynnar, ac fe'u gwneir yn unol â chontract cyflogaeth yr Aelod Gweithredol neu'r Cyfarwyddwr Grŵp perthnasol. Mae pob contract cyflogaeth yn darparu ar gyfer taliad yn lle rhybudd os terfynir contract yn gynnar fel y gwêl Ofcom yn dda.

Nid oes gan Aelodau Anweithredol hawl i iawndal os caiff contract ei derfynu'n gynnar.

## Ymgymryd â swyddogaeth cyfarwyddwr allanol

Ni chaiff unrhyw Aelod Gweithredol o Fwrdd Ofcom dderbyn penodiad anweithredol heb gael caniatâd ymlaen llaw gan y Bwrdd i sicrhau na fydd hyn yn achosi gwrthdaro rhwng buddiannau.

Ar ran Ofcom,

**Y Fonesig Patricia Hodgson**
Cadeirydd y Pwyllgor Taliadau
18 Mehefin 2013

# Adolygiad Gweithredol ac Ariannol

Yn 2012/13, sicrhaodd Ofcom flwyddyn arall o arbedion sylweddol yn ei gyllideb, gyda chost rhedeg flynyddol o £109.9m o'i gymharu â chyllideb o £121.4m. Sicrhawyd yr arbedion drwy inni gyflenwi ein cyfrifoldebau sbectrwm yn llwyddiannus ar gyfer Gemau Olympaidd a Gemau Paralympaidd Llundain 2012 o dan y gyllideb, arbedion ar gostau staff drwy gynllunio adnoddau'n ofalus, ailamseru gwaith a oedd yn yr arfaeth ar dorri hawlfraint ar-lein, parhau â'n hymgyrch i leihau'r gwariant ar gostau teithio a chynhaliaeth, a chostau ymgyfreitha na 'chrisialodd' yn y flwyddyn ariannol hon.

Er bod yr alldro gweithredol gwirioneddol ar gyfer 2012/13 yn cynrychioli cynnydd bychan (1.1%) yn ein costau rhedeg o flwyddyn i flwyddyn, mae'r alldro hwn yn adlewyrchu blwyddyn lawn gyntaf Ofcom yn rheoleiddio'r sector gwasanaeth post. Yn ystod y flwyddyn hefyd gwnaethom lwyddo i gwblhau'r arwerthiant o'r sbectrwm gwerthfawr ar 800 MHz a 2.6 GHz, yn dilyn y newid i deledu digidol, a'n gwaith yn cefnogi Gemau Olympaidd a Gemau Paralympaidd Llundain 2012.

Ar ben hynny, mae Ofcom wedi anfonebu ac wedi casglu cyfanswm o £2,633.3 miliwn ar gyfer y pwrs cyhoeddus yn ystod y flwyddyn oddi wrth y rheini sy'n dal trwyddedau dan y Ddeddf Telegraffiaeth Ddi-wifr, taliadau ychwanegol oddi wrth y rheini sy'n dal trwyddedau darlledu a drwy osod dirwyon a chosbau ar randdeiliaid, fel y'u cyflwynir yng Nghyfrifon Adran 400. Roedd hwn yn cynnwys ffioedd trwydded o £2,368.3m o'r arwerthiant o sbectrwm 800 MHz a 2.6 GHz a gwblhawyd ym mis Mawrth 2013, ynghyd â £2.3m o log a enillwyd ar flaendaliadau ymgeiswyr a oedd yn cael eu dal yn ystod yr arwerthiant.

Ar gyfer 2013/14, mae Ofcom wedi gosod cyllideb o £117.0m. Dyma ostyngiad 6.5 y cant mewn termau real ar gyllideb 2012/13 ac mae'n cynnal ein record o leihau cyllideb Ofcom mewn termau real ar sail gyfatebol ymhob blwyddyn o weithredu. Wrth osod y gyllideb hon, byddwn wedi darparu arbedion termau real o 26.7 y cant o'i gymharu â 2010/11 ac rydym yn dal ar y trywydd i ddarparu'r 28.2 y cant o arbedion termau real sy'n ofynnol dros gyfnod yr Adolygiad Gwariant presennol hyd at 2014/15.

### Fframwaith Ariannol

Dan Baragraff 8(1) o'r Atodlen i Ddeddf Swyddfa Gyfathrebiadau 2002, mae gofyn i Ofcom gydbwyso ei wariant â'i incwm ym mhob blwyddyn ariannol.

Mae Adran 38 ac Adran 347 o Ddeddf Cyfathrebiadau 2003 ac Atodlen 4 i Ddeddf Gwasanaethau Post 2011 hefyd yn mynnu bod Ofcom yn codi incwm gan bob un o'r sectorau y mae'n ei reoleiddio i dalu'r costau a ddaw i ran Ofcom wrth reoleiddio'r sector hwnnw.

Rhaid i Ofcom hefyd rannu ei gostau gweithredol cyffredinol (y rheini nad ydynt yn uniongyrchol berthnasol i unrhyw sector penodol) mewn modd cymesur ar draws pob un o'r sectorau hynny.

Bydd Ofcom yn codi ei arian o'r ffynonellau a ganlyn:

- ffioedd trwyddedau darlledu teledu;
- ffioedd trwyddedau darlledu radio;
- taliadau gweinyddol am rwydweithiau a gwasanaethau electronig ac am ddarparu cyfleusterau darlledu a chyfleusterau cysylltiedig;
- ffioedd gweinyddol ar gyfer rheoleiddio post;
- arian i dalu costau gweithredu Ofcom am reoli'r sbectrwm ar ffurf cymorth grant gan yr Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon (DCMS);
- cyllid gan yr Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon i dalu am gostau clirio sbectrwm fel rhan o'r prosiect 800 MHz a 2.6 GHz; a
- cymorth grant ar gyfer y swyddogaethau a'r dyletswyddau statudol hynny y mae'n rhaid i Ofcom eu cyflawni ond nad oes llif refeniw cyfatebol ar eu cyfer.

Bydd Ofcom hefyd yn cael incwm rhent o le mewn swyddfa mae'n ei roi ar les, llog ar gyfrifon banc ac incwm o wasanaethau sy'n ychwanegol at ddyletswyddau statudol Ofcom.

## Rheolaeth Ariannol

Mae deall ein costau a rheoli arian yn drwyadl yn hollbwysig er mwyn caniatáu i Ofcom gyflawni ei ddibenion strategol, ar yr un pryd â chyrraedd y targedau uchelgeisiol a osodwyd fel rhan o'n hadolygiad o wariant.

I gyflawni hyn, mae'r tîm cyllid yn parhau i ganolbwyntio ar gymorth ariannol effeithiol i'r Grwpiau amrywiol yn Ofcom. Mae'r tîm yn cefnogi'r sefydliad drwy gael gwerth am arian drwy brosesau caffael masnachol; cyllidebu amserol a chywir a rhagweld gwariant; blaenoriaethu adnoddau a gweithgareddau; darparu adroddiadau cynhwysfawr am reolaeth; rheoli risg; sicrhau y cydymffurfir â rheolaethau allweddol a phrosesu trafodol.

I baratoi ar gyfer arwerthiant y bandiau sbectrwm 800 MHz a 2.6GHz, a'r cynnydd sylweddol yng ngwerth disgwyliedig a nifer y trafodion, cynhaliwyd adolygiadau cynhwysfawr o'r prosesau rheoli arian a'r amgylchedd rheolaethau ariannol. Cafodd y rheolaethau a'r prosesau eu gwella wedyn, lle oedd angen, i sicrhau eu bod yn briodol i faint yr arwerthiant.

Yn ystod y flwyddyn, ac yn unol â gofyniad y Llywodraeth i reoleiddwyr economaidd wella tryloywder eu taliadau, cwblhaodd Ofcom brosiect sylweddol i adolygu'n dra manwl y costau sy'n gysylltiedig â rheoli sbectrwm y DU. Dyma faes unigol mwyaf cyfrifoldebau rheoleiddio Ofcom ac mae'n cynnwys, er enghraifft, systemau trwyddedu TG cymhleth. Dim ond ar ôl cwblhau adolygiad sylweddol o'n systemau a'n costau yr oedd y dadansoddiad hwn yn bosibl, a thrwy sicrhau contract newydd gyda chyflenwr technoleg gwybodaeth gwahanol.

Ar ôl cwblhau'r gwaith hwn, sydd wedi bod yn destun archwiliad ac adolygiad rheoli trwyadl, roedd yn amlwg fod cyfran y costau TG sy'n gysylltiedig â rheoli sbectrwm yn is na'r swm a aseswyd mewn blynyddoedd blaenorol. Mae hyn yn effeithio ar y ffordd y mae costau'n cael eu dyrannu i'r sectorau gwahanol a reoleiddir ac, yn benodol, rhwng rhanddeiliaid masnachol a'r trethdalwr drwy arian cymorth grant. Mae angen cydbwyso'r gostyngiad hwn yn y costau i'r trethdalwr drwy adennill costau oddi wrth y cwmnïau a reoleiddir i raddau sy'n gymesur. Mae taliadau a ffioedd rhanddeiliaid ar gyfer 2013/14 yn adlewyrchu'r newidiadau hyn yn briodol.

## Incwm Gweithredol

Mae cyfanswm incwm gweithredol Ofcom yn y Datganiad o Incwm a Gwariant yn gwahanu'r incwm a geir sy'n ymwneud â'r Rhaglen Clirio a Dyfarnu Sbectrwm (SCAP), gan fod hon yn ddyletswydd ychwanegol sydd tu allan i'n cyllideb weithredol graidd.

Roedd cyfanswm yr incwm gan gynnwys SCAP ar gyfer 2012/2013 yn £150.9m (2011/12: £158.5m). Dyma rai o'r newidiadau pwysicaf ers y flwyddyn flaenorol:

- Gostyngiad £9.4m mewn hawliadau cymorth grant ar gyfer clirio a dyfarnu sbectrwm. Cyflawnwyd hyn drwy gyflawni prosiectau'n fwy effeithiol a'u rhoi ar waith yn effeithiol. Ategir yr arbedion hyn gan lefel is o weithgarwch yng nghyswllt taliadau grant yn ystod y flwyddyn, o'i gymharu â'r flwyddyn ariannol flaenorol, wrth i'r rhaglen waith nesáu at y diwedd. Pwrpas y rhaglen hon yw clirio'r bandiau sbectrwm 800 MHz a 2.6 GHz ar gyfer darparu gwasanaethau band eang di-wifr cenhedlaeth nesaf yn gystadleuol ledled y DU. Mae'r cyllid yn ymwneud yn bennaf â cheisiadau grant trydydd parti. Drwy'r arwerthiant o'r sbectrwm, a ddaeth i ben ym mis Mawrth 2013, derbyniwyd £2,368.3m o ffioedd trwyddedau;
- £0.5m o gynnydd mewn cymorth grant ar gyfer rheoli sbectrwm, i gefnogi ein gwaith sbectrwm ar gyfer Gemau Olympaidd a Gemau Paralympaidd Llundain 2012 a'r prosiect rhyddhau sbectrwm y sector cyhoeddus;
- Gostyngiad £3.1m mewn taliadau rheoleiddio yn y sector darlledu. Y rheswm pennaf am hyn yw gostyngiad yn y costau a wynebwyd yn sgil ein gwaith ar deledu talu a chyfraniad y sector at daliadau cywiro diffyg pensiynau Ofcom;
- Cynnydd £2.7m yn y taliadau rheoleiddio ar gyfer gweithredwyr gwasanaethau a rhwydweithiau. Y rheswm pennaf am hyn yw costau nifer o adolygiadau sylweddol a gynhaliwyd yn 2012/13, gan gynnwys adolygiadau o'r marchnadoedd band cul a chysylltedd busnes;

- £0.4m o gynnydd ar gyfer rheoleiddio'r gwasanaethau post, gan mai 2012/13 oedd blwyddyn lawn gyntaf dyletswyddau newydd Ofcom yn rheoleiddio'r sector hwn. Roedd yr incwm ar gyfer 2011/12 yn adlewyrchu chwe mis yn unig o weithgarwch;
- Cynnydd £1.0m mewn cymorth grant ar gyfer dyletswyddau statudol eraill. Mae hyn yn bennaf oherwydd gweithgareddau eraill, megis materion diogelu defnyddwyr yng nghyswllt galwadau niwsans a galwadau mud, y mae angen arian cymorth grant ar eu cyfer. Ar ben hynny, roedd yr incwm yr adroddwyd arno yn 2011/12 yn adlewyrchu'r ffaith bod y diwydiant wedi ad-dalu costau integreiddio'r gwaith o reoleiddio gwasanaethau post;
- Yn ystod y flwyddyn, derbyniwyd £0.2m o gymorth grant oddi wrth Lywodraeth yr Alban i ariannu gwaith paratoi Ofcom i gyflawni ein cyfrifoldebau ar gyfer rheoli sbectrwm Gemau'r Gymanwlad yn Glasgow yn 2014.

## Gwariant Gweithredol

Mae cyfanswm gwariant gweithredol Ofcom yn y Datganiad o Incwm a Gwariant yn gwahanu costau'r gwaith sy'n ymwneud â'r Rhaglen Clirio Sbectrwm a Dyfarniadau (SCAP), gan fod hon yn ddyletswydd ychwanegol sydd tu allan i'n cyllideb weithredu graidd. Mae'r gwariant ar gyfer SCAP ar gyfer 2012/13 yn bennaf yn cynnwys grantiau iawndal o £33.1m (2011/12: £41.0m) i'r rheini a oedd yn dal trwyddedau er mwyn clirio'r bandiau sbectrwm 800 MHz a 2.6 GHz.

Roedd costau gweithredol eraill yn ymwneud â chyfrifoldebau craidd Ofcom yn £51.7m, £2.0m yn uwch na'r flwyddyn flaenorol (2011/12: £49.7m).

Mae'r gwariant yr adroddwyd arno yn 2011/12 yn elwa ar nifer o gredydau un-tro gwerth £3.8m. Mae'r rhain ac amrywiadau sylweddol eraill i'r flwyddyn flaenorol yn cynnwys:

- Yn 2011/12, gwnaethom elwa ar arbediad un-tro o £2.8m a oedd yn gysylltiedig â gostyngiad yng ngwerth trethadwy ein prif ofod swyddfa. Mae gwariant 2012/13 yn adlewyrchu costau gwaelodol;
- Roedd ein cyfrifon ar gyfer 2011/12 yn cynnwys arbediad un-tro o £1.0m o fewn gwasanaethau a roddir ar gontract allanol, a oedd yn ymwneud â chredydau gwasanaeth yn dilyn symud ein swyddogaethau Gwybodaeth, Technoleg a Chyfathrebu (TGCh) i ddarparwr allanol newydd;
- Cynnydd £0.9m mewn ymchwil cynulleidfaoedd a defnyddwyr yn adlewyrchu'r rhaglen waith a gyflawnwyd yn ystod 2012/13.

Cafodd yr amrywiadau hyn eu gwrthbwyso'n rhannol gan:

- ostyngiad £1.2m mewn ffioedd proffesiynol, yn bennaf oherwydd gostyngiad bob blwyddyn yn y ffioedd cyfreithiol allanol a oedd yn gysylltiedig â'n gwaith yn 2011/12 ar deledu talu;
- gostyngiad £1.5m mewn dibrisiad ac amorteiddio, yn bennaf yng nghyswllt gwariant wedi'i gyfalafu ar dechnoleg gwybodaeth; a
- gostyngiad £0.3m mewn costau gweinyddol a swyddfa, sy'n cynnwys gostyngiad mewn costau argraffu.

Roedd niferoedd staff (778) ar ddiwedd y flwyddyn ariannol yn gyson â'r flwyddyn flaenorol. Fodd bynnag, yn ystod y flwyddyn, cynyddodd nifer yr aelodau staff dros dro yn unol â'n cynlluniau i gyflawni cyfrifoldebau rheoli sbectrwm Ofcom ar gyfer Gemau Olympaidd a Gemau Paralympaidd Llundain 2012 yn llwyddiannus. Ar ôl cwblhau'r gwaith hwn yn llwyddiannus, ac o ganlyniad i ad-drefnu wedyn, roedd costau staff hefyd yn cynnwys £1m o gostau ailstrwythuro.

2012/13 hefyd oedd blwyddyn lawn gyntaf cyfrifoldeb Ofcom am reoleiddio'r gwasanaethau post. Mae hwn yn cynnwys y 48 swyddogaeth a drosglwyddodd o'r rheoleiddwr blaenorol, Postcomm.

Oherwydd y ffactorau hyn, cynyddodd costau staff £6m yn ystod y flwyddyn o'i gymharu â'r flwyddyn ariannol flaenorol.

## Gwarged / diffyg ar gyfer y flwyddyn ariannol

### Gwarged neu ddiffyg cyllido

Bydd y refeniw gweithredol sydd ei angen ar Ofcom i gyflawni ei ddyletswyddau a chyflawni ei raglen waith ar gyfer unrhyw flwyddyn ariannol yn cael ei gyfrifo ar sail datganiad Ofcom o egwyddorion codi ffioedd. Mae'r dull gweithredu hwn yn pennu'r arian go iawn y mae angen ei gasglu i dalu rhwymedigaethau ariannol yn ystod y flwyddyn. Yn unol â'n datganiad ar egwyddorion codi tâl, lle ceir mwy o incwm na gwariant yn y flwyddyn gyfredol, bydd y gwarged yn cael ei ddychwelyd i'r rhanddeiliaid perthnasol. Yn yr un modd, os bydd mwy o wariant nag incwm yn y flwyddyn gyfredol, bydd y diffyg hwn yn cael ei gasglu oddi wrth y rhanddeiliaid perthnasol.

Mae'r gwarged arian ar gyfer y flwyddyn dan sylw wedi'i nodi yn nodyn 2 i'r cyfrifon ar dudalen 80 a'r cyfanswm yw £14.1m (2011/12: £6.1m).

## Gwarged neu ddiffyg cyfrifyddu

Mae angen gwarged cyfrifyddu ar gyfer y gwariant nad yw'n cael ei adlewyrchu yn y Datganiad Incwm a Gwariant, gan gynnwys gwariant cyfalaf a thaliadau i adennill diffyg sy'n ofynnol mewn perthynas â'r ddau gynllun pensiwn â buddion wedi'u diffinio.

Mae diffyg cyfrifyddu'n digwydd pan mae dibrisiant, amorteiddio a thrafodion anariannol eraill yn fwy na'r incwm a dderbynnir i dalu costau arian eitemau cyfalaf a'r cynlluniau pensiwn â buddion wedi'u diffinio. Yn 2012/13, cafwyd diffyg cyfrifyddu oherwydd gwerth cymharol isel gwariant cyfalaf a thaliadau ychwanegol i'r cyfraniadau pensiwn wedi'u diffinio o'i gymharu â chost cyfrifyddu dibrisiant ac amorteiddio.

Y diffyg cyfrifyddu ar gyfer y flwyddyn ariannol ar ôl treth a gofnodwyd yn y Datganiad Incwm a Gwariant ar gyfer y flwyddyn dan sylw, oedd £0.7m (2011/12: gwarged £6.8m).

## Arian ychwanegol a gesglir ar ran trysorlys EM

Yn ystod 2012/13 fe wnaeth Ofcom anfonebu a chasglu £2,633.3m (2011/12: £279.5m) ar ran Trysorlys EM. Mae'r arian yma wedi cael ei drosglwyddo i'r pwrs cyhoeddus. Cesglir y refeniw o dair ffynhonnell:

- Ffioedd trwyddedau dan y Ddeddf Telegraffiaeth Ddi-wifr;
- taliadau ychwanegol oddi wrth y rheini sy'n dal trwyddedau ar gyfer teledu a radio; a
- chosbau ariannol.

Ym mis Mawrth 2013, cwblhaodd Ofcom yr arwerthiant o'r bandiau sbectrwm 800 MHz a 2.6 GHz yn llwyddiannus, gan sicrhau gwerth £2,368.3m o ffioedd trwydded. Enillwyd £2.3m arall o log ar flaendaliadau a oedd yn cael eu dal yn ystod yr arwerthiant, a chafodd hwn ei basio i'r pwrs cyhoeddus gyda'r ffioedd am drwyddedau.

Bodlonodd yr arwerthiant holl amcanion Ofcom gyda hyd at bump ymgeisydd llwyddiannus credadwy yn gallu lansio gwasanaethau 4G, gan ddarparu gwasanaeth eang ar draws y DU (gan gyrraedd 98 y cant o boblogaeth y DU o dan do) a darparu rhagor o fuddion sylweddol i fusnesau a defnyddwyr y DU fel ei gilydd.

Bydd Ofcom yn paratoi set o Ddatganiadau Ariannol ar wahân at ddibenion Adran 400 o Ddeddf Cyfathrebiadau 2003. Adroddir ar y ffioedd, y taliadau a'r costau uchod yn y Datganiadau Ariannol hyn.

## Tariffau 2013/14

Ariennir Ofcom gan gymysgedd o gymorth grant a ffioedd a gesglir oddi wrth y rhanddeiliaid rydym yn eu rheoleiddio. Yn 2013/14 bydd canran y cyllid oddi wrth y trethdalwr drwy gymorth grant yn lleihau eto. Un rheswm am hyn yw gostyngiad yng nghyllideb 2013/14 Ofcom a rheswm arall yw'r adolygiad mawr o'n costau a ddisgrifir yn yr adran ar Reolaeth Ariannol, uchod.

Oherwydd hyn, mae Ofcom wedi penderfynu y dylid lleihau'r gyfran o gostau TG sy'n gysylltiedig â rheoli sbectrwm, a fydd, yn ei dro, yn lleihau'r lefel ofynnol o gymorth grant yn 2013/14 ac i'r dyfodol.

Ar 28 Mawrth 2013, cyhoeddodd Ofcom y Tablau Tariff ar gyfer 2013/14, a oedd wedi'u seilio ar amcangyfrif o £111.3m o alldro gwariant gweithredol ar gyfer 2012/13. Mae cyfanswm o £10.1m, y gwahaniaeth rhwng y gyllideb o £121.4m a'r amcangyfrif o alldro'r gwariant gweithredol, eisoes yn cael ei roi'n ôl i randdeiliaid yn 2013/14 fel rhan o'r tariffiau rheoleiddio neu i'r Llywodraeth – ac felly'r trethdalwr – drwy lai o gymorth grant.

Bydd y swm o £1.4m, sef y gwahaniaeth rhwng yr alldro gweithredol gwirioneddol a'r amcangyfrif o'r alldro gweithredol, a ddefnyddiwyd i osod ffioedd a thaliadau ar gyfer 2013/14, yn cael ei roi yn ôl i randdeiliaid drwy dariffau ar gyfer 2014/15.

£117.0m yw cyllideb Ofcom ar gyfer 2013/14, sy'n cynnwys gwariant cyfalaf a thaliadau gwirioneddol i gynlluniau pensiwn, ond heb gynnwys dibrisiant ac amorteiddio. Mae hyn yn ostyngiad 6.5 y cant mewn termau real yng nghyfanswm cost flynyddol rheoleiddio.


Er bod lefel gyffredinol costau Ofcom yn parhau i ostwng, o fewn cyfanswm y costau hyn bydd symudiad o un flwyddyn i'r llall rhwng pob sector a reoleiddir, ac yng nghydbwysedd costau a thaliadau i'r diwydiant a'r trethdalwr trwy gymorth grant.

Yn benodol, bydd taliadau a ffioedd sectorau ar gyfer 2013/14 yn newid fel a ganlyn:

- gostyngiad 19.5 y cant mewn termau real ar gyfer cymorth grant i reoli sbectrwm;
- cynnydd 24.6 y cant ar gyfartaledd mewn termau real ar gyfer gweithredwyr rhwydweithiau a gwasanaethau;
- lleihad 7.4 y cant ar gyfartaledd mewn termau real ar gyfer y sector teledu;
- lleihad 28.1 y cant ar gyfartaledd mewn termau real ar gyfer y sector post; a
- cynnydd 21.2 y cant ar gyfartaledd mewn termau real ar gyfer y sector radio.

Er y cynnydd mewn tariffau ar gyfer rhai sectorau yn 2013/14, mae'r ffioedd a'r taliadau'n dal gryn dipyn yn is mewn termau real na'r rheini a osodwyd cyn dechrau'r rhaglen arbedion yn 2010/11. Mae Ffigur 12 yn dangos cyllid Ofcom dros y chwe blynedd diwethaf.

**Ffigur 12: Patrymau cyllido**




### Rheoleiddio'r Gwasanaethau Post

O dan Ddeddf Gwasanaethau Post 2011, trosglwyddwyd y cyfrifoldeb am reoleiddio'r gwasanaethau post o Postcomm i Ofcom, o 1 Hydref 2011, ynghyd â gweddill asedau a rhwymedigaethau Postcomm.

Eleni oedd y flwyddyn lawn gyntaf i Ofcom reoleiddio'r gwasanaeth post, a chan fod yr integreiddio wedi'i gwblhau, bydd cost rheoleiddio'n parhau i ddisgyn 28.1 y cant yn ychwanegol mewn termau real yn 2013/14.

Wrth osod y ffioedd ar gyfer 2013/14, bydd y costau rheoleiddio ar gyfer y sector gwasanaethau post wedi gostwng dros 50 y cant er 2010/11, y flwyddyn reoleiddio lawn olaf gan Postcomm.

### Rhaglen clirio a dyfarnu sbectrwm

Yn ystod 2012/13, roedd angen rhagor o wariant i gefnogi'r Rhaglen Clirio a Dyfarnu Sbectrwm (SCAP). Amcanion SCAP yw sicrhau bod y bandiau 800 MHz a 2.6 GHz ar gael, drwy glirio defnyddwyr cyfredol a chynnal arwerthiant ar gyfer trwyddedau newydd, er mwyn darparu band eang di-wifr y genhedlaeth nesaf yn gystadleuol ar draws y DU i gyd. Cwblhawyd yr arwerthiant o'r sbectrwm hwn ym mis Mawrth 2013 a disgwylir cwblhau'r gwaith clirio yn ystod 2013/14. Bydd cwblhau'r gweithgarwch hwn yn galluogi deiliaid trwyddedau i lansio gwasanaethau 4G yn y bandiau sbectrwm hyn.

Bydd taliadau i ddefnyddwyr cyfredol yn cael eu gwneud drwy grantiau iawndal ac yn cael eu cyllido gan yr Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon fel deiliad y gyllideb, gyda chymeradwyaeth gan y Trysorlys. Caiff taliadau eu gwneud gan Ofcom i ymgeiswyr am grant ac yn 2012/13 roedd eu cyfanswm yn £33.1m. Wynebodd SCAP £5.6m arall o gostau ar gyfer ymchwil, ffioedd cyfreithiol, gwaith paratoi ar gyfer yr arwerthiant, ffioedd proffesiynol a chostau staff. Roedd y rhain yn cael eu hariannu gan DCMS fel deiliad y gyllideb.

Mae SCAP yn rhaglen waith sylweddol i Ofcom ac mae'n cynnwys cydlynu nifer o brosiectau cymhleth o fewn amserlen heriol. Er mwyn bod yn dryloyw, mae costau'n ymwneud â'r rhaglen waith hon wedi cael eu gwahanu oddi wrth gyfrifoldebau craidd Ofcom yn y datganiadau ariannol.

## Gemau Olympaidd a Gemau Paralympaidd Llundain 2012

Mae cyfrifon 2012/13 yn cynnwys blwyddyn olaf rhaglen waith Ofcom ar gyfer cyflawni ein cyfrifoldebau dros reoli sbectrwm ar gyfer Gemau Olympaidd a Gemau Paralympaidd 2012 Llundain.

Ofcom oedd yn gyfrifol am drefnu cynllun sbectrwm llawn ar gyfer y Gemau, am sicrhau bod amleddau'n cael eu trwyddedu i'r rheini yr oedd eu hangen arnynt, ac am gadw'r amleddau hynny'n rhydd rhag ymyriant niweidiol. Cyflawnwyd y cyfrifoldebau hynny'n llwyddiannus yn unol â'r ddwy warant a roddwyd gan Lywodraeth y DU i'r Pwyllgor Olympaidd Rhyngwladol (IOC) i gefnogi cais Llundain i gynnal y Gemau yno. Roedd y rhain yn gwarantu y byddai'r sbectrwm a fyddai'n ofynnol ar gyfer y Gemau'n cael ei ddyrannu a hepgor y ffioedd y byddai'n rhaid eu talu fel arall am y sbectrwm hwnnw gan aelodau'r Teulu Olympaidd.

Roedd ein digwyddiadau treialu ar raddfa fawr wedi dechrau yn ystod haf 2010. Parhaodd y digwyddiadau treialu integredig ar draws sefydliadau drwy gydol 2011/12 a hyd at gyfnod y Gemau yn 2012. Cyfrannodd Ofcom yn llawn at y digwyddiadau treialu hyn i brofi prosesau'n drwyadl ac i sicrhau ein bod yn barod.

Cafodd costau'r rhaglen eu cyllido gan yr Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon drwy gymorth grant rheoli sbectrwm, ac roedd yn rhan o'n cyllideb weithredu graidd. Cyflawnwyd y rhaglen yn llwyddiannus yn unol â'r gyllideb y cytunwyd arni gyda'r Llywodraeth.

## Pensiynau

Mae Ofcom yn darparu buddion pensiwn drwy lwfans cyfraniadau pensiwn wedi'u diffinio sydd ar gael i bob cydweithiwr. Mae cydweithwyr yn Ofcom wedi'u cyflogi ar delerau sy'n cynnig aelodaeth o gynllun pensiwn cyfranddeiliaid. Gellir defnyddio'r lwfans i gyfrannu at gynllun pensiwn rhanddeiliaid cyfraniadau wedi'u diffinio Ofcom.

Roedd gan gydweithwyr a ymunodd ag Ofcom o hen reoleiddwyr hawl i barhau i fod yn aelod o un o ddau gynllun pensiwn â buddion wedi'u diffinio. Mae'r ddau gynllun hwn ar gau i newydd-ddyfodiaid a daeth croniadau buddion i ben ar 31 Mai 2011. O'r amser hwn, roedd yr holl aelodau cyfredol yn gallu cael mynediad i gynllun cyfranddeiliaid Ofcom. Mae nodiadau 1K a 21 i'r cyfrifon yn darparu rhagor o fanylion.

Roedd y prisiadau actiwaraidd diweddaraf ar gyfer y naill gynllun a'r llall, ar 31.03.12, wedi amlygu diffyg cyllid cyfun gwerth £5.2m. Ers cwblhau'r prisiadau actiwaraidd, mae cyfanswm o £1.5m mewn perthynas â thaliadau gwneud iawn am y diffyg wedi cael eu gwneud i'r cynllun buddion wedi'u diffinio yn unol â'r cynlluniau adfer perthnasol.

Mae'r prisiadau yn y datganiadau ariannol yn cael eu cyfrifo ar sail IFRS, sy'n cymryd agwedd llai darbodus at rwymedigaethau na'r prisiadau actiwaraidd, a gyfrifir yn unol â Deddf Pensiynau 2004.

Mae datganiadau ariannol 2012/13 yn dangos gwarged o £27.2m, yn rhannol oherwydd bod y rhwymedigaethau pensiwn dan y datganiadau ariannol yn cael eu paratoi ar y sail bod y rhwymedigaethau'n cael eu disgowntio yn unol â'r elw ar fondiau o ansawdd uchel sydd, dan yr amodau marchnad cyfredol, yn wahanol iawn i'r dull sy'n cael ei ddefnyddio ar gyfer pennu cyfraniadau Ofcom. Mae hyn hefyd yn adlewyrchu'r symudiadau sylweddol mewn marchnadoedd ariannol ers dyddiad prisiadau'r actiwari a'r taliadau cywiro diffyg a wnaed gan Ofcom.

Gwnaeth Ofcom daliadau ariannol at Gynllun Buddion wedi'u Diffinio Ofcom ac at Gynllun Pensiwn Ofcom (ITC gynt) ar sail prisiadau actiwaraidd. Cynhwysir taliadau arian, yn hytrach na'r swm a neilltuir i'r gwarged gweithredol, fel y'u cyfrifir dan IAS19, yn alldro'r gwariant gweithredol a ddefnyddir i gyfrifo'r tariffiau a godir ar randdeiliaid bob blwyddyn.

Yn ystod y flwyddyn, talwyd £2.1m i'r ddau gynllun â'r buddion wedi'u diffinio, £0.6m yn uniongyrchol oddi wrth Ofcom a £1.5m a drosglwyddwyd o'r cyfrif ymddiriedolaeth bwydo. Hefyd, cafodd £1.5m arall ei drosglwyddo i'r cyfrif ymddiriedolaeth bwydo. Dim ond i wneud taliadau i un o'r ddau gynllun pensiwn â'r buddion wedi'u diffinio y gellir defnyddio'r cyfrif ymddiriedolaeth.

Fel rhan o'r gweithgarwch parhaus i reoli ac i liniaru risgiau'r cynlluniau, cwblhawyd cynllun prynu buddion i mewn gyda chefnogaeth yswiriant mewn perthynas ag aelodau pensiynwyr un o'r cynlluniau drwy brynu blwydd-daliadau yn ystod 2011/12.

# Tystysgrif ac adroddiad y Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol i Ddau Dŷ'r Senedd

Rwyf yn tystio fy mod wedi archwilio datganiadau ariannol y Swyddfa Gyfathrebiadau ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 3 Mawrth 2013 dan Ddeddf Swyddfa Gyfathrebiadau 2002. Mae'r rhain yn cynnwys y Datganiad Incwm a Gwariant, y Datganiad Sefyllfa Ariannol, y Datganiad Llifoedd Arian, y Datganiad Newidiadau mewn Ecwiti, a'r nodiadau cysylltiedig. Mae'r datganiadau ariannol hyn wedi cael eu paratoi dan y polisïau cyfrifyddu sydd ynddynt. Rwyf hefyd wedi archwilio'r wybodaeth yn yr Adroddiad Taliadau sy'n cael ei ddisgrifio yn yr adroddiad hwnnw fel adroddiad sydd wedi cael ei archwilio.

### Cyfrifoldebau perthnasol y Swyddog Atebol a'r archwilydd

Fel yr eglurir yn fanylach yn y Datganiad am Gyfrifoldebau'r Swyddog Atebol, mae'r Swyddog Atebol yn gyfrifol am baratoi'r datganiadau ariannol ac am fod yn fodlon eu bod yn rhoi golwg deg a gwir. Fy nghyfrifoldeb yw archwilio, ardystio ac adrodd ar y datganiadau ariannol yn unol â Deddf Swyddfa Cyfathrebiadau 2002. Cynhaliais fy archwiliad yn unol â'r Safonau Rhyngwladol ar gyfer Archwilio (DU ac Iwerddon). Mae'r safonau hynny'n mynnu fy mod i a'm staff yn cydymffurfio â Safonau Moesegol y Bwrdd Arferion Archwilio ar gyfer Archwilwyr.

### Cwmpas yr Archwiliad o'r Datganiadau Ariannol

Mae archwiliad yn golygu cael tystiolaeth am y symiau a'r datgeliadau yn y datganiadau ariannol sy'n ddigon i roi sicrwydd rhesymol nad yw'r datganiadau ariannol yn cynnwys camddatganiadau sylweddol, boed hynny drwy dwyll neu wallau. Mae hyn yn cynnwys asesiad o: a yw'r polisïau cyfrifyddu yn briodol i amgylchiadau'r Swyddfa Gyfathrebiadau ac a ydynt wedi cael eu rhoi ar waith yn gyson a'u datgelu'n ddigonol; pa mor rhesymol yw'r amcangyfrifon cyfrifyddu sylweddol y mae'r Swyddfa Gyfathrebiadau wedi'u gwneud; a chyflwyniad cyffredinol y datganiadau ariannol. Ar ben hynny, byddaf yn darllen yr holl wybodaeth ariannol ac anariannol yn yr Adroddiad Blynyddol i ddod o hyd i anghysondebau sylweddol yn y datganiadau ariannol archwiliedig. Os byddaf yn dod ar draws unrhyw gamddatganiadau neu anghysonderau sylweddol byddaf yn ystyried y goblygiadau i'm tystysgrif.

Rhaid i mi gael tystiolaeth sy'n ddigon i roi sicrwydd rhesymol bod y gwariant a'r incwm yr adroddir arnynt yn y datganiadau ariannol wedi cael eu defnyddio at y dibenion a fwriadwyd gan y Senedd a'r trafodion ariannol i gydymffurfio â'r awdurdodau sy'n eu llywodraethu.

### Barn ar Reoleidd-dra

Yn fy marn i, ym mhob ffordd o sylwedd mae'r gwariant a'r incwm wedi cael eu defnyddio at y dibenion a fwriadwyd gan y Senedd ac mae'r trafodion ariannol a gofnodir yn y datganiadau ariannol yn cydymffurfio â'r awdurdodau sy'n eu llywodraethu.

### Barn ar y datganiadau ariannol

Yn fy marn i:

- mae'r datganiadau ariannol yn rhoi golwg teg a gwir o gyflwr materion y Swyddfa Gyfathrebiadau ar 31 Mawrth 2013 a'i ddiffyg gweithredu net ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben bryd hynny; ac
- mae'r datganiadau ariannol hyn wedi cael eu paratoi'n iawn yn unol â'r Deddf Swyddfa Gyfathrebiadau 2002, ac yn ôl cyfarwyddiadau'r Ysgrifenyddion Gwladol a gyhoeddwyd oddi tani.

### Barn ar faterion eraill

Yn fy marn i:

- mae rhan yr Adroddiad Taliadau sydd i'w archwilio wedi cael ei pharatoi'n iawn yn unol â chyfarwyddiadau'r Ysgrifenyddion Gwladol a wnaed dan Ddeddf Swyddfa Gyfathrebiadau 2003; ac
- mae'r wybodaeth a roddir yn Ad rannau A, B ac C a'r yr Adolygiad Ariannol a Gweithredol ar gyfer y flwyddyn ariannol y mae'r datganiadau ariannol wedi cael eu paratoi ar ei chyfer yn cyd-fynd â'r datganiadau ariannol.

### Materion rwyf yn adrodd arnynt drwy eithriad

Nid oes gennyf ddim i adrodd arno mewn perthynas â'r materion canlynol rwyf yn adrodd arnynt os, yn fy marn i:

- na chafodd cofnodion cyfrifyddu digonol eu cadw neu na dderbyniwyd ffurflenni sy'n ddigonol ar gyfer fy archwiliad gan y canghennau nad oedd fy staff wedi ymweld â nhw; neu
- nad yw'r datganiadau ariannol a'r rhan honno o'r Adroddiad Taliadau sydd i'w harchwilio yn cyd-fynd â'r cofnodion cyfrifyddu neu'r ffurflenni; neu
- nid wyf wedi cael yr holl wybodaeth ac esboniadau y mae eu hangen arnaf ar gyfer fy archwiliad; neu
- nid yw'r Datganiad Llywodraethu'n adlewyrchu cydymffurfiad â chyfarwyddyd y Trysorlys.

### Adroddiad

Nid oes gennyf ddim sylwadau i'w gwneud ar y datganiadau ariannol hyn.

**Amyas C E Morse**
Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol

19 Mehefin 2013

Y Swyddfa Archwilio Genedlaethol
157-197 Buckingham Palace Road
Victoria, Llundain, SW1W 9SP

# Datganiad Incwm a Gwariant

## Ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2013

| | Nodiadau | Y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2013 £'000 | Y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2012 £'000 |
|---|---|---|---|
| Incwm | 3 | **111,110** | 109,296 |
| Clirio a Dyfarnu Sbectrwm | 3 | **39,795** | 49,229 |
| **Gwariant gweithredol** | | | |
| Costau staff | 4 | **(60,574)** | (54,357) |
| Costau gweithredol eraill | 6 | **(51,755)** | (49,727) |
| Clirio a Dyfarnu Sbectrwm | 4,6 | **(39,851)** | (48,826) |
| **Gwarged / (diffyg) gweithredol** | | **(1,275)** | **5,615** |
| Incwm eiddo gwag | 7 | **544** | 150 |
| Incwm cyllid | | **99** | 199 |
| Costau cyllid | 8 | **–** | – |
| Incwm cyllid arall | 17,21 | **17** | 925 |
| **(Diffyg) / Gwarged ar weithgareddau arferol ar gyfer y flwyddyn ariannol cyn treth** | | **(615)** | **6,889** |
| Trethiant | 9 | **(121)** | (53) |
| **(Diffyg) / Gwarged ar gyfer y flwyddyn ariannol ar ôl treth** | | **(736)** | **6,836** |

Mae'r polisïau a'r nodiadau cyfrifyddu ar dudalennau 74 i 99 yn rhan o'r datganiadau ariannol hyn.

# Datganiad Sefyllfa Ariannol

## Ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2013

| | Nodiadau | Y Flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2013 £'000 | Y Flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2013 £'000 |
|---|---|---|---|
| **Asedau anghyfredol** | | | |
| Eiddo, peiriannau a chyfarpar | 10 | **11,083** | 13,635 |
| Asedau anniriaethol | 11 | **4,523** | 7,379 |
| Asedau treth gohiriedig | 9 | **2,480** | 2,601 |
| Symiau masnach a symiau derbyniadwy eraill | 13 | **335** | 1,116 |
| Asedau buddion ymddeol | 21 | **26,038** | 31,329 |
| **Cyfanswm asedau anghyfredol** | | **44,459** | **56,060** |
| **Asedau cyfredol** | | | |
| Symiau masnach a symiau derbyniadwy eraill | 12 | **9,687** | 8,944 |
| Arian parod a'r hyn sy'n gyfystyr ag arian parod | 14 | **23,627** | 13,677 |
| **Cyfanswm asedau cyfredol** | | **33,314** | **22,621** |
| **Cyfanswm asedau** | | **77,773** | **78,681** |
| **Rhwymedigaethau cyfredol** | | | |
| Symiau masnach a symiau taladwy eraill | 15 | **33,612** | 23,324 |
| Darpariaethau ar gyfer rhwymedigaethau a thaliadau | 17 | **1,328** | 499 |
| **Cyfanswm rhwymedigaethau cyfredol** | | **34,940** | **23,823** |
| **Rhwymedigaethau anghyfredol** | | | |
| Symiau masnach a symiau taladwy eraill – symiau sy'n dod yn ddyledus ar ôl | 16 | **6,416** | 7,610 |
| Darpariaethau ar gyfer rhwymedigaethau a thaliadau | 17 | **842** | 3,392 |
| **Cyfanswm rhwymedigaethau anghyfredol** | | **7,258** | **11,002** |
| **Cyfanswm rhwymedigaethau** | | **42,198** | **34,825** |
| **Asedau llai rhwymedigaethau** | | **35,575** | **43,856** |
| **Ecwiti** | | | |
| Cronfeydd wrth gefn | | **35,575** | 43,856 |
| **Cyfanswm ecwiti** | | **35,575** | **43,856** |

Mae'r polisïau a'r nodiadau cyfrifyddu ar dudalennau 74 i 99 yn rhan o'r datganiadau ariannol hyn.
Cafodd y datganiadau ariannol hyn eu cymeradwyo gan y Bwrdd ar 18 Mehefin 2013.

**Colette Bowe**
Cadeirydd

**Ed Richards**
Prif Weithredwr

# Datganiad Newidiadau Ecwiti

## ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2013

| | Nodiadau | Cronfa wrth gefn £'000 |
|---|---|---|
| **Balans ar 1 Ebrill 2011** | | **37,581** |
| **Newidiadau ecwiti ar gyfer 2011/12** | | |
| Adenillion gwirioneddol heb gynnwys yr adenillion a ddisgwylir ar asedau'r cynllun | 21 | 2,360 |
| Enillion / (colledion) a brofwyd ar rwymedigaethau'r cynllun pensiwn | 21 | (2,879) |
| Newidiadau mewn rhagdybiaethau sy'n sail i werth cyfredol rhwymedigaethau'r cynllun pensiwn | 21 | (4,686) |
| Lleihad yn atebolrwydd y gofyniad cyllido sylfaenol | 21 | 4,640 |
| Addasiad actiwaraidd i rwymedigaethau pensiwn heb eu hariannu | | 167 |
| Trosglwyddiad Postcomm ar 30 Medi 2011 | | (163) |
| Gwarged ar gyfer y flwyddyn | | 6,836 |
| **Cyfanswm y costau a'r incwm cydnabyddedig ar gyfer 2011/12** | | **6,275** |
| **Balans ar 31 Mawrth 2012** | | **43,856** |
| | | |
| **Newidiadau ecwiti ar gyfer 2012/13** | | |
| Adenillion gwirioneddol heb gynnwys yr adenillion a ddisgwylir ar asedau'r cynllun | 21 | 24,730 |
| Enillion / (colledion) a brofwyd ar rwymedigaethau'r cynllun pensiwn | 21 | (1,254) |
| Newidiadau mewn rhagdybiaethau sy'n sail i werth cyfredol rhwymedigaethau'r cynllun pensiwn | 21 | (32,331) |
| Lleihad yn atebolrwydd y gofyniad cyllido sylfaenol | 21 | 1,310 |
| Diffyg ar gyfer y flwyddyn | | (736) |
| **Cyfanswm y costau a'r incwm cydnabyddedig ar gyfer 2012/13** | | **(8,281)** |
| **Balans ar 31 Mawrth 2013** | | **35,575** |

Mae mwy o fanylion am bensiynau ar gael yn Nodyn 21.
Mae'r polisïau a'r nodiadau cyfrifyddu ar dudalennau 74 i 99 yn rhan o'r datganiadau ariannol hyn.

# Datganiad Llif Arian

## ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2013

| | Nodiadau | Y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2013 £'000 | Y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2012 £'000 |
|---|---|---|---|
| **Llif arian o weithgareddau gweithredol** | | | |
| Gwarged/(diffyg) gweithredol | | **(1,275)** | 5,615 |
| Trosglwyddiad Postcomm ar 30 Medi 2011 ac addasiad pensiwn actiwaraidd | | **–** | 4 |
| Addasiadau ar gyfer trafodion anariannol | | | |
| Amorteiddio | 11 | **4,041** | 5,085 |
| Dibrisio | 10 | **3,277** | 3,693 |
| Colled ar waredu eiddo, peiriannau a chyfarpar | 6 | **13** | 136 |
| Lleihad/(Cynnydd) mewn symiau masnach a symiau derbyniadwy eraill | 12,13 | **38** | (571) |
| Cynnydd/(Lleihad) mewn symiau masnach a symiau taladwy eraill | 15,16 | **9,094** | (13,876) |
| Lleihad mewn darpariaethau | 17 | **(1,276)** | (675) |
| Cynnydd mewn asedau pensiwn | 21 | **(2,139)** | (10,499) |
| **Mewnlif / (all-lif) arian net o weithgareddau gweithredol** | | **11,773** | **(11,088)** |
| | | | |
| **Llif arian o weithgareddau buddsoddi** | | | |
| Llog a gafwyd | | **99** | 199 |
| Prynu eiddo, peiriannau a chyfarpar | | **(738)** | (1,646) |
| Prynu eitemau anniriaethol | 10 | **(1,185)** | (751) |
| Elw ar werthu eiddo, peiriannau a chyfarpar | 11 | **1** | 19 |
| **All-lif arian net o weithgareddau buddsoddi** | | **(1,823)** | **(2,179)** |
| | | | |
| **Llif arian o weithgareddau cyllido** | | | |
| Ad-dalu benthyciadau | | **–** | – |
| **All-lif arian net o weithgareddau cyllido** | | **–** | – |
| | | | |
| **Cynnydd/(Lleihad) mewn arian parod a'r hyn sy'n gyfystyr ag arian parod yn ystod y flwyddyn** | | **9,950** | **(13,267)** |
| | | | |
| **Arian parod a'r hyn sy'n gyfystyr ag arian parod ar ddechrau'r flwyddyn** | 14 | **13,677** | 26,944 |
| Cynnydd/(Lleihad) mewn arian parod a'r hyn sy'n gyfystyr ag arian parod yn ystod y flwyddyn | | **9,950** | (13,267) |
| **Cronfeydd net terfynol** | **14** | **23,627** | **13,677** |

Mae'r polisïau a'r nodiadau cyfrifyddu ar dudalennau 74 i 99 yn rhan o'r datganiadau ariannol hyn.

# Nodiadau'r Cyfrifon

ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2013

## 1. Y sail dros gyflwyno a'r prif bolisïau cyfrifyddu

Mae'r Swyddfa Gyfathrebiadau (Ofcom) yn gorff sydd wedi'i leoli yn y Deyrnas Unedig, ac mae'n darparu amrediad eang o wasanaethau rheoleiddio. Cafodd datganiadau ariannol y Sefydliad ar gyfer 31 Mawrth 2013 eu paratoi'n unol â'r Safonau Adroddiadau Ariannol Rhyngwladol (IFRS), a gyhoeddir gan y Bwrdd Safonau Cyfrifyddu Rhyngwladol (IASB), yn ogystal â'r dehongliadau a gyhoeddir gan y Pwyllgor Dadansoddi Adroddiadau Ariannol Rhyngwladol (IFRIC), fel y'u cymeradwywyd gan yr Undeb Ewropeaidd.

Paratowyd y datganiadau ariannol hyn dan y confensiwn cost hanesyddol, a addaswyd drwy ailbrisio rhai asedau anghyfredol, ar sail busnes byw, yn unol â'r Safonau Adroddiadau Ariannol Rhyngwladol (IFRS). Paratoir y datganiadau ariannol ar sail holl ddehongliadau a safonau cyfrifyddu IFRS, ac yn unol â Deddf Cwmnïau 2006 sy'n berthnasol i gwmnïau sy'n llunio adroddiadau dan IFRS ac Erthygl 4 Rheoliad IAS yr Undeb Ewropeaidd, ac eithrio pan gaiff y rhain eu diystyru gan Ddeddf y Swyddfa Gyfathrebiadau 2002. Paratoir y datganiadau ariannol hyn yn unol â'r cyfarwyddyd ar gyfrifon a gyhoeddwyd ar 16 Ionawr 2008 gan yr Adran Busnes, Arloesedd a Sgiliau a'r Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon, sy'n rhan o'r Memorandwm Ariannol fel y'i cymeradwywyd gan yr adrannau hynny.

Caiff symiau yn y Datganiadau Ariannol eu nodi mewn punnoedd sterling, sef yr arian y mae'r sefydliad yn delio ag ef.

### a) Mabwysiadu safonau newydd a diwygiedig

Mae rhai safonau, diwygiadau a dehongliadau newydd ar gyfer safonau cyfredol wedi cael eu cyhoeddi, ond nid ydynt yn berthnasol yng nghyswllt cyfnod cyfrifyddu Ofcom.

Nid yw'r safonau, y diwygiadau na'r dehongliadau newydd canlynol ar gyfer y safonau cyfredol yn weithredol eto, ac nid ydynt wedi cael eu mabwysiadu'n gynnar gan Ofcom:

- IFRS 7 Financial Instruments (Amendment): Disclosures, a ddaeth i rym ar 1 Ionawr 2013;
- IFRS 9 Financial Instrument (New), a ddaw i rym ar 1 Ionawr 2015;
- IFRS 10 Consolidated Financial Statements (New), a ddaeth i rym ar 1 Ionawr 2013;
- IFRS 12 Disclosure of Interest in other entities (New), a ddaeth i rym ar 1 Ionawr 2013;
- IFRS 13 Fair Value Measurement (New), a ddaeth i rym ar 1 Ionawr 2013;
- IAS 1 Presentation of Financial Statements (Amendment), a ddaeth i rym ar 1 Gorffennaf 2012;
- IAS 19 Employee Benefits (Amendment), a ddaeth i rym ar 1 Ionawr 2013;
- IAS 27 Consolidated and Separate Financial Statements (Revised), a ddaeth i rym ar 1 Ionawr 2013;
- IAS 32 Financial Instruments: Presentation (Amendment), a ddaw i rym ar 1 Ionawr 2014.

Mae'r Bwrdd yn rhagweld na fydd mabwysiadu'r safonau a'r dehongliadau hyn yn y dyfodol yn effeithio llawer ar ddatganiadau ariannol Ofcom.

### b) Cydnabod incwm

Mae incwm yn cynnwys gwerth teg yr ystyriaeth a gafwyd neu sy'n dderbyniadwy yn ystod gweithgarwch arferol Ofcom. Dangosir incwm heb gynnwys treth ar werth, enillion, ad-daliadau na gostyngiadau.

Mae Ofcom yn cydnabod incwm pan fydd yr incwm yn gallu cael ei fesur yn ddibynadwy a'i bod yn debygol y bydd buddion economaidd yn deillio i'r endid yn y dyfodol.

#### Cymorth grant

Mae'r incwm hwn yn cynnwys cymorth grant gan yr Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon i dalu costau rheoli sbectrwm, dyfarnu sbectrwm, clirio sbectrwm, ôl-gystadleuaeth, budd cyhoeddus, asesiadau cyfryngau lleol, blocio gwefannau, cyd-fentrau (masnach symudol), galwadau niwsans, amddiffyn defnyddwyr, torri hawlfraint ar-lein a llythrennedd yn y cyfryngau. Caiff cymorth grant a geir gan yr Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon, ei ddyrannu a'i gyfateb i'r costau yn y flwyddyn sy'n berthnasol iddo.

Mae'r Rhaglen Clirio a Dyfarnu Sbectrwm (SCAP) yn goruchwylio clirio (gan gynnwys lliniaru ymyrraeth bosibl) a chynnal arwerthiant o'r sbectrwm 800MHz a 2.6GHz. Caiff y gwaith clirio ei wneud gan drydydd partïon sy'n cael eu talu drwy grant cyfalaf sydd wedi cael ei ystyried a'i gymeradwyo gan y Pwyllgor Cyllid Clirio Sbectrwm. Caiff SCAP ei gyllido drwy Gymorth grant.

Mae'r rheini sy'n cael grantiau ar gyfer y Rhaglen Clirio a Dyfarnu Sbectrwm yn gofyn am gyllid gan Ofcom ar ôl bodloni amodau'r grant. Mae Ofcom yn cydnabod y costau grant ar ôl derbyn y cais am gyllid neu ar ôl cwblhau'r adolygiad cysoni o'r costau gwirioneddol. Mae'r holl gostau eraill yn cael eu cydnabod fel gweithgareddau a gyflawnir gan Ofcom.

**Ffioedd gweinyddu gwasanaethau a rhwydweithiau**

Rhoddir cyfrif am incwm ar sail gronnus sy'n cynnwys ffioedd gweinyddol a anfonebwyd gan Ofcom. Caiff incwm sy'n uwch na chostau arian rhwydweithiau a gwasanaethau ei nodi fel incwm gohiriedig ar y Datganiad Sefyllfa Ariannol. Caiff costau arian sy'n fwy na'r incwm a gafwyd eu trin fel symiau derbyniadwy ar ddiwedd y cyfnod adrodd.

**Ffioedd trwyddedau darlledu**

Mae incwm o ffioedd trwyddedau darlledu'n cynrychioli'r swm a anfonebwyd i'r rheini sy'n dal trwyddedau, ac fe gaiff ei gyfrifo ar sail gronnus. Caiff incwm sy'n uwch na chostau arian Darlledu ei drin fel incwm gohiriedig ar y Datganiad Sefyllfa Ariannol. Caiff costau arian sy'n fwy na'r incwm a gafwyd eu trin fel symiau derbyniadwy ar ddiwedd y cyfnod adrodd.

**Ffioedd ymgeisio**

Ni ellir ad-dalu ffioedd Darlledu a Rhwydweithiau na gwasanaethau un-tro, ac felly cânt eu cofnodi fel incwm adeg derbyn cais y rhanddeiliad.

**Incwm arall**

Caiff incwm arall ei gyfrif ar sail gronnus, a chaiff ei gyfateb i'r gwariant y mae'n cyfrannu ato.

### c) Derbyniadau a gasglwyd gan Ofcom o fewn cwmpas Adran 400 o Ddeddf Cyfathrebiadau 2003

Yn unol ag Adran 400 o Ddeddf Cyfathrebiadau 2003, bydd Taliadau Ychwanegol y Ddeddf Darlledu a chosbau a dirwyon y mae Ofcom yn eu codi yn cael eu had-dalu i'r Gronfa Gyfunol. Hefyd, caiff ffioedd trwyddedau y mae Ofcom yn eu codi, sy'n deillio o gyhoeddi neu adnewyddu trwyddedau dan y Deddfau Telegraffiaeth Ddi-wifr, eu had-dalu i'r Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon i'w talu i'r Gronfa Gyfunol.

Ni wneir unrhyw gofnodion yn y Datganiadau Ariannol hyn o ran trafodion sy'n gysylltiedig ag Adran 400, ac eithrio taliadau a ffioedd sydd wedi'u casglu a'u rhoi ym mhrif gyfrif banc Ofcom ar ddiwedd y cyfnod adrodd. Dangosir y rhain fel eu bod yn ddyledus i'r Gronfa Gyfunol yn y Symiau Taladwy sy'n ddyledus o fewn blwyddyn.

Mae Ofcom yn paratoi cyfres o gyfrifon ariannol ar wahân hyd at 31 Mawrth bob blwyddyn at ddibenion Adran 400 o Ddeddf Cyfathrebiadau 2003. Caiff y rhain eu cyflwyno gerbron y Senedd.

### ch) Lesoedd

Bydd lesoedd lle bydd y lesddaliwr yn agored i gyfran sylweddol o'r risgiau a'r manteision sydd ynghlwm wrth berchnogaeth yn cael eu trin fel lesoedd gweithredol. Caiff taliadau a wnaed ac a gafwyd dan lesoedd gweithredol eu cydnabod fel Incwm neu Wariant ar sail llinell syth dros gyfnod y les. Caiff cymhellion lesoedd eu cydnabod fel rhan greiddiol o gyfanswm gwerth y les, dros gyfnod y les pan na ellir ei chanslo.

### d) Eiddo, peiriannau a chyfarpar

Mae eiddo, peiriannau a chyfarpar yn cynnwys prynu asedau newydd ac ymestyn, datblygu neu ddisodli asedau cyfredol.

Mae arweiniad gan y Trysorlys ar eiddo, peiriannau a chyfarpar yn caniatáu i Ofcom ddefnyddio costau hanesyddol dibrisiedig i gynrychioli gwerth presennol asedau nad ydynt yn eiddo sydd ag oes ddefnyddiol fer neu werth isel. Mae holl asedau Ofcom yn perthyn i'r categori hwn. Mae cost hanesyddol yn cynnwys gwariant a gaiff ei briodoli'n uniongyrchol i gaffael yr eitemau.

Caiff eiddo, peiriannau a chyfarpar eu cofnodi fel costau neu eu pennu'n gostau llai dibrisiant cronedig ac unrhyw golledion. Caiff eiddo, peiriannau a chyfarpar gwerth dros £2,500 eu cyfalafu.

Dim ond pan fydd yn debygol y bydd buddion economaidd sy'n gysylltiedig â'r eitem yn deillio i Ofcom yn y dyfodol, ac y gellir mesur cost yr eitem yn ddibynadwy, y caiff costau dilynol eu cynnwys yng ngwerth llyfr yr ased neu eu cydnabod fel ased ar wahân, fel y bo'n briodol. Caiff gwerth llyfr y darn a ddisodlir ei ddad-gydnabod. Caiff yr holl waith atgyweirio a chynnal a chadw arall ei gofnodi yn y Datganiad Incwm a Gwariant yn ystod y cyfnod ariannol y mae'n daladwy.

Caiff eiddo, peiriannau a chyfarpar eu dibrisio, ar sail llinell syth, ar gyfraddau a amcangyfrifwyd i ddiddymu eu gwerth llyfr dros eu hamcan oes ddefnyddiol. Wrth asesu amcan oes ddefnyddiol, a gaiff ei adolygu'n flynyddol, rhoddir ystyriaeth i unrhyw drefniadau contract a gofynion gweithrediadol sy'n ymwneud ag asedau penodol.

Caiff dibrisiant ei gyfrifo o'r mis yn dilyn y mis lle mae ased yn cael ei roi ar waith dros amcan oes ddefnyddiol yr ased. Oni bai fod gofynion gweithrediadol yn pennu fel arall, nodir yn y tabl isod, yn gyffredinol, y cyfnodau dibrisiant ar gyfer y prif gategorïau eiddo, peiriannau a chyfarpar:

| | |
|---|---|
| Gosodiadau a Ffitiadau – Gwelliannau Les | Cyfnod y les |
| Gosodiadau a Ffitiadau – Celfi | 7 mlynedd |
| Offer Swyddfa a Maes | 4 i 7 mlynedd |
| Caledwedd Cyfrifiadurol | 3 i 5 mlynedd |
| Cerbydau Modur | 5 mlynedd |

Caiff oes ddefnyddiol a gwerthoedd gweddilliol yr asedau eu hadolygu, a'u haddasu os yw'n briodol, ar ddiwedd pob cyfnod adrodd.

Pennir enillion a cholledion ar yr hyn a werthir drwy gymharu'r elw â'r gwerth llyfr, a chânt eu cydnabod yn 'Colledion/ (Elw) ar waredu asedau anghyfredol' yn yr adran 'Costau gweithredol eraill' yn y Datganiad Incwm a Gwariant.

### dd) Asedau anniriaethol

Nodir asedau anniriaethol ar yr union gost, llai amorteiddiad cronedig, gan ddefnyddio'r model ailbrisio lle caiff yr ailbrisiad effaith sylweddol. Cânt eu hadolygu'n flynyddol i weld a oes lleihad yn eu gwerth. Mae'r gwariant a gyfalafwyd yn cynnwys costau rhaglenni meddalwedd a ffioedd datblygu a thrwyddedau cysylltiedig.

Caiff asedau anghyfredol, anniriaethol, a gynhyrchwyd yn fewnol, megis meddalwedd cyfrifiadurol, eu cydnabod ddim ond os gellir adnabod yr ased a grëwyd; os yw'n debygol y bydd yr ased a grëwyd yn creu buddion economaidd yn y dyfodol; ac os gellir mesur cost datblygu'r ased yn ddibynadwy. Os na ellir cydnabod ased anniriaethol a gynhyrchwyd yn fewnol, caiff gwariant datblygu ei gofnodi fel cost yn y cyfnod y mae'n daladwy. Nid yw gwariant datblygu a gydnabuwyd yn flaenorol fel cost yn cael ei gydnabod fel ased mewn cyfnod dilynol.

Mae costau a briodolir yn uniongyrchol sy'n cael eu cyfalafu fel rhan o'r cynnyrch meddalwedd yn cynnwys costau gweithwyr datblygu meddalwedd a chyfran briodol o'r gorbenion perthnasol.

Caiff amorteiddiad ar gostau datblygu a gyfalafwyd ei nodi ar y datganiad incwm ar sail llinell syth, o'r mis yn dilyn y mis lle mae ased yn cael ei roi ar waith, dros amcan oes ddefnyddiol yr ased. Amcangyfrifir mai rhwng tair a phum mlynedd yw'r oes ddefnyddiol.

Mae gwariant datblygu yn cynnwys costau a geir wrth ddatblygu systemau cyfrifiadurol a fydd yn disodli rhai o'r rhaglenni presennol. Mae asedau sy'n cael eu hadeiladu'n cynnwys cyfarpar maes technegol sydd wrthi'n cael eu hadeiladu. Caiff gwariant ar ymchwil ei ddiddymu fel gwariant a godir ar y Datganiad Incwm a Gwariant. Nid yw amorteiddiad na dibrisiant yn effeithio ar asedau sydd wrthi'n cael eu datblygu neu eu hadeiladu.

### e) Lleihau gwerth asedau

Caiff lleihau gwerth asedau ei gyfrifo fel y gwahaniaeth rhwng gwerth llyfr yr ased a'i swm adferadwy, os yw'n llai.

Diffinnir swm adferadwy fel y gwerth teg uchaf, llai costau gwerthu, ac amcangyfrif o'i werth mewn defnydd ar ddyddiad yr adolygiad lleihau. At ddibenion asesu lleihad, caiff asedau eu grwpio ar y lefelau isaf lle ceir llifoedd arian y gellir eu hadnabod ar wahân (unedau cynhyrchu arian).

Caiff gwerth llyfr ased ei briodoli'n syth i'w swm adferadwy os yw gwerth llyfr yr ased yn fwy na'i swm adferadwy amcangyfrifiedig.

Cydnabyddir colledion yn ôl y swm sy'n gyfwerth â'r gwahaniaeth rhwng gwerth llyfr yr ased a'i swm adferadwy.

Ar bob dyddiad adrodd, caiff gwerth llyfr asedau anghyfredol ei adolygu i weld a oes unrhyw arwydd bod gwerth llyfr yr asedau wedi lleihau. Caiff lleihad sylweddol ei gydnabod ar wahân yn y Datganiad Incwm a Gwariant. Caiff asedau sydd wedi lleihau mewn gwerth eu hadolygu ar bob dyddiad adrodd i weld a ellir gwrthdroi'r lleihad.

### f) Symiau masnach derbyniadwy

Ystyr symiau masnach derbyniadwy yw arian sy'n ddyledus gan randdeiliaid am drwyddedau, ffioedd a thaliadau. Os disgwylir i'r arian gael ei gasglu mewn blwyddyn neu lai (neu yng nghylch gweithredu arferol y busnes os yw hynny'n hwy), cânt eu trin fel asedau cyfredol. Os na, cânt eu cyflwyno fel asedau anghyfredol.

Caiff symiau masnach derbyniadwy eu cydnabod ar werth teg yn y dechrau, ac yna eu mesur ar gost amorteiddio drwy ddefnyddio'r dull llog gweithredol, llai darpariaeth ar gyfer lleihad.

### ff) Arian parod a'r hyn sy'n gyfystyr ag arian parod

Mae arian parod a'r hyn sy'n gyfystyr ag arian parod yn cynnwys arian mewn llaw, blaendaliadau a ddelir gan fanciau a blaendaliadau rhent.

### g) Symiau masnach taladwy

Ystyr symiau masnach taladwy yw rhwymedigaethau i dalu am nwyddau neu wasanaethau a gafwyd gan gyflenwyr fel rhan o drefniadau busnes arferol. Caiff cyfrifon taladwy eu trin fel rhwymedigaethau cyfredol os yw'r taliad yn ddyledus o fewn blwyddyn neu lai (neu yng nghylch gwaith arferol y busnes os yw hynny'n hwy). Os na, cânt eu cyflwyno fel rhwymedigaethau anghyfredol.

Caiff symiau masnach taladwy eu cydnabod ar werth teg yn y dechrau, ac yna eu mesur ar gost amorteiddio drwy ddefnyddio'r dull llog gweithredol.

### ng) Buddion gweithwyr

#### Cynlluniau Pensiwn

Mae gan Ofcom amryw o gynlluniau pensiwn, sy'n cynnwys cynlluniau cyfraniadau wedi'u diffinio, cynlluniau buddion wedi'u diffinio, a chynlluniau na chânt eu hariannu.

#### Cynlluniau cyfraniadau wedi'u diffinio

Cynllun buddiannau ôl-gyflogaeth yw cynllun cyfraniadau wedi'u diffinio, lle mae endid yn talu cyfraniadau penodedig i endid ar wahân ac nid oes ymrwymiad cyfreithiol nac adeiladol arno i dalu symiau ychwanegol.

Caiff ymrwymiadau i dalu cyfraniadau i gynlluniau pensiwn cyfraniadau wedi'u diffinio eu cydnabod fel gwariant er budd gweithwyr yn y datganiad incwm a gwariant yn unol â'r gwasanaeth sy'n arwain at yr ymrwymiad. Caiff cyfraniadau rhagdalu eu cydnabod fel ased i'r graddau bod ad-daliad ariannol neu leihad mewn taliadau i'r dyfodol ar gael.

Gall staff newydd ymuno â chynllun pensiwn rhanddeiliaid, sy'n gynllun cyfraniadau wedi'u diffinio.

#### Cynlluniau buddion wedi'u diffinio

Mae'r cynllun buddion wedi'u diffinio hefyd yn gynllun buddion ôl-gyflogaeth, ond mae'n wahanol i gynllun cyfraniadau wedi'u diffinio. Caiff ymrwymiad net Ofcom o ran cynlluniau pensiwn buddion wedi'u diffinio ei gyfrifo ar wahân ar gyfer pob cynllun drwy amcangyfrif swm y budd y bydd gweithwyr wedi'i ennill yn y dyfodol am eu gwasanaeth yn y cyfnodau presennol a blaenorol; tynnir disgownt oddi ar y budd hwnnw er mwyn pennu ei werth cyfredol. Caiff unrhyw gostau gwasanaeth yn y gorffennol nas cydnabuwyd a gwerth teg asedau unrhyw gynllun eu didynnu. Y gyfradd ddisgownt yw'r incwm ar y dyddiad adrodd o'r bondiau â sgôr credyd AA sydd â dyddiadau aeddfedu sy'n debyg i delerau ymrwymiadau Ofcom ac sydd wedi'u trosi i'r un math o arian y disgwylir talu'r buddion ynddo. Gwneir y cyfrifiad yn flynyddol gan actiwari cymwys, gan ddefnyddio'r dull credyd uned disgwyliedig. Os bydd Ofcom ar ei ennill ar ôl gwneud y cyfrifiad, caiff yr ased a gydnabuwyd ei gyfyngu i gyfanswm net unrhyw gostau gwasanaeth yn y gorffennol nas cydnabuwyd a gwerth presennol unrhyw ad-daliadau i'r dyfodol o'r cynllun neu leihad mewn cyfraniadau i'r cynllun yn y dyfodol. Caiff colledion ac enillion actiwaraidd eu cydnabod yn llawn yn y cyfnod y byddant yn codi. Cânt eu cydnabod y tu hwnt i'r datganiad incwm a gwariant a'u cyflwyno yn y Datganiad Newidiadau Ecwiti.

Mae Ofcom yn cymryd rhan mewn dau gynllun pensiwn buddion wedi'u diffinio sy'n gysylltiedig â staff a drosglwyddodd i Ofcom o sefydliadau blaenorol. Mae'r cynlluniau hyn wedi cael eu cau i aelodau newydd ac ar ôl ymgynghori ag aelodau'r Cynllun mae wedi cael ei gau ar gyfer croniadau i'r dyfodol er 1 Mehefin 2011.

Mae'r cynllun cyntaf, Cynllun Pensiwn Buddion wedi'u Diffinio Ofcom, yn darparu buddion sy'n gyfwerth i raddau helaeth â Phrif Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil (PCSPS). Mae Ofcom yn cymryd rhan yn y cynllun ar y cyd â'r Awdurdod Safonau Hysbysebu. Yr ail gynllun yw Cynllun Pensiwn Staff Ofcom (ITC gynt) ac mae Ofcom yn un o'r pedwar cyflogwr sy'n cymryd rhan ynddo. Caiff asedau'r cynllun hwn eu dal mewn ymddiriedolaeth a weinyddir ar wahân.

Mae'n ofynnol dan IAS19, lle bydd cynllun mewn gwarged yn ôl tybiaethau IAS19, na ellir cydnabod y gwarged ar Ddatganiad Sefyllfa Ariannol endid oni bai fod budd economaidd "ar gael" i'r endid yn sgil y gwarged.

Mae IFRIC 14 yn berthnasol i'r holl fuddion wedi'u diffinio ôl-gyflogaeth a buddion wedi'u diffinio eraill tymor hir i weithwyr. Mae Ofcom yn dilyn y dadansoddiad o'r safon hon.

**Cynlluniau na chânt eu hariannu**

Mae gan Ofcom rwymedigaethau hefyd o ran taliadau pensiwn i dri chyn-Gadeirydd y Comisiwn Teledu Annibynnol, dau gyn-Gadeirydd yr Awdurdod Radio, dau gyn-Gyfarwyddwr Cyffredinol y Swyddfa Telegyfathrebiadau a dau gyn-Gadeirydd Postcomm. Mae'r rhain yn gynlluniau na chânt eu hariannu ac fe gyfrifir amdanynt dan IAS 19 gyda darpariaeth wedi'i chynnwys ym mantolen Ofcom ar gyfer prisiad yr actiwari o'r rhwymedigaethau.

### Buddion gweithwyr eraill

**Costau ymddeol yn gynnar**

Yr oedd yr Asiantaeth Radiogyfathrebu ac Oftel yn gweithredu Cynllun Ymddeoliad Cynnar a roddodd fuddion ymddeoliad i rai gweithwyr cymwys. Mae'r buddion hyn yn cydymffurfio â rheolau Prif Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil. Cafodd rhwymedigaeth yr Asiantaeth ac Oftel i dalu costau'r buddion hyn eu trosglwyddo i Ofcom ar 29 Rhagfyr 2003. Pery'r rhwymedigaeth tan oedran ymddeol arferol y gweithwyr sy'n ymddeol dan y Cynllun Ymddeoliad Cynnar. Mae'r costau ychwanegol hyn yn seiliedig ar werth gostyngol y symiau blynyddol sy'n daladwy ar y dyddiad adrodd, ac maent wedi'u cynnwys mewn darpariaethau. Mae'r gwir symiau sy'n daladwy yn cynyddu'n flynyddol yn unol â rheolau Prif Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil.

Mae'r taliad iawndal blynyddol yn rhan o'r pecyn diswyddo ar gyfer rhai cydweithwyr a symudodd i Ofcom ar eu hen delerau ac amodau cyflogaeth fel rhan o'r Gwasanaeth Sifil. O'r dyddiad ymddeol yn gynnar hyd at yr oed ymddeol, bydd y cydweithiwr yn derbyn tâl iawndal blynyddol sydd yr un faint â'r pensiwn a gedwir. Caiff hwn ei dalu bob mis mewn ôl-daliadau, yn yr un modd â phensiwn. Mae'n dechrau cronni ar y diwrnod ar ôl y dyddiad ymddeol, ac yn parhau i gronni nes bydd y pensiwn sydd wedi'i gadw yn cael ei dalu, a bydd yn dod i ben bryd hynny.

**Rhwymedigaeth cydweithwyr sy'n gadael**

Dan Fuddion Gweithwyr IAS 19, rhaid i'r holl gostau gael eu cofnodi fel treuliau cyn gynted â chyfyd y rhwymedigaeth i dalu gweithwyr. Mae hyn yn cynnwys costau unrhyw wyliau heb eu cymryd ar ddiwedd y flwyddyn.

Mae gan gydweithwyr sydd wedi cwblhau pum mlynedd o wasanaeth di-dor hawl i gael cyfnod sabothol â thâl o hyd at bum wythnos ac wedyn cronni un wythnos ar gyfer pob blwyddyn ychwanegol o wasanaeth yn amodol ar hyd at ddeg wythnos. Caiff croniad, sy'n seiliedig ar amcangyfrifon gorau'r rheolwyr gan ddefnyddio data cyfredol ar gyflog a chyfraddau trosiant, ei gynnwys fel rhan o'r croniadau. O 1af Ionawr 2008 ymlaen, diddymwyd y budd hwn ar gyfer gweithwyr newydd.

### h) Darpariaethau

Caiff darpariaethau ar gyfer ymddeol yn gynnar ac eiddo gwag eu cydnabod: pan fo gan Ofcom rwymedigaeth adeiladol neu gyfreithiol gyfredol yn sgil digwyddiadau yn y gorffennol; pan fo'n debygol y bydd angen all-lif o adnoddau i setlo'r rhwymedigaeth; a phan gafwyd amcangyfrif dibynadwy o'r swm. Ni chaiff darpariaethau eu cydnabod ar gyfer colledion gweithredol yn y dyfodol.

Mae Ofcom yn darparu ar gyfer rhwymedigaethau sy'n ymwneud â lle dros ben yn les ei eiddo, llai cyfradd y ddisgownt a gyhoeddwyd gan y Trysorlys. Mae'r darpariaethau'n cynrychioli gwerth presennol net amcan gostau yn y dyfodol ar ôl cydnabod yr incwm rhent eithaf sicr yn y dyfodol. Wrth i'r disgownt ddod i ben, mae hwn wedi'i gynnwys o fewn y costau cyllid eraill yn y datganiad Incwm a Gwariant.

Pan geir amryw o rwymedigaethau tebyg, penderfynir a yw'n debygol y bydd angen all-lif mewn setliad drwy ystyried categori cyfan y rhwymedigaethau. Caiff darpariaeth ei chydnabod hyd yn oed os yw'n bur annhebygol y caiff all-lif unrhyw un eitem ei chynnwys yn yr un categori rhwymedigaethau.

### i) Setlo hawliadau

Gwneir darpariaeth ar gyfer iawndal ac amcan gostau cyfreithiol trydydd parti o ran herio penderfyniadau rheoleiddiol Ofcom a'i sefydliadau blaenorol os bernir ei bod yn debygol y bydd y rhain yn daladwy.

### j) Cyfnewid arian tramor

Caiff trafodion a ddynodir mewn arian tramor eu trosi'n sterling yn ôl y gyfradd gyfnewid sydd mewn grym ar ddyddiad y trafodyn. Caiff asedau a rhwymedigaethau ariannol a ddynodir mewn arian tramor eu trosi yn ôl y cyfraddau sydd mewn grym ar y dyddiad adrodd a chydnabyddir yr elw neu'r golled ddilynol yn y Datganiad Incwm a Gwariant ar gyfer y flwyddyn.

### l) Offerynnau ariannol a risg credyd

**Benthyciadau**

Mae gan Ofcom bwerau cyfyngedig i gael benthyg arian i ariannu amrywiadau tymor byr mewn llif arian.

**Arian parod a'r hyn sy'n gyfystyr ag arian parod**

Mae arian parod a'r hyn sy'n gyfystyr ag arian parod yn cynnwys arian mewn llaw, blaendaliadau a ddelir gan fanciau a blaendaliadau rhent. Caiff incwm llog ar arian parod a'r hyn sy'n gyfwerth ag arian parod ei gydnabod wrth iddo gael ei ennill.

**Symiau masnach derbyniadwy**

Ni cheir llog ar symiau masnach a symiau derbyniadwy eraill, ac fe'u nodir ar eu gwerth teg. Gwneir darpariaeth os oes tystiolaeth na chaiff yr arian sy'n weddill ei dalu'n llawn.

**Symiau masnach taladwy**

Ni cheir llog ar symiau masnach taladwy ac fe'u nodir ar eu gwerth teg.

### ll) Treth incwm gyfredol a gohiriedig

Mae Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi wedi barnu nad yw swyddogaethau rheoleiddio Ofcom yn golygu ei fod yn fusnes sy'n masnachu. O'r herwydd, ni all Ofcom adennill TAW ar wariant sy'n rhan o'i weithgareddau rheoleiddio.

Gellir asesu Treth Gorfforaeth ar log a dderbynnir, ac o ran incwm rhent net y gwariant ar eiddo sy'n deillio o osod eiddo dros ben.

Ar y dyddiad adrodd, yr oedd gan Ofcom golledion treth nas defnyddiwyd i'w gosod yn erbyn incwm trethadwy yn y dyfodol. Daw'r colledion hyn o ganlyniad i ddarpariaethau les beichus ar eiddo a etifeddwyd gan gyrff blaenorol nad oedd mo'u hangen pan ymgorfforwyd Ofcom.

**Treth ohiriedig**

Darperir treth incwm ohiriedig, gan ddefnyddio'r dull rhwymedigaeth, ar bob gwahaniaeth dros dro ar y dyddiad adrodd rhwng sylfaen trethi asedau a rhwymedigaethau sy'n berthnasol i weithgareddau trethadwy, a'u gwerth llyfr at ddibenion adroddiadau ariannol.

Cydnabyddir asedau treth ohiriedig ar gyfer pob gwahaniaeth dros dro y gellir ei didynnu, asedau treth heb eu defnyddio sy'n cael eu dwyn ymlaen a cholledion treth heb eu defnyddio, i'r graddau y mae'n debygol y bydd elw trethadwy ar gael yn y dyfodol y gellir ei ddefnyddio yn eu herbyn.

**Cydnabod asedau treth ohiriedig**

Caiff gwerth llyfr asedau treth ohiriedig ei adolygu ar bob dyddiad adrodd. Wrth asesu'r tebygolrwydd y bydd elw trethadwy yn deillio ohono, rhoddir ystyriaeth i ganlyniadau'r flwyddyn flaenorol, canlyniadau rhagolygon i'r dyfodol, ac eitemau achlysurol sy'n annhebygol o godi yn y dyfodol.

Gan hynny, mae'r asesiad o allu'r Sefydliad i ddefnyddio'r colledion treth a ddygwyd ymlaen yn seiliedig ar farn i raddau helaeth. Os bydd canlyniadau trethadwy yn y dyfodol yn wahanol iawn i'r rheini a ddisgwylid, bydd gwerth llyfr asedau treth ohiriedig yn cynyddu neu'n lleihau, ac mae'n bosibl y caiff hynny effaith sylweddol ar y Datganiad Sefyllfa Ariannol a'r Datganiad Incwm a Gwariant.

Caiff asedau treth ohiriedig eu mesur yn ôl y cyfraddau treth y disgwylir iddynt fod yn berthnasol i Ofcom pan gaiff yr ased ei wireddu yn seiliedig ar y cyfraddau treth gweithredol, neu pan gânt eu gweithredu ar ddiwedd y cyfnod adrodd.

### m) Dadansoddiad fesul segment

Ystyr segment yw elfen amlwg yn y sefydliad sy'n ymwneud â naill ai darparu cynnyrch neu wasanaethau (segment busnes), neu ddarparu cynnyrch neu wasanaethau mewn amgylchedd economaidd penodol (segment daearyddol), ac mae'n agored i risgiau a buddion gwahanol i segmentau eraill. Ni chyflwynwyd dadansoddiad o drosiant Ofcom o weithgarwch mewn segment daearyddol neu segment busnes, gan y cynhelir holl weithgarwch Ofcom yn y DU ac yn y sector rheoleiddio.

Fodd bynnag, er mwyn bodloni gofynion Deddf Cyfathrebiadau 2003 i ddarparu gwybodaeth am gostau a ffioedd, mae Nodyn 2 y datganiadau ariannol hyn yn cyflwyno'r datganiad Incwm a Gwariant ar gyfer y flwyddyn dan sylw fesul sector.

### n) Safbwyntiau personol ac ansicrwydd ynghylch amcangyfrifon

Wrth baratoi'r datganiadau ariannol, mae gofyn i'r rheolwyr wneud amcangyfrifon a rhagdybiaethau sy'n effeithio ar yr asedau a'r rhwymedigaethau a gofnodwyd, y datgeliadau rhwymedigaethau a'r asedau wrth gefn, a'r refeniw a'r treuliau a gofnodwyd yn ystod y cyfnod adrodd. Gallai'r canlyniadau eu hunain fod yn wahanol i'r amcangyfrifon hyn. Ceir gwybodaeth am safbwyntiau ac amcangyfrifon o'r fath yn y polisïau cyfrifyddu neu'r nodiadau ar gyfer y datganiadau ariannol, a cheir crynodeb o'r prif rai isod.

Dyma'r safbwyntiau sy'n effeithio fwyaf ar y symiau a gydnabyddir yn y datganiadau ariannol:

- Cydnabod refeniw ac asesu refeniw nas biliwyd – polisi cyfrifyddu b;
- Defnyddio asedau treth ohiriedig o ran elw trethadwy yn y dyfodol – polisi cyfrifyddu n.

Dyma'r prif feysydd lle ceir ansicrwydd ynghylch amcangyfrifon a allai achosi addasiad sylweddol i werth llyfr asedau a rhwymedigaethau yn y flwyddyn ariannol nesaf:

- Amcangyfrifon o rwymedigaethau ar gyfer pensiwn a buddion eraill ar ôl ymddeol – polisi cyfrifyddu ng.

## 2. Dadansoddiad sectoraidd

Mae'r dadansoddiad isod yn cyfeirio at incwm fesul sector ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2013, ynghyd â'r costau a briodolir. Paratoir y dadansoddiad hwn yn unol â Deddf Cyfathrebiadau 2003 a Deddf Gwasanaethau Post 2011, ac nid yng nghyswllt Adroddiad Segmentaidd 8 IFRS, yn unol â pholisi cyfrifyddu 1 (m).

| | Rheoli Sbectrwm £'000 | Clirio Sbectrwm £'000 | Dyfarnu Sbectrwm £'000 | Rhwyd-weithiau a Gwas-anaeth-au £'000 | Darlledu £'000 | Rheol-eiddio'r Post £'000 | Incwm Arall £'000 | Cyfanswm 31 Mawrth 2013 £'000 | Cyfanswm 31 Mawrth 2012 £'000 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Refeniw** | | | | | | | | | |
| Ffioedd trwydded-au a gweinyddu | – | – | – | 27,715 | 16,931 | 7,238 | – | **51,884** | 48,074 |
| Ffioedd ymgeisio | – | – | – | 30 | 698 | – | – | **728** | 682 |
| Cymorth grant | 62,307 | 45,292 | 2,318 | – | – | – | 1,566 | **111,483** | 114,521 |
| Ad-daliad y Frigâd Dân | (316) | – | – | – | – | – | – | **(316)** | – |
| Incwm arall | – | – | – | – | – | – | – | **–** | 788 |
| Incwm Cronedig/ (Gohiriedig) | (1,698) | (7,675) | (140) | 195 | (2,668) | (2,790) | 722 | **(14,054)** | (6,097) |
| **Cyfanswm refeniw** | **60,293** | **37,617** | **2,178** | **27,940** | **14,961** | **4,448** | **2,288** | **149,725** | **157,968** |
| Rhent ac Incwm arall | 647 | – | – | 300 | 160 | 48 | 25 | **1,180** | 557 |
| **Incwm gweithredol** | **60,940** | **37,617** | **2,178** | **28,240** | **15,121** | **4,496** | **2,313** | **150,905** | **158,525** |
| Llog derbyniadwy | 54 | – | – | 25 | 14 | 4 | 2 | **99** | 199 |
| **Cyfanswm incwm** | **60,994** | **37,617** | **2,178** | **28,265** | **15,135** | **4,500** | **2,315** | **151,004** | **158,724** |
| Ad-daliadau benthyciad | – | – | – | – | – | – | – | **–** | – |
| Llog taladwy | – | – | – | – | – | – | – | **–** | – |
| **Incwm gweithredol net** | **60,994** | **37,617** | **2,178** | **28,265** | **15,135** | **4,500** | **2,315** | **151,004** | **158,724** |
| Eiddo beichus ac incwm rhent cronedig | 1,052 | – | – | 488 | 260 | 78 | 40 | **1,918** | 2,368 |
| **Incwm Ariannol** | **62,046** | **37,617** | **2,178** | **28,753** | **15,395** | **4,578** | **2,355** | **152,922** | **161,092** |
| **Cyfanswm costau** | **(62,046)** | **(37,617)** | **(2,178)** | **(28,753)** | **(15,395)** | **(4,578)** | **(2,355)** | **(152,922)** | **(161,092)** |
| **Gwarged ar sail cost ariannol** | **–** | **–** | **–** | **–** | **–** | **–** | **–** | **–** | **–** |
| Costau cymharol fesul sector | | | | | | | | | |
| **Y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2013** | **(62,046)** | **(37,617)** | **(2,178)** | **(28,753)** | **(15,395)** | **(4,578)** | **(2,355)** | **(152,922)** | |
| Y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2012 | (61,358) | (48,170) | (1,059) | (25,995) | (18,606) | (4,115) | (1,789) | **(161,092)** | |

Mae incwm arall yn cynnwys:

- cymorth grant yn ymwneud â gwariant amddifad yng nghyswllt dyletswyddau ar gyfer ymholiadau cystadleuaeth, gwaith llythrennedd yn y cyfryngau, gweithgareddau profion budd cyhoeddus, asesiadau cyfryngau lleol, galwadau niwsans, amddiffyn defnyddwyr a chyd-fentrau (masnach symudol);
- gwaith torri hawlfraint ar-lein a ariennir drwy gymorth grant;
- incwm beirniaid;
- gweithgareddau masnachol, gan gynnwys gwaith ymyrraeth ar y sbectrwm; ac
- incwm rhent drwy is-osod gofod mewn eiddo gwag.

Mae ad-daliadau'r Frigâd Dân yn golygu ad-daliadau a dalwyd i'r gwasanaeth tân ac i wasanaeth yr heddlu yng Nghymru a Lloegr yng nghyswllt y sbectrwm a ryddhawyd. Casglwyd y ffioedd yn wreiddiol o dan Ddeddf Telegraffiaeth Ddi-wifr 2006 ac fe'u nodwyd yn y Datganiadau Ariannol at ddibenion Adran 400 o Ddeddf Cyfathrebiadau 2003 yn 2012. Gan fod yr arian eisoes wedi mynd i'r Gronfa Gyfunol, dim ond drwy hawliad cymorth grant ychwanegol i'r Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon yr oedd modd ei ad-dalu.

Yn unol â pholisïau cyfrifyddu Ofcom, fel y nodir yn nodyn 1(b) y cyfrifon hyn, rhoddir cyfrif am gymorth grant yn y cyfnod y'i derbynnir.

Cafodd y tabl uchod ei baratoi ar sail arian a addaswyd, sy'n cynnwys gwariant cyfalaf a chyfraniadau gwirioneddol i gynlluniau pensiwn, ond nid yw'n cynnwys dibrisiant.

Mae ffioedd gweinyddol a thrwyddedau Ofcom yn seiliedig ar amcangyfrif o'r costau arian yn unol â'i Ddatganiad Egwyddorion Codi Tâl. Pan ceir mwy o incwm na gwariant yn y flwyddyn gyfredol, bydd y gwarged yn cael ei ad-dalu i'r rhanddeiliaid perthnasol ac yn unol â Datganiad Egwyddorion Codi Tâl Ofcom. Pan ceir mwy o wariant nag incwm yn y flwyddyn gyfredol, caiff y diffyg ei gasglu gan y rhanddeiliaid perthnasol, yn unol â Datganiad Egwyddorion Codi Tâl Ofcom.

### Cysoni'r gwariant gweithredol â'r alldro gweithredol gwirioneddol

| | Nodiadau | 2013<br>£'000 | 2012<br>£'000 |
|---|---|---|---|
| **Gwariant gweithredol - Datganiad Incwm a Gwariant** | | **152,180** | **152,910** |
| Addasiadau o ran atebolrwydd ac asedau pensiwn | | **2,062** | 10,430 |
| Costau eiddo gwag | 17 | **1,165** | 537 |
| Gwariant cyfalaf llai dibrisio | | **(5,402)** | (6,372) |
| Taliadau rhent gwirioneddol llai gwariant | | **1,309** | 1,523 |
| Addasiadau eraill | | **1,609** | 2,083 |
| Elw o asedau sefydlog | | **(1)** | (19) |
| **Gwariant arian gweithredol** | | **152,922** | **161,092** |
| Clirio sbectrwm | | **(37,617)** | (48,169) |
| Dyfarnu sbectrwm | | **(2,178)** | (1,059) |
| Incwm Anweithredol | | **(3,199)** | (3,124) |
| **Alldro costau gweithredol gwirioneddol** | | **109,928** | **108,739** |

## 3. Incwm

| | 2013<br>£'000 | 2012<br>£'000 |
|---|---|---|
| **Cymorth Grant yr Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon** | | |
| Rheoli sbectrwm | **60,142** | 59,644 |
| Dyfarnu sbectrwm | **2,178** | 1,059 |
| Clirio sbectrwm | **37,617** | 48,170 |
| Gorfodi'r gyfraith gystadleuaeth | **431** | 596 |
| Prawf budd cyhoeddus | **206** | 62 |
| Integreiddio'r gwasanaeth post cyn Cydsyniad Brenhinol | **–** | (406) |
| Asesu cyfryngau lleol | **55** | 33 |
| Blocio Gwefannau | **–** | 79 |
| Cyd-fentrau (masnach symudol) | **24** | – |
| Galwadau niwsans | **656** | – |
| Amddiffyn defnyddwyr | **148** | – |
| Torri Hawlfraint Ar-lein | **595** | 663 |
| Llythrennedd yn y cyfryngau | **173** | 305 |
| **Cymorth grant Llywodraeth yr Alban** | | – |
| Gemau'r Gymanwlad | **151** | – |
| **Cyfanswm cymorth grant gan y llywodraeth** | **102,376** | **110,205** |
| | | |
| Ffioedd gweinyddol a ffioedd gwneud cais ar gyfer rhwydweithiau a gwasanaethau | **27,940** | 25,270 |
| Ffioedd trwyddedu a ffioedd gwneud cais yng nghyswllt y Ddeddf Darlledu | **14,961** | 18,086 |
| Integreiddio rheoleiddio'r gwasanaeth post | **–** | 1,194 |
| Rheoleiddio gwasanaethau post | **4,448** | 3,213 |
| Incwm Rhent | **39** | 5 |
| Incwm arall | **1,141** | 552 |
| **Cyfanswm incwm** | **150,905** | **158,525** |

Mae galwadau niwsans, amddiffyn defnyddwyr a chyd-fentrau (masnach symudol) yn swyddogaethau eraill y nodwyd bod angen cymorth grant ar eu cyfer gan yr Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon.

Cytunwyd ar gyllid ar gyfer Gemau'r Gymanwlad 2014 gyda Llywodraeth yr Alban yn 2013 ac mae'r incwm a dderbyniwyd yn 2013 yn cynnwys symiau sy'n gysylltiedig â 2012 a gyllidwyd yn flaenorol gan yr Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon.

## 4. Costau staff

| | Costau Staff eraill £'000 | Clirio Sbectrwm a Dyfarniadau £'000 | Cyfanswm 2013 £'000 | Costau Staff eraill £'000 | Clirio Sbectrwm a Dyfarniadau £'000 | Cyfanswm 2012 £'000 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Yr oedd y costau staff, gan gynnwys y ffioedd a dalwyd i Aelodau'r Bwrdd, fel a ganlyn: | | | | | | |
| Cyflogau a buddiannau | 49,209 | 918 | **50,127** | 44,411 | 728 | 45,139 |
| Costau Yswiriant Gwladol | 5,985 | 105 | **6,090** | 5,388 | 89 | 5,477 |
| Costau pensiwn | 4,331 | 74 | **4,405** | 4,365 | 63 | 4,428 |
| Costau ailstrwythuro | 1,049 | 7 | **1,056** | 193 | – | 193 |
| **Cyfanswm costau staff** | **60,574** | **1,104** | **61,678** | **54,357** | **880** | **55,237** |

Mae'r costau ailstrwythuro yn 2013 yn ymwneud â chwblhau prosiect y Gemau Olympaidd yn llwyddiannus ynghyd â gweithgareddau ailstrwythuro eraill a gwblhawyd yn ystod y flwyddyn, ac maent yn cynnwys croniad ar gyfer y costau heb eu talu ar ddiwedd y flwyddyn yng nghyswllt 11 o weithwyr (2012: 2).

Gweler gwybodaeth fanylach yng nghyswllt taliadau a hawliau pensiwn y cyfarwyddwyr a'r uwch weithredwyr yn yr adroddiad taliadau ar dudalennau 59 i 62.

Yn ystod y flwyddyn, cafodd 4 gweithiwr ei secondio i sefydliadau eraill, felly mae'r credyd hwn wedi'i gynnwys ar y llinell costau staff yn y tabl uchod.

Mae costau Clirio a Dyfarnu'r Sbectrwm wedi'u cyflwyno ar wahân i gostau staff craidd Ofcom er mwyn rhoi cymhariaeth fwy ystyrlon rhwng y blynyddoedd.

## 5. Nifer y gweithwyr

| | 2013 | 2012 |
|---|---|---|
| Nifer gweithwyr ar gyfartaledd | **781** | 735 |

Ar 31 Mawrth 2013, roedd gan Ofcom 778 o weithwyr (2012: 778).

Nid yw nifer y gweithwyr yn cynnwys Aelodau Anweithredol Bwrdd Ofcom, y Bwrdd Cynnwys, Pwyllgorau Cynghori na gweithwyr sydd wedi'u secondio i Ofcom.

Mae nifer y gweithwyr ar gyfer 2013 yn adlewyrchu'r flwyddyn lawn o reoleiddio post a throsglwyddo 48 o swyddogaethau o'r rheoleiddiwr blaenorol yn 2012.

# 6. Costau gweithredol eraill

| | Costau Gweithredol Eraill £'000 | Clirio a Dyfarnu Sbectrwm | Cyfanswm 2013 £'000 | Costau Gweithredol Eraill £'000 | Clirio a Dyfarnu Sbectrwm £'000 | Cyfanswm 2012 £'000 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Talu archwilwyr – ffioedd archwilio statudol | 77 | – | **77** | 78 | – | 78 |
| Talu archwilwyr – Adran 400 | 14 | – | **14** | 14 | – | 14 |
| Talu archwilwyr – Cyfrifon y Llywodraeth Gyfan | – | – | **–** | 3 | – | 3 |
| Ffioedd proffesiynol | 6,179 | 4,753 | **10,932** | 7,441 | 6,375 | 13,816 |
| Gwasanaethau a ddarperir yn allanol | 10,788 | 172 | **10,960** | 9,828 | – | 9,828 |
| Ymchwil i'r gynulleidfa a'r defnyddwyr | 4,916 | – | **4,916** | 4,002 | 32 | 4,034 |
| Ymchwil technolegol a phrosiectau effeithlonrwydd sbectrwm | 1,163 | 26 | **1,189** | 1,218 | 133 | 1,351 |
| Cynllun clirio sbectrwm | – | 33,060 | **33,060** | – | 41,005 | 41,005 |
| Staff dros dro a recriwtio | 3,089 | 513 | **3,602** | 2,769 | 340 | 3,109 |
| Teithio a chynhaliaeth | 1,338 | 36 | **1,374** | 1,545 | 37 | 1,582 |
| Costau eiddo | 6,990 | 85 | **7,075** | 4,022 | – | 4,022 |
| Costau gweinyddol a chostau swyddfa | 6,089 | 33 | **6,122** | 6,422 | 14 | 6,436 |
| Costau technoleg a gwybodaeth | 3,307 | 5 | **3,312** | 3,029 | 2 | 3,031 |
| Cerbydau | 544 | – | **544** | 517 | – | 517 |
| Dyledion gwael ac amheus | (6) | – | **(6)** | (67) | – | (67) |
| Amorteiddio | 4,032 | 9 | **4,041** | 5,083 | 2 | 5,085 |
| Dibrisio | 3,222 | 55 | **3,277** | 3,687 | 6 | 3,693 |
| Colled ar waredu asedau anghyfredol | 13 | – | **13** | 136 | – | 136 |
| **Cyfanswm costau gweithredol eraill** | **51,755** | **38,747** | **90,502** | **49,727** | **47,946** | **97,673** |
| **Mae'r costau uchod yn cynnwys:** | | | | | | |
| Les gweithredol – tir ac adeiladau | 5,859 | – | **5,859** | 5,805 | – | 5,805 |
| Les gweithredol – cerbydau | 378 | – | **378** | 352 | – | 352 |
| Les gweithredol – arall | 230 | – | **230** | 221 | – | 221 |

Mae costau Clirio a Dyfarnu'r Sbectrwm wedi'u cyflwyno ar wahân i gostau gweithredu craidd Ofcom er mwyn rhoi cymhariaeth fwy ystyrlon rhwng y blynyddoedd.

## 7. Tâl am eiddo gwag

| | 2013<br>£'000 | 2012<br>£'000 |
|---|---|---|
| Costau eiddo gwag yn y dyfodol | **544** | 150 |

Yn ystod 2012/13 mae llawr arall wedi cael ei wagio gan Ofcom yn Riverside House, rydym wedi dod o hyd i denantiaid newydd ar gyfer pob llawr gwag ac mae'r is-lesoedd wrthi'n cael eu gorffen. Yn ogystal, mae lesoedd gyda thenantiaid presennol yn Riverside House wedi cael eu hail-negodi i gyd-fynd â'r opsiwn aildrafod a'r telerau ym mhrif les Ofcom. O ganlyniad i'r newidiadau hyn, mae'r ddarpariaeth ar gyfer eiddo gwag wedi cael ei rhyddhau eto fel y nodwyd yn Nodyn 17.

## 8. Llog a dalwyd

| | 2013<br>£'000 | 2012<br>£'000 |
|---|---|---|
| Llog a dalwyd | **–** | – |

# 9. Trethiant

| | 2013<br>£'000 | 2012<br>£'000 |
|---|---|---|
| **Treth a (godwyd)/gredydwyd ar gyfer y flwyddyn** | | |
| Incwm/(costau) Treth Gorfforaeth y Deyrnas Unedig | **–** | – |
| Credyd/(debyd) treth ohiriedig | **(121)** | (53) |
| **Treth a gredydwyd/ (godwyd) ar y Datganiad Incwm a Gwariant** | **(121)** | **(53)** |

| Cysoni taliadau treth | 2013<br>£'000 | 2012<br>£'000 |
|---|---|---|
| (Diffyg) / Gwarged cyn treth | **(615)** | 6,889 |
| Treth ar elw ar gyfradd safonol y Deyrnas Unedig ar gyfer Treth Gorfforaeth, sef 20% (2012: 20%) | **(124)** | 1,378 |
| Incwm na thelir treth arno | **(30,188)** | (31,722) |
| Costau na ellir eu didynnu | **30,433** | 30,397 |
| Cynnydd mewn/(Defnydd) colledion treth a ddygwyd ymlaen | **(121)** | (53) |
| **Costau treth** | **–** | **–** |

| Treth ohiriedig | Colledion treth<br>£'000 |
|---|---|
| Dadansoddi newidiadau yn y balans treth ohiriedig net yn ystod y flwyddyn | |
| **Asedau treth ohiriedig ar 1 Ebrill 2011** | **2,654** |
| Cynnydd yn y colledion treth a ddygwyd ymlaen | **(53)** |
| **Asedau treth ohiriedig ar 1 Ebrill 2012** | **2,601** |
| Defnyddio colledion treth a ddygwyd ymlaen | **(121)** |
| **Asedau treth ohiriedig ar 31 Mawrth 2013** | **2,480** |
| Asedau treth ohiriedig i'w hadfer o fewn 12 mis | **20** |
| Asedau treth ohiriedig i'w hadfer ar ôl mwy na 12 mis | **2,460** |
| | **2,480** |

Mae'r holl asedau treth ohiriedig yn berthnasol i golledion treth a ddygwyd ymlaen. Mae'r modd y defnyddir asedau treth ohiriedig yn dibynnu ar elw trethadwy a gyfyd yn y dyfodol.

Daw'r colledion hyn yn bennaf o ganlyniad i ddarpariaethau les beichus ar eiddo a etifeddwyd gan gyrff blaenorol nad oedd mo'u hangen pan ymgorfforwyd Ofcom.

# 10. Eiddo, peiriannau a chyfarpar

| | Gwelliannau les £'000 | Gosodiadau a ffitiadau £'000 | Cyfarpar swyddfa a maes £'000 | Caledwedd cyfrifiadurol £'000 | Cerbydau modur £'000 | Asedau sydd wrthi'n cael eu hadeiladu £'000 | Cyfanswm £'000 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Cost** | | | | | | | |
**Rhaglennol - Gorfodi yng nghyswllt sbectrwm: rhoi cyngor a chynorthwyo mewn achosion ymyriant; cymryd offer a gedwir heb awdurdod ac erlyn lle bo'n briodol**

- Penderfyniad i wneud Rheoliadau Telegraffiaeth Ddi-wifr (Rheoli Ymyriant oddi wrth Gyfarpar) (Gemau Olympaidd a Gemau Paralympaidd Llundain) 2012

**Arall**

**Arall – Rheoli a chynllunio busnes**

- Cynllun Blynyddol 2013/14
- Adroddiad Blynyddol Ofcom 2012/13
- Tablau Tariffau Ofcom 2013/14
- Adroddiad ar Farchnad Gyfathrebiadau'r DU 2012

Rheoleiddio wedi cynyddu/newydd | Cymysg/dim newid/parhaus | Wedi symleiddio/cyd-reoleiddio | Llai o Reoleiddio

| Datganiadau Ofcom a gyhoeddwyd yn 2012/13 yr oedd yr ymgynghoriad cynharach yn cynnwys asesiad effaith |
|---|
| Datganiad terfynol ar reoli prisiau ISDN30 cyfanwerthol |
| Penderfyniad i wneud Rheoliadau Telegraffiaeth Ddi-wifr (Ffioedd Trwyddedau) (Diwygio) 2012 |
| Newidiadau i broses adrodd ariannol a rheoleiddio BT a KCOM – diweddariad 2011/12 |
| Trwyddedu Teledu Lleol - Datganiad |
| Ymestyn trosglwyddo sbectrwm i'r sectorau gorsaf daear lloeren a morol |
| Newidiadau i wneud galwadau lleol yng nghod ardal 01202 ar gyfer Bournemouth, Christchurch a Poole |
| Newidiadau arfaethedig i lawlyfr Costau'r Post Brenhinol |
| Penderfyniad i wneud Rheoliadau Telegraffiaeth Ddi-wifr (Rheoli Ymyriant oddi wrth Gyfarpar) (Gemau Olympaidd a Gemau Paralympaidd Llundain) 2012 |
| Datganiad am y drefn Awdurdodi ar gyfer 'ailadroddwyr' GNSS (1164-1215 MHz, 1215-1300 MHz a1559-1610 MHz) |
| Adolygu Gwasanaethau Cyfradd Premiwm – Penderfyniad ar ddefnyddio'r fframwaith dadansoddol |
| Hyrwyddo'r defnydd effeithlon o rifau ffôn daearyddol (Rhoi cynllun peilot ar waith i godi tâl am rai rhifau daearyddol a darparu nifer cyfyngedig o flociau rhif-100 ar gyfer eu dyrannu) |
| Sicrhau'r Gwasanaeth Post Cyffredinol – Terfyn diogelu ar gyfer llythyrau mawr a phecynnau |
| Asesu cystadleuaeth symudol yn y dyfodol a dyfarnu 800 MHz a 2.6 GHz |
| Cydfodolaeth gwasanaethau newydd yn y band 800 MHz gyda theledu daearol digidol |
| Adolygu dynodiad Ofcom yng nghyswllt ATVOD (yr Awdurdod Teledu ar Alwad) |
| Penderfyniad i amrywio trwyddedau sbectrwm 1800 MHz Everything Everywhere i ganiatáu'r defnydd o dechnolegau LTE a WiMax |
| Adolygu Cynlluniau Dulliau Amgen o Ddatrys Anghydfod: Datganiad |
| Penderfyniad Ofcom i wneud Rheoliadau Cofrestri a Masnachu Telegraffiaeth Ddi-wifr |
| Adnewyddu Trwydded Amlblecs Teledu |
| Adolygiad o wasanaethau trosglwyddo (relay): Penderfyniad ar gyflwyno Trosglwyddo Testun Cenhedlaeth Nesaf |
| Arweiniad ar ddarlledu Etholiadau Comisiynwyr Heddlu a Throseddu 2012 |
| Ofcom yn caniatáu cynllun 'danfon i gymydog' y Post Brenhinol |
| Sicrhau buddion hirdymor oddi wrth sbectrwm amledd isel prin: Datganiad strategaeth UHF |
| Gwneud Rhaglenni a Digwyddiadau Arbennig (PMSE) – cymwysiadau PMSE pŵer uchel yn nau megahertz is Channel 38 (606-614 MHz) |
| Eithriad i ddyletswydd gwasanaeth cyffredinol y Post Brenhinol – dim diwrnod gwasanaeth cyffredinol ar gyfer y diwrnod ar ôl gŵyl banc Brwydr y Boyne yng Ngogledd Iwerddon |
| Adolygu Rheolau Ofcom ar Ddarllediadau Pleidiau Gwleidyddol a Refferenda ac Arweiniad Arfaethedig Ofcom ar gyfer darlledu etholiadau |
| Cystadleuaeth o'r-dechrau-i'r-diwedd yn y sector post |

| Ymgynghoriadau Ofcom a gyhoeddwyd yn 2012/13 a oedd yn cynnwys asesiad effaith a lle nad oes datganiad wedi’i gyhoeddi |
|---|
| Torri Hawlfraint Ar-lein: Gweithredu Gorchymyn Torri Hawlfraint Ar-lein (Rhwymedigaethau Cychwynnol) (Rhannu Costau) 2012 |
| Torri Hawlfraint Ar-lein a Deddf yr Economi Ddigidol 2010 – Rhybudd o gynnig Ofcom i wneud cod, drwy orchymyn, ar gyfer rheoleiddio’r rhwymedigaethau cychwynnol |
| Symleiddio Rhifau nad ydynt yn rhai Daearyddol – Cynigion manwl ar y tariff wedi'i ddadfwndelu a Rhadffon |
| Terfynau Tâl Gwasanaeth ar gyfer Gwasanaethau 09 a 118 |
| Ymgynghoriad ar y Taliadau Gwasanaeth uchaf ar gyfer PRS a’r gwasanaethau Ymholiadau yn system y tariff wedi'i ddadfwndelu |
| Adroddiadau ariannol rheoleiddio: adolygiad |
| Gemau’r Gymanwlad Glasgow 2014 |
| Ystod Rhifau 0500: |
| Cynnig i dynnu rhifau ffôn Rhadffon 0500 yn ôl |
| Bylchau gwyn teledu – Ymgynghoriad ar ofynion dyfeisiau bylchau gwyn |
| Amrywio Trwyddedau Mynediad Di-wifr Sefydlog Band Eang 28 GHz |
| Codiadau pris mewn contractau tymor penodol |
| Terfyn diogelu ar gyfer llythyrau mawr Ail Ddosbarth a phecynnau |
| Ymestyn Gwasanaethau DAB yng Ngogledd Iwerddon – Cais i ymestyn ardal ddarpariaeth gwasanaeth amlblecs radio cenedlaethol |
| Ffeil Cyfeiriadau Codau Post |
| Newidiadau i broses adrodd ariannol a rheoleiddio BT a KCOM – diweddariad 2012/13 |
| Amrywio Trwyddedau Symudol 900 MHz, 1800 MHz a 2100 MHz |
| Mesur ansawdd profiad llais a data symudol |
| Adolygiad o’r marchnadoedd gwasanaethau band cul sefydlog |
| Hysbysiad o gynigion i wneud Rheoliadau Telegraffiaeth Ddi-wifr (Ffioedd Trwyddedau)(Diwygio) 2013 |
| Dyfarnu band sbectrwm 600 MHz - Gan gynnwys cais i randdeiliaid roi gwybod am eu bwriad i ymgeisio |
| Perfformiad asiantau sy'n delio â galwadau brys - Canllawiau arfaethedig yng nghyswllt delio â galwadau brys a chydymffurfiad darparwyr |
| Adolygu’r Cyfarwyddyd Bilio a Mesur (Metering) |
| Rheoleddio’r gwaith o ddarparu blychau post |
| Sianel 3 a Channel 5: Rhwymedigaethau rhaglennu arfaethedig |
| Prisio sbectrwm ar gyfer darlledu daearol |

# Atodiad: Rhaglen ymchwiliadau

Mae rhaglen ymchwiliadau Ofcom yn ymwneud â chwynion am ymddygiad gwrth-gystadleuol, torri rheolau rheoleiddio penodol ac anghydfodau ynghylch rheoleiddio. Mae'r tabl canlynol yn dangos gweithgareddau Ofcom o ran cynnal ymholiadau ac ymchwiliadau yn ystod 2012/13 a sut rydym wedi perfformio o'i gymharu â'n targedau statudol a chyhoeddedig. Mae hyn yn adlewyrchu'r darlun fel yr oedd ar 31 Mawrth 2013.

Dylid nodi bod nifer yr achosion a gofnodir yn y tabl yn tueddu i fod yn fach ac y gall y Dangosyddion Perfformiad Allweddol yr adroddiad arnynt fod yn gyfnewidiol yn sgîl hynny. Mae rhagor o wybodaeth am y rhaglen ymchwiliadau i'w weld yn ein hadroddiadau chwe misol, Gweithgarwch Ymchwiliadau Ofcom (http://stakeholders.ofcom.org.uk/enforcement/competition-bulletins/six-monthly-roundup-complaints/).

Mae'r data yn y tabl isod yn ymdrin â pherfformiad Tîm Ymchwiliadau'r Grŵp Cystadleuaeth a'r Tîm Diogelu Defnyddwyr.

| Gweithgarwch a tharged | Perfformiad yn erbyn targedau | Gweithgarwch sy'n parhau |
|---|---|---|
| **Ymchwiliadau** | | |
| • Cwblhau o fewn 15 diwrnod gwaith.<br>• Cwblhau o fewn wyth wythnos ar gyfer cyfraith cystadleuaeth. | • Cwblhawyd 12 ymchwiliad yn 2012/13 (gyda phedwar derbyniwyd yr anghydfodau, arweiniodd un at ymchwiliad ar ei liwt ei hun, tynnwyd un yn ôl ac ni chymerwyd rhagor o gamau gyda'r chwech arall.<br>• Cafodd 11[1] o'r 12 ymchwiliad (92%) eu cwblhau o fewn y targed. | • Roedd un ymchwiliad cyfraith cystadleuaeth yn parhau ar ddiwedd y flwyddyn ac o fewn y targed. |
| **Anghydfodau** | | |
| • Cwblhau o fewn pedwar mis. | • Ymdriniwyd â 11 anghydfod yn ystod y flwyddyn.<br>• Datryswyd chwe anghydfod yn ystod y flwyddyn.<br>• Terfynwyd un o'r anghydfodau a ddatryswyd o fewn y cyfnod targed - roedd amgylchiadau eithriadol yn berthnasol i bob un o'r pump arall. | • Roedd pump anghydfod yn dal i gael sylw ar ddiwedd y flwyddyn.<br>• Roedd dau o fewn y targed.<br>• Roedd amgylchiadau eithriadol yn berthnasol i bob un o'r tri anghydfod arall. |
| **Ymchwiliadau yng nghyswllt y gyfraith cystadleuaeth** | | |
| • Dim targed penodol 'un ateb i bawb'. Amserlenni dangosol ar sail achos wrth achos i'w gyhoeddi yn y dyfodol. | • Ni chafodd dim ymchwiliadau eu hagor na'u cau yn ystod y flwyddyn. | • Roedd un ymchwiliad yn dal yn mynd rhagddo ar ddiwedd y flwyddyn sydd wedi mynd y tu hwnt i'w darged. |
| **Rhaglenni gorfodaeth ac ymchwiliadau eraill** | | |
| • Mae gan ymchwiliadau unigol darged cwblhau (h.y. cyhoeddi hysbysiad cyntaf neu gau) o fewn chwe mis. Nid oes targedau amser ar gyfer rhaglenni gorfodaeth. | • Cafodd dau ymchwiliad eu hagor a chafodd un ei gau yn ystod 2012/13.<br>• Roedd yr un ymchwiliad a gaewyd wedi mynd y tu hwnt i'r targed.<br>• Cafodd un rhaglen orfodaeth ei hagor a chafodd un ei chau yn ystod 2012/13. | • Roedd dau ymchwiliad unigol yn parhau ar ddiwedd 2012/13, y ddau o fewn y targed.<br>• Yn ogystal, roedd chwe rhaglen orfodaeth yn parhau. |

1 Mae'n cynnwys un ymchwiliad y rhoddodd Ofcom darged estynedig iddo ar y dechrau oherwydd cyfnod gwyliau'r Nadolig a'r Flwyddyn Newydd.

# Atodiad: Safonau Darlledu

Mae gan Ofcom ddyletswydd statudol o dan Ddeddf Cyfathrebiadau 2003 i sefydlu gweithdrefnau ar gyfer delio â chwynion gan wrandawyr a gwylwyr, a'u datrys, am raglenni radio a theledu sy'n cael eu darlledu ar wasanaethau sydd wedi'u trwyddedu gan Ofcom, a'r BBC ac S4C (gyda rhai eithriadau).

Mae pob cwyn yn bwysig i Ofcom gan eu bod yn ein helpu i ddeall a yw darlledwr yn peidio â chydymffurfio â rheolau'r Cod Darlledu[2], neu godau ac amodau trwyddedau eraill Ofcom. Caiff Ofcom lansio ymchwiliadau ei hun yn ogystal â lansio ymchwiliadau ar ôl i gwynion gael eu hasesu. Mae Ofcom yn delio ag ymchwiliadau yn sgîl cwynion ac ymchwiliadau a roddwyd ar waith gan Ofcom ei hun dan yr un gweithdrefnau.

Mae cwynion unigol y mae Ofcom yn eu derbyn yn cael eu haseinio i achosion. Agorir achos pan fydd Ofcom yn asesu neu'n ymchwilio i fater neu raglen benodol a gall gynnwys un gŵyn neu ragor. Caewyd cyfanswm o 6,324 achos (a oedd yn cynnwys 16,334 o gwynion) yn y cyfnod dan sylw.

## Safonau

### Asesiad cychwynnol o gwynion

Mae'r holl gwynion yn cael sylw o dan weithdrefnau Ofcom ar gyfer ymchwilio i achosion o dorri safonau cynnwys ar gyfer teledu a radio[3].

Bydd Ofcom yn asesu pob cwyn a gaiff. Ar sail asesiad cychwynnol o'r gŵyn ac ar ôl ystyried y cynnwys teledu neu radio perthnasol, bydd Ofcom yn ystyried a yw'r Cod Darlledu wedi cael ei dorri (neu godau eraill Ofcom neu amodau trwydded). Os na, bydd Ofcom yn penderfynu peidio ag ymchwilio ymhellach a bydd yn cyhoeddi'r penderfyniad hwn yn ei Fwletin Darlledu[3].

Aseswyd 6,141 achos (16,151 cwyn) yn y ffordd hon yn ystod y cyfnod adrodd. Canfu Ofcom:

- bod 288 o achosion (3,910 o gwynion) wedi codi materion sylweddol a oedd yn galw am ymchwiliad pellach; a
- bod 5,853 achos (12,241 cwyn) nad oedd angen ymchwilio ymhellach iddynt neu yr oeddynt y tu allan i gylch gwaith Ofcom.

Bydd Ofcom yn ceisio gwneud asesiad cychwynnol o bob cwyn cyn pen 15 diwrnod gwaith. Yn y cyfnod rhwng 1 Ebrill 2012 a 31 Mawrth 2013, asesodd Ofcom gwynion cyn pen 5.4 diwrnod gwaith ar gyfartaledd.

### Ymchwiliadau

Os bydd achos yn codi materion a allai fod yn sylweddol, bydd Ofcom yn ymchwilio ymhellach i'r mater i benderfynu a yw'r Cod Darlledu wedi cael ei dorri (neu un arall o godau Ofcom neu amodau trwydded). Gall ymchwiliad gynnwys un neu ragor o achosion cysylltiedig yn cynnwys yr un darlledwr.

Cafodd cyfanswm o 266 o achosion eu cwblhau rhwng 1 Ebrill 2012 a 31 Mawrth 2013. Canfu Ofcom fod:

- 144 o achosion yr ymchwiliwyd iddynt wedi arwain at gofnodi bod amodau neu delerau i'r Cod Darlledu wedi'u torri (neu un o godau eraill Ofcom neu amodau trwyddedau);
- 16 o achosion yr ymchwiliwyd iddynt wedi cael eu datrys; a
- nad oedd 106 o achosion yr ymchwiliwyd iddynt wedi torri'r codau.

Bydd Ofcom yn ceisio cwblhau'r achosion hynny y bydd yn penderfynu ymchwilio iddynt cyn pen 50 diwrnod gwaith. Yn y cyfnod rhwng 1 Ebrill 2012 a 31 Mawrth 2013, cwblhaodd Ofcom ymchwiliadau cyn pen 45.7 diwrnod gwaith ar gyfartaledd.

1 Ar gael yn: http://stakeholders.ofcom.org.uk/broadcasting/broadcast-codes/broadcast-code/.
2 Ar gael yn: http://stakeholders.ofcom.org.uk/broadcasting/guidance/complaints-sanctions/standards/.
3 Ar gael i'w weld yn: http://stakeholders.ofcom.org.uk/enforcement/broadcast-bulletins/.

### Tegwch a Phreifatrwydd

Mae cwynion Tegwch a Phreifatrwydd yn gwynion am driniaeth annheg neu anghyfiawn mewn rhaglenni neu am darfu'n ddiangen ar breifatrwydd mewn rhaglenni (neu yng nghyswllt cael y deunyddiau sydd ynddynt). Fel rheol bydd y cwynion yn cael eu gwneud gan unigolion neu sefydliadau sy'n cymryd rhan mewn rhaglenni a ddarlledir neu a oedd yn rhan o wneud rhaglenni neu y mae'r rhaglenni hynny'n effeithio arnynt yn uniongyrchol.

Cafodd cyfanswm o 183 o gwynion a oedd yn ymwneud â Thegwch a Phreifatrwydd eu cau.

### Asesu a phwyso a mesur (adloniant)

Bydd Ofcom yn asesu pob cwyn Tegwch a Phreifatrwydd mae'n ei gael i benderfynu a ddylid 'pwyso a mesur' y gŵyn. Mae'r asesiad hwn yn seiliedig ar ai: y 'sawl yr effeithir arno' yw'r achwynydd a'i fod yn gallu cwyno; yw'r mater sy'n destun i'r gŵyn yn destun achos mewn llys barn yn y DU; neu a yw'r gŵyn yn ddisylwedd.

Cafodd cyfanswm o 183 o gwynion Tegwch a Phreifatrwydd eu hasesu yn y cyfnod rhwng 1 Ebrill 2012 a 31 Mawrth 2013. Penderfynodd Ofcom fod:

- 58 achos wedi cael eu pwyso a'u mesur; ac
- yng nghyswllt 125 o gwynion penderfynwyd peidio â'u pwyso a'u mesur neu ni fwriwyd ymlaen â hwy cyn eu pwyso a'u mesur.

Nod Ofcom yw asesu a phenderfynu a yw am ystyried cwynion Tegwch a Phreifatrwydd ai peidio cyn pen 25 diwrnod o dderbyn y gŵyn ac unrhyw wybodaeth bellach y gofynnir amdani gan y sawl sy'n cwyno. Yn y cyfnod rhwng 1 Ebrill 2012 a 31 Mawrth 2013, asesodd a phenderfynodd Ofcom a ddylid ystyried cwynion Tegwch a Phreifatrwydd cyn pen 15.5 diwrnod gwaith ar gyfartaledd.

### Dyfarniadau

Os caiff cwyn Tegwch a Phreifatrwydd ei hystyried gan Ofcom, bydd yn ymchwilio i'r mater ymhellach i benderfynu a gafodd y Cod Darlledu ei dorri ac, os felly, bydd yn cadarnhau'r gŵyn. Bydd Ofcom wedyn yn gwneud ei ddyfarniad terfynol.

Dyfarnwyd ar gyfanswm o 58 o gwynion yn y cyfnod dan sylw. Penderfynodd Ofcom fel a ganlyn:

- cadarnhawyd naw o gwynion (dau o'r rheini'n rhannol);
- ni chadarnhawyd 35 o gwynion;
- cafodd chwech o gwynion eu datrys (ar ôl i'r darlledwr gymryd camau priodol);
- ni aethpwyd ymlaen ag wyth cwyn ar ôl eu pwyso a'u mesur.

Nod Ofcom yw cwblhau'r gwaith o ystyried cwynion Tegwch a Phreifatrwydd, a dyfarnu arnynt, cyn pen 90 diwrnod gwaith i bwyso a mesur y gŵyn. Yn y cyfnod rhwng 1 Ebrill 2012 a 31 Mawrth 2013, cwblhaodd Ofcom y gwaith o ystyried cwynion Tegwch a Phreifatrwydd, a dyfarnu arnynt, cyn pen 85.4 diwrnod gwaith ar gyfartaledd.

### Sancsiynau

Pan fydd Ofcom yn penderfynu bod darlledwr wedi torri'r Cod Darlledu neu amod trwydded neu god Ofcom arall, a'i fod yn credu bod yr achos hwnnw'n ddifrifol, yn fwriadol, wedi'i ailadrodd a/neu'n ddi-hid, gall ystyried a yw am roi sancsiwn statudol ar y darlledwr.

Mae'r ystod o sancsiynau sydd ar gael i Ofcom yn cynnwys penderfyniad i: gyhoeddi cyfarwyddyd i beidio ag ailddarlledu rhaglen neu hysbyseb; cyhoeddi cyfarwyddyd i ddarlledu cywiriad neu ddatganiad am ganfyddiadau Ofcom; cyhoeddi cosb ariannol[1]; cwtogi trwydded neu ei hatal; a diddymu trwydded (nid yw hyn yn berthnasol i'r BBC, S4C na Channel 4).

Yn ystod y cyfnod rhwng 1 Ebrill 2012 a 31 Mawrth 2013, penderfynodd Ofcom roi'r sancsiynau statudol canlynol:

- E Entertainment UK Limited, yng nghyswllt ei wasanaeth E! Entertainment - £40,000 a chyfarwyddyd i ddarlledu datganiad canfyddiadau Ofcom unwaith;
- Biditis Limited, yng nghyswllt ei wasanaeth Al-Alamia TV - £30,000;
- Al Mustakillah Television Limited, yng nghyswllt ei wasanaeh Al Mustakillah Television - £25,000;
- Sunrise TV Ltd, yng nghyswllt ei wasanaeth Sunrise TV - £20,000;
- Dama (Liverpool) Limited, yng nghyswllt ei wasanaeth Aden Live - £10,000 a chyfarwyddyd i ddarlledu datganiad canfyddiadau Ofcom unwaith; a
- Radio Asian Fever Community Interest Company, yng nghyswllt ei wasanaeth Radio Asian Fever (Leeds) - £4,000 a chyfarwyddyd i ddarlledu datganiad canfyddiadau Ofcom unwaith.

1 Caiff yr holl gosbau ariannol a roddir gan Ofcom eu dal mewn cyfrif gyda Gwasanaethau Bancio'r Llywodraeth (GBS) er budd y Trysorlys. Caiff cronfeydd eu trosglwyddo i gyfrif GBS Trysorlys EM i'w defnyddio'n uniongyrchol gan y Trysorlys, neu eu dosbarthu i Gronfeydd Cyfunol perthnasol. Nid yw Ofcom yn defnyddio nac yn cael buddion ariannol o unrhyw gosbau ariannol a geir.

# Peirianneg sbectrwm a gorfodaeth – dangosyddion perfformiad allweddol

### Tabl 1: Prif Weithgareddau

| Gweithgarwch Rhaglen Waith/Digwyddiad | | Ebrill 12 – Mawrth 13 | Ebrill 11 – Mawrth 12 |
|---|---|---|---|
| Achosion o ymyriant a ddaeth i law | Achosion domestig * | 728 | 988 |
| | Achosion Busnes | 1,163 | 1,283 |
| | Heb ei nodi | 61 | 241 |
| Baldock: gweithgareddau sbectrwm | | 4,416 | 4,293 |
| Achosion gorfodaeth a agorwyd | | 821 | 674 |
| Archwiliadau cydymffurfio â'r system radio a gwblhawyd | | 616 | 215 |
| Erlyniadau llwyddiannus am weithgarwch troseddol ar y sbectrwm | | 10 | 12 |
| Erlyniadau aflwyddiannus am weithgarwch troseddol ar y sbectrwm | | 0 | 0 |

* Mae Achosion Domestig yn ymwneud ag ymyriant sy'n effeithio ar offer radiogyfathrebu sy'n cael ei ddefnyddio mewn amgylchedd domestig.

KPI 1 Amser cyn yr Ymweliad Cyntaf: Yr amser rhwng rhoi gwybod am gŵyn ynghylch ymyriant a'r amser y bydd ein peiriannwr yn cyrraedd ar y safle i ganfod y broblem (ar gyfer yr achosion hynny pan fydd angen ymweliad maes).

KPI 2 Datrys: Yr amser rhwng rhoi gwybod am gŵyn ynghylch ymyriant a'r amser pan fydd y cwsmer yn cael gwybod bod yr achos wedi'i ddatrys.

### Tabl 2: Dangosyddion Perfformiad Allweddol (Achosion Ymyriant)

| Blaenoriaeth Achos | KPI | Targed | Cyflawnwyd y Targed Ansawdd Gwasanaeth | |
|---|---|---|---|---|
| | | | Ebrill 12 – Mawrth 13 | Ebrill 11 – Mawrth 12 |
| Blaenoriaeth 1 | Ymweliad Cyntaf | 8 awr | 100% | 90% |
| | Datrysiad | 2 diwrnod calendr | 100% | 100% |
| Blaenoriaeth 2 | Ymweliad Cyntaf | 18 awr | 96% | 94% |
| | Datrysiad | 3 diwrnod calendr | 98% | 97% |
| Blaenoriaeth 3 | Ymweliad Cyntaf | 2 diwrnod gwaith | 97% | 92% |
| | Datrysiad | 6 diwrnod gwaith | 93% | 94% |
| Blaenoriaeth 4 | Ymweliad Cyntaf | 5 diwrnod gwaith | 97% | 88% |
| | Datrysiad | 20 diwrnod gwaith | 94% | 97% |
| Blaenoriaeth 5 | Ymweliad Cyntaf | 15 diwrnod gwaith | 98% | 93% |
| | Datrysiad | 40 diwrnod gwaith | 97% | 98% |
| Blaenoriaeth 6 | Ymweliad Cyntaf | amh. | amh. | amh. |
| | Datrysiad | 60 diwrnod gwaith | 98% | 97% |

# Trwyddedu sbectrwm

## Categori A

| Trwyddedau lle nad oes gofyn aseinio amledd, clirio safle na chydlynu rhyngwladol | Trwyddedau a gyhoeddwyd rhwng Ebrill 12 a Mawrth 13 | Trwyddedau a gyhoeddwyd rhwng Ebrill 11 a Mawrth 12 | Cyfanswm y trwydded-au a gyhoeddwyd erbyn 31 Maw 13 |
|---|---|---|---|
| Radio Busnes Ysgafn – Syml DU (dim gorsaf ganolog) | 1,503 | 1,445 | 9,190 |
| Safle Radio Busnes Syml | 601 | 606 | 7,557 |
| Cyflenwyr Radio Busnes Ysgafn | 79 | 74 | 655 |
| Mynediad Di-wifr Sefydlog (5.8 GHz) | 64 | 51 | 350 |
| Ailadroddwr GNSS | 32 | – | 17 |
| Heddlu a Thân | 14 | 1 | 138 |
| **Is gyfanswm ar gyfer cynnyrch Radio Busnes** | **2,293** | **2,177** | **17,907** |
| Mesur Lefel Radar | 0 | 0 | 124 |
| CB, Amatur a Morol | 25,748 | 24,409 | 206,682 |
| **Cyfanswm ar gyfer Categori A** | **28,041** | **26,586** | **224,713** |
| KPI ar gyfer Categori A (100% mewn 7 niwrnod) | 97% | 97% | – |
| KPI ar gyfer Categori A (CB, Amatur a Morol) (100% mewn 10 diwrnod) | 99% | 97% | – |

## Categori B

| Trwyddedau lle mae gofyn aseinio amledd, ond nad oes angen clirio safle na chydlynu rhyngwladol | | Trwyddedau a gyhoeddwyd rhwng Ebrill 12 a Mawrth 13 | Trwyddedau a gyhoeddwyd rhwng Ebrill 11 a Mawrth 12 | Cyfanswm y trwydded-au a gyhoeddwyd erbyn 31 Maw 13 |
|---|---|---|---|---|
| System Adnabod Awtomatig | | 33 | 34 | 184 |
| Radio Gorsaf y Glannau (Rhyngwladol) | | 23 | 31 | 487 |
| Radio Gorsaf y Glannau (DU) | | 36 | 41 | 416 |
| Radio Gorsaf y Glannau (Marina) | | 42 | 46 | 429 |
| Radio Gorsaf y Glannau (Ysgol Hyfforddi) | | 31 | 29 | 276 |
| Radio Morol (Cyflenwyr ac Arddangos) | | 7 | 4 | 86 |
| Cynnyrch Cymorth Morol a Radar | | 10 | 2 | 113 |
| System Lleoli Byd-eang Wahaniaethol | | 0 | 0 | 6 |
| **Is gyfanswm ar gyfer dadreoleiddio a gosod cynnyrch dan gontract** | | **182** | **187** | **1,997** |
| Radio Busnes wedi'i Aseinio'n Dechnegol | | 2,305 | 2,689 | 27,000 |
| Radio Busnes wedi'i Aseinio fesul Ardal | | 34 | 47 | 199 |
| Ardal Radio Gorsaf y Glannau (DU) wedi'i diffinio | | 1 | – | 1 |
| Ardal radio Gorsaf y Glannau (Rhyngwladol) wedi'i diffinio | | 1 | – | 2 |
| Radar Profi'r Tir | | 18 | 23 | 153 |
| Telemetreg Sganio | | 5 | 10 | 29 |
| Dolenni hunangydlynol | | 81 | 8 | 94 |
| **Is gyfanswm ar gyfer cynnyrch Radio Busnes** | | **2,445** | **2,777** | **27,478** |
| **Cyfanswm ar gyfer Categori B** | | **2,627** | **2,964** | **29,475** |
| KPI ar gyfer Categori B | 90% mewn 21 diwrnod | 98% | 99% | – |
| | 100% 100% mewn 42 diwrnod | 99% | 99% | – |

## Categori C

| Trwyddedau lle mae gofyn aseinio amledd, clirio safle a/neu gydlynu rhyngwladol | | Trwyddedau a gyhoeddwyd rhwng Ebrill 12 a Mawrth 13 | Trwyddedau a gyhoeddwyd rhwng Ebrill 11 a Mawrth 12 | Cyfanswm y trwyddedau a gyhoeddwyd erbyn 31 Maw 13 |
|---|---|---|---|---|
| Dolenni Sefydlog | | 2,499 | 1,820 | 32,459 |
| Lloeren (Gorsaf Ddaearol Barhaol) | | 34 | 28 | 146 |
| Lloeren (Gorsaf Ddaearol Gludadwy) | | 97 | 100 | 115 |
| Lloeren (Rhwydwaith Gorsaf Ddaearol) | | 15 | 6 | 62 |
| **Cyfanswm ar gyfer Categori C** | | **2,645** | **1,954** | **32,782** |
| KPI ar gyfer Categori C | 90% mewn 42 diwrnod | 98% | 99% | – |
| | 100% mewn 60 diwrnod | 99% | 99% | – |

## Trwyddedau Profi a Datblygu

| | Trwyddedau a gyhoeddwyd rhwng Ebrill 12 a Mawrth 13 | Trwyddedau a gyhoeddwyd rhwng Ebrill 11 a Mawrth 12 | Cyfanswm y trwyddedau a gyhoeddwyd erbyn 31 Maw 13 |
|---|---|---|---|
| Trwydded Datblygu Anweithredol | 402 | 382 | 274 |
| Trwydded Dros Dro Anweithredol | 110 | 106 | 64 |
| **Cyfanswm ar gyfer Profi a Datblygu** | **512** | **488** | **338** |
| KPI ar gyfer Profi a Datblygu (100% mewn 60 diwrnod) | 100% | 100% | – |

## Trwyddedau Band Eang Symudol a Di-wifr [1]

| Trwyddedau a roddwyd drwy arwerthu neu ddyfarnu'r sbectrwm | Trwyddedau a gyhoeddwyd rhwng Ebrill 12 a Mawrth 13 | Trwyddedau a gyhoeddwyd rhwng Ebrill 11 a Mawrth 12 | Cyfanswm y trwyddedau a gyhoeddwyd erbyn 31 Maw 13 |
|---|---|---|---|
| Rhwydweithiau Di-wifr Cyhoeddus [2] | 1 | – | 4 |
| Ffonau Symudol 3G [3] | – | – | 4 |
| Mynediad Sbectrwm – Twnnel y Sianel | 1 | – | 1 |
| Mynediad Sbectrwm 800MHz / 2.6 GHz | 5 | – | 5 |
| Mynediad Sbectrwm 412 - 414 MHz | – | – | 1 |
| Mynediad Sbectrwm 1452 - 1492 MHz | – | – | 1 |
| Mynediad Sbectrwm Cydamserol 1781 - 1785 MHz | – | – | 12 |
| Mynediad Sbectrwm 1785 MHz, Gogledd Iwerddon | – | – | 1 |
| Mynediad Sbectrwm 3.5, 3.6, 10, 28, 32 a 40 GHz | – | – | 12 |
| Band Eang Di-wifr 28 GHz | – | – | 15 |
| **Cyfanswm ar gyfer Band Eang Di-wifr a Symudol** | **7** | **–** | **56** |

1 Nid yw ffigurau'r trwyddedau a amrywiwyd a/neu a ailgyhoeddwyd, neu a fasnachwyd yn llawn o un cwmni i'r llall wedi cael eu cynnwys yn y ffigurau hyn
2 Trwydded 1800 MHz ychwanegol a grëwyd drwy fasnachu i Hutchison 3G oddi wrth EE, y cyfunwyd eu dwy drwydded yn y band (hen T-Mobile + Orange)
3 cafodd dwy drwydded EE yn y band 2100 MHz (T-Mobile + Orange o'r blaen) eu cyfuno

### Trwyddedau Ynys Manaw ac Ynysoedd y Sianel

| Ceisiadau am drwyddedau a wnaed drwy Reoleiddwyr lleol | Trwyddedau a gyhoeddwyd rhwng Ebrill 12 a Mawrth 13 | Trwyddedau a gyhoeddwyd rhwng Ebrill 11 a Mawrth 12 | Cyfanswm y trwydded-au a gyhoeddwyd erbyn 31 Maw 13 |
|---|---|---|---|
| Ffonau Symudol 2G – Ynys Manaw ac Ynysoedd y Sianel | – | – | 8 |
| Ffonau Symudol 3G – Ynys Manaw ac Ynysoedd y Sianel | – | – | 9 |
| Mynediad Sbectrwm / Di-wifr 3.4, 3.6, 10 a 28 GHz, Ynys Manaw ac Ynysoedd y Sianel | – | – | 8 |
| **Cyfanswm Ynys Manaw ac Ynysoedd y Sianel** | | | **26** |

### Trwyddedau Sbectrwm y Difidend Digidol

Y sbectrwm a ryddhawyd i'w ddefnyddio mewn ffyrdd newydd yn sgîl y newid i'r digidol

| Trwyddedau DDR GI a gyhoeddwyd drwy brosesau dyfarnu sbectrwm | Trwyddedau a gyhoeddwyd rhwng Ebrill 12 a Mawrth 13 | Trwyddedau a gyhoeddwyd rhwng Ebrill 11 a Mawrth 12 | Cyfanswm y trwydded-au a gyhoeddwyd erbyn 31 Maw 13 |
|---|---|---|---|
| Mynediad Sbectrwm 541 - 550 MHz (Caerdydd) | – | – | 1 |
| Mynediad Sbectrwm 758 - 766 MHz (Manceinion) | – | – | 1 |
| **Cyfanswm ar gyfer trwyddedau'r Difidend Digidol** | **–** | **–** | **2** |

### Trwyddedau Gemau Olympaidd a Gemau Paralympaidd Llundain 2012

| | Trwyddedau a gyhoeddwyd rhwng Ebrill 12 a Mawrth 13 | Trwyddedau a gyhoeddwyd rhwng Ebrill 11 a Mawrth 12 | Cyfanswm y trwydded-au a gyhoeddwyd erbyn 31 Maw 13 |
|---|---|---|---|
| Cyfanswm trwyddedau ar gyfer Gemau Olympaidd a Gemau Paralympaidd Llundain 2012 | 5,858 | amh. | 0 |

Mae dadansoddiad llawn o'r trwyddedau a roddwyd ar gyfer Gemau Llundain 2012 i'w gael yn ein hadroddiad *Ofcom and the London 2012 Olympic and Paralympic Games*, a gyhoeddwyd ar ein gwefan.

### Trwyddedau sbectrwm annewisol

Mae'r Awdurdod Hedfan Sifil (CAA) yn cyhoeddi trwyddedau ar gyfer awyrennau, ac mae'r Cyd-grŵp Rheoli Amleddau (JFMG) yn cyhoeddi trwyddedau ar gyfer darllediadau allanol, gwneud rhaglenni a digwyddiadau arbennig, ac yn eu hawdurdodi.

| Gweithgarwch Partneriaid | Trwyddedau a gyhoeddwyd rhwng Ebrill 12 a Mawrth 13 | Trwyddedau a gyhoeddwyd rhwng Ebrill 11 a Mawrth 12 | Cyfanswm y trwyddedau a gyhoeddwyd erbyn 31 Maw 13 |
|---|---|---|---|
| Mae'r Cyd-grŵp Rheoli Amleddau'n cyhoeddi Trwyddedau ar gyfer Gwneud Rhaglenni a Digwyddiadau Arbennig | 4,648 | 4,019 | 5,061 |
| KPI ar gyfer y Cyd-grŵp Rheoli Amleddau (100% mewn 7 niwrnod) | 100% | 100% | – |
| Mae'r Awdurdod Hedan Sifil yn cyhoeddi Trwyddedau Awyrenegol [1] | 4,555 | 15,074 | 13,855 |
| KPI ar gyfer yr Awdurdod Hedfan Sifil (100% mewn 7 niwrnod) | 79% | 75% | – |
| **Cyfanswm** | **9,203** | **16,925** | **18,916** |

| | | | |
|---|---|---|---|
| **CYFANSWM NIFER Y TRWYDDEDAU – POB CATEGORI** | **48,893** | **51,085** | **306,308** |

1 Trwyddedau awyrenegol wedi'u newid i gyfnod adnewyddu 3 blynedd

# Atodiad: Adroddiad cynaliadwyedd

**Mae'r adran hon yn rhoi data am gynaliadwyedd a'r costau ariannol yn fanylach.**

Mae'r wybodaeth am gostau a defnydd ar gyfer Bryste, Caterham, Leeds, Nottingham, Peterborough a Wyndham House wedi'i chynnwys lle bo'n briodol. Mae'r swyddfeydd hyn wedi cael eu cau yn dilyn rhesymoli portffolio eiddo Ofcom.

## Allyriadau nwyon tŷ gwydr

| | | | 2008/9 | 2009/10 | 2010/11 | 2011/12 | 2012/13 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Dangosyddion Anariannol (tunelli CO2e)** | **Cwmpas 1** | Nwy | 189 | 192 | 239 | 143 | 201 |
| | | Olew | 41 | 14 | 24 | 26 | 23 |
| | | Tanwydd Fflyd | 259 | 259 | 233 | 233 | 211 |
| | **Cwmpas 2** | Trydan | 1,844 | 1,791 | 1,768 | 1,533 | 1,426 |
| | **Cwmpas 3** | Teithio Busnes | 453 | 371 | 375 | 405 | 437 |
| | | – Hedfan | 262 | 148 | 166 | 188 | 242 |
| | | – Domestig | 18 | 20 | 11 | 11 | 14 |
| | | – Teithiau byr | 148 | 81 | 103 | 147 | 154 |
| | | – Teithiau hir | 96 | 47 | 51 | 29 | 74 |
| | | – Trên/bws/tiwb | 111 | 109 | 93 | 117 | 115 |
| | | – Car/Beic Modur/Beic | 64 | 104 | 112 | 97 | 78 |
| | | – Tacsis | 17 | 10 | 4 | 3 | 3 |
| **Data defnyddio cysylltiedig** | **Cwmpas 1** | Nwy (kWh) | 923,936 | 941,947 | 1,185,315 | 711,692 | 984,238 |
| | | Nwy fesul FTE (kWh) | 1,081 | 1,083 | 1,650 | 914 | 1,262 |
| | | Olew (litrau) | 13,508 | 4,500 | 7,953 | 8,500 | 7,500 |
| | | Tanwydd Fflyd (litrau) | 96,964 | 96,964 | 87,320 | 87,206 | 78,923 |
| | **Cwmpas 2** | Trydan (kWh) | 3,388,264 | 3,291,355 | 3,370,121 | 2,921,480 | 2,740,678 |
| | | Trydan fesul FTE (kWh) | 3,963 | 3,784 | 4,692 | 3,752 | 3,514 |
| **Dangosyddion Ariannol** | **Cwmpas 1** | Nwy | £44,352 | £41,431 | £49,655 | £25,432 | £34,991 |
| | | Olew | £1,940 | £2,262 | £5,510 | £6,827 | £7,081 |
| | | Tanwydd Fflyd | £112,491 | £112,491 | £109,219 | £123,748 | £113,770 |
| | **Cwmpas 2** | Trydan | £432,980 | £501,465 | £458,675 | £330,763 | £301,645 |
| | **Cwmpas 3** | Teithio Busnes | £987,034 | £820,896 | £627,606 | £713,021 | £705,867 |
| | | – Hedfan | £454,839 | £330,286 | £194,477 | £239,722 | £280,526 |
| | | – Trên/bws/tiwb | £282,483 | £258,160 | £233,081 | £297,685 | £276,531 |
| | | – Car/Beic Modur/Beic | £77,176 | £126,424 | £150,046 | £129,466 | £104,276 |
| | | – Tacsis | £172,536 | £106,026 | £50,002 | £46,148 | £44,534 |

**Cwmpas 1 –** Mae hyn yn berthnasol i ddefnyddio nwy ac olew yn uniongyrchol, a defnydd tanwydd yng ngheir fflyd Ofcom.

Mae'r data am ddefnyddio nwy ar draws yr holl flynyddoedd yn berthnasol i brif swyddfa Ofcom yn Llundain, Belfast, Birmingham, Haydock a Livingston. Ar gyfer 2008/9, 2009/10 a 2010/11 mae hwn hefyd yn cynnwys data costau a defnydd ar gyfer y swyddfeydd ym Mryste, Caterham a Peterborough os yw ar gael. Mae'r defnydd o nwy yn dibynnu ar amodau'r tywydd.

Mae'r data am ddefnyddio olew yn berthnasol i swyddfa Ofcom yn Baldock yn unig.

Bydd Ofcom yn talu am danwydd diesel ar gyfer ei geir fflyd drwy ddefnyddio cardiau tanwydd, a chaiff y defnydd ei gofnodi a'i fonitro bob mis. Mae defnydd tanwydd ein ceir fflyd yn dibynnu i raddau helaeth ar y galw am ein gwasanaethau gorfodi. Nid oedd data am danwydd ar gael ar gyfer y flwyddyn ariannol 2009/10, felly rydym wedi tybio bod defnydd tanwydd yr un faint ag ar gyfer y flwyddyn ariannol 2008/09. Mae defnydd tanwydd ar gyfer 2012/13 yn cynnwys tanwydd a ddefnyddiwyd ar gyfer darparu gwasanaethau sbectrwm ar gyfer Gemau Olympaidd a Gemau Paralympaidd Llundain 2012.

**Cwmpas 2 –** Mae hyn yn berthnasol i gyflenwadau trydan i swyddfeydd Ofcom. Mae'r data trydan ar draws yr holl flynyddoedd yn berthnasol i brif swyddfa Ofcom yn Llundain, Baldock, Belfast, Birmingham, Bryste, Caerdydd, Glasgow, Haydock, Livingston a rhai safleoedd Monitro a Chanfod Cyfeiriad o Bell ledled y DU. Ar gyfer 2008/9 mae hwn hefyd yn cynnwys data costau a defnydd o swyddfeydd yn Caterham, Leeds, Nottingham, Peterborough a Wyndham House lle mae ar gael. Ar gyfer 2009/10, 2010/11 a 2011/12 roedd hefyd yn cynnwys defnydd trydan swyddfa yn Caterham. Ar gyfer 2010/11 ymlaen mae hefyd yn cynnwys y defnydd o'n swyddfa Project Park yn Llundain. Mae'r defnydd o drydan yn dibynnu ar amodau'r tywydd.

**Cwmpas 3 -** Mae data ariannol teithio busnes wedi dod o'n system cofnodi SAP ac mae'n cynnwys teithio gan bob cydweithiwr ni waeth ble maent wedi'u lleoli. Rydym wedi trosi data ariannol teithio mewn tacsis ac ar drenau i bellteroedd drwy ddefnyddio canllawiau o Safon yr Ymddiriedolaeth Garbon, a data ariannol teithio mewn ceir i bellteroedd drwy ddefnyddio data o hawliadau treuliau ar gyfer milltiroedd a deithir. Mae'r data am hedfan wedi dod yn uniongyrchol gan ein darparwr teithio busnes, ac wedi'i gategoreiddio i deithiau domestig, byr a hir yn unol â chanllawiau pellter hedfan Defra.

## Lleihau a rheoli gwastraff

Mae'r data am ddefnyddio gwastraff ar gyfer yr holl flynyddoedd yn berthnasol i brif swyddfa Ofcom, ac ar gyfer 2010/11 ymlaen mae'n cynnwys data o'n swyddfa Project Park yn Llundain hefyd. Nid oes data cywir am ddefnydd gwastraff ar gael ar gyfer swyddfeydd eraill Ofcom, ond mae'r costau sy'n gysylltiedig â chael gwared â gwastraff wedi'u cynnwys. Bydd Ofcom yn talu ffi rheoli gwastraff gyffredinol nad oes modd ei rhannu yn ôl y categorïau gwastraff unigol. Mae Ofcom yn gweithredu ar sail 'dim gwastraff i safleoedd tirlenwi', ac mae'r holl wastraff yn cael ei ailgylchu neu ei losgi gan adfer ynni. Rydym wedi cynnwys data gwastraff TGCh ar gyfer blwyddyn ariannol 2011/12 gan nad oedd y rhain ar gael adeg adroddiad 2011/12.

## Defnyddio adnoddau cyfyngedig

Mae'r data dŵr ar draws yr holl flynyddoedd yn berthnasol i brif swyddfa Ofcom yn Llundain, Baldock, Birmingham, Bryste a Haydock. Ar gyfer 2008/9, 2009/10 a 2010/11 mae hefyd yn cynnwys data defnydd ar gyfer swyddfeydd Caterham, Nottingham, Peterborough a Leeds, os yw ar gael. Ar gyfer 2010/11 ymlaen mae hefyd yn cynnwys y defnydd o'n swyddfa Project Park yn Llundain. Caiff costau dŵr ar gyfer y swyddfeydd eraill eu cynnwys yn y ffi gwasanaeth ac felly nid oes modd dadansoddi hynny. Caiff defnyddio dŵr ei gyfyngu i ddefnydd gweithredol, gan gynnwys y cyfleuster arlwyo ym mhencadlys Ofcom yn Llundain.

| Lleihau a rheoli gwastraff | | 2008/9 | 2009/10 | 2010/11 | 2011/12 | 2012/13 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Dangosyddion Anariannol (tunelli)** | Cyfanswm gwastraff | 100 | 156 | 150 | 159 | 166 |
| | Gwastraff wedi'i anfon i safle tirlenwi | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| | Gwastraff TGCh wedi'i ailgylchu/ailddefnyddio | 0 | 0 | 0 | 8 | 2 |
| | Gwastraff wedi'i ailgylchu/ailddefnyddio | 80 | 92 | 83 | 89 | 91 |
| | Gwastraff wedi'i gompostio | 4 | 10 | 10 | 9 | 13 |
| | Gwastraff wedi'i losgi gan adfer ynni | 16 | 54 | 57 | 53 | 60 |
| | Gwastraff wedi'i losgi heb adfer ynni | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| | Cyfanswm gwastraff fesul FTE | 0.117 | 0.180 | 0.209 | 0.204 | 0.213 |
| **Dangosyddion Ariannol** | Cyfanswm gwastraff | £63,828 | £56,181 | £62,256 | £53,345 | £46,068 |

| Defnyddio adnoddau cyfyngedig | | 2008/9 | 2009/10 | 2010/11 | 2011/12 | 2012/13 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Dangosyddion Anariannol (m3)** | Defnydd dŵr | 9,263 | 9,915 | 10,495 | 7,715 | 9,454 |
| | Defnydd dŵr fesul FTE | 10.83 | 11.40 | 14.61 | 9.91 | 12.12 |
| **Dangosyddion Ariannol** | Dŵr | £28,065 | £21,505 | £18,573 | £22,771 | £26,610 |

Nodiadau

1 Mae'r tablau uchod wedi cael eu paratoi yn unol â'r canllawiau a bennir gan y Trysorlys yn 'Adroddiadau Blynyddol y Sector Cyhoeddus: Adrodd ar Gynaliadwyedd' a gyhoeddwyd http://www.hm-treasury.gov.uk/frem_sustainability.htm.

2 Mae'r holl wybodaeth yn cydymffurfio â blwyddyn ariannol arferol y sector cyhoeddus sef 1 Ebrill i 31 Mawrth.

3 Mae ffactorau trosi Defra wedi cael eu defnyddio i gyfrifo ffigurau allyriadau carbon.

4. Ni chaiff allyriadau eu cywiro yn ôl y tywydd.

5. Dim ond mewn adeiladau lle cawn filiau uniongyrchol a phan rydym yn gyfrifol am eu talu byddwn yn adrodd ar ddefnyddio ynni a dŵr.

6. Dim ond yn yr adeiladau lle cawn ddata gan gwmni rheoli gwastraff byddwn yn adrodd ar ein defnydd gwastraff.

7. Pan nad oedd biliau cyfleustodau wedi cyrraedd eto, roedd y defnydd wedi cael ei amcangyfrifo ar sail data'r blynyddoedd blaenorol.

8. Mae rhai ffigurau blwyddyn-flaenorol wedi cael eu hailddatgan yn 2012/13 oherwydd bod data newydd ar gael erbyn hyn ac oherwydd gwallau wrth gyfrifo neu hepgoriadau.

9. Cafodd CO2e tanwydd fflyd a theithio busnes eu datgan mewn cilogramau yn adroddiad cynaliadwyedd 2011/12. Mae'r ffigurau hyn wedi cael eu hailddatgan mewn tunelli yn adroddiad cynaliadwyedd 2012/13.

# Geirfa

**2G** Systemau ffonau symudol ail genhedlaeth. Mae'n defnyddio system darlledu digidol ar gyfer cyfathrebu llais, trosglwyddo data'n araf, a gwasanaethau negeseua byr.

**3G** Systemau symudol trydedd genhedlaeth. Mae'n trosglwyddo data'n gyflym ac yn cefnogi rhaglenni amlgyfrwng megis fideo symud llawn, cynadledda fideo a chysylltu â'r rhyngrwyd, ochr yn ochr â gwasanaethau llais confensiynol.

**4G** Technoleg ffonau symudol y bedwaredd genhedlaeth. Mae cyflymderau lawrlwytho a throsglwyddo data yn gynt na thrwy'r rhwydweithiau 3G.

**Amlblecs** Mae gwasanaethau teledu daearol digidol yn cael eu trawsyrru gan ddefnyddio strwythur 'amlblecs' gyda phob amlblecs yn cynnwys nifer o wasanaethau teledu cydredol, yn ogystal â gorsafoedd radio a gwasanaethau testun. Cyfunir y gwasanaethau hyn yn ddigidol yn un signal i ffurfio'r amlblecs a drawsyrrir.

**Band cul** Galwadau ffôn llais llinell sefydlog a'r gwasanaethau cyfanwerthol sy'n eu gwneud yn bosibl.

**Band eang cyflym iawn** Gwasanaethau band eang sy'n darparu cyflymderau o fwy na 30Mbit/s.

**Band Eang symudol** Gwahanol fathau o fynediad rhyngrwyd cyflym di-wifr drwy fodem cludadwy, ffôn neu ddyfais arall.

**Cyfraddau did** Y gyfradd a ddefnyddir mewn perthynas â chludo gwybodaeth ddigidol o fewn sianel gyfathrebu benodol. Fel rheol caiff cyflymder band eang ei fesur mewn Mbit yr eiliad.

**Cystadleuaeth o'r-dechrau-i'r-diwedd** Mae hyn yn disgrifio'r broses lle mae gweithredwyr post masnachol yn casglu, prosesu a danfon y post yn uniongyrchol i'r derbynnydd heb fod angen defnyddio rhwydwaith y Post Brenhinol o gwbl.

**Dadfwndelwyd** Cyfnewidfa leol sydd wedi bod yn destun dadfwndelu dolen leol (LLU).

**Darparwr gwasanaeth** Darparwr gwasanaethau cyfathrebu electronig i drydydd partïon, p'un ai dros ei rwydwaith ei hun neu dros un arall.

**DCMS** Yr Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon.

**Dolen leol** Y cysylltiad rhwydwaith mynediad rhwng eiddo'r cwsmer a'r gyfnewidfa PSTN leol, fel arfer dolen sy'n cynnwys dwy wifren gopr.

**DTT** Teledu daearol digidol. Y dechnoleg teledu sy'n cludo'r gwasanaeth Freeview.

**Fideo ar alwad (VoD)** Gwasanaeth neu dechnoleg sy'n galluogi gwylwyr teledu i wylio rhaglenni neu ffilmiau bryd bynnag y byddant yn dewis gwneud hynny, heb fod wedi'u cyfyngu gan amserlen linol.

**Galwad mud** Galwad ffôn a dderbynnir lle nad oes neb ar ochr arall y lein.

**IPTV** (Teledu protocol rhyngrwyd) Gwasanaethau teledu a gyflwynir drwy'r rhyngrwyd yn hytrach na thrwy ddulliau traddodiadol, megis daearol, lloeren neu gebl.

**ISP** Darparwr gwasanaeth rhyngrwyd. Cwmni sy'n darparu mynediad at y rhyngrwyd.

**Llinell ar brydles** Cyfleuster trawsyrru sy'n cael ei lesio gan ddefnyddiwr oddi wrth gludydd cyhoeddus, ac sy'n benodol ar gyfer traffig y defnyddiwr hwnnw.

**LLU** (dadfwndelu dolenni lleol) Proses yw LLU lle bydd y gweithredwyr presennol (sef yn y DU, BT a Kingston Communications) yn darparu eu rhwydwaith lleol (y llinellau sy'n rhedeg o eiddo'r cwsmer i'r gyfnewidfa ffôn) ar gyfer darparwyr gwasanaethau cyfathrebu eraill. Mae'r broses yn golygu bod yn rhaid i'r cystadleuwr ddarparu ei offer ei hun yng nghyfnewidfa leol BT/Kingston a sefydlu cysylltiad am-yn-ôl rhwng yr offer hwn a'i rwydwaith craidd.

**LTE - Esblygiad tymor hir** Mae safonau LTE yn defnyddio sbectrwm radio'n effeithiol, ac felly maent yn ddelfrydol ar gyfer gwasanaethau data lled band uchel, megis ffrydio fideo, e-bost, gwasanaethau GPS a mapio a safleoedd rhwydweithiau cymdeithasol.

**Newid i'r digidol** Y broses o newid y system darlledu teledu neu radio analog i'r digidol.

**Niwtraliaeth y rhyngrwyd** Yr egwyddor y dylid trin pob traffig ar y rhyngrwyd yn gyfartal, ni waeth beth yw'r cynnwys, y safle na'r llwyfan.

**Radio cymunedol** Mae'n cyfeirio at orsafoedd radio sydd fel rheol yn gwasanaethu ardal ddaearyddol fach gyda radiws darpariaeth o hyd at 5km ac sy'n rhedeg ar sail ddi-elw.

**Rhwydweithiau craidd y genhedlaeth nesaf (NGN)** Rhwydweithiau craidd sy'n seiliedig ar brotocol rhyngrwyd sy'n gallu cynnal amrywiaeth o wasanaethau sydd eisoes yn bodoli a rhai newydd, fel rheol gan ddisodli hen rwydweithiau lluosog a oedd yn gallu delio ag un gwasanaeth.

**Rhwydweithiau mynediad y genhedlaeth nesaf (NGA)** Rhwydweithiau mynediad newydd neu wedi'u huwchraddio a fydd yn arwain at welliannau sylweddol i gyflymder band eang ac ansawdd gwasanaeth o'i gymharu â gwasanaethau heddiw. Gall hyn fod yn seiliedig ar nifer o dechnolegau gan gynnwys cebl, di-wifr sefydlog a symudol. Gan amlaf caiff ei ddefnyddio i gyfeirio at rwydweithiau sy'n defnyddio technoleg ffibr optig.

**Slamio** Pan fydd defnyddiwr yn cael ei symud i gyflenwr gwasanaethau cyfathrebiadau gwahanol heb iddo roi caniatâd.

**Technoleg bylchau gwyn** Mae'r dechnoleg hon yn defnyddio bylchau mewn sbectrwm radio, a elwir yn 'fylchau gwyn', sy'n bodoli rhwng bandiau amledd. Bydd defnyddio'r bylchau gwyn yn gadael i ddyfeisiau anfon a derbyn signalau di-wifr ar gyfer cymwysiadau sy'n wahanol i'r rheini y neilltuir y band ar eu cyfer yn bennaf ac mae'n ffordd o ddiwallu'r galw cynyddol am sbectrwm yn y DU.

**Trosglwyddo testun** Gwasanaeth sy'n galluogi pobl sydd â nam ar eu clyw a'u leferydd i gyfathrebu â phobl eraill drwy ddefnyddio offer ffôn neu ffôn testun.

**Ofcom**
Y Swyddfa Gyfathrebiadau
Riverside House
2a Southwark Bridge Road
Llundain SE1 9HA
**www.ofcom.org.uk**

Switsfwrdd:
**+44 (0)300 123 3000** neu
**+44 (0)20 7981 3000**

Ffacs:
**+44 (0)20 7981 3333**

Ffôn testun:
**+44 (0)20 7981 3043**

Tîm Cyswllt Cwsmeriaid Ofcom:
**+44 (0)300 123 3333** neu
**+44 (0)20 7981 3040**

**Yr Alban:**
39 St Vincent Place
Glasgow G1 2ER

Ffôn: **0141 229 7400**
Ffacs: **0141 229 7433**

**Cymru:**
2 Pentir Caspian
Ffordd Caspian
Caerdydd CF10 4DQ

Ffôn: **029 2046 7200**
Ffacs: **029 2046 7233**

**Gogledd Iwerddon:**
Landmark House
5 Cromac Quay, The Gasworks
Ormeau Road, Belfast BT7 2JD

Ffôn: **028 9041 7500**
Ffacs: **028 9041 7533**

MIX
Board from responsible sources
FSC® C020438
www.fsc.org

ISBN 978-0-10-298437-8

9 780102 984378

OF 532 (Gorffennaf 2013)